



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

2018/2019



Mae'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn rhan o adroddiadau cyhoeddus blynyddol y Bwrdd Iechyd ac mae'n disgrifio ein darpariaeth gwasanaeth, perfformiad ariannol ac amgylcheddol am y flwyddyn ac yn disgrifio ein trefniadau rheoli a llywodraethu.

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, sydd yn cael ei ddarparu fel Atodiad i'r ddogfen hon, yn ffurfio rhan o adran Adroddiad Atebolrwydd yr Adroddiad Blynyddol hwn, ac yn darparu adroddiad manwl ar ein llywodraethu, trefniadau rheoli risg a systemau rheolaeth fewnol.

Mae'r Datganiad Ansawdd Blynyddol, sydd wedi ei gyhoeddi ar wahân, yn rhoi gwybodaeth am ansawdd y gofal ar draws ein gwasanaethau ac yn darlunio'r gwelliannau a'r datblygiadau rydym wedi eu cymryd dros y flwyddyn ddiwethaf er mwyn parhau i wella ansawdd y gofal rydym yn ei ddarparu.

Gallwch lawr lwytho copïau o'r holl ddogfennau hyn oddi ar wefan y Bwrdd Iechyd ar www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/tudalen/40900 neu maent ar gael ar gais i Dîm Cyfathrebu'r Bwrdd Iechyd yn BIPBC, Bloc 5, Cwrt Carlton, Parc Busnes Llanelwy, Llanelwy, LL17 0JG, ar y ffôn ar 01248 384776 neu drwy e-bost at bcuhbpressdesk@wales.nhs.uk.

Rhagair y Cadeirydd.....	6
--------------------------	---

PA RHAN UN - ADRODDIAD PERFFORMIAD

Trosolwg	8
Datganiad y Prif Weithredwr	8
Ein diben a gweithgareddau.....	10
Cynllunio fframwaith.....	12
Prif faterion a risgiau sy'n effeithio ar gyflawni amcanion.....	13
Dadansoddiad Perfformiad.....	14
Crynodeb	14
Aros yn iach	15
<i>Imiwneiddio</i>	<i>15</i>
<i>Rhoi'r gorau i ysmegu</i>	<i>16</i>
Gofal diogel.....	17
<i>Atal Haint</i>	<i>18</i>
<i>Rhagnodi gwrthficrobaidd</i>	<i>18</i>
<i>Digwyddiadau difrifol i'w hadrodd i Lywodraeth Cymru</i>	<i>19</i>
<i>Digwyddiadau na ddylent byth ddigwydd.....</i>	<i>19</i>
Gofal gydag urddas.....	20
<i>Triniaethau a ohiriwyd fwy nag unwaith.....</i>	<i>20</i>
<i>Gofalu am bobl sydd â dementia</i>	<i>21</i>
Gofal effeithiol.....	22
<i>Oedi wrth drosglwyddo gofal</i>	<i>23</i>
<i>Marwoldeb</i>	<i>23</i>
Gofal prydlon.....	24
<i>Cyfeirio at Driniaeth</i>	<i>25</i>
<i>Adran Achosion Brys</i>	<i>26</i>
<i>Diagnosteg.....</i>	<i>27</i>
<i>Cance Rhoi diagnosis a thrin canser</i>	<i>28</i>
<i>Gofal strôc.....</i>	<i>28</i>
<i>Ymyriadau ac Asesiadau Iechyd Meddwl</i>	<i>30</i>
Gofal unigol.....	32
<i>Cynlluniau Triniaeth Gofal (CTP).....</i>	<i>32</i>
Staff ac adnoddau	33
<i>Ein cynhyrchiant.....</i>	<i>33</i>
<i>Cleifion nad ydynt yn mynychu eu hapwyntiadau (DNAs).....</i>	<i>34</i>
<i>Ein staff</i>	<i>34</i>
<i>Ein gweithgarwch.....</i>	<i>36</i>
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).....	37
Adroddiad Cynladwyedd	41
<i>Gwaith mewn Partneriaeth</i>	<i>42</i>
<i>ISO14001:2015 System Rheoli Amgylcheddol.....</i>	<i>42</i>
<i>Hyfforddiant Amgylcheddol a Gwastraff</i>	<i>43</i>
<i>Rhaglen Amcanion Amgylcheddol Corfforaethol.....</i>	<i>43</i>
<i>Rheoli gwastraff</i>	<i>45</i>
<i>Ynni a rheoli carbon</i>	<i>46</i>
<i>Cludiant.....</i>	<i>48</i>
<i>Caffael cynladwy.....</i>	<i>48</i>
<i>Adeiladu cynladwy</i>	<i>49</i>
<i>Bioamrywiaeth ac amgylchedd naturiol</i>	<i>50</i>
<i>Crynodeb perfformiad - defnydd a gwastraff o ran adnoddau gwasanaeth</i>	<i>51</i>
Tueddiadau Gwariant Tymor Hir	56
Datganiad Ansawdd Blynyddol.....	56

RHAN DAU - ADRODDIAD ATEBOLRWYDD

Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol	57
Adroddiad y Cyfarwyddwyr	57
<i>Y Bwrdd</i>	57
<i>Pwyllgor Archwilio</i>	57
<i>Datganiadau o fuddiant y cyfarwyddwyr</i>	58
<i>Diogelwch data</i>	60
<i>Cydymffurfio â gofynion dyrannu costau</i>	60
Datganiad ar gyfrifoldebau'r Prif Weithredwr fel Swyddog Atebol y BILI	61
Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr o ran y cyfrifon	62
Datganiad Llywodraethu Blynyddol	62
Adroddiad Tâl	63
<i>Polisiâu ar gyfer tâl staff ac uwch reolwyr</i>	63
<i>Y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth</i>	63
<i>Perthnasau tâl</i>	64
<i>Pecynnau ymadael a thaliadau diswyddo</i>	64
<i>g uwch reolwyr a datganiadau pensiwn</i>	65
Adroddiad Staff	80
<i>Cydraddoldeb a hawliau dynol</i>	81
<i>Ymgysylltiadau ac ymgynghoriaethau heb fod ar y gyflogres</i>	82
Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru	83
Tystysgrif yr Archwilydd Cyffredinol I Gynulliad Cenedlaethol Cymru	84
Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru	87

RHAN TRI - CYFRIFON BLYNYDDOL

Rhagair	1A
Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr	2A
Gwariant Net Cynhwysfawr Eraill	2A
Datganiad o Safle Ariannol	3A
Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr	4A
Datganiad o Lifau Arian	6A
Nodiadau i'r Cyfrifon	8A

YCHWANEGIAD - Datganiad Llywodraethu Blynyddol

1 Cyflwyniad	1B
2 Ystod y Cyfrifoldebau	2B
3 Gwybodaeth Gefndir	2B
4 Mesurau Arbennig	3B
5 Tawel Fan	6B
6 Sefyllfa Ariannol	7B
7 Cynllun Integredig Tymor Canolig - Cynllun Gweithredol Tair Blynedd	7B
8 Parodrwydd am Argyfwng	8B
9 Gweithio mewn Partneriaeth	9B
10 Rôl y Bwrdd	10B
11 Cyfansoddiad y Bwrdd	11B
12 Effeithiolrwydd a Safonau'r Bwrdd	11B
13 Datblygiad y Bwrdd	12B

14 Trefniadau Bwrdd a Phwyllgorau.....	12B
Y Pwyllgor Archwilio.....	17B
Pwyllgor Cronfeydd Elusennol.....	18B
Pwyllgor Deddf Iechyd Meddwl.....	18B
Y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad.....	19B
Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad.....	20B
Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth.....	20B
Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Thelerau Gwasanaeth.....	21B
Y Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth a Gwybodeg.....	21B
Grwpiau Cynghori.....	22B
Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid.....	22B
Fforwm Partneriaeth Leol.....	23B
Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd.....	23B
Cyd-bwyllgorau.....	24B
15 Pwrpas y System o Reolaeth Fewnol.....	24B
16 Y gallu i ymdrin â risg.....	25B
17 Fframwaith Risg a Sicrwydd Corfforaethol.....	26B
18 Prif Risgiau.....	27B
19 Risgiau Allweddol.....	28B
20 Y Fframwaith Rheoli.....	28B
21 Rheolau Sefydlog.....	29B
22 Archwiliad Allanol.....	30B
23 Cod Llywodraethu Corfforaethol.....	31B
24 Trefniadau Ansawdd a Llywodraethu.....	31B
25 Ymgysylltu â Rhanddeiliaid.....	32B
26 Safonau Iechyd a Gofal I Cymru: Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd.....	34B
27 Y Safonau Iechyd a Gofal: Fframwaith Diwygiedig.....	35B
28 Strategaeth Gwella Ansawdd.....	35B
29 Elfennau Fframwaith Rheoli Eraill.....	36B
Amrywiaeth, Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.....	36B
Cynllun Pensiwn.....	37B
Gwirio Ar Ôl Gwneud Taliadau.....	37B
Cynlluniau Lleihau Carbon.....	38B
System Reoli Amgylcheddol ISO14001 BIPBC.....	38B
Rheoli Gwastraff.....	39B
Gwasanaeth Atal Twyll Lleol.....	40B
Cylchlythyrau Iechyd Cymru a Chyfarwyddiadau Gweinidogol.....	41B
30 Data.....	41B
Diogelwch Data.....	41B
Ansawdd Data.....	43B
31 Adolygu Effeithiolrwydd.....	44B
32 Archwilio Mewnol.....	45B
Y Sail ar gyfer Ffurio'r Farn.....	46B
Llywodraethu Corfforaethol, Rheoli Risg a Chydymffurfiad Rheoleiddiol.....	47B
Cynllunio Strategol, Rheoli Perfformiad ac Adrodd.....	48B
Rheolaeth a Rheolaeth Ariannol.....	48B
Ansawdd a Diogelwch.....	48B
Llywodraethu Gwybodaeth a Diogelwch.....	49B
Gwasanaeth Gweithredol a Rheolaeth Swyddogaethol.....	49B
Rheoli Gweithlu.....	49B
Rheolaeth Cyfalaf a Stadau.....	50B
33 Arolwg allanol.....	50B
34 Casgliad.....	51B
Aelodaeth y Bwrdd a'r Pwyllgorau 2018/19.....	53B
Presenoldeb aelodau Bwrdd Iechyd BIPBC mewn	
Cyfarfodydd Bwrdd a gynhaliwyd yn gyhoeddus 2018/19.....	61B
Cofnodion y Bwrdd Iechyd a'r Pwyllgorau a gynhaliwyd yn gyhoeddus 2018/19.....	63B



Rwyf yn falch o'ch croesawu i Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2018/19.

Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio rhai o'r gwelliannau a'r cynnydd a gyflawnwyd gan y Bwrdd yn ystod 2018/19. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi bod yn ddigon i fynd i'r afael â'r heriau rydym yn eu hwynebu, ac er mwyn cael y sefydliad i ble y byddem i gyd yn hoffi iddo fod.

Rydym angen gwneud yn well, yn enwedig o ran arweinyddiaeth a chyfeiriad, rhai agweddau allweddol o berfformiad, a rheoli ein cyllideb.

O ran y cyntaf, yn dilyn ein gwaith gyda Price Waterhouse Coopers, ac Uned Darparu Cyllid Llywodraeth Cymru, bydd cynllun newydd yn cael ei gwblhau yn fuan. Bydd hwn yn disgrifio ein blaenoriaethau ar gyfer 2019/20 yn glir, yn ogystal ag edrych ymlaen, a bydd yn amlinellu'r camau i'w cymryd i gyflawni'r rhain. Bydd targedau gwella perfformiad ar gyfer gofal wedi ei drefnu a heb ei drefnu yn cael eu cyflwyno i'w trafod a'u cymeradwyo ar yr un pryd.

Ochr yn ochr â'r cynllun, mae gwaith ar y gweill i greu strategaeth gwasanaethau clinigol, fydd yn mynegi yn glir ein gweledigaeth i'r dyfodol o ran cyfluniad a model darparu ar gyfer ein holl wasanaethau allweddol.

Bwriad y Bwrdd yw y bydd ein clinigwyr, a phob adran arall o'n gweithlu yn rhan o ddylunio'r strategaeth hon. Nid oes amheuaeth bod angen newid wrth i ni symud ymlaen, ac rydym eisiau i'r newid hwnnw gael ei greu a'i arwain gan y rhai sy'n darparu'r gwasanaethau dan sylw.

Erbyn amser cyhoeddi'r adroddiad hwn, byddwn wedi dewis ein Cyfarwyddwr Meddygol newydd. Bydd disgwyl i'r unigolyn arwain ein ymgysylltu clinigol fel rydym yn datblygu'r strategaeth gwasanaeth, a blaenoriaeth gynnar iddynt fydd gwelededd ar lawr gwlad, a gyda ein staff rheng flaen.


Gan droi at gyllid, mae newid ar y gweill yma hefyd. Bydd Cyfarwyddwr Cyllid newydd yn cael ei ddewis erbyn canol mis Mehefin, a bydd y penodiad hwn yn dod gyda hyd yn oed fwy o fanylder o ran ein dull o gyflawni arbedion a gwelliannau ariannol.

Mae'r Bwrdd yn cydnabod bod pawb yn dymuno gweithio mewn amodau sy'n ffafriol i fwynhau eu gwaith, ac i ddarparu'r gwasanaethau gorau i gleifion, ac i gael eu cynorthwyo gan dechnoleg sy'n gwneud eu bywydau yn haws, ac sy'n diogelu'r rhai rydym yn gofalu amdanynt.

O ran hyn, mae'r Bwrdd wedi cyrraedd synnwyr clir o ble mae ein blaenoriaethau o ran buddsoddi yn yr adeiladau rydym yn gweithio ynddynt, a'u rhesymoli. Rydym yn gobeithio cyrraedd pendantrwydd tebyg yn fuan o ran technoleg gwybodaeth. Rydym yn credu bod modd lleihau gwariant diangen yn y meysydd hyn, ac felly caniatáu buddsoddi mewn gwelliannau fydd yn ein helpu ni gyd i weithio'n well.

Mae mwy o ymdrechion hefyd o ran penderfynu ar y sgiliau a'r rolau rydym eu hangen o fewn ein gweithle, heddiw ac wrth symud ymlaen, er mwyn llywio ein gweithgareddau recriwtio yn well. Yn ei dro, dylai hyn leihau ein galw ar ddefnyddio staff drwy asiantaethau, gan wella parhad gofal, a'n helpu i fynd i'r afael â'n sefyllfa ariannol.

Er bod fy sylwadau uchod yn canolbwyntio ar ychydig o'r camau gweithredu sydd ar y gweill i wella pethau, byddai'n esgeulus ar fy rhan, ar ran y Bwrdd, i beidio â chydabod rhai o'r meysydd ble mae gwelliannau wedi bod yn amlwg yn barod. Mae'r rhain yn cynnwys y gwaith sy'n digwydd o fewn Clystyrau Meddygon Teulu, rheoli heintiau, gwaith ataliol yn ein cymunedau, a llai o oediadau o ran trosglwyddo o'n gofal i enwi rhai ohonynt. Mae'r Bwrdd yn cydnabod na fyddai'r gwelliannau hyn, a mwy, wedi cael eu cyflawni oni bai am ymroddiad, gwytnwch a phroffesiynoldeb y rhai sy'n gweithio yn y sefydliad, ac rydym yn ddiolchgar iawn iddynt.



Mark Polin OBE QPM
Cadeirydd

Trosolwg

Datganiad y Prif Weithredwr

Mae'r llynedd wedi bod yn gyfnod arall heriol iawn i'r Bwrdd Iechyd. Er ein bod wedi gwneud cynnydd yn ein gwaith i symud y sefydliad ymlaen, gwyddom fod llawer mwy angen ei wneud, ar draws nifer o adrannau, i roi'r Bwrdd Iechyd yn ôl ar sylfaen ddiogel ar gyfer y dyfodol.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau mewn Mesurau Arbennig, er bod y gwelliannau rydym wedi eu gwneud i'n Gwasanaeth Meddygon Teulu y Tu Allan i Oriau yn golygu yn ystod y flwyddyn bod y maes hwn wedi'i dynnu allan o Fesurau Arbennig. Mae hyn yn dilyn cynnydd tebyg gyda'n gwasanaethau mamolaeth yn dod allan o Fesurau Arbennig y llynedd. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi nodi'r gwelliannau sydd wedi cael eu gwneud o ran llywodraethu ansawdd a diogelwch, effeithiolrwydd y Bwrdd a gwasanaethau iechyd meddwl, yn cynnwys y ffordd rydym yn ymateb i'r argymhellion o'r adroddiadau annibynnol a wnaethom eu comisiynu yn dilyn y pryderon a godwyd o ran cyn ward Tawel Fan.



Er hynny, mae gennym lawer i'w wneud o ran ein perfformiad, yn enwedig o ran amseroedd aros, a gyda'n safle ariannol, ac er mwyn cael y Bwrdd Iechyd i sefyllfa ble gallwn roi Cynllun Integredig Tymor Canolig cymeradwy yn ei le.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, fe wnaethom unwaith eto gyflawni arbedion ariannol sylweddol o dros £38 miliwn, ond nid oedd hyn yn ddigonol i fodloni ein targedau ariannol, a dros y tair blynedd ddiwethaf rydym wedi gwario oddeutu £110 miliwn dros ein cyfyngiad referniw adnoddau o £4,322 miliwn (oddeutu 2.5%).

Felly rydym yn torri ein dwy ddyletswydd ariannol i feintioli ein hincwm a'n gwariant dros gyfnod treigl o dair blynedd, ac i gael Cynllun Integredig Tymor Canolig tair blynedd treigl sydd wedi cael ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru.

Yn 2018/19, fe wnaethom dderbyn oddeutu 4,500 yn fwy o gleifion ar gyfer llawfeddygaeth gynlluniedig o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Dechreuodd oddeutu 85% o'n cleifion driniaeth o fewn 26 wythnos o gyfeirio (o'i gymharu â tharged Cymru o 95%), a oedd ychydig yn well na'r flwyddyn flaenorol, er ein bod wedi profi cynnydd bach yn nifer y cleifion a wnaeth aros yn hwy na'r uchafswm targed aros o 36 wythnos.

Daeth 6,400 yn fwy o gleifion i'n Hadrannau Achosion Brys o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Er gwaethaf hyn, roedd cyfran y cleifion a dreuliodd lai na phedair awr yn yr adrannau yn uwch, a nifer y cleifion a oedd yn yr adrannau am fwy na deuddeg awr yn is, na'r flwyddyn flaenorol. Drwy ail hanner y flwyddyn, rydym hefyd wedi bod yn cyflawni lleihad sylweddol, parhaus yn nifer yr ambiwlansys sy'n cael eu cadw y tu allan i'n hadrannau Achosion Brys.

Mae'r ffigyrau hyn yn dangos y galw cynyddol y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei wynebu, a maint yr her i sicrhau bod cleifion yn cael ansawdd gofal y maent ei angen mewn amserlen briodol, wrth fodloni ein targedau ariannol hefyd.

Mae cynllunio yn allweddol i'n galluogi i fodloni'r amcanion lluosog hyn. Rydym wedi rhoi pwyslais cynyddol ar ddatblygu ein rhagolwg tair blynedd a'n cynllun blynyddol ar gyfer 2019/20, gan adeiladu ar gwaith y flwyddyn flaenorol, ac adlewyrchu ar ein gweledigaeth strategol cyffredinol Byw'n Iach, Aros yn Iach, fel rydym yn symud tuag at ddatblygu IMTP sy'n bodloni gofynion Llywodraeth Cymru ynglŷn â chynnaladwyedd a balans ariannol.

Ochr yn ochr ag ystyried ein hamseroedd aros, a'n perfformiad ariannol, ni ddylem golli golwg ar bwysigrwydd ansawdd y gwasanaethau rydym yn eu darparu. Yn wir, mae gan y Bwrdd Iechyd bolisi clir, na fydd yn derbyn risg sy'n cael effaith sylweddol ar ansawdd a diogelwch.

Rwyf felly'n falch iawn o ddweud bod eleni wedi bod yn flwyddyn o welliannau eang mewn nifer o feysydd. Mae ein cyfraddau marwoldeb wedi gostwng, ac rydym wedi gweld gostyngiadau yn ein cyfraddau heintiau sydd wedi dilyn y gwaith gwella penodol drwy ein hymgyrch Gofal Diogel Glân.

Rydym wedi parhau i weithio'n agos gydag asiantaethau partner a dros y flwyddyn ddiwethaf, profodd llai o gleifion oedi o ran trosglwyddo eu gofal o'n hysbytai.

Rydym wedi cwblhau gwaith ailddatblygu anferth Ysbyty Glan Clwyd, ac wedi agor Canolfan Is-ranbarthol Gofal Dwys i'r Newydd-anedig ar gyfer Gogledd Cymru. Rydym wedi dechrau cyflwyno'r system genedlaethol Profi Pwynt Gofal (POCT) ac mae ein Hadran Patholeg Cellog yn parhau i fabwysiadu'r dechnoleg ddiweddaraf- dyma'r unig labordy yng Nghymru i ddefnyddio sganio sleid digidol ar gyfer diagnosis clinigol, ac mae'n gweithio ar welliannau arloesol o ran adroddiadau cyflym ar gyfer diagnosis meinwe.

Rydym wedi buddsoddi mewn ystod o fesurau sydd wedi gwella ein perfformiad amgylcheddol, ac wedi cyflawni'r Wobr Platinwm Safon Iechyd Corfforaethol. Yn ystod y flwyddyn rydym wedi parhau i weithio ar fodloni gofynion deddfwriaeth newydd, megis Rheoliadau Cyffredinol Diogelu Data ac i baratoi ar gyfer datblygiadau'r dyfodol yn cynnwys Safonau'r Gymraeg.

Mae'r holl welliannau hyn yn deillio o waith caled a chydweithio cydweithwyr ar draws y Bwrdd Iechyd, mewn gwasanaethau'r rheng flaen a'n swyddogaethau cefnogi. Hoffwn ddiolch i'n holl staff sydd wedi parhau i ymdrechu i ddarparu'r gofal gorau posibl ar gyfer ein cleifion dros y flwyddyn ddiwethaf.

Mae'r GIG dan bwysau mawr, ac rydw i'n gwerthfawrogi'r pwysau sy'n cael ei roi ar bawb sy'n gweithio i'r Bwrdd Iechyd. Er hynny, rydym yn gwneud gwelliannau, ac er y cydnabyddir bod angen i hyn barhau, yn gyflym, rwy'n hyderus bod gan ein staff yr ymrwymiad, y brwdfrydedd a'r sgiliau i sicrhau bod hyn yn digwydd.



Gary Doherty
Prif Weithredwr

Ein diben a gweithgareddau

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gyfrifol am wella iechyd a lles ar gyfer poblogaeth o oddeutu 678,000 o bobl ar draws chwe sir Gogledd Cymru (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam). Mae hyn yn cynnwys rhwystr salwch yn ogystal â thrin salwch a darparu gwasanaethau gofal iechyd ardderchog.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau cychwynnol, cymuned ac iechyd meddwl yn ogystal ag ysbytai llym. Mae'n gweithredu tri phrif ysbyty (Ysbyty Gwynedd ym Mangor, Ysbyty Glan Clwyd ym Modelwyddan ac Ysbyty Maelor Wrecsam) yn ogystal â rhwydwaith o ysbytai cymuned, canolfannau iechyd, clinigau, unedau iechyd meddwl a lleoliadau timau cymuned. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn cydlynu gwaith 105 o Feddygfeydd a gwasanaethau'r GIG sy'n cael eu darparu gan ddeintyddion, optegwyr a fferyllwyr yng Ngogledd Cymru.

Roedd gan y Bwrdd Iechyd incwm refeniw o £1.54 biliwn ar gyfer 2018/19 a gweithlu o oddeutu 18,000 (15,500 o staff sy'n gweithio ar sail gyfwerth ag amser llawn).

Ein Gweledigaeth

- Byddwn yn gwella iechyd y boblogaeth, gyda phwyslais penodol ar y rhai mwyaf bregus yn ein cymdeithas.
- Byddwn yn gwneud hyn drwy ddatblygu gwasanaeth iechyd integredig, sy'n darparu gofal ardderchog wedi'i roi mewn partneriaeth â sefydliadau sector cyhoeddus, a sefydliadau sector statudol a thrydydd sector eraill.
- Byddwn yn datblygu ein gweithlu fel bod ganddo'r sgiliau cywir a'i fod yn gweithredu mewn diwylliant dysg sy'n gyfoethog mewn ymchwil.

Ein Hamcanion Lles

- Gwella iechyd a lles i bawb a lleihau anghydraddoldebau iechyd;
- Targedu ein hadnoddau ar unigolion sydd â'r anghenion mwyaf a lleihau anghydraddoldebau;
- Cefnogi plant i gael y dechrau gorau mewn bywyd;
- Gweithio mewn partneriaeth i gefnogi pobl - unigolion, teuluoedd, gofalwyr, cymunedau - i gyflawni eu lles eu hunain;
- Gwella diogelwch ac ansawdd bob gwasanaeth;
- Parchu unigolion a'u hurddas;
- Gwrando ar unigolion a dysgu o'u profiadau.

Mae ein diben, gweledigaeth a nodau strategol yn gosod nodau tymor hir y Bwrdd. Rydym wedi defnyddio'r rhain i ddatblygu amcanion penodol ar gyfer gwella iechyd y boblogaeth a gwasanaethau iechyd y byddwn yn eu cynnwys yn ein cynlluniau wrth symud ymlaen. Yn benodol, rydym yn gweithio tuag at wella sut ydym yn gweithio at yr egwyddor datblygiad cynaliadwy yn ein busnes bob dydd, er mwyn bodloni ysbryd a bwriad y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswyddau i'r Bwrdd Iechyd gyda'r cyrff sector cyhoeddus eraill yng Nghymru i gyfrannu tuag at gyflawni saith nod lles cenedlaethol, i ehangu ein rhagolygon ac i feddwl yn hir dymor o ran gwneud hynny.



Tymor Hir

Mae'r Ddeddf yn dynodi pum ffordd o weithio sy'n cefnogi'r egwyddorion datblygiad cynaliadwy sy'n tanategu'r Ddeddf. Fel yn y paragraff uchod, rydym wedi defnyddio'r eiconau 'pum ffordd o weithio' (fel y nodwyd ar dudalen 38 yr adroddiad hwn) i ddynodi enghreifftiau o ble mae'r rhain yn cael eu dangos yn ein gwaith.

2018/19 oedd ail flwyddyn yr ail gyfnod o'n Strategaeth Gwella Ansawdd, sy'n rhedeg o 2017 i 2020, ac sy'n adeiladu ar y gwaith sydd wedi'i wneud dros y tair blynedd ddiwethaf, o 2014 i 2017. Mae'r strategaeth wedi cael ei datblygu drwy ymgysylltu'n estynedig â chleifion, staff a rhanddeiliaid allweddol eraill, ac yn gosod pum nod penodol i'r sefydliad:



Ymglymiad

- I gael dim marwolaethau y gellir eu hosgoi;
- sicrhau bod gwasanaethau yn ddiogel drwy barhau i chwilio am gyfleoedd ble gallai niwed ddigwydd i gleifion a'u lleihau;
- I fod yn effeithiol drwy gyflawni'r lefel uchaf o ddibynadwyedd ar gyfer gofal clinigol;
- I ofalu a darparu'r hyn sydd o fwyaf o bwys, gan weithio mewn partneriaeth â chleifion, gofalywyr a theuluoedd i fodloni eu holl anghenion a gwella eu hiechyd yn weithredol;
- ddarparu gofal arloesol ac integredig yn agosach at y cartref, sy'n cefnogi ac yn gwella iechyd, lles a byw'n annibynnol.

Yn ogystal â gwella iechyd a chyflawni gwasanaethau gofal a chlinigol, mae gan y Bwrdd Iechyd ddyletswydd sector cyhoeddus ehangach i gefnogi polisi cenedlaethol, er enghraifft, o ran materion megis hyrwyddo cydraddoldeb, hawliau dynol, yr amgylchedd, datblygiad cynaliadwy a'r Gymraeg.

I gyflawni ein hamcanion, rydym yn gweithio'n agos gyda sefydliadau partner, megis awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol, i drafod anghydraddoldebau iechyd a mynd i'r afael â nhw, hyrwyddo ymgysylltu â'r gymuned a manteisio ar gyfleoedd i gydweithio. Mae'r cyrff yn cynnwys:



Cydweithio

- Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru;
- Iechyd Cyhoeddus Cymru;
- Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru;
- Awdurdodau Lleol (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam);
- Cyrff GIG cyfagos yng Nghymru a Lloegr;
- Y Cyngorau Gwirfoddol Cymuned;
- Byrddau Gwasanaeth Partneriaeth / Byrddau Arweinyddiaeth Rhanbarthol;
- Grŵp Cydweithredol Gofal Iechyd y Canolbarth.

Fframwaith Cynllunio

Mae Fframwaith Cynllunio GIG Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Byrddau Iechyd Baratoi a chyflwyno Cynlluniau Tymor Canolig Integredig tair blynedd (IMTP) i Lywodraeth Cymru.

Ar gyfer 2018/19, nid oedd y Bwrdd Iechyd yn gallu llunio IMTP cymeradwy a fyddai'n sicrhau cydbwysedd ariannol. Felly gwnaethom weithio'n unol â chynllun tair blynedd amlinellol a Chynllun Gweithredu Blynyddol a bennodd flaenoriaethau a deilliannau clir ar gyfer y flwyddyn. Trwy gydol y flwyddyn, gwnaed cynnydd ar lawer o'r meysydd allweddol a nodwyd ar gyfer gwella yn y cynllun, yn cynnwys:

- Datblygu mentrau pellach i gynorthwyo ffyrdd o fyw iach, gan gynnwys cydweithio "Beth am Symud, Gogledd Cymru" gyda phartneriaid; gwasanaethau rheoli pwysau ychwanegol; gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmegu pellach;
- Cyflawni'r safon Platinwm Iechyd yn y Gwaith, cydnabod ein hymrwymiad i les staff a'r boblogaeth a'n cyfrifoldeb cymdeithasol cyffredinol;
- Cwblhau'r gwaith o ailddatblygu Canolfan Iechyd Corwen, carreg filltir bwysig mewn darparu gofal i'r gymuned leol;
- Cyflwyno mwy o rolau uwch ymarferwyr nyrsio, ffisiotherapi, awdioleg a fferyllfa ym maes gofal cychwynnol;
- Trwy glystyrau gofal cychwynnol ystod, datblygu ystod o wasanaethau arloesol, fel rolau Uwch Ymarferwyr Nyrsio mewn cartrefi gofal, ymarferwyr teuluol a gofal diabetes arbenigol;
- Agor y Ganolfan Is-ranbarthol Gofal Dwys i'r Newydd-anedig newydd yn Ysbyty Glan Clwyd;
- Symud ymlaen gyda datblygu'r ganolfan fasgwlaidd yn Ysbyty Glan Clwyd, gyda gweithredu'n llawn yn digwydd ym mis Ebrill 2019;
- Cwblhau rhaglen ailwampio fawr yn Ysbyty Glan Clwyd, gan ddod â gwelliannau mawr i'r amgylchedd i gleifion a staff.



Atal



Cydweithio

Gwnaeth y Bwrdd Iechyd ddatblygu a chymeradwyo rhagolwg tair blynedd a blaenoriaethau i'w cyflawni trwy gydol 2019/22. Mae hyn yn ymateb i Strategaeth Byw'n Iach, Aros yn Iach, a gafodd ei llywio gan raglen helaeth o ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid.



Ymglymiad

Bydd cynllun gweithredol manwl ar gyfer 2019/20 yn tanategu ein cynllun tair blynedd ac yn sail i fodloni gofynion mesurau arbennig Llywodraeth Cymru.

Mae gwaith yn parhau i lunio IMTP sy'n bodloni gofynion Llywodraeth Cymru yn ymwneud â chynaliadwyedd a chydbwysedd ariannol.

Materion allweddol a risgiau sy'n effeithio ar gyflawni amcanion

Mae gan y Bwrdd Iechyd broffil risg heriol oherwydd yr amrywiaeth o wasanaethau a ddarperir, yn amrywio o wasanaethau cychwynnol a chymunedol hyd at wardiau ysbyty llym yn ogystal â gwasanaethau iechyd meddwl ac uned diogelwch canolog. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn cynnig gwasanaethau gofal iechyd yn HMP Berwyn, Wrecsam, a ddechreuodd dderbyn carcharorion ym mis Chwefror 2017. Yn ogystal â hyn, mae gan y Bwrdd Iechyd ddsbarthiad daearyddol eang, amrywiaeth ddiwylliannol a darpariaeth sylweddol o wasanaethau o Loegr. Hefyd, mae'n gallu ymdrin â brig mewn galw oherwydd bod gogledd Cymru yn gyrchfan gwyliau o ddewis i lawer iawn.

Yn dilyn newidiadau i Bortffolios Cyfarwyddwyr Gweithredol a gweithdy'r Bwrdd ym mis Rhagfyr 2018, mae'r Bwrdd wedi adolygu ei ymagwedd tuag at reoli risg ac mae'r Strategaeth Rheoli Risg yn cael ei diweddarau. Cafodd Grŵp Rheoli Risg newydd, gan gadeiryddiaeth y Prif Weithiwr, ei sefydlu ym mis Ionawr 2019 er mwyn goruchwyllo'r gwaith o roi'r Strategaeth wedi'i diweddarau ar waith.

Mae'r Bwrdd yn parhau i ddefnyddio ymagwedd Fframwaith Risg Gorfforaethol a Sicrwydd Integredig, ac mae'r fformat wedi'i fireinio dros gyfnod o flwyddyn.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi pennu naw prif risg o ran cyflawni ei nodau corfforaethol:

- Methiant i gynnal ansawdd gwasanaethau cleifion
- Methiant i gynnal cynladwyedd ariannol
- Methiant i reoli perfformiad gweithredol
- Methiant i gynnal gweithlu ymgysylltiedig ac effeithiol
- Methiant i ddatblygu cynlluniau strategol cydlynol
- Methiant i gyflawni buddion y partneriaethau strategol
- Methiant i ymgysylltu â chleifion ac ailgysylltu â'r cyhoedd yn ehangach
- Methiant i leihau anghydraddoldeb mewn canlyniadau iechyd
- Methiant i fewnosod arweinyddiaeth effeithiol a threfniadau llywodraethu.

Mae pob maes risg a nodir ar y Fframwaith Risg Gorfforaethol a Sicrwydd (CRAF) yn gysylltiedig ag un o'r prif feysydd risg hyn. Mae manylion y rheoliadau cyfredol a'r gweithrediadau pellach sy'n cael eu cymryd ar gyfer pob risg a nodwyd wedi'u manylu o fewn CRAF y Bwrdd Iechyd ac ar gael yn gyhoeddus ar wefan BIPBC.

Ym mis Ionawr 2019, gwnaeth y Bwrdd gymeradwyo dwysáu risg newydd ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol, yn gysylltiedig â threfniadau ymadael yr UE a'r effaith bosibl ar allu'r Bwrdd Iechyd i gynnal gwasanaethau gofal iechyd diogel ac effeithiol.

Manylir ar y meysydd risg penodol yn ymwneud â Mesurau Arbennig yn adran 19 y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, sydd wedi'i atodi i'r adroddiad hwn.









Crynodeb

Mae ein perfformiad yn cael ei fesur ar draws saith parth neu faes allweddol, sy'n cyd-fynd â Safonau Gofal Iechyd Llywodraeth Cymru a Fframweithiau Cenedlaethol Perfformiad.

Mae'r dangosfwrdd cryno isod yn dangos ein perfformiad ar draws yr ystod o ddangosyddion y mae Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio i fesur pob Bwrdd Iechyd yng Nghymru. Rydym wedi dangos gwelliant cyffredinol mewn perthynas â helpu pobl i aros yn iach ac o ran cynnig gofal urddasol ac unigol. Fodd bynnag, mae ein perfformiad wedi dirywio mewn perthynas â chynnig gofal prydlon ac o'i fesur yn erbyn dangosyddion gofal diogel ac effeithiol.

Bob mis, rydym yn rhoi nodiadau briffio manwl i'n Bwrdd ar ein perfformiad, gan amlinellu'r Camau Allweddol i'w cymryd i fynd i'r afael â pherfformiad gwael, beth yw Canlyniadau'r Camau hynny a'r amserlen o ran pa bryd yr ydym yn disgwyl i berfformiad gyflawni'r targed yn gyson.

Ar gyfer 2018/19, rydym ond wedi cynnwys y Mesurau gorfodol cenedlaethol yn ein hadroddiadau i adlewyrchu blaenoriaethau'r sefydliad ac i wella iechyd, gofal a phrofiad y boblogaeth yng Ngogledd Cymru.

	Perfformiad Gwell	Perfformiad Cyson	Dirywiad mewn Perfformiad	Crynodeb o'r Targed	Targed wedi'i gyflawni
AROS YN IACH - Mae gen i ddigon o wybodaeth a chefnogaeth i reoli fy iechyd corfforol a meddyliol fy hun	2 mesur	0 mesur	1 mesur		
GOFAL DIOGEL - Rwyf wedi fy amddiffyn rhag niwed ac yn fy amddiffyn fy hun rhag niwed	11 mesur	1 mesur	3 mesur		6 mesur
GOFAL EFFEITHIOL - Rwyf yn cael y gofal a chefnogaeth iawn mor lleol â phosibl ac rwyf yn cyfrannu at wneud y gofal hwnnw'n llwyddiant	6 mesur	0 mesur	1 mesur		2 mesur
GOFAL GYDAG URDDAS - Rwyf yn cael fy nhrin â pharch ac urddas ac yn trin eraill yr un fath	1 mesur	0 mesur	2 mesur		
GOFAL PRYDLON - Rwyf yn cael mynediad prydlon at wasanaethau'n seiliedig ar angen clinigol ac yn cael fy nghynnwys mewn penderfyniadau am fy ngofal	11 mesur	1 mesur	11 mesur		5 mesur
GOFAL UNIGOL - Rwyf yn cael fy nhrin fel unigolyn, gyda fy anghenion a chyfrifoldebau fy hun	2 mesur	0 mesur	3 mesur		2 mesur
EIN STAFF AC ADNODDAU - Gallaf ddod o hyd i wybodaeth am sut mae'r GIG yn agored a thryloyw ar y defnydd o adnoddau a gallaf eu defnyddio'n ofalus	8 mesur	0 mesur	3 mesur		3 mesur
CRYNODEB	41 mesur	2 mesur	24 mesur		18 mesur

Aros yn iach

Mae'r maes hwn o'n perfformiad yn sicrhau ein bod yn gweithio mewn partneriaeth gydag eraill i amddiffyn iechyd a lles unigolion a'i wella ac i leihau anghydraddoldebau iechyd.

Rydym eisiau grymuso ein dinasyddion i gymryd cyfrifoldeb dros eu hiechyd a'u lles eu hunain, ac i sicrhau bod gofalmwr unigolion nad ydynt yn gallu rheoli eu hiechyd a'u lles eu hunain yn cael eu cefnogi.

Mae gennym nifer o dargedau yn y maes hwn i wella iechyd y boblogaeth; o sicrhau bod plant yn cael dechrau iach mewn bywyd i sicrhau bod cleifion sydd â chyflyrau cronig gydol oes yn cael eu cefnogi'n dda i fyw yn y gymuned.



Atal

Ein dangosyddion perfformiad		Cyfnod	Gwerth	*	Tuedd**
% o ferched beichiog a roddodd y gorau i ysmegu yn ystod bechiogrwydd (erbyn wythnos 36-38 o'u bechiogrwydd)		2018	10.30%		
% o blant a dderbyniodd:	3 dos o'r brechiad '5 mewn 1'	Chwarter 3 2018/19	96.60%		
	2 dos o'r brechiad MMR erbyn 5 oed	Chwarter 3 2018/19	95.60%		
% o blant 10 niwrnod oed a gafodd fynediad at gydran ymwelydd iechyd 10-14 diwrnod o'r Rhaglen Plant Iach Cymru		Chwarter 3 2018/19	94.40%		
Nifer sydd wedi cael y brechlyn cenedlaethol rhag y fflw:	Dros 65 oed	Mawrth 2019	71.00%		
	Dan 65 oed yn y grwpiau sydd mewn perygl	Mawrth 2019	47.90%		
	Merched beichiog	Mawrth 2019	75.00%		
	Gweithwyr gofal iechyd	Mawrth 2019	51.20%		
% o boblogaeth amcangyfrifedig y BILl sy'n ysmegu a gafodd eu trin gan wasanaethau rhoi'r gorau i ysmegu		Chwarter 3 2018/19	2.60%		
% o ysmygwyr a gafodd eu trin gan wasanaethau rhoi'r gorau i ysmegu sydd wedi'u dilysu am CO yn llwyddiannus		Chwarter 3 2018/19	36.40%		
% o bobl (16+ oed) a gafodd anhawster gwneud apwyntiad cyfleus gyda Meddyg Teulu		2017/18	36.10%		

*Yn y saith tabl perfformiad parth hyn, mae'r cod lliw yn dangos a yw perfformiad wedi gwella (gwyrdd), dirywio (coch) neu aros yr un fath (melyn).

** Mae'r 'linell gwreichionen' yn y golofn ochr dde yn nodi'r tuedd dros gyfnod yr adroddiad. Amodir y cyfnodau adrodd yn y tablau hyn gan Lywodraeth Cymru.

Imiwneiddio

Mae amddiffyn pobl rhag y risg o gael fflw yn brif elfen mewn helpu'r GIG i leihau'r galw am ofal brys dros y gaeaf. Mae nifer y bobl sy'n gymwys i gael eu brechu ac sy'n derbyn brechiadau wedi cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn yn achos y grwpiau sydd o dan 65 oed a throsodd. Mae lefel gynyddol y brechiadau a roddir yn dangos y gwaith caled y mae ein staff wedi'i wneud i hybu'r angen am frechiadau. O ganlyniad, erbyn 31 Mawrth 2019, mae dros 3,500 yn fwy o bobl yng Ngogledd Cymru wedi cael eu brechu o'i gymharu â'r llynedd.

Y targed cenedlaethol yw bod 75% o'r grwpiau cymwys (pobl dros 65 oed a rhai dan 65 oed sydd â mwy o berygl o gael haint) yn cael eu brechu. Gogledd Cymru oedd â'r gyfradd uchaf o frechiadau yng Nghymru, ar 71% ar gyfer y rheiny sydd dros 65 oed a 47% ar gyfer y rheiny o dan 65 oed. Mae hwn yn welliant i'r grŵp sydd dros 65 oed. Fodd bynnag, roedd y nifer cynyddol o bobl o dan 65 oed a oedd yn gymwys i gael eu brechu y llynedd yn golygu bod cyfradd manteisio ar frechiadau wedi gostwng, er bod nifer y bobl yn y grŵp hwn a gafodd eu brechu wedi gostwng. Mae hyn yn dangos bod angen i ni barhau â'n hymdrechion i annog pobl i amddiffyn eu hunain.



Atal

O'i gymharu â'r un pwynt yn yr ymgyrch y llynedd		Cymwys	Wedi'u himiweiddio	% wedi'u brechu
65 oed +	2017-2018	158,825	112,130	70.6%
	2018-2019	160,400	113,867	71.0%
6 mis oed i 64 oed	2017/2018	82,635	42,603	51.6%
	2018-2019	92,915	44,488	47.9%

Enillodd Swyddog Cyfathrebu Ymgyrchoedd y Bwrdd Iechyd Wobr Cyfathrebu Curo'r Ffliw 2019 am ei gwaith i gefnogi'r ymgyrch imiweiddio ym maes gofal cychwynol.

Rhoi'r gorau i ysmegu

St Mae staff yng Ngwasanaethau Rhoi'r Gorau i Ysmegu'r Bwrdd Iechyd wedi trin 2.6% o'r boblogaeth sy'n ysmegu sy'n dangos yr ail berfformiad gorau yng Nghymru, ond cydnabyddir nad yw hyn yn cyflawni'r targed 5%.

O'r rhai a gafodd eu trin gan y gwasanaethau, cafodd 36% eu dilysu fel rhai a oedd wedi rhoi'r gorau i ysmegu. Er bod hwn yn welliant ers y llynedd, mae'n parhau i fod yn is na'r targed 40% ac mae ei wella'n flaenoriaeth ar gyfer y tair blynedd nesaf (2019 hyd at 2022).



Atal

Yn dilyn argymhelliad gan y Bwrdd Cenedlaethol Cyflawni ar Reoli Tybaco ym mis Awst 2018, gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gadarnhau ei gytundeb i uno cyfrifoldeb dros gynnig gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmegu wyneb-yn-wyneb o fewn un rhan o'r system iechyd. Caiff hyn ei gyflawni trwy drosglwyddo gwasanaethau rheng flaen Dim Smygu Cymru i Fyrddau Iechyd erbyn Ebrill 2020.

Yn dilyn ymgyngoriad Llywodraeth Cymru ers mis Hydref 2018, mae gwaith wedi bod ar y gweill i gymeradwyo'r rheoliadau o ran ysmegu ar safleoedd y GIG, sy'n rhan o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2018. Bydd cadarnhau'r Rheoliadau'n derfynol yn pennu'r union ofynion sydd ar y Bwrdd Iechyd ond y disgwyliadau presennol yw:

- Y bydd ein safleoedd ysbyty'n ddi-fwg heb unrhyw ardaloedd ysmegu dynodedig erbyn diwedd haf 2019;
- Bydd gan yr holl safleoedd ysbyty fecanweithiau gorfodi ar waith wedi'u cyflwyno trwy Awdurdodau Lleol erbyn diwedd haf 2019;
- Bydd gan yr holl safleoedd arwyddion sy'n bodloni'r safonau a argymhellir neu sy'n rhagori arnynt erbyn diwedd haf 2019.

Er bod y Bwrdd Iechyd eisoes wedi mabwysiadu polisi di-fwg ar ei safleoedd, rydym yn croesawu rhoi'r ddeddfwriaeth hon ar waith gan y bydd yn ein galluogi i orfodi'r polisi hwn yn hytrach na dibynnu ar gydymffurfiaeth orfodol nad yw hynny wedi digwydd bob amser.

Gofal diogel

Mae'r maes hwn yn mesur diogelwch ein gwasanaethau ac yn cynnwys sut rydym yn lleihau risg a gwneud y mwyaf o ddiogelwch. Mae'n cynnwys meysydd megis atal briwiau pwysedd a niwed i'r meinwe, atal codymau, atal heintiau a'u rheoli, maeth a hydradiad, rheoli meddyginiaethau, diogelu plant ac oedolion sydd mewn risg a chwynion.

Ein dangosyddion perfformiad	Cyfnod	Gwerth	Tuedd
Nifer o dderbyniadau i'r ysbyty gydag unrhyw sôn am hunan niwed bwriadol i blant a phobl ifanc (10-24 oed) fesul 1,000 o'r boblogaeth	2018	3.96	
Marwolaethau cyfrifol fesul 100,000 o'r boblogaeth safonol Ewropeaidd	2017	135.1	
Nifer o thrombosis caffaeledig ysbyty yr oedd modd ei atal	Chwarter 3 2018/19	0	
Cyfanswm yr Eitemau Gwrthfacteraidd fesul 1,000 STAR-PU's	Chwarter 2 2018/19	289.5	
Swm dyddiol cyfartalog o NSAID fesul 1,000 STAR-Plus	Chwarter 2 2018/19	1,368	
Eitemau Fluroquinolone, cephalosporin a co-amoxiclav fel % o gyfanswm yr eitemau a ddosbarthwyd yn y gymuned	Chwarter 2 2018/19	8.60%	
Graddfa gronns o achosion e.Coli fesul 100,000 o'r boblogaeth.	Mawrth 2019	82.44	
Nifer yr achosion o Staphylococcus aureus fesul 100,000 o'r boblogaeth	Mawrth 2019	24.99	
Graddfa cronns o achosion C.Difficile fesul 100,000 o'r boblogaeth	Mawrth 2019	24.56	
% y cleifion mewnol a gafodd y pecyn gofal awr gyntaf 'Sepsis Six' cyn pen awr o sgrinio positif	Mawrth 2019	100%	
% y cleifion Adran Achosion Brys a gafodd y pecyn gofal awr gyntaf 'Sepsis Six' cyn pen awr o sgrinio positif	Mawrth 2019	64.9%	
Nifer y Rhybuddion Datrysiadau Diogelwch Cleifion Cymru na gafodd sicrwydd yn yr amserlenni y cytunwyd arnynt	2018/19	4	
Nifer yr Hysbysiadau Datrysiadau Diogelwch Cleifion Cymru na gafodd sicrwydd yn yr amserlenni y cytunwyd arnynt	2018/19	0	
Nifer y Digwyddiadau Difrifol sydd i fod i gael sicrwydd cyn pen y mis, a'r % a gafodd sicrwydd yn yr amserlenni y cytunwyd arnynt	Mawrth 2019	27.00%	
Nifer y Digwyddiadau na Ddylent Byth Ddigwydd	2018/19	8	
Nifer o wallau gweinyddu, dosbarthu a rhagnodi meddyginiaethau a nodwyd fel Digwyddiadau Difrifol	Hyd 2018 - Maw 2019	7	
Nifer o godymau cleifion a nodwyd fel Digwyddiadau Difrifol	Hyd 2018 - Maw 2019	52	

Atal heintiau

Rydym yn parhau i weithio'n galed ar amddiffyn ein cleifion rhag risg heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd (HCAI). Gwnaeth Rhaglen Flynyddol Atal Heintiau ganolbwyntio ar leihau cyfraddau heintio ar gyfer heintiau allweddol a lleihau niwed oherwydd ymwrthedd gwrthficrobaidd a heintiau y gellid eu hosgoi.

Bu lleihad sylweddol yn achos cleifion sy'n datblygu *Clostridium difficile*, gyda 166 o achosion yn 2018/19, o gymharu â 271 yn 2017/18. Bu lleihad sylweddol mewn achosion o *Staphylococws awrëws* hefyd wrth i gyfanswm nifer o heintiau llif gwaed ostwng o 199 i 171, yr oedd gan 19 o'r rhain yn *Staphylococws awrëws* ag ymwrthedd i Methicillin (MRSA), o gymharu â 40 yn 2017/18.

Mae rhaglen waith newydd ar gyfer 2019/2020 wedi'i drafftio i'w chymeradwyo yn y Grŵp Atal Heintiau Strategol newydd a fydd yn gwneud y canlynol:

- Canolbwyntio ymdrechion ar gynnig adnoddau arbenigol a medrus trwy adfer perchnogaeth ar atal heintiau o ddydd i ddydd;
- Helpu i gydnabod ein hachosion neilltuol a risgiau trawsheintio posibl cyn iddynt godi;
- Cynorthwyo cleifion i aros gartref, rheoli eu triniaeth ac atal derbyn diangen;
- Lleihau rhagnodi gwrthfotig diangen a chymorth cysylltiedig;
- Rhoi offeryn asesu wedi'i seilio ar dystiolaeth ar waith i dynnu cathetrau wrinol;
- Gwella craffu a dysgu o adolygiad gweithredol HCAI penodol.



Atal

Rhagnodi gwrthficrobaidd

Mae tua 75% o heintiau *Clostridium difficile* yn gysylltiedig yn uniongyrchol â defnydd o wrthfotigau, ac rydym yn cynyddu ein hymdrechion i sicrhau bod gwrthfotigau'n cael eu defnyddio dim ond pan fo angen mewn ysbytai a chan feddygon teulu.

Mae defnyddio gwrthfotigau'n gynnil hefyd yn helpu i leihau'r cyflymder feithrin ymwrthedd i driniaethau gwrthficrobaidd ac rydym yn gweithio i leihau nifer y presgripsiynau ar gyfer tri chyffur gwrthficrobaidd: Quinolone, Co-amoxiclav, Clinamycin a Cephalosporin (wedi'u mesur fel cyfradd gyfunol o fis Mawrth 2018). Y gyfradd ragnodi gyfunol oedd 8.60% ar gyfer y Chwarter a oedd yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2018 (y data diweddaraf sydd ar gael).

Dan arweiniad y Fferyllydd Gwrthficrobaidd Ymgynghorol, mae tîm y fferyllydd gwrthficrobaidd yn cynnig cyngor a chymorth mewn practisau meddygon teulu ac ysbytai, gan ymchwilio i batrymau rhagnodi a nodi ymhle y gellir lleihau cyfraddau rhagnodi'n briodol.

Digwyddiadau difrifol i'w hadrodd i Lywodraeth Cymru

Pan fydd digwyddiadau negyddol difrifol yn digwydd, mae'n bwysig ein bod yn ymchwilio iddynt yn drylwyr, ein bod yn dysgu o'r hyn sydd wedi digwydd ac yn rhoi mesurau ar waith i'w hatal rhag digwydd eto a gwella diogelwch cleifion.

Mae gofyn i ni roi gwybod i Lywodraeth Cymru am ddigwyddiadau difrifol a dangos, o fewn amserlen y cytunwyd arni ein bod wedi cymryd mesurau priodol i leihau'r risgiau y bydd digwyddiadau tebyg yn digwydd eto.

Mae hwn yn faes lle nad yw'r Bwrdd Iechyd wedi ymateb mor gyflym ym mhob achos ag y dylai. Mae hwn yn fater y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei gymryd o ddifrif ac mae gwaith yn parhau i wella perfformiad ac i ddysgu o ddigwyddiadau er mwyn sicrhau bod canlyniadau a phrofiadau i'n cleifion yn gwella.

Digwyddiadau na ddylent byth ddigwydd

Mae digwyddiadau na ddylent byth ddigwydd yn ddigwyddiadau negyddol difrifol y dylai ein systemau a phrosesau sicrhau nad ydynt byth yn gallu digwydd ac rydym wedi ymrwymo i gyflawni hyn. Yn anffodus, cafodd wyth o ddigwyddiadau na ddylent byth ddigwydd eu hadrodd yn ystod 2018/19 o gymharu â phump yr adroddwyd yn 2017/18.

Mae'r holl ddigwyddiadau na ddylent byth ddigwydd yn cael eu hadrodd yn uniongyrchol i'n Gweithredwyr Clinigol cyn gynted â phosibl yn dilyn y digwyddiad, ac yn cael eu hymchwilio'n llawn o dan y fframwaith digwyddiadau difrifol. Mae'r broses hon yn cynnwys y claf, y teulu a'r gofalwyr trwy'r cyfan. Mae'r ymchwiliad yn cael ei gadeirio gan Gyfarwyddwr a'i gynnal gan yr Uwch Reolwyr Ymchwilio gyda chefnogaeth gan Uned Gyflenwi Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn sicrhau bod ymchwiliadau cadarn yn cael eu cynnal, bod yr holl wersi perthnasol yn cael eu dysgu a'u rhannu ar draws y sefydliad a bod pob cam angenrheidiol yn cael eu cymryd i atal y digwyddiad rhag digwydd eto.

Gofal gydag urddas

Ein nod yw sicrhau bod pawb yn cael profiad o ofal iechyd lle caiff pawb ei drin gyda pharch, urddas, trugaredd a charedigrwydd ac sy'n cydnabod anghenion corfforol, seicolegol, cymdeithasol, diwylliannol, ieithyddol ac ysbrydol ac yn mynd i'r afael â nhw.

Ein dangosyddion perfformiad	Cyfnod	Gwerth		Tuedd
Y raddfa cyffredinol a roddir gan y cyhoedd (16+ oed) ar gyfer bodddhad cyffredinol yn y gwasanaethau iechyd yng Nghymru	2016/17	6.26		
Nifer y triniaethau a gafodd eu gohirio ar y diwrnod neu'r diwrnod cynt oherwydd rhesymau penodol heb fod yn glinigol	12m Treigl Rhag 2018	2,742		
Cleifion 75+ oed gydag AEC o 3 neu fwy ar gyfer eitemau ar ailbresgripsiwn gweithredol fel % o'r holl gleifion 75+ oed	Chwarter 3 2018/19	7.1%		
% y pryderon a gafodd ateb terfynol (Rh 24) neu ateb dros dro (Rh 26) cyn pen 30 diwrnod o dderbyn y pryder	Chwarter 4 2018/19	33.6%		
% o bobl sydd â dementia, oed >= 65 oed, sydd wedi cael diagnosis	2017/18	49.00%		
% o oedolion (16+ oed) a nododd eu bod yn hynod fodlon neu'n eithaf bodlon gyda'r gofal y maent wedi'i dderbyn gan eu Meddyg Teulu	2017/18	87.90%		
% o oedolion (16+ oed) a nododd eu bod yn hynod fodlon neu'n eithaf bodlon gyda'r gofal y maent wedi'i dderbyn gan ysbyty GIG	2017/18	89.0%		
% o staff cyflogedig sy'n cael cyswllt â'r cyhoedd sydd wedi'u hyfforddi mewn lefel briodol o ofal dementia	Cronnus Ebr-Medi 2018	93.70%		
% o dimau Meddyg Teulu sydd wedi cwblhau DES iechyd meddwl mewn gofal dementia neu hyfforddiant cyfeiriedig arall	2017/18	31.2%		

Triniaethau a ohiriwyd ar fyr rybudd

Rydym yn gweithio'n galed iawn i beidio â gohirio llawfeddygaeth cleifion a'n nod yw nad yw hyn byth yn digwydd, heblaw pan mae'n ofynnol gwneud hynny am resymau clinigol. Fodd bynnag, bydd adegau pan fydd hyn yn digwydd, fel arfer oherwydd yr angen i drin neu dderbyn cleifion sydd angen gofal brys.

Yn 2018/19, gwnaeth y Bwrdd Iechyd dros 50,000 o driniaethau wedi'u trefnu ar sail achosion dydd neu gleifion mewnol. Roedd yn rhaid i ni ohirio 2,451 o driniaethau un ai ar ddiwrnod y llawfeddygaeth, neu'r diwrnod cynt, am resymau nad oeddent yn rhesymau clinigol, a oedd oddeutu 200 yn llai na 2017/18.

Mae'r gwaith a wnaed i leihau gohiriadau triniaeth nad oeddent yn ohiriadau clinigol yn cynnwys adolygu effeithiolrwydd y theatr drwy leihau dechrau'n hwyr yn y theatr, gwella amseroedd delio â chleifion yn y theatr a rheoli rhestr llawdriniaethau yn fwy effeithiol.

Mae'r Grŵp Trawsnewid Llwybr Cleifion Llawfeddygol yn parhau i oruchwylio gostyngiad mewn gohiriadau theatr ar fyr rybudd. Mae gan y tri phrif ysbyty daflwybr gwella y cytunwyd arno ac mae'n cael ei fonitro'n wythnosol, gan gytuno ar gamau gweithredu mewn cyfarfodydd cynllunio theatr leol yn wythnosol, sy'n cael eu cadeirio gan reolwyr y theatr. Mae pob gohiriad nad yw'n ohiriad clinigol yn cael ei ddilysu a'i drafod gyda mewnbwn gan y staff meddygol, nyrsio, theatr a staff gweithredol. Mae triniaethau sydd wedi'u gohirio'n cael eu rhannu i rai y gellir eu hosgoi a rhai na ellir eu hosgoi. Ble dynodir gohiriadau y gellir eu hosgoi, mae camau'n cael eu cymryd i leihau'r risg y bydd yn digwydd eto yn y dyfodol.

Gofalu am bobl sy'n byw â dementia

Ar hyn o bryd mae oddeutu 11,000 o bobl yng Ngogledd Cymru yn byw â dementia; mae disgwyl i'r ffigwr hwn gynyddu i bron i 16,000 erbyn 2031.

Mewn digwyddiad ar y cyd â Chymdeithas Alzheimer's Cymru ym mis Mai 2018, lansiodd y Bwrdd Iechyd ei Strategaeth Dementia. Mae'r Strategaeth yn adlewyrchu'r Cynllun Gweithredu Strategol Dementia ar gyfer Cymru ac wedi cael ei lywio gan sylwadau a phrofiadau ystod eang o randdeiliaid, yn cynnwys pobl sy'n byw â dementia, a'u gofalwyr. Mae'n gosod amcanion clir a fydd yn sicrhau y byddwn yn diogelu ein cleifion, darparu gofal tosturiol, diogel ac effeithiol a gwneud i ofalwyr deimlo eu bod yn cael eu croesawu, eu gwerthfawrogi a'u cefnogi.



Cydweithio

Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid a phobl sydd â phrofiad o iechyd meddwl i gynllunio gwasanaethau modern a'u darparu ac i wneud mwy i gefnogi pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl hir dymor.

Mae mentrau unigol sy'n barod yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion hyn yn cynnwys:

- Datblygu cynllun gofal gweithgaredd ystyrlon ar gyfer ein wardiau gofal yr henoed, gan sicrhau ein bod yn gweithio gyda chleifion, teuluoedd a gofalwyr i gynnig lefel briodol o weithgaredd ystyrlon i gleifion;
- Datblygu pecynnau i helpu cleifion i roi adborth ar eu gofal i staff ac i sicrhau bod staff yn gallu gweithredu ar yr adborth maent yn ei gael;
- Gweithredwyd amseroedd ymweld agored ar draws ein hysbytai i gefnogi hawl teuluoedd a gofalwyr i aros gyda'u hanwyliaid yn yr ysbyty;
- Galluogi Staff yr Adran Achosion Brys i ymgymryd â hyfforddiant arbenigol a ddarperir gan Ganolfan Datblygu Gwasanaethau Dementia Prifysgol Sterling;
- O ganlyniad i lwyddiant yr ystafell hel atgofion yn Ysbyty Llandudno, rydym yn ymestyn hyn i ysbytai cymuned eraill;
- Cynhaliwyd asesiad o'n holl wardiau oedolion i ddynodi gwelliannau i'w gwneud yn wardiau sy'n deall dementia.

Gofal effeithiol

Mae'r dangosyddion hyn yn dangos sut mae ein gofal, ein triniaeth a'n penderfyniadau'n adlewyrchu arfer gorau wedi'i seilio ar dystiolaeth. Maent hefyd yn adlewyrchu sut mae ein gwasanaethau'n cymryd rhan mewn gweithgareddau i wella'n barhaus trwy ddatblygu a gweithredu ffyrdd arloesol o ddarparu gofal. Mae hyn yn cynnwys cefnogi ymchwil a sicrhau ei fod yn gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwasanaethau.

Rydym yn asesu effeithiolrwydd ein gofal gan ddefnyddio nifer o fesurau gan gynnwys dangosyddion cenedlaethol, yn ogystal â dangosyddion mwy lleol. Yn yr adran hon o'r adroddiad, rydym yn delio â marwoldeb, ymchwil a chywirdeb y wybodaeth a ddefnyddiwn er mwyn gwneud penderfyniadau. Yn ogystal, rydym hefyd yn adrodd ar nifer y cleifion nad ydynt wedi gallu symud ymlaen o'r ysbyty unwaith y byddant yn glinigol iach i wneud hynny, sy'n ddangosydd o ba mor effeithiol y mae'r system iechyd a gofal cyffredinol yn gweithio.

Ein dangosyddion perfformiad	Cyfnod	Gwerth		Tuedd
Nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal heb fod yn lechyd Meddwl yn y Bwrdd Iechyd (DToC)	Mawrth 2019	1,068		
Nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal lechyd Meddwl yn y Bwrdd Iechyd (DToC)	Mawrth 2019	178		
Rhaid i'r holl feddyginiaethau newydd fod ar gael ddim hwyrach na 2 fis ar ôl gwerthusiadau NICE ac AWMSG	Chwarter 3 2018/19	99.30%		
% o adolygiadau marwolaeth cyffredinol (IMRs) a wnaed o fewn 28 diwrnod o farwolaeth	Mawrth 2019	94.50%		
% cyfradd marwolaeth craidd (<75 oed)	12m Treigl Rhag 2018	0.73%		
% o gyfnodau codio clinigol o fewn un mis wedi dyddiad gorffen y cyfnod	Rhagfyr 2018	91.70%		
% o godio clinigol a gyrhaeddwyd yn gywir yn rhaglen archwilio cywirdeb codio clinigol cenedlaethol NWIS	2018/19	89.60%		
Nifer o Astudiaethau Portffolio Ymchwil Clinigol Iechyd a Gofal Ymchwil Cymru	Chwarter 3 2018/19	71		
Nifer o astudiaethau a noddwyd yn fasnachol	Chwarter 3 2018/19	10		
Nifer o gleifion a recriwtiwyd i Astudiaethau Portffolio Ymchwil Clinigol Iechyd a Gofal Ymchwil Cymru	Chwarter 3 2018/19	1,247		
Nifer o gleifion a recriwtiwyd i astudiaethau a noddwyd yn fasnachol	Chwarter 3 2018/19	213		

Oedi wrth drosglwyddo gofal

Mae oedi wrth drosglwyddo gofal yn parhau i fod yn broblem sylweddol i'r Bwrdd Iechyd gan ei fod yn cyfrannu at y pwysau cyffredinol ar ein hysbytai llym yn ogystal â'r economi iechyd a gofal cymdeithasol ehangach.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn canolbwyntio ar welliannau drwy waith partneriaeth rhwng partneriaid iechyd a gofal cymdeithasol a phartneriaid y trydydd sector. Rydym yn ymdrechu am welliannau pellach i gefnogi anghenion cleifion yn yr amgylchedd mwyaf cynaliadwy felly'n galluogi gwell mynediad i'r cleifion hynny sydd angen cael eu derbyn i'r ysbyty.


Dros y flwyddyn rydym wedi parhau i gyflawni'r gostyngiad cyson yn nifer y cleifion sy'n cael profiad o oedi wrth ryddhau o fewn ein gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau iechyd meddwl ac o fewn ein gwasanaethau iechyd meddwl.

Rydym wedi craffu a symleiddio'r broses lleoli a rhyddhau yn barhaus ac wedi bod yn gweithio gyda Gofal Iechyd Parhaus a chydweithwyr yr awdurdod lleol i ymdrin ag oediadau a'r bwriad o gyflwyno mwy o welliannau cynaliadwy yn 2019/20.




Cydweithio

Cyfanswm y Cleifion sy'n cael profiad o Oedi



Cyfanswm Nifer y Dyddiau Gwelyau o Oedi



Marwoldeb

Mae'r ffigur Marwoldeb Craidd Cleifion o dan 75 mlwydd oed, yn seiliedig ar nifer y marwolaethau mewn cyfnod penodol wedi'i rannu i'r cyfanswm o dderbyniadau cleifion ar gyfer y cyfnod hwnnw (cleifion o dan 75 mlwydd oed). Ar gyfer y flwyddyn 2017/18 bu i ni nodi cyfradd o 0.84%, tra ar gyfer 2018/19 rydym wedi gweld gostyngiad i 0.74%.

Mae Swyddfa'r Cyfarwyddwr Meddygol yn gweithio gyda'n ysbytai llym, cymuned ac iechyd meddwl i ddefnyddio'r broses adolygu marwolaeth Cymru gyfan i edrych ar y ffordd rydym yn adolygu gofal y cleifion sy'n marw. Maent hefyd yn gweithio gyda 1,000 o Fywydau, ar sail Cymru gyfan, i wella'r adolygiadau ymhellach a gwneud y gwelliannau sydd eu hangen, a ddynodwyd gan yr adolygiadau.

Mae'n rhaid i bob Bwrdd Iechyd gynnal Adolygiad Marwoldeb Cyffredinol cyn pen 28 diwrnod o farwolaeth. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwella perfformiad yn erbyn y mesur hwn o 91.1% yn 2017/18 i 94.5% ym mis Mawrth 2019. Er bod gwelliant, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar hyn er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni'r gyfradd targed o 95% drwy 2019/20 a thu hwnt.

Gofal prydlon


Ein nod yw sicrhau bod pob agwedd ar ofal yn cael ei rhoi'n brydlon gan sicrhau bod pobl yn derbyn triniaeth a gofal yn y ffordd gywir, ar yr adeg gywir, yn y lle cywir a gyda'r staff cywir. Wrth i'r galw am wasanaethau gynyddu, rydym yn wynebu heriau gwirioneddol o ran cynnal lefelau mynediad uchel i'n cleifion.

Ein dangosyddion perfformiad		Cyfnod	Gwerth	Tuedd
% y practisau meddygon teulu sy'n cynnig apwyntiadau rhwng 17:00 a 18:30 bum niwrnod yr wythnos.		Chwarter 3 2018/19	66.00%	
% y practisau meddygon teulu sydd ar agor yn ystod oriau dyddiol craidd neu o fewn awr i'r oriau dyddiol craidd.		Chwarter 3 2018/19	92.50%	
% o alwadau brys i wasanaethau Meddygon Teulu y Tu Allan i Oriau a gafodd eu cofnodi a'r claf yn cael ei asesu o fewn 20 munud o ateb y galwad cychwynol		Mawrth 2019	86.00%	
% o gleifion a flaenoriaethwyd fel brys iawn gan y gwasanaeth Meddygon Teulu y Tu Allan i Oriau a gafodd eu gweld o fewn 60 munud o'u hasesiad clinigol		Mawrth 2019	100.0%	
Cleifion a gafodd eu trin gan ddeintydd GIG yn y 24 mis diwethaf fel % o'r boblogaeth		Ebr 2017 – Maw 2019	49.3%	
% y cleifion sy'n aros llai na 26 wythnos i gael triniaeth (RTT)		Mawrth 2019	84.8%	
Nifer y methiannau 36 wythnos RTT (Yr holl drigolion)		Mawrth 2019	6,004	
Nifer y cleifion sy'n aros dros 8 wythnos am ddiagnosteg benodol		Mawrth 2019	2,278	
Nifer yr apwyntiadau dilynol lle bu oedi ar ôl eu dyddiad targed (wedi'u cadw a heb eu cadw)		Mawrth 2019	87,712	
Wedi'i asesu gan Feddygon Ymgynghorol Strôc (< 24 awr)	Mawrth 2019	March 2019	50.00%	
	Mawrth 2019	March 2019	40.70%	
	Mawrth 2019	March 2019	81.30%	
	Mawrth 2019	March 2019	7.70%	
% yr ymatebion galwadau coch i ambiwlansys o fewn wyth munud.		Mawrth 2019	70.40%	
Nifer y trosglwyddiadau sy'n cymryd dros awr		Mawrth 2019	438	
% y cleifion newydd nad ydynt yn treulio mwy na phedair awr yn yr Adran Achosion Brys		Mawrth 2019	71.90%	
Nifer y cleifion sy'n treulio 12 awr neu fwy yn yr Adran Achosion Brys		Mawrth 2019	1,608	
% y cleifion a gyfeiriwyd fel cancer tybiedig nad yw'n frys ac a gafodd eu gweld o fewn 31 diwrnod		Mawrth 2019	97.00%	
% y cleifion a gyfeiriwyd fel cancer tybiedig brys ac a gafodd eu gweld o fewn 62 diwrnod		Mawrth 2019	88.00%	
% yr oroesiad o fewn 30 diwrnod ar dderbyniad brys ar gyfer torri clun		Ionawr 2019	95.20%	
% yr asesiadau gan y LPMHSS a ddechreuwyd o fewn 28 diwrnod yn dilyn dyddiad y cyfeiriad		Mawrth 2019	75.70%	
% o ymyriadau a ddechreuwyd cyn pen 28 diwrnod yn dilyn asesiad gan LPMHSS		Mawrth 2019	68.00%	

Cyfeirio at Driniaeth


Mae Cyfeirio at Driniaeth (RTT) yn mesur cyfanswm yr amser y bydd claf yn aros ar ôl cael ei gyfeirio gan ei Feddyg Teulu nes dechrau ar ei driniaeth weithredol yn yr ysbyty. Mae hyn yn cynnwys treulio amser yn aros am apwyntiadau cleifion allanol, profion diagnostig, sganiau, gwasanaethau therapi neu dderbyniadau o ran cleifion mewnol neu achosion dydd. Y ddau darged i Gymru yw bod 95% o gleifion yn cael eu trin o fewn 26 wythnos ac na fydd cleifion yn aros dim mwy na 36 wythnos.

Er ein bod wedi trin dros 4,500 yn fwy o gleifion ar gyfer triniaethau a drefnwyd yn 2018/19 o'i gymharu â'r flwyddyn cynt, nid oeddem yn gallu cyflawni'r targedau hyn yn ystod y flwyddyn. Ar ddiwedd mis Mawrth 2019 roedd 84.8% o gleifion yn aros llai na 26 wythnos.



Wrth i ni weithio i wella'r perfformiad hwn, gwnaethom gytuno ar darged dros dro gyda Llywodraeth Cymru y byddem yn lleihau nifer y cleifion sy'n aros mwy na 36 wythnos i 5,714 erbyn diwedd mis Mawrth 2019.

Er cryn fuddsoddiad ac ymrwymiad enfawr gan ein timau clinigol a rheoli, nid oeddem yn gallu cyflawni'r targed y cytunwyd arno, ac ar ddiwedd y flwyddyn roedd 6,004 o gleifion yn aros mwy na 36 wythnos.



Yr arbenigedd gyda'r nifer uchaf o gleifion yn wynebu arhosiad estynedig yw orthopaedeg, ble mae'r galw am driniaethau llawfeddygol yn llawer uwch na'n capasiti i gynnal llawdriniaethau. Mae'r Bwrdd wedi cytuno ar gynllun strategol sy'n cyfuno mesurau iechyd cyhoeddus i ddangos y twf yn y galw ac ehangiad dewisiadau triniaeth nad ydynt yn feddygol fel ffisiotherapi a rheoli poen lle mae hyn yn ddewis mwy priodol i gleifion, ynghyd â dynodi buddsoddiad ychwanegol sydd ei angen i sefydlu'r capasiti llawfeddygol sydd ei angen i gyd-fynd ag anghenion cleifion yng Ngogledd Cymru.




Tymor Hir


Mae staff yn ein Hadrannau Achosion Brys wedi bod yn gweithio'n galed iawn i fodloni'r galwadau sydd arnynt, a achoswyd gan y cynnydd yng nghymhlethdod y cleifion sy'n dod i'r adran a'r pwysau sydd ar y system iechyd a gofal cymdeithasol ehangach sy'n achosi oediadau o ran gallu symud cleifion ar wardiau.

Rydym yn monitro ein sefyllfa yn erbyn y safon amser aros pedair awr yn ddyddiol drwy adroddiad i'r Prif Weithredwr fel ein bod yn gallu rheoli ein perfformiad a'i wella'n rhagweithiol.


Mae cyfran y cleifion sy'n treulio llai na phedair awr yn ein hadrannau achosion brys wedi gwella o 68.4% ym mis Mawrth 2018 i 71.9% ar ddiwedd mis Mawrth 2019.



Mae nifer y cleifion sy'n treulio mwy na deuddeg awr yn ein hadrannau achosion brys hefyd wedi gostwng dros y flwyddyn ddiwethaf i 1,608 o'i gymharu â 2,063 ym mis Mawrth 2018.



Mae nifer y cleifion sy'n cael profiad o oedi wrth drosglwyddo o ambiwlans y tu allan i'n hysbytai wedi gostwng yn sylweddol dros y flwyddyn, o 1,172 ym mis Mawrth 2018 i 438 ym mis Mawrth 2019. Mae'r gwelliant hwn wedi bod yn gyson ac wedi'i gynnal drwy ail hanner 2018/19 a bydd yn parhau i 2019/20, gyda'r nod o geisio sicrhau nad yw oedi o dros awr wrth drosglwyddo o ambiwlans byth yn digwydd.



Drwy 2018/19 rydym wedi parhau i wneud newidiadau i wella ein perfformiad. Er enghraifft:

- gwneud y mwyaf o Wasanaethau Meddyg Teulu y Tu Allan i Oriau ar gyfer cleifion sydd â symptomau sydd angen ymyrraeth gan Feddyg Teulu ac nid o reidrwydd gwasanaethau Adran Achosion Brys;
- Mae nifer y staff meddygol dros nos ac arbenigedd mewn-gymorth datblygedig i'r Adran Achosion Brys wedi gwella sy'n galluogi llif cleifion cynt drwy'r Adran Achosion Brys;
- Mae'r Cyfarfodydd Diogelwch a gyflwynwyd yn ystod 2017/18 wedi'u datblygu gyda mwy o bwyslais ar asesu risg a gwella llif cleifion;
- Yn Ardal y Canol rydym yn treialu cael Meddyg Teulu wedi'i ymgorffori o fewn yr Adran Achosion Brys yn ystod y pwynt brysbennu yn ystod cyfnod galw prysur iawn.
- Rydym wedi agor Uned Gofal Dydd yn Ysbyty Cyffredinol Llandudno, sy'n cael ei staffio gan feddygon ymgynghorol, Meddygon Teulu ac Uwch Nyrs Ymarferydd/Therapyddion, sy'n derbyn cleifion gan Feddygon Teulu a'r Gwasanaeth Ambiwlans a fyddai fel arall wedi mynd i'r Adran Achosion Brys;
- Ym mis Tachwedd 2018 fe lansiodd Aseiad a Brysbennu Clinigol Integredig Unigol, gydag uwch glinigwyr yn darparu cefnogaeth ac arweiniad i barafeddygon i ystyried opsiynau amgen i dderbyniad ysbyty ble bo'n briodol;
- Rydym yn gweithio gydag ystod o gydweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol i gefnogi cleifion sy'n mynychu'r Adrannau Achosion Brys yn rheolaidd ar gyfer yr un problemau yn well er mwyn darparu cymorth arall mwy addas iddynt;
- Cyflwyno'r model Iechyd Meddwl MI FEDRAF ar draws y tri safle.



Cydweithio


Yn Ysbyty Gwynedd, cwblhawyd ailddatblygiad £14m yr Adran Achosion Brys a oedd yn weithredol o fis Medi 2018. Mae hyn wedi creu amgylchedd mwy sydd wedi'i wella'n sylweddol ar gyfer gofal brys ac mae'n cefnogi newidiadau i'r ffordd rydym yn darparu gofal heb ei drefnu.

Diagnosteg

Y targed yw peidio â chael dim claf yn aros mwy na 8 wythnos am ystod o driniaethau diagnostig gan gynnwys pelydr-x a sganiau, endosgopi, profion ffisiolegol ac asesiadau niwrolegol. Yn anffodus, mae nifer y cleifion sy'n aros 8 wythnos neu fwy am brawf diagnostig wedi codi o 476 ym mis Mawrth 2018 i 2,278 ym mis Mawrth 2019.

Mae'r prif bryderon o fewn ein gwasanaethau Endosgopi ble ym mis Mawrth 2019, mae 2,064 o gleifion wedi aros dros 8 wythnos am brawf diagnosteg. Yn anffodus, roedd materion cynnal a chadw yn golygu ein bod wedi colli ychydig o gapasiti endoscopi yn

Ysbyty Maelor Wrecsam am gyfnod yn ystod y flwyddyn. Rhoddir blaenoriaeth i'r cleifion mwyaf brys ac mae'r Bwrdd Iechyd wedi buddsoddi mewn capasiti ychwanegol ar gyfer endosgopi ac mae'n datblygu achos busnes am wasanaeth mwy effeithiol a chynaliadwy.





Rhoi diagnosis canser a'i drin

Ar gyfer mis Mawrth 2019, dechreuodd 97% o gleifion na chawsant eu cyfeirio fel amheuaeth am ganser brys, ond a gafodd ddiagnosis canser yn ddiweddarach, eu triniaeth o fewn 31 diwrnod o gael diagnosis. Er bod hyn yn is na tharged Cymru o 98%, mae'r Bwrdd Iechyd wedi pasio'r gyfradd targed am chwe mis yn 2018/19 gan ei wneud yr ail Fwrdd Iechyd sydd wedi perfformio orau yng Nghymru o ran y mesur hwn.



Yn 2018/19, roedd nifer y cleifion a gafodd eu cyfeirio a'u trin ar y llwybr amheuaeth am ganser brys yn uwch yn 2017/18. Cynnydd yn y galw yw un o'r rhesymau na wnaethom gyflawni'r gyfradd targed o 95% ar gyfer dechrau triniaeth o fewn 62 diwrnod o gael eu cyfeirio. Fodd bynnag, ar 88% rydym y trydydd Bwrdd Iechyd yng Nghymru sydd wedi perfformio orau yn erbyn y mesur hwn.

Mae cyfarfodydd dwysáu'n dal i gael eu cynnal bob wythnos a phob pythefnos ym mhob Ysbyty gyda phob tîm arbenigol i leihau oedi. Mae rheolwyr yn derbyn nodyn briffio wythnosol am ganser sy'n amlinellu'r perfformiad presennol a'r perfformiad rhagamcanedig er mwyn gwneud y mwyaf o gyfleoedd i wella perfformiad mewn modd rhagweithiol.




Gofal strôc


Dros y flwyddyn mae perfformiad y Bwrdd Iechyd wedi gwella ar ddau o'r pedwar mesurau gwella ansawdd ar gyfer gofal strôc: nifer y cleifion sy'n cael eu derbyn i uned arbenigol cyn pen pedair awr a'r nifer sy'n gweld meddyg ymgynghorol arbenigol cyn pen y 24 awr cyntaf o dderbyniad.



Mae cyfran y cleifion sy'n cael eu sgan CT cyn pen awr yn parhau'n gyson drwy gydol y flwyddyn, ond mae angen gwella ar hyn er mwyn codi hyn at y lefel targed 50% yn 2019/20.



Roedd cyfran y cleifion sy'n cael thrombolysis cyn pen 45 munud yn amrywio'n sylweddol fesul mis drwy gydol y flwyddyn, 40% oedd y perfformiad gorau, ond roedd pum mis ble roedd yn is na 20%. Er bod nifer y cleifion sy'n rhan o hyn yn fach, sy'n chwyddo cymesur effaith newidiadau bach yn y nifer, mae angen gwneud mwy i wella ein cysondeb ac i leihau amseroedd drws i nodwydd ac mae ein timau clinigol yn gweithio i wella prosesau a lleihau'r llwybr yn yr ysbytai.



Ar ôl ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid yn 2017/18, mae cynlluniau wedi datblygu drwy 2018/19 i ddatblygu model gwasanaeth cynaliadwy ar gyfer gofal strôc yng Ngogledd Cymru. Mae hyn yn ystyried y llwybr cyfan yn cynnwys atal, ymwybyddiaeth gynnar, ymateb FAST, Hypo Llym, Llym, Adesfydlu a Bywyd wedi strôc, ac mae'n cyd-fynd â'r gwaith sydd ar y gweill yn genedlaethol drwy'r Grŵp Gweithredu ar Strôc. Mae grŵp cydweithredol strôc y Bwrdd Iechyd wedi cael ei sefydlu ac mae'n cefnogi'r gwaith hwn fel rhan o welliant parhaus gofal strôc.




Atal



Ymglymiad

Ymyriadau ac Aseidiadau Iechyd Meddwl


Y targed cenedlaethol yw bod 80% o gleifion yn cael asesiad gan ein gwasanaethau cefnogi iechyd meddwl ym maes gofal cychwynnol lleol o fewn 28 diwrnod o gael eu cyfeirio. Bu i'n perfformiad ddirywio yn ystod y flwyddyn, ond gwelwyd gwelliant ym mis Chwefror a mis Mawrth 2019. Disgwylir i'r adferiad hwn barhau, gyda'r gwasanaeth yn bwriadu bodloni'r targed o 80% yn gyson ar gyfer nifer y cleifion sy'n cael asesiad o fewn 28 diwrnod o gael eu cyfeirio.




Gwelwyd gostyngiad yng nghyfran y cleifion sy'n dechrau triniaeth o fewn 28 diwrnod hefyd. Roedd hyn yn rhannol oherwydd bod y polisi i drin cleifion wedi'i weithredu yn ei dro sydd wedi effeithio ar berfformiad, er mai dyna'r dull cywir yn glinigol. Mae Gweithwyr Cefnogi, Amser ac Adfer (STaR) yn awr yn eu lle ac yn gweithio trwy unrhyw ôl-groniad i leihau arhosiadau. Mae'r Uwch Adran Iechyd Meddwl wedi gefeillio â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro hefyd i ddysgu o'u dull at drawsnewid gwasanaeth.



O ran ein Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) rydym wedi cael anhawster i gyflawni'r targed asesu o 28 diwrnod, er bod gwelliannau parhaus wedi bod ers mis Medi 2018.



Dim ond ar gyfer 36% o gleifion y gwnaethom fodloni'r safon o ddechrau triniaeth o fewn 28 diwrnod o gael asesiad.



O ran y gwasanaeth CAMHS, rydym wedi gweithredu'r Dull Dewis a Phartneriaeth (CAPA) ar draws bob Ardal ers mis Mehefin 2018. Dylai hyn, yn ogystal ag ymyriadau eraill megis adolygiadau cynllunio swydd a llwyth gwaith rheolaidd ein galluogi i gyflawni'r cyfraddau targed yn gyson ar gyfer y ddau fesur hyn yn hanner cyntaf 2019/20.



Cydweithio

Gofal unigol

Rydym am i'n gwasanaethu cael eu llunio gan y bobl a wasanaethwn ac i fodloni eu hanghenion er mwyn dangos ein bod yn dysgu o adborth ac yn gweithredu arno.

Mae'n arbennig o bwysig ein bod yn darparu cymorth priodol i'r rheiny sy'n fwy bregus neu i'r rheiny a all ei gweld yn anoddach cael mynediad at wasanaethau.



Involvement

Ein dangosyddion perfformiad	Cyfnod	Gwerth	Tuedd
Cyfradd galwadau trigolion Cymru i linell gymorth iechyd meddwl C.A.L.L fesul 100,00 o boblogaeth y Bwrdd Iechyd	Chwarter 4 2018/19	211.6	
Cyfradd galwadau trigolion Cymru i linell gymorth Dementia Cymru fesul 100,00 o boblogaeth y Bwrdd Iechyd (dros 40 oed)	Chwarter 4 2018/19	6.2	
Cyfradd galwadau trigolion Cymru i linell gymorth DAN 24/7 fesul 100,00 o boblogaeth y Bwrdd Iechyd	Chwarter 4 2018/19	40.8	
% o drigolion y BILL sy'n derbyn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd (o bob oedran) i gael Cynllun Triniaeth Gofal (CTP) dilys wedi'i gwblhau ddiwedd pob mis	Mawrth 2019	90.40%	
% o drigolion y BILL a gafodd eu hasesu o dan y Mesur Iechyd Meddwl yr anfonwyd eu hadroddiad asesu canlyniadau atynt o fewn 10 niwrnod gwaith ar ôl eu hasesiad	Mawrth 2019	100%	
% yr ysbytai gyda threfniadau ar waith i sicrhau bod eiriolaeth ar gael i'r holl gleifion cymwys	2018/19	100%	

Cynlluniau Triniaeth Gofal (CTP)

Er mwyn gwella cyd-drefniant rhwng Byrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol i ofalu am bobl y mae angen gwasanaethau iechyd meddwl arnynt, mae'r Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i gynllun gofal a thriniaeth gael ei lunio ar gyfer pob unigolyn. Ein nod yw sicrhau bod 90% o ddefnyddwyr y gwasanaeth Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu yn derbyn Cynllun Triniaeth Gofal (CTP) cyflawn ar ddiwedd pob mis.

Er na lwyddom i fodloni'r targed o 90% ar ddiwedd mis Mawrth 2018, llwyddom i'w fodloni eleni. Mae gwaith yn parhau i wella'r safle hwn yn barhaus, yn cynnwys cynnal clinigau dros y penwythnos i wneud yn siŵr bod CTPs dilys yn eu lle ar gyfer yr holl ddefnyddwyr gwasanaeth.

Mae'r gwasanaeth wedi llwyddo i fodloni ei gyfradd targed o 100% yn gyson o ran sicrhau bod yr holl gleifion yn derbyn copi o'u hasesiad o fewn 10 diwrnod gwaith.

Staff ac adnoddau

Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod digon o staff ar gael sydd â'r wybodaeth a'r sgiliau cywir ar yr adeg gywir er mwyn bodloni anghenion ein cleifion. Mae ein mesurau perfformiad hefyd yn sicrhau bod ein staff yn cael gwerthusiad blynyddol a chynllun datblygu personol; eu bod wedi'u recriwtio a'u hyfforddi'n briodol a'u bod yn gymwysedig ac yn gymwys i wneud eu gwaith.

Mae ein dangosyddion perfformiad lleol eraill yn y maes hwn yn mesur ein cynhyrchiant yn y theatr a effeithlonrwydd cleifion allanol yn ogystal â'n dulliau rheoli ariannol o ran staff asiantaethau a locwm.



Ein dangosyddion perfformiad	Cyfnod	Gwerth		Tuedd
Cyfraddau DNA Cleifion Allanol newydd ar gyfer arbenigeddau dewisol	Mawrth 2019	5.28%	Green	
Cyfraddau DNA apwyntiadau dilynol ar gyfer arbenigeddau dewisol	Mawrth 2019	5.63%	Green	
Nifer y triniaethau nad ydynt yn cydymffurfio ag arweiniad 'Do Not Do' NICE ar gyfer triniaethau ag effeithiolrwydd cyfyngedig	Mawrth 2019	63	Red	
Cyfradd Llawdriniaeth Caesarean Dewisol	Mawrth 2019	12.02%	Red	
% o staff oedd yn teimlo bod eu gwaith yn cael ei werthfawrogi gan eu cyflogwr yn dilyn eu gwerthusiad/adolygiad	2018	54%	Green	
Sgôr gyffredinol ymgysylltu â staff	2018	3.76	Green	
% o staff fyddai'n hapus â'r gofal a ddarparwyd gan eu sefydliad pe byddai eu ffrind/perthynas angen triniaeth	2018	67%	Green	
% absenoldeb staff oherwydd salwch	12m Treigl Maw 2019	4.98%	Red	
% y gydymffurfiaeth ar gyfer bob gallu Lefel 1 a gwblhawyd yn y Fframwaith Sgiliau a Hyfforddiant Craidd	Mawrth 2019	84.00%	Green	
% o gyfrif pennau sydd wedi cael PADR / Gwerthusiad Meddygol yn y 12 mis diwethaf	Mawrth 2019	67.10%	Green	

Ein Cynhyrchiant

Yn 2018/19 gwelodd y Bwrdd lechyd dros 2,000 yn fwy o gleifion allanol newydd nag yn 2017/18. Gwnaethom dros 4,500 yn fwy o driniaethau a drefnwyd nag yn 2017/18, a gwelsom gynnydd o 3,500 mewn derbyniadau brys.

Mae'r ffigurau hyn yn helpu i egluro'r cynnydd yn y galw y mae'r Bwrdd lechyd yn ei wynebu, gan ymdrechu i gyflawni'r arbedion angenrheidiol hefyd i fodloni ein goblygiadau ariannol.

Cleifion nad Ydynt yn Mynychu eu Hapwyntiadau (DNAs)



Y llynedd, sefydlodd y Bwrdd Iechyd Raglen Gwella Cleifion Allanol i edrych ar sut allwn wella effeithlonrwydd drwy sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd mwyaf o gapasiti ein clinigau. Roedd hyn yn cynnwys mesurau ychwanegol i leihau'r nifer o apwyntiadau a fethwyd. Trwy'r gwaith hwn, cyflwynom godio safonol ar gyfer cleifion nad ydynt yn mynychu eu hapwyntiadau yn ein systemau gweinyddu cleifion a oedd yn ein galluogi i gofnodi'n fwy cywir y rhesymau pam bod cleifion yn methu a mynychu ac i ddynodi pa gamau gweithredu pellach y gallwn eu cymryd i leihau cyfraddau cleifion nad ydynt yn mynychu eu hapwyntiadau.


Ers ymgymryd â'r gwaith hwn, mae lleihad parhaus wedi bod yn nifer yr apwyntiadau cleifion allanol a fethwyd, sy'n dangos bod y rhaglen hon wedi bod yn llwyddiannus. Yn hanner diwethaf 2018/19 mae'r Bwrdd Iechyd wedi llwyddo i gael y cyfraddau cleifion nad ydynt yn mynychu eu hapwyntiadau misol isaf, neu ail isaf, yn gyson ar gyfer cleifion allanol newydd a dilynol yng Nghymru. Dylai'r cyfathrebu parhaus gyda'n cleifion a'n Meddygon Teulu weld y gostyngiadau parhaus hyn yn cael eu cynnal trwy 2019/20 a thu hwnt.

Ein staff


Gall darparu gofal iechyd fod yn heriol yn gorfforol ac yn emosiynol, ac mae cyfraddau absenoldeb salwch staff wedi cynyddu ychydig dros 12 mis 2018/19. Hyd at ddiwedd y flwyddyn roeddem yn nodi cyfradd o 4.98%, o'i chymharu â ffigwr targed o 4.5%.

Er mai dyma'r ail gyfradd isaf ymysg sefydliadau GIG Cymru, a'r isaf o'r holl brif Byrddau Iechyd, mae'n bwysig ein bod yn parhau i ganolbwyntio ar hyn, ar gyfer lles uniongyrchol ein gweithwyr a hefyd o ran ein gallu i ddarparu gwasanaethau i'n cleifion a'n poblogaeth a'r gost o orfod cyflenwi ar gyfer absenoldebau.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi gweld gwelliant sylweddol yn nifer y staff sydd wedi bod drwy adolygiad gwerthuso a datblygiad o fewn y deuddeg mis diwethaf ar 67.1% o'i chymharu â 62.8% ar ddechrau'r flwyddyn. Fodd bynnag, mae angen mwy o welliannau a rhoi mwy o gynlluniau gweithredu ar waith i sicrhau bod cyfradd y PADRs yn parhau i wella yn ystod 2019/20.



Bu i ni hefyd weld gwelliant yng nghyfran y staff sy'n cynnal eu Hyfforddiant Gorfodol, yn 84.1% mae'r ffigur hwn ychydig yn is na'r gyfradd targed o 85%. Mae hyn yn golygu mai ni yw'r Bwrdd Iechyd sy'n perfformio orau yng Nghymru yn nhermau'r mesur hwn. Rydym yn disgwyl cyflawni'r gyfradd targed o 85% yn gynnar yn 2019/20 ac i gynnal perfformiad ar y lefel hwn neu'n uwch ar ôl hynny.



Ein gweithgarwch

Caiff tua 90% o weithgarwch y GIG ei gyflawni gan bractisau Meddygon Teulu, fferyllfeydd cymunedol, deintyddfeydd ac optegwyr lleol.


Gyda'r adnoddau a gawsom gan Lywodraeth Cymru, gwnaethom gwblhau dros filiwn o asesiadau, profion neu driniaethau ar gyfer poblogaeth Gogledd Cymru yn yr ysbytai a gynhelir yn uniongyrchol gan y Bwrdd Iechyd, fel y'i nodir yn y tabl isod. Yn ogystal â hyn, mae'r Bwrdd Iechyd yn comisiynu gwasanaethau a ddarperir mewn mannau eraill yng Nghymru ac yn GIG Lloegr ar gyfer poblogaeth Gogledd Cymru.

Math o Glaf	2017/18	2018/19	Newid	
			Rhif	Rhif
Cleifion Mewnol Achosion Brys	94,223	97,726	3,503	3.58%
Achosion Dydd Dewisol	29,496	33,754	4,258	12.61%
Cleifion Mewnol Dewisol	16,126	16,423	297	1.81%
Endosgopïau	17,851	16,359	-1,492	-9.12%
Mân Driniaethau Cleifion Allanol	2,013	2,278	265	11.63%
Cleifion Dydd Rheolaidd	46,504	47,103	599	1.27%
Babanod Iach	5,334	5,249	-85	-1.62%
Cleifion Allanol Newydd	268,979	270,255	1,276	0.47%
Adolygu Cleifion Allanol	531,158	519,805	-11,353	-2.18%
Asesiad Cyn-llawdriniaeth	30,936	32,909	1,973	6.00%
Derbyniadau newydd i Adrannau Achosion Brys	222,997	229,401	6,404	2.79%
Ymweliadau Adolygu ag Adrannau Achosion Brys	6,620	6,306	-314	-4.98%
Cyfanswm	1,272,237	1,277,568	5,331	0.42%


Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Mae'r **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)** yn rhoi cyfle i ni feddwl yn wahanol ac i roi pwyslais newydd ar wella lles cenedlaethau presennol a'r dyfodol.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gofyn i ni feddwl mwy am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a sefydliadau eraill, ceisio atal problemau yn ogystal â chymryd ymagwedd mwy cydgyssylltiedig. Mae'r Ddeddf yn gosod saith nod ar les, ac mae angen i ni wneud y mwyaf o'n cyfranogiad i bob un o'r saith:



Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi disgrifio'r broses o weithio tuag at y gofynion hyn fel taith - gan ddechrau gyda mabwysiadu newidiadau bach a symud ymlaen i wneud newidiadau mwy.



Yn ystod 2018/19 bu i ni gwblhau hunanasesiad o'n cynnydd ar ystod o feysydd a chydabod, er bod cynnydd ardderchog a meysydd o arfer da wedi bod, mae gennym lawer mwy o waith i'w wneud i'w fewnosod yn llawn yn y Bwrdd Iechyd. Ar ein taith, byddwn yn asesu ein hunain ar y cyfan fel symud oddi wrth wneud newidiadau syml i fod yn fwy anturus. O fewn yr adroddiad hwn rydym wedi dynodi meysydd o arfer da a all ledaenu'r dysg i feysydd gwaith eraill.

Fel rhan o'r daith hon, mae gofyn i'r Bwrdd Iechyd, ynghyd â chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru, osod amcanion lles sydd wedi'u dylunio i hwyluso hyn a'u cyhoeddi; a mabwysiadu'r egwyddor datblygiad cynaliadwy. Dylid mewnosod datblygiad cynaliadwy o fewn prosesau corfforaethol presennol, ac ni ddylid ei drin fel ymarfer ar wahân i osod amcanion sy'n arwain y camau gweithredu a phenderfyniadau'r sefydliad.

O ran datblygu ein strategaeth tymor hir ar gyfer iechyd, lles a gofal iechyd (*Byw'n Iach, Aros yn Iach* - a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018), rhoddodd miloedd o bobl eu hamser, eu barn a'u hadborth i helpu i gynllunio'r strategaeth gyda'n gilydd, a hefyd i roi eu barn ar ein hamcanion lles. O ganlyniad, bu i ni adfywio amcanion y Bwrdd Iechyd fel sydd wedi'u gosod isod:

- Gwella lles ac iechyd corfforol, emosiynol ac iechyd meddwl i bawb a lleihau anghydraddoldebau iechyd
- Targedu ein hadnoddau ar unigolion sydd â'r anghenion mwyaf a lleihau anghydraddoldebau
- Cefnogi plant i gael y dechrau gorau mewn bywyd
- Gweithio mewn partneriaeth i gefnogi pobl - unigolion, teuluoedd, gofalwyr, cymunedau - i gyflawni eu lles eu hunain
- Gwella diogelwch ac ansawdd bob gwasanaeth
- Parchu unigolion a'u hurddas
- Gwrando ar unigolion a dysgu o'u profiadau

Wrth gyflawni'r amcanion hyn byddwn yn

- Defnyddio adnoddau'n ddoeth, trawsnewid gwasanaethau drwy arloesedd ac ymchwil
- Cefnogi ein staff, eu hyfforddi a'u datblygu i ragori

Mae'r amcanion lles wedi cael eu nodi'n glir ym mhroses llywodraethu'r Bwrdd; mae'n rhaid i bob adroddiad i'r Bwrdd a'r Pwyllgorau ddynodi'r cyfraniadau i'r amcanion perthnasol. Rhaid i bob menter yn awr ddynodi sut mae'n cyfrannu at amcanion lles a hefyd sut maent wedi defnyddio'r pum ffordd o weithio.

Mabwysiadu'r Pum Ffordd o Weithio

Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn dynodi pum ffordd o weithio sy'n cefnogi'r egwyddor Datblygiad Cynaliadwy:



Cydweithio



Tymor Hir



Atal



Ymglymiad



Integreiddiad


Yn ystod 2018-19 fe wnaethom ddatblygu'r defnydd o'r pum ffordd o weithio ym mhopeth a wnawn.

Rydym wedi dechrau cynnwys y pum ffordd fel egwyddorion arweiniol i'w defnyddio mewn meini prawf gwerthuso opsiynau ar gyfer cynlluniau datblygu gwasanaeth. Rydym hefyd wedi cynnwys y pum ffordd yn yr arweiniad mewnol ar ddatblygiad achos busnes. Mae llawer mwy o waith i'w wneud cyn i ni allu dweud fod yr egwyddor datblygiad cynaliadwy yn rhan o fusnes bob dydd, a byddwn yn parhau i ddatblygu hyn yn 2019/20.

Yn benodol, yn ystod 2018/19, bu i ni gryfhau ein trefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth a'r fframwaith llywodraethu sy'n cefnogi hyn. Mae'r Pwyllgor Strategaeth, Partneriaeth ac Iechyd y Boblogaeth yn derbyn adroddiadau rheolaidd ar gynnydd o'r trefniadau partneriaeth statudol. Yn haf 2018 bu i ni adolygu a chryfhau ein haelodaeth o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Cynlluniau Lles Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

Mae pedwar Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yng Ngogledd Cymru: Gwynedd a Môn; Conwy a Sir Ddinbych; Sir y Fflint; a Wrecsam. Yn dilyn cymeradwyo'r cynlluniau lles ym mis Mai 2018, rydym wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid i roi'r rhain ar waith i wella lles y boblogaeth. Mae themâu'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n cael eu blaenoriaethu isod.



ffynhonnell y diagram: Rhwydwaith Swyddogion Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (Bwrdd Rhan 9)

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cael ei sefydlu dan y Ddeddf Llesiant a Gwasanaethau Cymdeithasol i ddod ag Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd a phartneriaid eraill i ddatblygu gofal a chefnogaeth i unigolion a'u gofalwyr.



Cydweithio

Yn ystod 2018/19 bu i ni gryfhau ein haelodaeth ar y RPB ac yn awr mae is-gadeirydd y Bwrdd Iechyd, tri Cyfarwyddwr Gweithredol a'r Cyfarwyddwyr Ardal yn mynd iddynt i gynrychioli'r Bwrdd. Tuag at ddiwedd y flwyddyn, cymerodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus gadeiryddiaeth y Bwrdd.

O dan y cynllun cenedlaethol tymor hir ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, mae rôl y RPB wedi cael ei bwysleisio unwaith eto ac rydym wedi bod yn gweithio tuag at sicrhau ein bod yn rhannu ein gwerthoedd a'n blaenoriaethau. Yn ystod y flwyddyn bu i ni weithio tuag at gyfres o gynigion a rennir ar gyfer trawsnewid yn y meysydd canlynol:



Integreiddiad

- Gwasanaethau Cymuned
- Iechyd Meddwl
- Anableddau Dysgu
- Plant a Phobl Ifanc

Mae'r meysydd blaenoriaeth hyn yn gyson â'n hamcanion lles a bydd yn ein galluogi ni i barhau â'n cyfraniad at y rhain mewn partneriaeth.

Y Bwrdd Iechyd yw'r Bwrdd Iechyd Lleol mwyaf yng Nghymru, sy'n gwasanaethu bron i draean ehangdir y wlad. Caiff ein gwasanaethau eu cynnig o amrywiaeth o leoliadau gan amrywio rhwng ysbytai cyffredinol dosbarth a chlinigau cymunedol ac ymweliadau â chartrefi gan glinigwyr. Wrth gynnig y gwasanaethau hyn, mae gennym effaith amgylcheddol y mae'n rhaid ei rheoli'n ofalus er mwyn osgoi goblygiadau ariannol ac amylcheddol sylweddol.



Tumor Hir

Mae ein portffolio eiddo'n cynnwys tri phrif ysbyty cyffredinol llym, 18 o ysbytai cymunedol a thros 70 o glinigau cymunedol ac adeiladau ac ystafelloedd ategol bach eraill (â pherchnogaeth neu o dan brydles), sy'n rhoi cyfanswm portffolio o dros 90 o eiddo.

Er bod y galw am ofal iechyd yn parhau i gynyddu, mae'r Bwrdd Iechyd yn ymrwymedig i fodloni heriau sydd ynghlwm wrth leihau carbon, lleihau gwastraff a diogelu cynhyrchion ac adnoddau o ffynonellau cynaliadwy lle bo'n bosibl er mwyn sicrhau bod ein heffaith amgylcheddol yn cael ei lleihau cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol.

Fel rhan o'n hymrwymiad corfforaethol tuag at leihau'r effeithiau hyn, rydym yn cynnal System Reoli Amgylcheddol (EMS) ffurfiol, sydd â'r bwriad i gyflawni'r egwyddorion allweddol canlynol:

- Datblygu cynladwy;
- Cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol perthnasol a gofynion eraill;
- Atal llygredd;
- Amddiffyn yr amgylchedd;
- Lliniaru effaith newid yn yr hinsawdd;
- Diwylliant o welliant parhaus.

Mae rheolaeth amgylcheddol effeithiol yn cael ei chyflawni drwy'r prosesau canlynol:

- Hybu'r polisi amgylcheddol i'r holl randdeiliaid perthnasol;
- Nodi pob agwedd amgylcheddol arwyddocaol a gofynion cyfreithiol cysylltiedig, gan gynnwys y rhai sy'n digwydd o ganlyniad i newidiadau i wasanaeth a deddfwriaeth newydd;
- Sefydlu amcanion a thargedau a'u monitro gyda'r nod o leihau effeithiau amgylcheddol ac ariannol, yn unol â'r rhai a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru;
- Darparu hyfforddiant priodol i'r holl bersonél perthnasol;
- Archwiliadau allanol a mewnol rheolaidd;
- Adolygu effeithiolrwydd y System Reoli Amgylcheddol yn rheolaidd gan y Grŵp Llywio Amgylcheddol;
- Gweithio gyda phartneriaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i gyflawni dull sector cyhoeddus cyson at reolaeth amgylcheddol a sicrhau bod gweithdrefnau arfer gorau yn cael eu dynodi a'u rhoi ar waith.

Mae ein perfformiad yn cael ei fesur gan ddefnyddio amrywiol offer a thrwy ein cysylltiad â nifer o gyrfw partneriaeth:

- BS EN ISO 14001 2015 System Reoli Amgylcheddol;
- Adrodd Blynyddol Ymroddiad Lleihau Carbon;
- System Ffonitro Perfformiad Ynni a Chyfleusterau Blynyddol;
- Fforwm Amgylcheddol Ystadau Iechyd Cymru;
- Gwasanaethau Cyfleusterau - Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru;
- Systemau monitro deunydd gwasanaethau mewnol, amser real;
- Aseiad BREEAM (Building Research Establishment Environmental Assessment Method) o gynlluniau cyfalaf mawr.

Mae'r trefniadau hyn yn sicrhau bod rheolaeth amgylcheddol effeithiol yn cael ei wneud yn unol â safonau arfer gorau presennol a bod gwelliannau parhaus yn cael eu hymgorffori i ddiwylliant y sefydliad.

Caiff y data a ddefnyddir i lunio'r adroddiadau hyn eu dilysu gan ddarparwyr archwilio mewnol ac allanol gan gynnwys BSi, Archwilio Mewnol a Swyddfa Archwilio Cymru.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ennill Safon Blatinwm Safon Iechyd Corfforaethol Cymru Iach ar Waith, a bu ein defnydd o dechnoleg gynladwy, caffael moesegol a chynladwy a gwaith ar gludiant sy'n gyfrifol ar lefel amgylcheddol yn rhan o'r hyn a gyflwynwyd.

Gwaith mewn Partneriaeth

Caiff y Bwrdd Iechyd ei gynrychioli ar y Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus yng Ngogledd Cymru, y mae pob un o'r rhain yn gweithio ar faterion amgylcheddol a chynladwyedd:



Cydweithio

- **BGC Gwynedd a Môn:** yn gweithio gyda'i gilydd yn lleol i leddfu effeithiau newid yn yr hinsawdd yn ein cymunedau;
- **BGC Conwy a Sir Ddinbych:** cefnogi gwydnwch cymunedol, gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu gwydnwch amgylcheddol yn ein cymunedau, gan baratoi i addasu at newidiadau i'r hinsawdd leol yn y dyfodol (e.e. llifogydd) a lleihau ôl-troed carbon ac ecolegol;
- **BGC Sir y Fflint:** datblygu cyfleoedd mynediad gwell at seilwaith gwrdd, amddiffyn yr amgylchedd a thynnu sylw ato, gwella amddiffynfeydd llifogydd a lleihau effeithiau newid yn yr hinsawdd;
- **BGC Wrecsam:** yn ymrwymedig i ganolbwyntio ar faterion cyffredinol tlodi, cydraddoldeb, y Gymraeg a newid yn yr hinsawdd: bydd grwpiau rhaglen a phartneriaid yn gyfrifol am ymgorffori newid yn yr hinsawdd i'w gwaith.

ISO14001:2015 System Rheoli Amgylcheddol

Mae safon ISO14001:2015 o ran systemau rheoli amgylcheddol wedi'i rhoi ar waith a'i hymgorffori erbyn hyn yn y Bwrdd Iechyd trwyddo draw gan fod ardystiad ISO wedi'i ennill ym mis Ebrill 2018. Cyflwynwyd y safon newydd er mwyn gwneud y Bwrdd Iechyd a'i staff yn fwy ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â gweithgareddau sy'n cael effaith sylweddol ar yr amgylchedd, gan gynnwys atebolrwydd cyfreithiol a rheoleiddio, ac mae'n caniatáu i'r risgiau cysylltiedig gael eu rheoli'n fwy effeithiol.

Mae Swyddogion yr Amgylchedd wedi cwblhau hyfforddiant pontio i Archwilwyr Arweiniol yn llwyddiannus, ac maent wedi ennill ardystiad y Sefydliad Ansawdd Siartredig a Chofrestr Ryngwladol yr Archwilwyr Ardystiedig.

Mae aelodau'r Grŵp Llywio Rheolaeth Amgylcheddol wedi mynd ati i roi fersiwn 2015 y safon ar waith trwy amlygu:

- Y newidiadau allweddol y mae angen i ddarparwyr gwasanaeth eu gwneud;
- Ymrwymiad a chyfraniad uwch reolwyr yn yr EMS;
- Cydymffurfiaeth â Pholisi Amgylcheddol;
- Anghenion a disgwyliadau partion sydd â diddordeb;
- Materion allanol a mewnol, rhwymedigaethau cydymffurfio ac agweddau arwyddocaol;
- Beth mae pob adran o'r safon yn ei olygu i'w gwasanaeth/adran;
- Perfformiad, gwerthuso a monitro.

Mae ISO14001:2015 yn cynnig fframwaith i amddiffyn yr amgylchedd ac i ymateb i amodau cyfnewidiol yr amgylchedd, ochr yn ochr ag anghenion economaidd-gymdeithasol. Mae ISO14001:2015 yn helpu'r Bwrdd Iechyd i gyflawni canlyniadau bwriadedig ei EMS, sy'n cynnig gwerth i'r amgylchedd, y Bwrdd Iechyd ei hun a phartïon sydd â diddordeb. Yn unol â Pholisi Amgylcheddol y Bwrdd Iechyd, mae canlyniadau bwriadedig yr EMS yn cynnwys:

- Gwella perfformiad amgylcheddol;
- Cyflawni rhwymedigaethau o ran cydymffurfiaeth;
- Cyflawni amcanion amgylcheddol.

Mae asesiadau wedi dangos bod conglfeini'r system - canfod prosesau corfforaethol a safle penodol sy'n cael effaith amgylcheddol (yr Agweddau a'r Effeithiau Amgylcheddol) a rhaglen o amcanion a thargedau amgylcheddol a bennwyd gan y Grŵp Llywio Amgylcheddol i liniaru'r effeithiau hyn - ar waith. Mae'r Rhaglen Archwilio Mewnol ar y trywydd cywir ac mae'n cael ei chynnal yn effeithiol; mae'r broses o fethiant i gydymffurfio'n effeithiol ac mae'n gweithio'n effeithlon. Mae un mân achos o fethiant i gydymffurfio'n dal i fod heb dderbyn sylw ers yr asesiad blaenorol, sy'n ymwneud â pheidio â sicrhau bod yr holl bartïon sy'n gweithio ar ran y Bwrdd Iechyd yn gwbl ymwybodol o'r polisi, yr agweddau a'r effeithiau amgylcheddol. Mewn ymateb i hynny, caiff hyfforddiant amgylcheddol ei gynnwys yn y rhaglen hyfforddiant gorfodol ac mae pecyn e-ddysgu pwrpasol wedi'i ddatblygu i gyflawni hyn.

Yn ystod y flwyddyn, cafodd archwiliadau safle ISO14001 hanner diwrnod eu cwblhau yn Ysbytai Cymunedol Cefni, Eryri, Treffynnon, Dinbych a Llannerch Banna, Canolfan Iechyd a Lles y Fflint, y clinigau yn Rhosllannerchrugog a Chorwen ac yng Nghanolfan Goffa Ffestiniog ym Mlaenau Ffestiniog, yn ogystal ag archwiliad corfforaethol ISO14001 diwrnod cyfan.

Ni thynnwyd sylw at yr un mân achos newydd o fethiant i gydymffurfio yn ystod yr archwiliadau arolygu a gynhaliwyd eleni. Nid oes gan y Bwrdd Iechyd unrhyw achosion mawr o ddiffyg cydymffurfiaeth.

Hyfforddiant Amgylcheddol a Gwastraff

Mae safon ISO 14001:2015 yn rhoi mwy o bwyslais ar hyfforddiant a galluoedd unrhyw unigolion sy'n gallu cael effaith ar y System Rheoli Amgylcheddol.

Mae Tîm yr Amgylchedd wedi adolygu a diwygio'r pecyn e-hyfforddiant Cymru gyfan o ran rheoli gwastraff a'r amgylchedd, er mwyn creu pecyn hyfforddiant pwrpasol, fel y'i nodir uchod. Mae hwn wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd a bydd yn rhan o'r hyfforddiant gorfodol i holl staff y Bwrdd Iechyd. Mae meddu ar fodiwl hyfforddiant gorfodol pwrpasol yn dangos ymrwymiad y Bwrdd Iechyd i reoli'r amgylchedd yn ogystal â helpu i fodloni gofynion hyfforddiant, ymwybyddiaeth a galluoedd y Safon.

Rhaglen Amcanion Amgylcheddol Corfforaethol

Mae ein rhaglen Amcanion Amgylcheddol tair blynedd gyntaf wedi dod i ben erbyn hyn ac mae ein cynnydd o ran yr amcanion wedi'i nodi isod. Mae cynllun tair blynedd newydd yn cael ei datblygu ar gyfer 2019-2022.

Amcan	Cynnydd
Lleihau gwastraff sy'n gysylltiedig â gweithgareddau a dylanwadu ar gadwyn gyflenwi i leihau gwastraff sy'n cael eu hanfon i safleoedd tirlenwi	<ul style="list-style-type: none"> Ailgylchu 100% o wastraff cyfrinachol biniau glas Wedi cyflwyno mwy o gardbord a blychau gwastraff clinigol sy'n ecogyfeillgar
Adnoddau Naturiol: gweithredu a chaffael mewn ffordd sy'n gyfrifol o ran yr amgylchedd	<ul style="list-style-type: none"> Caiff Asesiad Risg Cynladwyedd (SRA) ei gwblhau ar unrhyw gaffaeliad dros £25,000
Cyfrifoldeb cymdeithasol moesegol a chorfforaethol: defnyddio cynhyrchion sydd wedi'u hardystio i fod yn rhai o ffynonellau moesegol	<ul style="list-style-type: none"> Mae NWSSP wedi penodi Hywyddwr Gwrth-gaethwasiaeth a Chyflogaeth Foesebol Caiff Asesiad Risg Cynladwyedd (SRA) ei gwblhau ar unrhyw gaffaeliad dros £25,000
Codi Ymwybyddiaeth o Ynni	<ul style="list-style-type: none"> Pecyn e-ddysgu pwrpasol wedi'i ddatblygu ar gyfer hyfforddiant staff gorfodol
Codi ymwybyddiaeth o wybodaeth a phynciau'n ymwneud â'r amgylchedd a gwastraff	<ul style="list-style-type: none"> Gweithgarwch parhaus Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth Pecyn e-ddysgu pwrpasol wedi'i ddatblygu ar gyfer hyfforddiant staff gorfodol
Lleihau allyriadau CO ₂ trwy uwchraddio boeleri, rheolyddion a ffabrig adeiladau	<ul style="list-style-type: none"> Ar y gweill fel y caniateir gan gyllid cyfalaf, gweler yr adran rheoli ynni a charbon isod (tudalen 46) am fanylion
Lleihau'r risg o lygredd olew trwy uwchraddio tanciau a byndiau trwy reolaethau a gweithdrefnau lleol	<ul style="list-style-type: none"> Monitro a chynnal yr holl ardaloedd storio olew gan staff ystadau Gwaredu tanc olew Clinig Corwen
Atal gwaredu gwastraff bwyd i'r garthffos yn barod i roi Deddf yr Amgylchedd (Cymru) ar waith	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r holl Ysbytai Cyffredinol Dosbarth a rhai safleoedd cymunedol yn ailgylchu eu bwyd gyda naill ai'r Awdurdod Lleol neu gontractwr preifat
Cyflwyno didoli gwastraff gypswm ar gyfer ei losgi	<ul style="list-style-type: none"> Ar waith erbyn hyn o dan gontract gyda chontractwyr gwastraff
Dynodi a chreu ardal fioamrywiaeth	<ul style="list-style-type: none"> Mae tri chwch gwenyn yn cael eu noddi ar ran y Bwrdd Iechyd Dynodi ardaloedd cynefin a bioamrywiaeth yn Ysbyty Glan Clwyd ac mae'r rhain yn cael sylw cyson
Cadw ffibrau asbestos yn yr awyr ar lefelau diogel	<ul style="list-style-type: none"> Cynllun Rheoli Asbestos ar waith
Amddiffyn staff a chleifion rhag Radon, gan gynnal lefelau sy'n is na 400Bq/m ² ar gyfer gweithleoedd a 200Bq/m ² mewn preswylfeydd staff	<ul style="list-style-type: none"> Mae canlyniadau ymarferion monitro radon a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2017 wedi dod i law ac mae adroddiad wedi'i baratoi gan ymgynghorydd diogelu rhag ymbelydredd Disgwylir i ganlyniadau ymarferion monitro Gaeaf 2018 yng ngwanwyn 2019
Cael gwared ar y risg o deneuo'r osôn a nwyon tŷ gwydr niweidiol eraill	<ul style="list-style-type: none"> Dwyrain: Cofrestr Nwy Fflwrineiddiedig wedi'i rheoli gan Swyddogion Ystadau Peirianeg, gwaith cynnal a chadw wedi'i wneud gan gontractwr allanol Canol: Cofrestr Nwy Fflwrineiddiedig ar y gweill oherwydd ailddatblygu Ysbyty Glan Clwyd Gorllewin: Cofrestr Nwy Fflwrineiddiedig wedi'i chynnal gan Swyddogion Ystadau a enwebwyd; mae pob un o'r unedau R22 wedi'u newid. Mae R404a wrthi'n cael ei newid erbyn hyn am nwy oeri sy'n fwy effeithlon o ran ynni pan fydd angen
Monitro allyriadau CO ₂ sy'n gysylltiedig â chludiant	<ul style="list-style-type: none"> Mae data monitro'n cael ei gasglu ar draws y fflyd gyfan - ceir staff, 'llwyd' a cheir cronfa
Rheoli Diogelwch Dŵr - Lleihau'r risg o aerosolau sydd wedi'u halogi	<ul style="list-style-type: none"> Rhaglen asesu ac adolygu blynyddol yn dal i fod ar y gweill

Rheoli gwastraff

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i weithio mewn partneriaeth â'i contractwr gwastraff ailgylchadwy a domestig i wella dulliau rheoli gwastraff yn y Bwrdd Iechyd ac i leihau ei effeithiau ar yr amgylchedd, trwy ddargyfeirio cymaint o wastraff â phosibl o safleoedd tirlenwi.

97% yn fras yw cyfradd ailgylchu'r Bwrdd Iechyd. Rydym yn disgwyl i ailgylchu barhau i gynyddu yn dilyn mesurau sydd wedi'u rhoi ar waith er mwyn gwella prosesau didoli gwastraff.

Ar y cyd â menter 'Gofal Diogel Glân' er mwyn gwella diogelwch cleifion a lleihau heintiau'n barhaus, cafodd Digwyddiadau Glanhau ar gyfer y Gwanwyn a'r Hydref eu cynnal ym mis Ebrill a mis Hydref 2018, lle cafodd dodrefn heb eu defnyddio, gwastraff trydanol a metal eu casglu o 45 o safleoedd ar draws y Bwrdd Iechyd.

Mae contract Cymru Gyfan yn ymwneud â chasglu, cludo a gwaredu gwastraff clinigol yn weithredol ers Ebrill 2017. Mae'r Bwrdd Iechyd yn elwa ar ddefnydd sy'n fasnachol hyfiaw ar gyfer cynnyrch terfynol prosesau trin gwastraff clinigol 'bagiau oren' ('flock'), sy'n cael ei ddefnyddio fel ffynhonnell nwy a chaiff ei gludo i Norwy a Sweden lle mae'n cael ei ddefnyddio fel ychwanegyn er mwyn clymu sment. Mae hyn yn golygu bod dewis angen y Bwrdd Iechyd o ddefnyddio gwastraff clinigol wedi'i drin â gwres yn cael ei ailgylchu 100%. Caiff gwastraff clinigol a losgir ei ailgylchu 100% hefyd yn ynni sydd wedi gwella ein ffigurau ailddefnyddio gwastraff ymhellach. Fodd bynnag, yn ystod y flwyddyn, cafodd y Bwrdd Iechyd rai anawsterau oherwydd anghysondeb o ran casglu gwastraff clinigol ac rydym yn gweithio gyda'r contractwr i sicrhau gwelliannau.

Yn ogystal â hyn, mae'r Bwrdd Iechyd yn ailgylchu cardbord, metel sgrap, offer trydanol, dodrefn, plastigau, batris, gwastraff cyfrinachol, gwastraff bwyd, cetrin inc a lampau fflworoleuol.

Ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19, mae gwastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi ar draws y Bwrdd Iechyd wedi lleihau 46%, caiff ein holl wastraff a losgir ei ddefnyddio at ddibenion adennill ynni ac mae ailgylchu wedi cynyddu o 5% ychwanegol.

Grŵp Trafod Di-blastig

Mae'r Bwrdd Iechyd yn ailgylchu mwy na 90% o'i wastraff cyffredinol trwy Gyfleuster Adfer Deunyddiau ond gellir gwneud mwy i leihau faint o wastraff plastig sy'n cael ei gynhyrchu. Mae Tîm yr Amgylchedd wedi sefydlu "Grŵp Trafod Di-blastig" er mwyn adolygu defnydd o blastigau un-tro gan y Bwrdd Iechyd ac i ystyried ffyrdd o leihau'r defnydd hwn. Mae'r eitemau sy'n cael eu hystyried yn cynnwys cwpanau plastig wrth beiriannau dŵr, tiwbiau yfed plastig, hancesi gwlyb sy'n cynnwys plastig, cynwysyddion bwyd plastig tafladwy a chwpanau arlwyo a chwpanau tabledi/meddyginiaeth plastig.

Canllaw Nwyddau Gwyn

Er mwyn lleihau faint o wastraff trydanol sy'n cael ei symud o amgylch y safleoedd ysbyty ac sy'n cael ei waredu yn yr iardiau gwastraff, mae Swyddogion yr Amgylchedd wedi gweithio'n agos gyda chydweithwyr caffael er mwyn ailddatblygu'r Canllaw Nwyddau Gwyn. Mae'r canllaw bellach yn cyfarwyddo staff sy'n archebu oergell newydd bod yn rhaid iddynt gynnwys tynnu'r hen gyfarpar gan y cyflenwr hefyd, os na ddilynnir y broses hon, yna ni chaiff yr archeb ei phrosesu.

Ynni a rheoli carbon

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i chwilio am fesurau ac i'w rhoi ar waith er mwyn gwella ei effeithlonrwydd ynni ac i leihau allyriadau carbon deuocsid sy'n gysylltiedig â'i weithgareddau. Lleihad o 3% mewn allyriadau CO₂ flwyddyn ar ôl blwyddyn yw'r Targed Perfformiad Corfforaethol Lleihau Carbon presennol fel sy'n ofynnol gan Gynllun Cyflenwi Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd i Leihau Allyriadau Llywodraeth Cymru.

Mae cynlluniau lleihau carbon yn dibynnu'n bennaf ar adnoddau a ddyrennir gan y Rhaglen Cyfalaf Disgresiynol flynyddol a Chynlluniau Datblygu Cyfalaf Mawr. Roedd cynlluniau a sicrhodd arbedion carbon yn ystod 2018/19 yn cynnwys:

- The Elms, Wrecsam: newid goleuadau am ffitiadau LED; newid boeleri 30 oed gydag unedau gradd-A newydd; inswleiddio waliau brics; gosod inswleiddio thermol mewn toeon; newid yr holl ffenestri gwydr sengl gyda fframiau pren caled gwydr dwbl;
- Clinig Brychdyn; newid y boeler;
- Ward Plant Ysbyty Maelor Wrecsam: newid y boeler; uwchraddio'r rheolydd ynni System Rheoli'r Adeilad;
- Canolfan Iechyd Plant Wrecsam: newid rhai ffenestri gwydrog sengl gydag unedau gwydrog dwbl;
- Ysbyty Cymuned y Waun: Uwchraddio rheolydd ynni System Rheoli'r Adeilad;
- Canolfan Pwll Glas, Yr Wyddgrug: newid ffenestri er mwyn gwella effeithlonrwydd ynni;
- Tŷ Catherine Gladstone, Mancot: cladid y to er mwyn gwella inswleiddio;
- Uned Ablett, Ysbyty Glan Clwyd; newid y boeler a'r system dŵr poeth;
- Uned Oncoleg, Ysbyty Glan Clwyd; newid y boeleri a'r pypiau;
- Ysbyty Glan Clwyd: Gosod goleuadau stryd LED; uwchraddio CHP (system gwres a phŵer cyfunol) er mwyn gwella oriau gweithredu a dibynadwyedd;
- Ysbytai Cymuned Rhuthun a Dinbych: gosod goleuadau stryd LED;
- Ysbyty Bae Colwyn: uwchraddio'r system wresogi;
- Ward Glan Traeth, Ysbyty Brenhinol Alexandra: uwchraddio'r boeler dŵr poeth;
- Adran Pelydr-X Ysbyty Llandudno: newid y tro gydag inswleiddio gwell;
- Ysbyty Gwynedd: newid tanciau dŵr gydag inswleiddio gwell;
- Ysbytai Penrhos Stanley, Eryri a Llandudno: newid yr offer arlwyo am effeithlonrwydd a dibynadwyedd gwell.

Mae gwaith ailwampio Ysbyty Glan Clwyd wedi'i gwblhau. Er bod gwelliannau i dechnoleg ynni wedi'u hymgorffori i'r dyluniad, efallai y caiff arbedion carbon cyffredinol o ran y cyfleusterau uwchraddedig eu gwrthbwyso gan yr ôl-troed ardal mwy o faint a gosod defnyddwyr trydanol ychwanegol sydd eu hangen ar gyfer triniaeth glinigol a chysur cleifion.

Roedd cyfleusterau newydd a ychwanegwyd at yr ystâd yn ystod 2018/19 yn cynnwys:

- Ysbyty Maelor Wrecsam: theatrau llawdriniaeth modiwlaid;
- Ysbyty Gwynedd: Ymestyn yr Adran Achosion Brys; ymestyn yr adeilad Cofnodion Meddygol; ystafelloedd Endosgopi newydd ac aerdymheru;
- Hafan Lôn, Pwllheli.

Mae rhesymoli i asedau corfforaethol wedi parhau, a chafwyd gwared ar y canlynol yn ystod 2018/19 yn cynnwys y safleoedd canlynol:

- Clinig Caergwrle;
- Clinig Ffordd Ala, Pwllheli.

Dros y flwyddyn, rydym wedi gweithio gyda Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru a'u partneriaid, yr Ymddiriedolaeth Garbon, sydd wedi cynnal arolygon o safleoedd y Bwrdd lechyd er mwyn nodi cyfleoedd am welliannau pellach, gan gynnwys datblygu 'cyfrifydd parodrwydd' y gellir ei ddefnyddio i gyfrifo'r arbedion a gâi eu sicrhau trwy newid y ffitiadau golau presennol am fersiynau LED.

Mae'r Bwrdd lechyd eisoes wedi gosod goleuadau LED mewn llawer o leoliadau ac mae ganddo 17 o gynlluniau eraill i newid goleuadau ar y gweill ar gyfer ei brif ysbytai a'i ysbytai cymunedol, fel rhan o brosiect 'Buddsoddi i Arbed'. Mae'r rhain wedi'u harolygu a'u nodi, a'r disgwyliad yw y bydd tendro, caffael a gosod yn digwydd yn ystod 2019.

Yn ogystal â'r trefniadau rheoli cyffredinol o ran monitro a, lle bo'n bosibl, lleihau defnydd o ynni, mae'r Bwrdd lechyd yn cymryd rhan mewn nifer o raglenni cenedlaethol sy'n cysylltu â strategaeth ynni'r DU. Rydym yn parhau i gymryd rhan mewn gweithgareddau sydd â'r nod o leihau'r cyflenwad trydanol i Ysbyty Gwynedd gymaint â phosibl ar adegau o alw brig ar seilwaith trydanol y DU. Mae hyn yn cael ei gynnal gan ddefnyddio generaduron brys y safle yn rhedeg ar y cyd â'r cyflenwad grid cenedlaethol felly nid oes unrhyw risg i'r cyflenwad trydanol ar y safle ysbyty, pan fo'r gweithgaredd ar y gweill. Mae'r gweithgaredd hwn yn cael ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru, ac am gymryd rhan yn y gweithgaredd hwn, mae BIPBC yn derbyn budd-dal ariannol.

Mae'r un systemau cynhyrchu trydanol yn cael eu defnyddio gan y Bwrdd lechyd i gymryd rhan yn y rhaglen Cronfa Gweithredu Tymor Byr Grid Cenedlaethol (STOR). Mae'r Bwrdd lechyd yn gweithio mewn partneriaeth ag "Agregwr" y Deyrnas Unedig sydd yna'n gweithredu fel "gorsaf bŵer rhithwir" drwy ddefnyddio capasiti cynhyrchu ar y cyd nifer o'u partneriaid. Gelwir ar y capasiti cynhyrchu ar y cyd hwn ar amseroedd prysuraf o alw ar Grid Cenedlaethol y DU pan fo capasiti cynhyrchu cenedlaethol dros ben ar lefel isel, sydd wedi cael ei achosi'n rhannol wrth gau gorsafoedd pŵer sy'n llai effeithlon ac sy'n achosi fwy o lygredd, gyda nifer ohonynt yn cael eu tanio gan lo. Mae'r Bwrdd lechyd yn derbyn budd-dal ariannol am gymryd rhan yn y rhaglen hon. Yn ogystal â hyn, mae'n caniatáu i'r generadur gael ei redeg ar lwyth llawn yn rheolaidd, sy'n sicrhau ei fod yn cael ei brofi'n dda ar gyfer ei ddechrau'n syth os oes angen. Mae generaduron nad ydynt yn cael eu profi'n rheolaidd yn fwy tebygol o fethu mewn sefyllfa frys, felly mae'r gweithgaredd hwn yn gwella ei ddibynadwyedd ac yn sicrhau ei fod yn barod.



Cydweithio

Rydym hefyd yn ymchwilio i gyfleoedd ar nifer o'n safleoedd ar gyfer araeau solar ffotofoltaidd graddfa fach a mawr, a allai ddod â manteision i'r sefydliad yn cynnwys lleihad pellach o ran faint o CO₂ a gynhyrchir.

Rydym wedi dechrau astudiaeth ddichonoldeb o ran defnyddio technoleg amgen, yn cynnwys gwres o ffynhonnell y ddaear geothermol / pypiau oeri yn un o'n prif ysbytai. Mae hon yn defnyddio'r ddaear fel batri storio thermol. Wrth i wres gormodol gael ei dynnu o aerdymheru, caiff ei storio yng nghorff y ddaear ar ddyfnder o dros 200 metr; pan fo angen gwres, caiff y cyflenwad ynni hwn ei adennill o'r ddaear gan gael ei aildefnyddio fel ffynhonnell o wres cychwynnol, wedi'i ategu os bydd angen dan ddulliau gwresogi ychwanegol. Mae modd gwyrddio'r broses hon fel bod modd storio "oer" mewn lleoliad ar wahân a'i adennill unwaith eto pan fo angen oeri.

Mae technoleg amgen eisoes ar waith yn Ysbyty Alltwen, lle mae boeler biomas (sglodion pren) ar waith. Caiff ei ddefnyddio dros gyfnod y gaeaf (o fis Hydref hyd at fis Mai) er mwyn cynnig gwresogi sylfaenol, sy'n cael ei ategu pan fo angen gan ddefnyddio gwresogi trwy nwy sy'n fwy confensiynol. Mae'r contract cyflenwi tanwydd ar gyfer y sglodion pren yn seiliedig ar allbwn gwres y tanwydd, sy'n rhoi cymhelliant i'r cyflenwr ddarparu sglodion pren o'r radd flaenaf sy'n llosgi'n dra effeithlon, gan leihau faint o danwydd y mae'n rhaid ei ddefnyddio.



Tymor Hir

Cludiant

Mae allyriadau teithio ac allyriadau sy'n gysylltiedig â charbon y Bwrdd Iechyd yn parhau i gael eu monitro, ac adroddir arnynt i Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys teithio busnes gan staff yn eu ceir eu hunain, a cherbydau fflyd y Bwrdd Iechyd, a throsglwyddo cleifion cymwys i'r ysbyty ac oddi yno.

Gwnaeth milltiroedd busnes cyffredinol ar gyfer y Bwrdd Iechyd ostwng ychydig yn 2018-19 i 15.158 miliwn o filltiroedd, ac mae mentrau ar y gwaith i leihau hyn ymhellach gan gynnwys adolygu'r fflyd lwyd, defnydd o geir pryddles a cheir cronfa, a hybu ffyrdd o osgoi teithio gan gynnwys defnyddio fideo-gynadledda a thechnoleg gysylltiedig.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i weithio'n agos gyda Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, wrth i ni symud yn nes at weld dyfodiad ateb newydd cenedlaethol y Fanyldeb Cludiant Cleifion nad yw'n Frys. Mae'r holl geisiadau am gludiant cleifion ad-hoc yn parhau i gael eu sianelu trwy gwndid unigol, gan sicrhau teithiau diogel a rheoledig ar gyfer cleifion trwy ddarparuwyd cludiant cymeradwy.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda Phartneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru i drosglwyddo ein gwasanaethau negesydd mewnol i Wasanaethau Negesydd Iechyd y GIG. Bydd y bartneriaeth yn creu effeithlonrwydd gan gynorthwyo gwell parhad a gwydnwch o ran y gwasanaeth.

	2017-18		2018-19	
	Tunelli CO ₂	Milltiroedd	Tunelli CO ₂	Milltiroedd
Ceir Pryddles Defnydd Preifat	599	2,590,257	638	2,760,038
Fflyd Lwyd	1,725	7,463,640	1,662	7,190,738
Ceir a Faniau y mae'r Bwrdd Iechyd yn berchen arnynt	1,297	5,278,560	1,277	5,207,685
Cyfanswm	3,620	15,332,457	3,576	15,158,461

Caffael cynaladwy

Caiff y rhan fwyaf o waith caffael y GIG yng Nghymru ei reoli'n genedlaethol trwy Bartneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru (NWSSP). Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau rwymo i brosesau caffael cyfunol, sy'n cadw at lefelau uchel o gynaladwyedd a chyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol.

Cyflwynodd NWSSP Bolisi Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol (CSR) yn 2011. Caiff contractau i gyflenwi nwyddau a gwasanaethau eu trefnu ar sail genedlaethol, rhanbarthol neu leol, gyda chymorth staff NWSSP, a chaiff yr holl weithgarwch ei ategu gan ddefnyddio'r Polisi Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol. Caiff Gwasanaethau Caffael eu hasesu trwy Fframwaith Asesu Caffael Cynaladwy Sector Cyhoeddus Cymru (SPAF).

Caiff ymagweddau caffael eu hanelu at ddod o hyd i gynhyrchion a gwasanaethau'n lleol a chefnogi mentrau bach a chanolig lle bo hyn yn ymarferol. Mae rhyw 50% o'r holl contractau bwyd Cymru gyfan gyda chynhyrchwyr a chyflenwyr o Gymru - daw'r holl laeth a gyflenwir i GIG Cymru o ffermydd yng Nghymru, caiff yr holl gig eidion ei fagu yng Nghymru, defnyddir cig oen o Gymru ar adegau o'r flwyddyn pan fydd ar gael a hynny am brisiau cystadleuol. Yn ogystal â chefnogi cymunedau ac economïau lleol, mae hyn yn lleihau effaith amgylcheddol cludiant a dosbarthu.

Adeiladu cynaladwy

Yn ystod y flwyddyn, gwnaeth y Bwrdd Iechyd ddatblygu ei Strategaeth Ystadau, a gafodd ei chymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Mai 2019. Mae hon yn rhan o gyfres o strategaethau galluogi i gefnogi'r weledigaeth gwasanaeth hirdymor a amlinellir yn ein strategaeth Byw'n Iach, Aros yn Iach.



Tymor Hir

Mae Byw'n Iach, Aros yn Iach yn sail i fframwaith strategol ein hystad ar gyfer y dyfodol, a chaiff ei gynllunio i gynorthwyo iechyd a lles, gwasanaethau cychwynnol a chymunedol trwy rwydwaith o ganolfannau lles. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymrwymedig i weithio gyda sefydliadau partner, gan gynnwys awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol, er mwyn datblygu atebion integredig a fydd yn gwneud y defnydd gorau o'n hasedau eiddo cyfunol waeth pwy yw'r perchnogion.

Caiff y rhwydwaith hwn ei gefnogi gan dri champws ysbyty llym sy'n cynnig gofal llym ac arbenigol ynghyd â gwasanaethau cymorth allweddol, yn rhai clinigol ac anghlinigol. Caiff ein portffolio eiddo presennol ei alinio i gefnogi'r 14 o ardaloedd lleol a thri champws ysbyty llym trwy raglen datblygu a rhesymoli wedi'i thargedu. Bydd maint a chapasiti'r ystad yn y dyfodol yn adlewyrchu'r newid o ran gofal yn nes at y cartref a modelau gwaith newydd. Bydd yn cefnogi datblygu cyfleusterau rhanbarthol yn cynnig canolfannau rhagoriaeth glinigol a gwasanaethau cymorth ar gyfer Gogledd Cymru gyfan.

Mae'r Strategaeth yn hybu ystad ar gyfer y dyfodol yn addas at ei diben ac mae'n darparu amgylchedd diogel ac effeithiol sy'n diwallu anghenion clinigol a busnes y Bwrdd Iechyd; yn gwella gofal cleifion; yn cefnogi gofalwyr, teuluoedd ac ymwelwyr; ac sy'n darparu amgylchedd gwaith priodol i staff.

Mae'r Strategaeth yn cynnig y cyfle i waredu risgiau cynnal a chadw uchel, arwyddocaol a chymedrol sydd wedi ôl-gronni, er mwyn cyrraedd yr holl dargedau perfformiad cenedlaethol, i leihau'r portffolio eiddo cyffredinol ac felly i leihau'n sylweddol cost yr ystad yn y tymor hwy.

Caiff y datblygiadau eu cynllunio i lunio ein heffaith ar yr amgylchedd, i fod yn gynaladwy ac i gynorthwyo lles economaidd, cymdeithasol a diwylliannol ehangach Gogledd Cymru.

I gyflawni hyn, bydd angen cryn fuddsoddi. Fodd bynnag, strategaeth hirdymor yw hon a bydd datblygiadau'n digwydd dros gyfnod o bymtheg mlynedd neu fwy, a bydd y Bwrdd Iechyd yn chwilio am ffynonellau cyllid eraill lle bo hyn yn briodol ac yn ddarbodus.

Wrth ddatblygu ein hystad, byddwn yn gwneud y canlynol:

- sicrhau cynllun cynhwysol trwy gyfranogiad cymunedau lleol;
- cydymffurfio â rheoliadau statudol ac arweiniad arfer gorau;
- ceisio cyrraedd safon Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BREEAM) o "da iawn" fel gofyniad gyda'r dyhead i gael "ardderchog" lle bo hynny'n ymarferol;
- lleihau ôl-troed carbon y Bwrdd Iechyd;
- cynorthwyo datrysiadau cludiant cynaladwy; ac
- optimeiddio caffael a llafur lleol i gynorthwyo'r economi leol.

Yn ystod 2018/19, dyrannwyd £50.884 miliwn i'r Bwrdd Iechyd er mwyn cyflawni ystod o brosiectau cyfalaf.

Gwnaethom gwblhau gwaith ailddatblygu Ysbyty Glan Clwyd. Yn ogystal â chynnig amgylchedd clinigol sy'n well o lawer i gleifion, cyflwyno technoleg newydd a mynd i'r afael ag ôl-groniadau o waith cynnal a chadw, roedd y prosiect yn cynnwys tynnu rhyw 300,000 o dunnelli o wastraff sydd wedi'i halogi gydag asbestos. Mae inswleiddio gwell, newid ffenestri gwydrog sengl a gosod systemau gwresogi mwy effeithlon oll wedi cyfrannu at berfformiad amgylcheddol gwell.

Cafodd Uned Canolfan Is-ranbarthol ar gyfer Gofal Dwys i'r Newydd-anedig newydd, sydd wedi'i lleoli yn Ysbyty Glan Clwyd ei hagor eleni, cwblhau ail gam gwaith datblygu'r Adran Achosion Brys yn Ysbyty Gwynedd ac agor Canolfan Iechyd Corwen.

Mae rhestr o gynlluniau cyfalaf a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys buddion amgylcheddol nodedig wedi'i nodi uchod yn yr adran Ynni a Rheoli Carbon.

Bioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol

Mae safleoedd y Bwrdd Iechyd yn ymestyn dros ran fawr o dir. Mae llawer o'n safleoedd yn gartref i amrywiaeth o fywyd gwyllt, gan gynnwys planhigion, anifeiliaid, adar a phryfed, y mae rhai o'r rhain yn rhywogaethau a warchodir.

Bydd unrhyw ddatblygiad safle yn cael rhyw fath o effaith ar fywyd gwyllt a chynefin ac o ganlyniad, mae ein heffaith ar fioamrywiaeth wedi'i nodi fel un o'n hagweddau amgylcheddol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi pennu nifer o nodau mewn perthynas â bioamrywiaeth:

- Cyfrannu at gadw bioamrywiaeth yng Nghymru ac yn y DU;
- Nodi a chreu ardaloedd bioamrywiaeth ar ein safleoedd;
- Hybu bioamrywiaeth trwy weithredoedd a datrysiadau syml ac ymarferol;
- Caiff ardaloedd glaswelltir eu rheoli fel 'dôl' gan ganiatáu i'r glaswelltir dyfu'n hir yn y gwanwyn a'r haf, ac yna eu torri ar ôl i'r blodau hadu ddiwedd yr haf.

Mae gan Ysbyty Glan Clwyd ddau bwl madfallod cribog, lagŵn, dau bwl ychwanegol, dolydd a chyfoethog cynefin naturiol ar gyfer rhywogaethau amrywiol o organebau byw yn creu ecosystem gyfan a pheillio naturiol. Mae'r ardaloedd hyn wedi'u gadael mewn cyflwr naturiol heb ddulliau rheoli gweithgar ond maent wedi gordyfu'n sylweddol. Mewn ymateb, rydym wedi datblygu cynllun bioamrywiaeth ar gyfer yr ardaloedd hyn er mwyn:

- Amddiffyn yr amgylchedd, ac yn benodol, y Madfallod Cribog a'u cynefinoedd, a sicrhau cydymffurfiaeth â'n rhwymedigaethau a deddfwriaeth berthnasol;
- Helpu i warchod bioamrywiaeth Ysbyty Glan Clwyd a'r ardal gyfagos;
- Cyfrifoldeb dros gynnal ac adfer pyllau madfallod cribog heb niwedio neu atal mynediad at eu cynefinoedd ac osgoi niwed i'r madfallod cribog;
- Peidio â chynyddu nifer y bobl, traffig neu lygryddion yn yr ardal;
- Annog mwy o lygryddion trwy reoli'r cynefin naturiol a'i rheoli'n well.

Mae prif gontractwr gwastraff cyffredinol y Bwrdd Iechyd yn parhau i noddi tri chwch gwenyn ar ran y Bwrdd Iechyd yng Nghanolfan Genedlaethol Cadw Gwenyn yng Nghonwy.

Crynodeb perfformiad - defnydd a gwastraff o ran adnoddau gwasanaeth

Mesur Gwasanaethau

Caiff data ei gasglu o amrywiaeth o ffynonellau, sy'n cynnwys datganiadau blynyddol gan gyflenwyr gwasanaethau, anfonebau casglu data, systemau monitro gwasanaethau mewnol mewn amser real a datganiadau ariannol blynyddol.

Mae cyflenwr ynni'r Bwrdd Iechyd yn hwyluso rhaglen barhaus i osod mesuryddion nwy a thrydan smart lle nad yw'r rhain eisoes ar waith ar safleoedd y Bwrdd Iechyd. Mae'r rhain yn rhoi gwybodaeth am ddefnydd yn uniongyrchol i'r sawl sy'n casglu data, a ddylai ganiatáu dosbarthu biliau sy'n fwy cywir ac amserol, ond mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn cymryd darlleniadau lleol er mwyn rhoi sicrwydd bod y darlleniadau awtomatig yn fanwl-gywir.

Mae gan ein mesuryddion nwy mwy o faint gywirwyr sy'n ystyried amrywiadau i dymereddau lleol er mwyn cael darlleniadau manylach o ddefnydd, mae ein mesuryddion trydan yn mesur tariffau gwahanol; yn ei hanfod, gall hyn adlewyrchu cyfraddau gwahanol ddydd a nos, yn achos ein safleoedd mwy o faint, efallai y bydd tariffau lluosog yn berthnasol.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithio gyda Dŵr Cymru hefyd er mwyn cael mynediad at eu rhwydwaith cenedlaethol o delemetreg mesuryddion dŵr masnachol, sef "Water Core". Mae hyn yn ein galluogi i fonitro ein defnydd o ddŵr o bell ar gyfer Ysbyty Gwynedd, Ysbyty Glan Clwyd, Ysbyty Cyffredinol Llandudno, Ysbyty Abergele ac Ysbyty Bryn-y-Neuadd yn Llanfairfechan. Mae hyn yn ein galluogi i sylwi ar unrhyw ddefnydd gormodol yn gyflym, gan helpu i nodi unrhyw ollyngiadau posibl y gallai fod angen ymchwilio iddynt. Byddwn yn ystyried ychwanegu safleoedd Bwrdd Iechyd pellach at y rhwydwaith hwn.

Rydym hefyd yn gwirio defnydd o wasanaethau pan gaiff biliau eu talu. Unwaith eto, mae'r gwiriadau hyn yn ein helpu i nodi unrhyw gynnydd annisgwyl o ran defnydd a allai awgrymu bod naill ai anghysondeb gyda'r broses bilio neu broblemau eraill sy'n gofyn am ymchwilio a sylw, fel gollyngiadau o'n systemau dŵr neu olew tanwydd. Dros y flwyddyn ddiwethaf, gwnaethom ganfod gollyngiad dŵr tanddaearol sylweddol yn Ysbyty Maelor Wrecsam a gollyngiad llai yn Ysbyty Llandudno, ac mae'r rhain wedi'u hunioni erbyn hyn.

Mae Cymorth Busnes Ystadau yn archwilio'r posibilrwydd o gael pecyn meddalwedd cyfan i reoli ynni a fydd yn coladu darlleniadau mesuryddion cyflenwyr ac yn darllen data yn awtomatig gan ddadansoddi tueddiadau cymeriant a defnydd. Y gobaith yw y bydd hefyd yn cynnig data allanol i'r system dalu er mwyn talu'r anfonebau gwasanaethau ar ôl gwiriadau a dilysu balansau.

Caiff cymhariaeth data 2018-2019 a gynigir yn y tabl Crynodeb Perfformiad ei lunio o ddata a dderbynnir hyd at ddiwedd blwyddyn 2018/19.

Allyriadau Ynni a Charbon

Allyriadau Nwyon Tŷ Gwyr		2016/17	Newid o'r flwyddyn flaenorol	2017/18	Newid o'r flwyddyn flaenorol	2018/19	Newid o'r flwyddyn flaenorol
Dangosyddion heb fod yn ariannol (Tunelli o CO ₂)	Cyfanswm Allyriad Gros	39,334	-10.1%	39,448	0.3%	39,524	0.2%
	Cyfanswm Allyriadau Net	39,334	-10.1%	39,448	0.3%	39,524	0.2%
	Allyriadau Gros Cwmpas 1* (Uniongyrchol) Nwy ac Olew	20,764	-7.6%	21,298	2.6%	25,700	20.7%
	Allyriadau Gros Cwmpas 2 a 3** (Anuniongyrchol)	18,570	-12.8%	18,150	-2.3%	13,824	-23.8%
Deunydd Ynni Perthynol (Tunelli o CO ₂)	Trydan : Anadnewyddadwy	0		0		0	
	Trydan : Cytundeb Cyflenwad Trydan Adnewyddadwy 'Gwyrdd'	18,570	-12.8%	18,150	-2.3%	13,824	-23.8%
	Nwy	20,358	-8.0%	20,022	-1.7%	22,124	10.5%
	LPG	0		0		0	
	Arall- Olew***	406	16.7%	Wedi'u hailddatgan 1297	Wedi'u hailddatgan 214%	3576	180.3%
Dangosyddion Ariannol (£)	Gwariant ar Ynni	8,437,285	-4.3%	8,667,513	2.7%	9,878,884	14.0%
	Gwariant Trwydded CRC (2010 Ymlaen)	120		120		120	
	Gwariant ar osod yn erbyn achrededig (e.e. GCOF)	0		0		0	
	Gwariant ar Deithio Busnes****	8,823,883	4.1%	8,769,017	-0.6%	9,566,443	9.1%

Nodiadau

***Cwmpas 1 - Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr Uniongyrchol** - Mae'r rhain yn codi o ffynonellau y mae'r sefydliad yn berchen arnynt neu a reolir ganddynt ac mae enghreifftiau yn cynnwys allyriadau o ganlyniad i hylosgiad mewn boeleri gwresogi y mae'r Bwrdd Iechyd yn berchen arnynt neu a reolir ganddynt, allyriadau gan ein cerbydau ac allyriadau o ollyngiad nwy o oergell.

****Cwmpas 2 - Allyriadau Ynni Anuniongyrchol** - Allyriadau o ganlyniad i gynhyrchu trydan a nwy a gyflenwir gan barti arall ar gyfer ei ddefnyddio mewn adeiladau eraill.

**** Cwmpas 3 - Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr Anuniongyrchol Eraill** - Allyriadau sy'n digwydd o ganlyniad i'n gweithgareddau, ond nad yw'r Bwrdd Iechyd yn berchen arnynt yn uniongyrchol neu nad yw'n eu rheoli yn uniongyrchol, yn cynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â threuliant gwastraff a dŵr, caffaeliad cynaladwyedd, cynllunio camau gweithredu bioamrywiaeth ac allyriadau sy'n gysylltiedig â chostau teithio busnes swyddogol a delir yn uniongyrchol gan y sefydliad.

*****Arall (olew)** - mae'r wybodaeth a roddir yn dangos cyfanswm cyfaint (litrau) o danwydd cerbydau a brynir ar gyfer ceir a faniau'r Bwrdd Iechyd trwy gardiau tanwydd a'u troi'n CO₂. **Ar gyfer 2018/19, mae'r dangosydd hwn hefyd yn cynnwys cerbydau prydles breifat a fflyd lwyd. (Os caiff y cerbydau hyn eu hepgor, y ffigur ar gyfer 2018/19, wedi'u cyfrifo ar yr un sail ag mewn blynyddoedd blaenorol fyddai wedi bod yn 1277 tCO₂.)** Mae'r ffigur ar gyfer 2017/18 wedi cael ei ailddatgan gan fod camgymeriad blaenorol wedi'i ddynodi wrth gwblhau'r cyfrifiadau ar gyfer y llynedd.

********Mae'r ffigur hwn yn cynnwys cyfanswm costau tanwydd drwy gardiau busnes ac ad-daliadau i staff, yn ogystal â chostau eraill yn gysylltiedig â'r defnydd o gerbydau yn cynnwys yswiriant a chynnal a chadw cerbydau'r Bwrdd Iechyd, tacsis a gwasanaethau negeswyr a chludiant heb fod yn frys i gleifion a ddarperir gan Wasanaeth Ambiwlans Cymru.

Mesurir Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr drwy gasglu data treuliant corfforaethol a throsi'r data hwn i gyfwerthoedd carbon deuocsid (CO₂e). Gwneir hyn drwy ddefnyddio ffactorau cyfnewid swyddogol a gyhoeddir gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Diwydiannol, ar gyfer mathau gwahanol o danwydd, yn achos trydan, yn unol â gwlad y tarddiad i adlewyrchu amrywiadau cenedlaethol o ran sut mae trydan yn cael ei gynhyrchu ac effeithlonrwydd trawsyriad. Mae'r ffigurau hyn wedi cael eu defnyddio i gyfrifo allyriadau carbon deuocsid corfforaethol, a gall y newidiadau o ran allyriadau carbon deuocsid y Bwrdd Iechyd a adroddir arnynt uchod gael eu priodoli yn rhannol i newidiadau yn y ffactorau cyfnewid hyn.

Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi gweld datblygiadau mawr ar safle Ysbyty Glan Clwyd a gweithgarwch adeiladu newydd yn Ysbyty Maelor Wrecsam ac Ysbyty Gwynedd, yn ogystal â datblygu cyfleusterau cymunedol newydd.

Rydym yn achub ar y cyfleoedd hyn i gyflwyno technolegau newydd er mwyn gwella effeithlonrwydd ynni a lleihau defnydd pŵer a dŵr. Fodd bynnag, caiff y gwelliannau hyn eu gosod i raddau mwy neu lai, fel arfer, gan yr angen i gynnig amgylchedd clinigol modern, a allai fod yn fwy o faint ac a allai gynnwys offer a chyfarpar i gynorthwyo gwresogi ac aerdymheru mannau penodol er mwyn cynnal tymereddau critigol ac ansawdd aer. Efallai hefyd y bydd datblygiadau newydd yn cynnwys technolegau clinigol a gwasanaethau arbenigol newydd i gynorthwyo'r prosesau diagnostig a thriniaeth sy'n creu galw ychwanegol ar gyflenwadau trydanol.

Rydym wedi sicrhau lleihad o 0.19% mewn allyriadau CO₂ gros cyfatebol sy'n deillio o'n defnydd o ynni dros y flwyddyn ddiwethaf. Fodd bynnag, gwnaeth ein gwariant ar ynni gynyddu o 13.9%, sy'n adlewyrchu prisiau ynni sy'n codi a hefyd addasiadau i'r ffactorau trosi sy'n cael eu defnyddio i gyfrifo ein hallyriadau o garbon deuocsid. Bu newid o ran cydbwysedd ein defnydd o ffynonellau ynni, gyda defnydd llai o ynni a defnydd cynyddol o nwy.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhan o grŵp ynni GIG Cymru sy'n prynu nwy a thrydan ymlaen llaw, am brisiau mwy ffafriol na'r pris "diwrnod ymlaen llaw" y bydd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn ei dalu. Mae hyn yn ffordd o ddiogelu rhag amrywiadau pris sydd wedi achosi gan newidiadau i alw a chyflenwad, fel y rhai sy'n deillio o effaith y tywydd, cytundebau cynhyrchu OPEC neu darfu ar gyflenwadau. Mae prisiau nwyddau'n cyfrif am ryw 60% o'r bil ynni cyffredinol, a chaiff y balans ei gyfrifyddu ar ffurf taliadau trawsyrru/cludo, costau mesuryddion ac ardollau newid yn yr hinsawdd. Mae grŵp ynni GIG Cymru yn monitro'r ffactorau hyn i ragweld yr amser gorau i brynu ymlaen llaw.

Mae gwariant ar deithio wedi cynyddu, sy'n adlewyrchu'r cynnydd mewn galw a'r defnydd o wasanaethau cludiant cleifion a chostau cynyddol yswiriant, cynnal a chadw a les. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi symud tuag at safoni ei fflyd o geir cronfa ar gerbydau injan petrol 1 litr. Er bod hyn yn unol ag argymhellion cenedlaethol i fynd i'r afael â phryderon ansawdd aer, mae cerbydau petrol yn cynnig effeithlonrwydd tanwydd is, a fydd wedi cyfrannu at y gwariant cynyddol hefyd.

Gwastraff

Gwastraff		2016/17	Newid o'r flwyddyn flaenorol	2017/18	Newid o'r flwyddyn flaenorol	2018/19	Newid o'r flwyddyn flaenorol
Dangosyddion heb fod yn ariannol (tunelli)	Cyfanswm Gwastraff	4586	-8.2%	5,333	16.3%	5289	-0.8%
	Tirlenwad	370	34.5%	217	-41.4%	116	-46.5%
	Ailddefnyddio / Ailgylchu	2,258	-18.4%	3,025	34.0%	3200	5.8%
	Compostio	0		0		0	
	Llosgwyd gan adfer ynni	0		0		328	
	Llosgwyd heb adfer ynni	260	-11.6%	340	30.8%	0	-100%
Dangosyddion Ariannol (£)	Cyfanswm costau gwaredu	1,440,446	1.7%	1,169,840	-18.8%	1,152,445	-1.5%
	Tirlenwi	51,613	49.5%	51,032	-1.1%	25,439	-50.2%
	Ailddefnyddio / Ailgylchu	371,076	-5.3%	411,044	10.8%	460,860	12.1%
	Compostio	0		0		0	
	Llosgwyd gan adfer ynni	0		0		152,879	
	Llosgwyd heb adfer ynni	203,755	1.9%	145,401	-28.6%	0	-100%

Nodiadau

Mae tunelledd wedi'i ailddefnyddio/ailgylchu a chostau'n cynnwys WEEE (gwastraff, offer trydanol ac electronig).

Mae Cyfanswm Gwastraff Tunnell a chost gwaredu'n cynnwys gwastraff Triniaeth Gwres Amgen (AHT), yn ogystal â thirlenwi, ailddefnyddio/ailgylchu a llosgi (Gwastraff AHT 2018/19: 1645 o dunnell; £520,310).

Bu cyfanswm cyfaint gwastraff ychydig yn is y llynedd. Mae hyn yn adlewyrchu gwelliannau o ran rhai ffrydiau gwastraff penodol (gan gynnwys gwastraff, offer trydanol ac electronig – WEEE) a chyfaint llai o wastraff wedi'i greu yn Ysbyty Glan Clwyd. Mae ein tîm amgylcheddol wed gweithio gyda'n contractwyr gwastraff i wella lefel y gwastraff sy'n cael ei anfon i'w ailgylchu, sydd wedi helpu'n sylweddol i wella cyfaint y gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi yn y pen draw. Nod y Bwrdd lechyd yw peidio ag anfon unrhyw wastraff i safleoedd tirlenwi erbyn y flwyddyn 2025.

Er bod ynni'n cael ei adfer o wastraff clinigol i'w anfon i gael ei losgi mewn blynyddoedd blaenorol, ni chawsom ddigon o sicrwydd a thystiolaeth er mwyn caniatáu adrodd ar hyn. Rydym bellach yn cael y cadarnhad angenrheidiol bod hyn yn digwydd.

Mae'r ffigurau Cyfanswm Gwastraff a nodir uchod hefyd yn cynnwys gwastraff triniaeth gwresogi amgen (AHT), sy'n cael ei ailgylchu a'i ailddefnyddio fel ffynhonnell tanwydd, ond nad yw'n perthyn i'r is-gategoriâu adrodd yn y tabl.

Dŵr

Treuliant Adnoddau Cyfyngedig		2016/17	Newid o'r flwyddyn flaenorol	2017/18	Newid o'r flwyddyn flaenorol	2018/19	Newid o'r flwyddyn flaenorol
Dangosyddion heb fod yn ariannol (m ³)	Defnydd Dŵr (cyfan) cyflenwyd echdynnwyd	486,407 0	5.4%	528,694 0	8.7%	588,127	11.2%
	Defnydd Dŵr (Ystadau nad ydynt yn Swyddfeydd) cyflenwyd echdynnwyd	0 0		0 0		0	
Dangosyddion Ariannol (£)	Costau Cyflenwi Dŵr (Pawb)	1,279,850	8.3%	1,448,191	13.2%	1,671,199	15.4%
	Costau Cyflenwi Dŵr (Ystadau nad ydynt yn Swyddfeydd)	0		0		0	

Daeth y prif amrywiad o ran defnydd dŵr o ganlyniad i ollyngiad tanddaearol mawr o ddŵr yn Ysbyty Maelor Wrecsam. Er i hyn gael ei ganfod o'n gweithgarwch monitro defnydd a nododd ddefnydd ychwanegol o ryw 300 litr bob dydd, cymerodd nifer o fisoedd i ddod o hyd iddo ac yna i'w unioni'n llwyddiannus gan nad oedd y gwaith atgyweirio cychwynnol wedi arwain at ddatrysiad llwyr. Er i hyn arwain at gost ariannol hefyd, roedd y Bwrdd lechyd yn gallu trafod ad-daliad carthffosiaeth mewn perthynas â dŵr a gollwyd lle nad oedd angen trin carthffosiaeth.

Tueddiadau Gwariant Tymor Hir

Mae gofyn i'r Bwrdd Iechyd ddatgelu y tueddiadau gwariant ar gyfer y pum mlynedd ariannol ddiwethaf. Mae'r Datganiadau Cyfrifon yn darparu dadansoddiad manwl o wariant sy'n cael ei ddsbarthu dan dri phrif bennawd:

- Gwariant ar Wasanaethau Gofal Iechyd Cychwynnol. Mae hyn yn cynnwys gwariant ar y contractau Gofal Cychwynnol ar gyfer Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, Gwasanaethau Fferyllol, Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol, Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol, Cyffuriau ac Offer a Ragnodir, a Gwariant Gofal Iechyd Cychwynnol eraill.
- Gwariant ar Ofal Iechyd gan Ddarparwyr Eraill. Mae hyn yn cynnwys gwariant gyda sefydliadau GIG eraill, Awdurdodau Lleol, Sefydliadau Gwirfoddol, darparwyr preifat a gofal iechyd parhaus a nyrsio a ariennir gan y GIG.
- Gwariant ar Wasanaethau Ysbyty ac Iechyd Cymunedol. Mae'r gwariant hwn yn cynnwys bob gwasanaeth sy'n cael eu darparu gan y Bwrdd Iechyd yn yr ysbyty ac yn y gymuned.

Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o wariant ar gyfer bob un o'r prif benawdau ar gyfer y pum mlynedd ariannol ddiwethaf. Y Perfformiad yn Erbyn Cyfyngiad Adnoddau Refeniw. Mae hwn yn dangos perfformiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn y cyfyngiad adnoddau cyffredinol penodol.

Pennawd gwariant	2014/2015 £'m	2015/2016 £'m	2016/2017 £'m	2017/2018 £'m	2018/2019 £'m
Gwasanaethau Gofal Cychwynnol	294.6	297.1	300.3	302.4	309.3
Gofal Iechyd gan ddarparwyr eraill	301.5	310.3	323.7	347.6	361.1
Gwasanaethau Iechyd Ysbyty a Chymuned	836.9	868.8	915.1	968.2	1,004.7
Perfformiad yn Erbyn Cyfyngiad Adnoddau Refeniw	(26.6)	(19.5)	(29.8)	(38.8)	(41.3)

Datganiad Ansawdd Blynyddol

Mae Datganiad Ansawdd Blynyddol y Bwrdd Iechyd yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon. Gellir lawrlwytho copi o wefan y Bwrdd Iechyd ar <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/tudalen/40900>.

Mae'r Datganiad Ansawdd Blynyddol yn rhoi mwy o fanylion am ansawdd ein gwasanaethau clinigol a gofal, a'r gwaith sy'n cael ei wneud i wella'r rhain.

Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Y Bwrdd

Cadeirydd y Bwrdd Iechyd hyd at 31 Awst 2018 oedd Dr Peter Higson. Cafodd ei olynu ar 1 Medi 2018 gan Mr Mark Polin. Y Prif Weithredwr yw Mr Gary Doherty.

Yn ystod y flwyddyn croesawyd Mrs Sue Green, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol, Mr Mark Wilkinson, Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad, a Dr Chris Stockport, Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Gofal Cychwynnol a Chymuned ar y Bwrdd. Penodwyd Ms Helen Wilkinson, Mrs Lucy Reid a'r Cynghorydd Medwyn Hughes ar y Bwrdd fel Aelodau Annibynnol. Ymunodd Mrs Jacqueline Hughes â'r Bwrdd fel Aelod Annibynnol a chynrychiolydd Undebau Llafur, ymunodd Mrs Morwena Edwards â'r Bwrdd fel Aelod Cyswllt ac fel Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mrs Sally Baxter oedd y Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Strategaeth o 14 Mai 2018 hyd at 18 Tachwedd 2018.

Mae aelodaeth lawn o'r Bwrdd i'w weld yn fanwl yn Atodiad 1 y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, ac yn yr Adroddiad Tâl ar dudalen 66 i 74 o'r ddogfen hon.

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hefyd yn amlinellu manylion llawn strwythur pwyllgor cefnogi'r Bwrdd (Adran 14) a'u haelodaeth (Atodiad 1).

Pwyllgor Archwilio

Yn unol â'r safonau llywodraethu da sy'n ofynnol o'r GIG yng Nghymru, mae gan y Pwyllgor Archwilio'r rôl allweddol o gynghori'r Bwrdd a chynnig sicrwydd iddynt fod gan y sefydliad drefniadau llywodraethu effeithiol yn eu lle ac sy'n cefnogi gwneud penderfyniadau cadarn. Roedd ei aelodaeth yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

Cadeirydd	Mr Ceri Stradling Cyngh Medwyn Hughes	Aelod Annibynnol (31 Awst 2018) Aelod Annibynnol (o 6 Medi 2018)
Is-Gadeirydd	Mr John Cunliffe	Aelod Annibynnol
Aelodau	Mrs Jacqueline Hughes Ms Lucy Reid	Aelod Annibynnol (o 6 Medi 2018) Aelod Annibynnol (o 6 Medi 2018)
Yn bresennol (Cyfarwyddwr Arweiniol)	Mrs Grace Lewis-Parry Mr Russ Favager	Ysgrifennydd y Bwrdd Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid

Datganiadau o Fuddiant y Cyfarwyddwyr

Mae angen i holl aelodau'r Bwrdd ddatgan unrhyw fuddiant sydd ganddynt a all effeithio ar eu hamhleidioldeb o ran eu gwaith yn y Bwrdd Iechyd.

Mae'r Cyfarwyddwyr a'r Aelodau Bwrdd canlynol wedi datgan eu buddiannau ar gyfer 2018/19 fel a ganlyn:

Enw	Swydd	Buddiannau
Mr G Doherty	Prif Weithredwr	<ul style="list-style-type: none"> Ymddiriedolwr o "Dangerpoint", elusen sy'n darparu hyfforddiant iechyd a diogelwch i blant ar draws Gogledd Cymru Gwraig yn gyflogedig gan Addysg Iechyd Lloegr
Dr E Moore	Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol	<ul style="list-style-type: none"> Priod yn Gyfarwyddwr Clinigol, Llawfeddygaeth y Fron ac Endocrin yn Ymddiriedolaeth GIG Ysbyty Addysgu Prifysgol Royal Liverpool a Broadgreen.
Mr G Lang	Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth	<ul style="list-style-type: none"> Aelod o Fwrdd Llywodraethwyr Coleg Cambria
Mr A Thomas	Cyfarwyddwr Gweithredol, Therapiau a Gwyddorau Iechyd	<ul style="list-style-type: none"> Priod wedi'i chyflogi gan Boots UK Cyf fel Technegydd Gwirio Cywirdeb Wedi'i gyflogi fel Aelod o banel Cyngor Proffesiynol Gofal Iechyd.
Mr R Favager	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid	<ul style="list-style-type: none"> Merch yn gyflogedig ar Gynllun Graddedigion GIG Cymru yn BIPBC
Dr J C Stockport	Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Gofal Cychwynnol a Chymuned	<ul style="list-style-type: none"> Cyngor achlysurol fel arbenigwr ymgynghorol Sefydliad Iechyd y Byd ar ofal cychwynnol integredig: ad-dalir treuliau sylfaenol, nid yw'n cael cyflog.

Dr P Higson OBE	Cadeirydd	<ul style="list-style-type: none"> Seicolegydd Clinigol hunan gyflogedig Ymddiriedolwr Cartrefi Cymru
Mark Polin OBE QPM	Cadeirydd	<ul style="list-style-type: none"> Gwraig yn gyflogedig gan BIPBC
Mrs M Hanson	Is-gadeirydd	<ul style="list-style-type: none"> Gŵr yw'r Gwir Anrhydeddus David Hanson, AS ar gyfer Delyn
Mrs M W Jones	Aelod Annibynnol o'r Bwrdd ac Is Gadeirydd	<ul style="list-style-type: none"> Aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (hyd at fis Gorffennaf 2018) Aelod o Bwyllgor Mind Cymru (hyd at fis Gorffennaf 2018) Is gadeirydd Cyngor Celfyddydau Cymru Cadeirydd Cyngor Prifysgol Bangor Ymddiriedolwr o Ganolfan Gerdd William Mathias Ymddiriedolwr o Ymddiriedolaeth Kyffin Williams Chwaer a dwy nith yn gyflogedig gan BIPBC
Mr J Cunliffe	Aelod Annibynnol o'r Bwrdd	<ul style="list-style-type: none"> Cyfarwyddwr Abernet Ltd Aelod o Bwyllgor Archwilio ar y cyd, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru Gwraig yn gweithio i BIPBC

Enw	Swydd	Buddiannau
Cyng C Carlisle	Aelod Annibynnol o'r Bwrdd	<ul style="list-style-type: none"> • Aelod Cabinet dros Blant, Teuluoedd a Diogelu ar Gyngor Bwrdeistref Conwy • Dirprwy Arweinydd Cyngor Bwrdeistrefol Conwy • Aelod o Banel Mabwysiadu ar y cyd Conwy a Sir Ddinbych • Aelod Arweiniol ar gyfer plant ar Gyngor Bwrdeistrefol Conwy • Arweinydd Grŵp o'r Grŵp Ceidwadol ar Gyngor Bwrdeistrefol Cyngor Sir Conwy • Dirprwy Gadeirydd (Gwleidyddol) Cymdeithas Geidwadol Gorllewin Clwyd • Ysgrifenyddes clwb pêl-droed lleol Hen Golwyn • Aelod Pwyllgor, Cymdeithas Preswylwyr Hen Golwyn • Aelod Pwyllgor, Canolfan Cymuned Tan Lan
Cynghorydd Medwyn Hughes	Aelod Annibynnol a Chynrychiolydd Awdurdod Lleol	<ul style="list-style-type: none"> • Cynghorydd Cyngor Gwynedd • Cynghorydd Dinas Bangor
Mrs L J Reid	Aelod Annibynnol o'r Bwrdd	<ul style="list-style-type: none"> • Anakrisis Ltd (Ymgynghoriaeth Rheoli) - darparu ymgynghoriaeth a hyfforddiant i sefydliadau GIG yn Lloegr • Cadeirydd Tribiwnlys ar gyfer Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol y Cyngor Meddygol Cyffredinol • Ynad ar Feinciau Teulu a Throseddol Gogledd Cymru - Gwasanaeth Llys a Thribiwnlys EM • Cynghorydd arbenigol i'r Comisiwn Ansawdd Gofal • Priod yn Feddyg Teulu lleol yn Sir Ddinbych
Mrs B Russell-Williams	Aelod Annibynnol o'r Bwrdd	<ul style="list-style-type: none"> • Prif Swyddog Gweithredol Mantell Gwynedd (corff ambarel Trydydd Sector) • Nifer o aelodau'r teulu yn gyflogedig gan BIPBC
Yr Athro J Rycroft-Malone	Aelod Annibynnol o'r Bwrdd a Chynrychiolydd y Brifysgol	<ul style="list-style-type: none"> • Gŵr yn gweithio i BIPBC • Cyfarwyddwr Rhaglen - Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Rhaglen Ymchwil Iechyd, NIHR HS a DR
Mr C Stradling	Aelod Annibynnol o'r Bwrdd	<ul style="list-style-type: none"> • Is-Gadeirydd Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Lleol dros Gymru • Aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Ms H Wilkinson	Aelod Annibynnol o'r Bwrdd	<ul style="list-style-type: none"> • Prif Weithredwr Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych (NEWVOL)
Mr Ff Williams	Aelod Cyswllt o'r Bwrdd-Cadeirydd, Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid	<ul style="list-style-type: none"> • Gwraig yn gyflogedig gan BIPBC • Chwaer a brawd yng nghyfraith yn gweithio i Wasanaethau Iechyd Meddwl ym Mangor (Gwasanaethau Plant) • Prif Weithredwr Cartrefi Cymunedol Gwynedd, cymdeithas tai sy'n gweithredu yn bennaf y tu allan i Wynedd. Yn gweithio'n agos â Chyfarwyddwr Ardal BIPBC

Diogelwch Data

Ysgrifennydd y Bwrdd sy'n gyfrifol am lywodraethu gwybodaeth yn y Bwrdd Iechyd, ac mae'n gweithredu fel Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth. Y Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Gwybodaeth a Sicrwydd yw Swyddog Diogelu Data'r Bwrdd Iechyd yn unol â gofynion y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol newydd. Yr Uwch Gyfarwyddwr Cyswllt Meddygol yw'r Gwarcheidwad Caldicott a enwebwyd. Ni thorrodd y Bwrdd Iechyd unrhyw doriadau diogelwch data a oedd angen eu cyfeirio at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth na Llywodraeth Cymru. Hyd yma mae chwech o'r digwyddiadau sydd wedi'u hadrodd wedi eu cau gan y Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth ac nid oes angen gweithredu ymhellach. Ni chafodd y Bwrdd unrhyw gosbau ariannol yn ystod y flwyddyn. Mae gwybodaeth ar berfformiad gwybodaeth llywodraethu wedi'i gynnwys yn adran 30.1 y Datganiad Llywodraethu Blyneddol.

Cydymffurfio â gofynion dyrannu costau.

Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn rhan o ymrwymiad y Llywodraeth i fod yn fwy agored yn y sector cyhoeddus. Yr egwyddor sylfaenol yw y dylai pob gwybodaeth nad yw'n bersonol a gedwir gan gyrff cyhoeddus fod ar gael yn hawdd, onid oes cost neu os oes eithriad yn bodoli.

Rydym wedi ymrwymo i gydymffurfio â'r Ddeddf hon, ac unrhyw arweiniad Llywodraeth Cymru cysylltiedig ac ymdrechu i sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd drwy ein Cynllun Cyhoeddi: <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/tudalen/41160>

Datganiad ar gyfrifoldebau'r Prif Weithredwr fel Swyddog Atebol y Bwrdd Iechyd Lleol (BILI)

Mae Gweinidogion Cymru wedi cyfarwyddo mai'r Prif Weithredwr ddylai fod yn Swyddog Atebol i'r BILI. Mae cyfrifoldebau perthnasol y Swyddogion Atebol, gan gynnwys eu cyfrifoldeb o ran priodoldeb a chysondeb y cyllid cyhoeddus y maent yn atebol amdanynt, ac o ran cadw cofnodion priodol, wedi'u hamlinellu yn Memorandwm y Swyddog Atebol a roddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Hyd y gwn i ac y creda i, rwyf wedi cyflawni'r cyfrifoldebau a fynegwyd yn fy llythyr penodi fel Swyddog Atebol yn gywir.

Rwyf yn cadarnhau fy mod, fel Swyddog Atebol, wedi cymryd y camau priodol i fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i ddangos bod archwilwyr y Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Cyn belled â fy mod yn ymwybodol, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw Archwilwyr y Bwrdd Iechyd yn ymwybodol ohoni.

Rwyf yn cadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn gyffredinol yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ac rwyf yn cymryd cyfrifoldeb personol am y rhain a'r dyfarniad angenrheidiol ar gyfer pennu fod hyn yn wir.



Gary Doherty
Prif Weithredwr

Dyddiedig: 30 Mai 2019

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr o ran y cyfrifon

Mae gofyn i'r Cyfarwyddwyr, o dan y Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, baratoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Mae Gweinidogion Cymru, gyda chymeradwyaeth y Trysorlys yn cyfarwyddo bod y cyfrifon hyn yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r BILL ac o incwm a gwariant y BILL ar gyfer y cyfnod.

Wrth baratoi'r cyfrifon hynny, mae gofyn i'r cyfarwyddwyr:

-ddefnyddio egwyddorion cyfrifeg a osodwyd gan Weinidogion Cymru gyda chymeradwyaeth y Trysorlys yn gyson.

-barnu a gwneud amcangyfrifon sy'n rhesymol a doeth.

-nodi a yw safonau cyfrifyddu perthnasol wedi cael eu dilyn, yn destun i unrhyw wyriad materol sy'n cael eu datgelu a'u hegluro yn y cyfrifon.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn cadarnhau eu bod wedi cydymffurfio â'r gofynion uchod wrth baratoi'r cyfrifon.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifeg briodol sy'n datgelu sefyllfa ariannol yr awdurdod â chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg ac yn eu galluogi i sicrhau bod y cyfrifon yn cydymffurfio â'r gofynion a amlinellir yng nghyfarwyddyd Gweinidogion Cymru uchod.

Ar orchymyn y Bwrdd


Llofnodwyd ar ran y Bwrdd



Mark Polin
Cadeirydd
30 Mai 2019



Gary Doherty
Prif Weithredwr
30 Mai 2019



Sue Hill
Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro
30 Mai 2019

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Mae ein Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn disgrifio ein trefniadau llywodraethu, strwythur ein pwyllgorau a'r system rheoli fewnol. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am:

- Rôl a chyfansoddiad y Bwrdd
- Trefniadau ein pwyllgor
- Ein trefniadau i reoli risg
- Sut mae'r Bwrdd Iechyd yn ymateb i gael ei roi mewn Mesurau Arbennig
- Prosesau Ansawdd a Llywodraethu
- Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol
- Ein trefniadau cynllunio

Mae Datganiad Llywodraethu Blynyddol llawn yn cael ei ddarparu fel ychwanegiad i'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

Polisiau ar gyfer tâl staff ac uwch reolwyr

Mae Uwch Reolwyr yn cael eu diffinio fel y rhai sydd ag awdurdod neu gyfrifoldebau i gyfarwyddo a rheoli prif weithgareddau'r Bwrdd Iechyd yn gyffredinol, mae'r diffiniad hwn yn cynnwys y gweithwyr ac Aelodau Annibynnol sy'n mynychu cyfarfodydd y Bwrdd yn rheolaidd. Datgelir enwau a theitlau aelodau'r Bwrdd yn y tabl cyflog isod.

O Hydref 2004, cyflwynwyd y broses Agenda ar gyfer Newid y GIG, i gyflawni cysondeb mewn contractau ac amodau a thelerau ar draws GIG Cymru. Rhoddir contract Cymru gyfan i bob aelod o staff a rheolwyr (gan eithrio cyfarwyddwyr) pan eu penodir. Cytunwyd ar ddiwygiadau i strwythurau Agenda ar gyfer Newid y GIG am dair blynedd gan ddechrau 1 Ebrill 2018. Fel rhan o hyn, cynyddwyd gwerth y prif bwyntiau cyflog ar gyfer Bandiau 2 i 8b yn 2018/19 o 3% (4.17% ar gyfer Band 2).

Mae GIG Cymru wedi mabwysiadu'r Cyflog Byw. Felly mae cyflog staff ar bwyntiau cyflog islaw'r isafswm Cyflog Byw yn cael ei addasu i fodloni cyfradd yr awr Cyflog Byw. Ar gyfer 2018/19 addaswyd cyflogau staff Agenda ar gyfer Newid Bandiau 1 a 2 sydd ar bwyntiau cyflog 1 i 5 er mwyn bodloni'r gyfradd isaf yr awr o £8.92 yr awr.

Llywodraethir staff meddygol a staff deintyddol gan amodau a thelerau meddygol a deintyddol sy'n berthnasol ar draws GIG Cymru.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymhwyso polisi GIG Cymru ar ddilyniant cynyddrannol ar gyfer staff ar raddfeydd cyflog Agenda ar gyfer Newid, sy'n cynnwys gweithredu'r broses Adolygu Datblygiad Gwerthuso Perfformiad.

Nid yw cyfarwyddwyr yn rhan o'r broses hon ac mae graddfa cyflog uwch reolwyr wedi cael ei gyflwyno gan Lywodraeth Cymru. Penderfynir ar dâl yn genedlaethol ac fe'u defnyddir yn lleol yn seiliedig ar gyfarwyddiadau gan Lywodraeth Cymru. Cadarnhawyd nad yw'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu system dâl sy'n gysylltiedig â pherfformiad ar gyfer uwch reolwyr. Mae bob contract yn barhaol, ac mae bob cyfnod rhybudd ar gyfer uwch reolwyr yn dri mis.

Penodir Aelodau Annibynnol am gyfnod o hyd at bedair blynedd (a gellir eu penodi am uchafswm o wyth mlynedd). Mae Aelodau Annibynnol yn derbyn tâl a benderfynir arno'n genedlaethol yn ystod eu penodiad.

Y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth

Sefydlwyd y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth ym mis Ionawr 2015. Daeth Cadeirydd y Bwrdd Iechyd, Mr Mark Polin, yn Gadeirydd y Pwyllgor pan ymunodd â'r Bwrdd Iechyd ym mis Medi 2018.

Yn ystod y cyfnod adrodd 2018/19 bu i'r Pwyllgor gyfarfod ar bum achlysur, yn cynnwys pedwar cyfarfod cyhoeddus, ac i ddilyn gydag adran o'r agenda heb y cyhoedd ble roedd gwybodaeth sensitif neu gyfrinachol yn cael ei drafod, ac un cyfarfod arbennig heb y cyhoedd.

Roedd prif fusnes y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- ystyried adroddiadau blynyddol Cofrestrriad Cyngor Nyrsio a Bydwagedd (NMC) ac Ailddilysiad, adroddiadau Cynnal Safonau Proffesiynol yng Nghymru, diweddariad ar adolygiad tâl gydag adroddiadau ar asesiad effaith ar gydraddoldeb a diogelu cyflog;
- adolygu ac aildrefnu portffolio gweithredwr a thâl gweithredwyr a chyfarwyddwyr; cymeradwyo neu gadarnhau polisïau Di Fwg, Rheoli Presenoldeb ac Amodau Tywydd Anffatriol ac Amhariad ar Gludiant, Amser i Fwrdd yn lle, Diwedd y Mislif GIG Cymru a Newid Sefydliadol GIG Cymru, a
- materion yn ymwneud â Meddygfeydd a Reolir.

Cadeirydd	Dr Peter Higson Mr Mark Polin	Cadeirydd (hyd at 31 Awst 2018) Cadeirydd (o 1 Medi 2018)
Aelodau	Mrs Margaret Hanson Mrs Marian Wyn Jones Mr Ceri Stradling Mrs Lyn Meadows Mrs Jacqueline Hughes Cyngh Medwyn Hughes	Is-Gadeirydd (hyd at 31 Mai 2018) Is-Gadeirydd (o 1 Mehefin 2018) Aelod Annibynnol (hyd at 31 Awst 2018) Aelod Annibynnol (hyd at 31 Awst 2018) Aelod Annibynnol (o 1 Gorffennaf 2018) Aelod Annibynnol (o 1 Medi 2018)
Yn bresennol	Mr Gary Doherty	Prif Weithredwr
Swyddog Arweiniol (yn bresennol)	Mrs Sue Green	Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol

Perthnasau Tâl

Mae angen i gyrff adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng tâl y cyfarwyddwr sy'n ennill y tâl uchaf yn eu sefydliad a thâl canolrif gweithlu'r sefydliad. Gellir gweld y wybodaeth yn Nodyn 9.6 o'r Cyfrifon Blynyddol, ar dudalen 33A y ddogfen hon.

Y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog uchaf yn 2018/19 ac yn 2017/18 oedd y Prif Weithredwr. Yn 2018/19 derbyniodd un ar ddeg o weithwyr dâl a oedd yn uwch na thâl y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf (o'i gymharu â naw gweithiwr yn 2017/18). Mae'r gweithwyr hyn i gyd yn uwch glinigwyr. Yn ychwanegol, derbyniodd tri gweithiwr asiantaeth dâl a oedd yn uwch na thâl y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf.

Pecynnau ymadael a thaliadau diswyddo

Yn ystod 2018/19 cytunodd y Bwrdd lechyd un taliad diswyddiad ar gyfer uwch reolwr, mae'r manylion wedi'i gynnwys yn y nodyn yn y tabl tâl isod. Gellir gweld manylion yr holl daliadau diswyddo y cytunwyd arnynt yn ystod y flwyddyn yn nodyn 9.5 o'r Cyfrifon Blynyddol ar dudalen 32A y ddogfen hon.

Cyflog uwch reolwyr a datganiadau pensiwn a chyfanswm tâl un ffigwr

Mae cyfanswm ffigyrau yn y tabl isod (cyfanswm tâl un ffigwr) ar gyfer pob Uwch Reolwr yn cynnwys ffigwr am fuddion pensiwn, sydd wedi'i cyfrifo gan ddefnyddio gwybodaeth a ddarperir gan Asiantaeth Pensiynau'r GIG. Nid yw'r ffigwr yn cynrychioli'r cyfanswm gwirioneddol sy'n cael ei dalu i'r unigolyn yn ystod y flwyddyn ac yn adlewyrchu asesiad cyfrifeg o'r cynnydd mewn budd-dal hir dymor sydd wedi'i gymhwysu ar gyfer chwyddiant. Gall nifer o ffactorau ddylanwadu ar y ffigyrau hyn gan gynnwys newid yng nghyflog unigolyn, cyfraniadau ychwanegol a wneir gan unigolion a ffactorau prisio sylfaenol ar y cynllun yn gyffredinol.

Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalaf wedi'i asesu trwy actiwari buddion y cynllun pensiwn sy'n cael eu cronni gan aelod ar adeg benodol. Y buddion wedi'u prisio yw buddion yr aelod wedi'u cronni a phensiwn unrhyw briod dilynol sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun pensiwn neu drefniant i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun pensiwn neu drefniant arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn penderfynu trosglwyddo'r buddion sydd wedi'u cronni yn eu cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i'w haelodaeth gyfan â'r cynllun pensiwn, nid dim ond eu gwasanaeth mewn rôl uwch y mae datgeliad yn berthnasol iddo. Mae ffigurau CETV a'r manylion pensiwn eraill yn cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn arall mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i gynllun pensiwn y GIG. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd pensiwn ychwanegol sydd wedi'i gronni i'r aelod o ganlyniad i brynu blynyddoedd ychwanegol o wasanaeth pensiwn yn y cynllun ar ei gost ei hun. Caiff CETVs eu cyfrifo yn unol â'r canllawiau a'r fframwaith a bennir gan yr Institute and Faculty of Actuaries.

Cynnydd Gwirioneddol mewn CETV: Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr i bob pwrpas. Mae'n ystyried y cynnydd wedi pensiwn wedi'i gronni oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a delir gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion sy'n cael eu trosglwyddo o gynllun neu drefniant arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

Enw a Rôl	2018/19						2017/18					
	Cyflog (bandiau o £5,000) £'000	Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) £	Buddion Pensiwn (i'r £1,000 agosaf) £'000	Taliadau eraill (bandiau o £5,000) £	Cyfanswm (bandiau o £5,000) £'000	Cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn (os yw'n flwyddyn rannol) £'000	Cyflog (bandiau o £5,000) £'000	Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) £	Buddion Pensiwn (i'r £1,000 agosaf) £'000	Taliadau eraill (bandiau o £5,000) £	Cyfanswm (bandiau o £5,000) £'000	Cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn (os yw'n flwyddyn rannol) £'000
Mr G Doherty Prif Weithredwr	205-210	--	(nodyn 1)	--	205-210	--	200-205	--	30	--	230-235	--
Dr E Moore Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol a Dirprwy Brif Weithredwr	195-200	5,200	(nodyn 2)	--	200-205	--	195-200	3,500	(nodyn 2)	--	200-205	--
Mrs G Harris Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth	150-155	--	(nodyn 2)	--	150-155	--	150-155	--	(nodyn 2)	--	150-155	--
Ms D Carter Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Nyrsio a Bydwreigiaeth (o 18 Mawrth 2019)	0-5	--	(nodyn 3)	--	0-5	125-130						
Mr A Thomas Cyfarwyddwr Gweithredol Therapiau a Gwyddorau Iechyd	100-105	--	16	--	115-120	--	100-105	--	116	--	215-220	--

Enw a Rôl	2018/19						2017/18					
	Cyflog (bandiau o £5,000) £'000	Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) £	Buddion Pensiwn (i'r £1,000 agosaf) £'000	Taliadau eraill (bandiau o £5,000) £	Cyfanswm (bandiau o £5,000) £'000	Cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn (os yw'n flwyddyn rannol) £'000	Cyflog (bandiau o £5,000) £'000	Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) £	Buddion Pensiwn (i'r £1,000 agosaf) £'000	Taliadau eraill (bandiau o £5,000) £	Cyfanswm (bandiau o £5,000) £'000	Cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn (os yw'n flwyddyn rannol) £'000
Dr J C Stockport Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal Cychwynnol a Gwasanaethau Cymuned (o 1 Hydref 2018)	65-70	3,000	(nodyn 4)	0-5 (nodyn 5)	70-75	135-140						
Mr A Roach Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu ac Aelod Cyswllt o'r Bwrdd	115-120	--	39	--	155-160	--	115-120	--	19	--	130-135	--
Ms T Owen Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus	120-125	--	22	--	145-150	--	120-125	--	88	--	205-210	--
Ms M Olsen Prif Swyddog Gweithredu (hyd at 30 Mehefin 2018)	75-80 (nodyn 6)	--	210 (nodyn 6)	--	285-290	145-150	145-150	--	21	--	165-170	--

Enw a Rôl	2018/19						2017/18					
	Cyflog (bandiau o £5,000) £'000	Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) £	Buddion Pensiwn (i'r £1,000 agosaf) £'000	Taliadau eraill (bandiau o £5,000) £	Cyfanswm (bandiau o £5,000) £'000	Cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn (os yw'n flwyddyn rannol) £'000	Cyflog (bandiau o £5,000) £'000	Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) £	Buddion Pensiwn (i'r £1,000 agosaf) £'000	Taliadau eraill (bandiau o £5,000) £	Cyfanswm (bandiau o £5,000) £'000	Cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn (os yw'n flwyddyn rannol) £'000
Mr R Favager Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid	145-150 (<i>nodyn 7</i>)	11,100	(<i>nodyn 1</i>)	--	155-160	--	145-150	8,600	--	--	150-155	--
Mr G Lang Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth (hyd at 13 Mai 2018)	10-15	--	(<i>nodyn 2</i>)	--	10-15	125 - 130	125-130	--	(<i>nodyn 2</i>)	--	125-130	--
Mrs S Baxter Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Strategaeth (o 14 Mai 2018 hyd at 18 Tachwedd 2018)	50-55 (<i>nodyn 8</i>)	--	(<i>nodyn 9</i>)	--	50-55	100-105						
Mr M Wilkinson Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Perfformiad (o 19 Tachwedd 2018)	50-55	--	(<i>nodyn 4</i>)	--	50-55	135-140						

Enw a Rôl	2018/19						2017/18					
	Cyflog (bandiau o £5,000) £'000	Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) £	Buddion Pensiwn (i'r £1,000 agosaf) £'000	Taliadau eraill (bandiau o £5,000) £	Cyfanswm (bandiau o £5,000) £'000	Cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn (os yw'n flwyddyn rannol) £'000	Cyflog (bandiau o £5,000) £'000	Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) £	Buddion Pensiwn (i'r £1,000 agosaf) £'000	Taliadau eraill (bandiau o £5,000) £	Cyfanswm (bandiau o £5,000) £'000	Cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn (os yw'n flwyddyn rannol) £'000
Mrs S Green Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol	125-130	--	(nodyn 4)	--	125-130	--						
Mrs G Lewis-Parry Ysgrifennydd y Bwrdd	95-100	--	(30)	--	65-70	--	100-105	--	50	--	145-150	--
Dr P Higson OBE Cadeirydd (hyd at 31 Awst 2018)	25-30	--	--	--	25-30	65-70	65-70	--	--	--	65-70	--
Mr M Polin OBE QPM Cadeirydd (o 1 Medi 2018)	40-45	--	--	--	40-45	65-70						
Mrs M Hanson Is-gadeirydd (hyd at 31 Mai 2018)	5-10	--	--	--	5-10	55-60	55-60	--	--	--	55-60	--
Mrs M W Jones Aelod Annibynnol (hyd at 31 Mai 2018)	0-5	--	--	--	0-5	15-20	15-20	--	--	--	15-20	--
Is-gadeirydd (o 1 Mehefin 2018)	45-50	--	--	--	45-50	55-60						
Y Cyng C Carlisle Aelod Annibynnol	15-20	--	--	--	15-20	--	15-20	--	--	--	15-20	--

Enw a Rôl	2018/19						2017/18					
	Cyflog (bandiau o £5,000) £'000	Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) £	Buddion Pensiwn (i'r £1,000 agosaf) £'000	Taliadau eraill (bandiau o £5,000) £	Cyfanswm (bandiau o £5,000) £'000	Cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn (os yw'n flwyddyn rannol) £'000	Cyflog (bandiau o £5,000) £'000	Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) £	Buddion Pensiwn (i'r £1,000 agosaf) £'000	Taliadau eraill (bandiau o £5,000) £	Cyfanswm (bandiau o £5,000) £'000	Cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn (os yw'n flwyddyn rannol) £'000
Mr J Cunliffe Aelod Annibynnol	15-20	--	--	--	15-20	--	15-20	--	--	--	15-20	--
Ms J Hughes Aelod Annibynnol a Chynrychiolydd Undebau Llafur (o 1 Mehefin 2018)	(nodyn 10)	--	--	--	--	--						
Y Cyng R M Hughes Aelod Annibynnol	15-20	--	--	--	15-20	--						
Mrs L Meadows Aelod Annibynnol	15-20	--	--	--	15-20	--	15-20	--	--	--	15-20	--
Ms L Reid Aelod Annibynnol (o 1 Medi 2018)	5-10	--	--	--	5-10	15-20						
Ms H Wilkinson Aelod Annibynnol (o 1 Medi 2018)	5-10	--	--	--	5-10	15-20						
Mrs B Russell Williams Aelod Annibynnol (hyd at 5 Mawrth 2019)	10-15	--	--	--	10-15	--	15-20	--	--	--	15-20	--

Enw a Rôl	2018/19						2017/18					
	Cyflog (bandiau o £5,000) £'000	Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) £	Buddion Pensiwn (i'r £1,000 agosaf) £'000	Taliadau eraill (bandiau o £5,000) £	Cyfanswm (bandiau o £5,000) £'000	Cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn (os yw'n flwyddyn rannol) £'000	Cyflog (bandiau o £5,000) £'000	Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) £	Buddion Pensiwn (i'r £1,000 agosaf) £'000	Taliadau eraill (bandiau o £5,000) £	Cyfanswm (bandiau o £5,000) £'000	Cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn (os yw'n flwyddyn rannol) £'000
Yr Athro J Rycroft-Malone Aelod Annibynnol a Chynrychiolydd y Brifysgol	(nodyn 11)	--	--	--	--	--	(nodyn 11)	--	--	--	--	--
Mr C Stradling Aelod Annibynnol (hyd at 31 Awst 2018)	5-10	--	--	--	5-10	15-20	15-20	--	--	--	15-20	--
Mr Ff Williams Aelod Cyswllt o'r Bwrdd a Chadeirydd, Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid	(nodyn 12)	--	--	--	--	--	(nodyn 12)	--	--	--	--	--
Yr Athro M Rees Aelod Cyswllt o'r Bwrdd a Chadeirydd, Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd	(nodyn 12)	--	--	--	--	--	(nodyn 12)	--	--	--	--	--

Enw a Rôl	2018/19						2017/18					
	Cyflog (bandiau o £5,000) £'000	Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) £	Buddion Pensiwn (i'r £1,000 agosaf) £'000	Taliadau eraill (bandiau o £5,000) £	Cyfanswm (bandiau o £5,000) £'000	Cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn (os yw'n flwyddyn rannol) £'000	Cyflog (bandiau o £5,000) £'000	Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) £	Buddion Pensiwn (i'r £1,000 agosaf) £'000	Taliadau eraill (bandiau o £5,000) £	Cyfanswm (bandiau o £5,000) £'000	Cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn (os yw'n flwyddyn rannol) £'000
Mrs N Stubbins Aelod Cyswllt o'r Bwrdd a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (hyd at 31 Mai 2018)	(nodyn 12)	--	--	--	--	--	(nodyn 12)	--	--	--	--	--
Mrs M Edwards Aelod Cyswllt o'r Bwrdd a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (o 1 Mehefin 2018)	(nodyn 12)	--	--	--	--	--						

Enw a Rôl	2018/19						2017/18					
	Cyflog (bandiau o £5,000) £'000	Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) £	Buddion Pensiwn (i'r £1,000 agosaf) £'000	Taliadau eraill (bandiau o £5,000) £	Cyfanswm (bandiau o £5,000) £'000	Cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn (os yw'n flwyddyn rannol) £'000	Cyflog (bandiau o £5,000) £'000	Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) £	Buddion Pensiwn (i'r £1,000 agosaf) £'000	Taliadau eraill (bandiau o £5,000) £	Cyfanswm (bandiau o £5,000) £'000	Cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn (os yw'n flwyddyn rannol) £'000
Mr J M Jones Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol (hyd at 19 Tachwedd 2017) Cyfarwyddwr Archwiliadau Allanol (o 20 Tachwedd 2017 hyd at 31 Mawrth 2018)												
						130-135	1,900	--	--	130-135	--	
Mr R Jones Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol (o 20 Tachwedd 2017)												
						40-45	--	--	--	40-45	125-130	
Mr C Wright Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol (hyd at 20 Mai 2017)												
						35-40 (nodyn 13)	--	--	145-150 (nodyn 13)	185-190	95-100	

Enw a Rôl	2018/19						2017/18					
	Cyflog (bandiau o £5,000) £'000	Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) £	Buddion Pensiwn (i'r £1,000 agosaf) £'000	Taliadau eraill (bandiau o £5,000) £	Cyfanswm (bandiau o £5,000) £'000	Cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn (os yw'n flwyddyn rannol) £'000	Cyflog (bandiau o £5,000) £'000	Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) £	Buddion Pensiwn (i'r £1,000 agosaf) £'000	Taliadau eraill (bandiau o £5,000) £	Cyfanswm (bandiau o £5,000) £'000	Cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn (os yw'n flwyddyn rannol) £'000
Mrs D Sharp Ysgrifennydd y Bwrdd Dros Dro (o 6 Tachwedd 2017 hyd at 31 Ionawr 2018)												
						15-20	--	(nodyn 14)	--	15-20	75-80	
Ms J Dean Aelod Annibynnol (hyd at 31 Rhagfyr 2017)												
						(nodyn 10)	--	--	--	--	--	--
Y Cyng B Feeley Aelod Annibynnol												
						15-20	--	--	--	15-20	--	--

Nodiadau

1. Dewisodd y gweithwyr hyn i beidio cael sicrwydd gan drefniadau pensiwn y GIG yn ystod y flwyddyn adrodd, gan iddynt adael y cynllun rhan o'r ffordd trwy'r flwyddyn flaenorol.
2. Dewisodd y gweithwyr hyn i beidio cael sicrwydd gan drefniadau pensiwn y GIG yn y flwyddyn flaenorol, yn ogystal â'r flwyddyn adrodd gyfredol.
3. Ms D Carter oedd y Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Nyrsio a Bydwreigiaeth ar gyfer y cyfnod 18 Mawrth 2018 hyd at 31 Mawrth 2018. Y tu allan i'r cyfnod hwn, roedd Ms Carter yn gyflogedig gan y Bwrdd Iechyd yn ei swydd wreiddiol ac nid yw wedi bod yn bosibl i gyfrifo elfen o fuddion pensiwn sy'n ymwneud â'i rôl fel Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Nyrsio a Bydwreigiaeth yn unig.
4. Dechreuodd y gweithwyr hyn gyflogaeth gyda'r Bwrdd Iechyd yn ystod 2018/19 ac felly nid yw ffigyrau'r flwyddyn flaenorol ar gael i alluogi cyfrifo budd pensiwn y flwyddyn.
5. Mae tâl arall ar gyfer Dr JC Stockport yn ymwneud ag enillion o rôl feddygol ar wahân.
6. Mae'r cyflog a adroddir ar gyfer Ms M Olsen yn cynnwys £39,922 yn ymwneud â hawliadau cytundebol. Mae buddion pensiwn yn ymwneud â thaliad o ran cyfraniad i Asiantaeth Pensiynau y GIG tuag at bensiwn y gweithwyr. Cytunodd y Bwrdd ar y ddau swm yma ac yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.
7. Mae cyflog Mr R Favager yn cynnwys £488 ag aberthwyd o ran y cynllun Cycle2Work.
8. Mae cyflog Ms S Baxter yn cynnwys £342 a aberthwyd o ran technoleg y cartref.
9. Ms S Baxter oedd y Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Strategaeth ar gyfer y cyfnod 14 Mai 2018 hyd at 18 Tachwedd 2018. Y tu allan i'r cyfnod hwn, roedd Ms Baxter yn gyflogedig gan y Bwrdd Iechyd yn ei swydd wreiddiol ac nid yw wedi bod yn bosibl i gyfrifo elfen o fuddion pensiwn sy'n ymwneud â'i rôl fel Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Strategaeth yn unig.
10. Mae Ms J Hughes (Ms J Dean yn flaenorol) wedi'i chyflogi gan y Bwrdd Iechyd ac mae'n Aelod Annibynnol sy'n dod o gefndir Undebau Llafur. Nid yw Ms Hughes yn cael ei thalu am ei rôl fel Aelod Annibynnol.
11. Yr Athro J Rycroft-Malone yw cynrychiolydd y Brifysgol ar y Bwrdd ac nid yw'n cael ei thalu gan y Bwrdd Iechyd.
12. Nid yw Mr Williams, Mrs Stubbins na Mrs Edwards yn weithwyr i'r Bwrdd Iechyd, ac nid ydynt yn cael eu talu ganddo. Cyflogwyd yr Athro Rees gan y Bwrdd Iechyd yn ei gapasiti clinigol ond nid yw'n derbyn taliad ychwanegol o ran ei rôl yn y Bwrdd.
13. Mae'r cyflog a adroddir ar gyfer Mr C Wright yn cynnwys £24,998 yn ymwneud â hawliadau cytundebol. Mae tâl arall yn ymwneud â thaliad o ran diswyddiad. Cytunodd y Bwrdd ar y ddau swm yma ac yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.
14. Mrs D Sharp oedd Ysgrifennydd y Bwrdd Dros Dro ar gyfer cyfnod 6 Tachwedd 2017 hyd at 31 Ionawr 2018. Y tu allan i'r cyfnod hwn, roedd Mrs Sharp yn gyflogedig gan y Bwrdd Iechyd yn ei swydd wreiddiol ac nid yw wedi bod yn bosibl i gyfrifo elfen o fuddion pensiwn sy'n ymwneud â'i rôl fel Ysgrifennydd y Bwrdd Dros Dro yn unig.

	Cynnydd Gwirioneddol mewn Pensiwn Cronedig (bandiau o £2,500) £'000	Cynnydd Gwirioneddol mewn Lwmp Swm (bandiau o £2,500) £'000	Cyfanswm pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2019 (bandiau o £5,000) £'000	Lwmp swm yn ymwneud â phensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2019 (bandiau o £5,000) £'000	Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31 Mawrth 2018 £'000	Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31 Mawrth 2019 £'000	Cynnydd Gwirioneddol mewn Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod £'000	Nodiadau
Mr G Doherty Prif Weithredwr	--	--	--	--	--	--	--	<i>nodyn 1</i>
Dr E Moore, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol a Dirprwy Brif Weithredwr	--	--	--	--	--	--	--	<i>nodyn 2</i>
Mrs G Harris Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth	--	--	--	--	--	--	--	<i>nodyn 2</i>
Ms D Carter Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Nyrsio a Bydwreigiaeth (o 18 Mawrth 2019)	--	--	--	--	--	--	--	<i>nodyn 3</i>
Mr A Thomas Cyfarwyddwr Gweithredol, Therapiau a Gwyddorau Iechyd	0-2.5	(0-2.5)	40-45	120-125	807	940	95	

	Cynnydd Gwirioneddol mewn Pensiwn Cronedig (bandiau o £2,500) £'000	Cynnydd Gwirioneddol mewn Lwmp Swm (bandiau o £2,500) £'000	Cyfanswm pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2019 (bandiau o £5,000) £'000	Lwmp swm yn ymwneud â phensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2019 (bandiau o £5,000) £'000	Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31 Mawrth 2018 £'000	Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31 Mawrth 2019 £'000	Cynnydd Gwirioneddol mewn Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod £'000	Nodiadau
Mr A Roach Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu ac Aelod Cyswllt o'r Bwrdd	0-2.5	5.0-7.5	50-55	160-165	916	1,109	148	
Dr J C Stockport Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal Cychwynnol a Gwasanaethau Cymuned (o 1 Hydref 2018)	--	--	--	--	--	--	--	<i>nodyn 2</i>
Ms T Owen Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus	0-2.5	(0-2.5)	40-45	100-105	654	787	95	
Ms M Olsen Prif Swyddog Gweithredu	--	--	--	--	--	--	--	<i>nodyn 4</i>
Mr R Favager Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid	--	--	--	--	--	--	--	<i>nodyn 1</i>

	Cynnydd Gwirioneddol mewn Pensiwn Cronedig (bandiau o £2,500) £'000	Cynnydd Gwirioneddol mewn Lwmp Swm (bandiau o £2,500) £'000	Cyfanswm pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2019 (bandiau o £5,000) £'000	Lwmp swm yn ymwneud â phensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2019 (bandiau o £5,000) £'000	Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31 Mawrth 2018 £'000	Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31 Mawrth 2019 £'000	Cynnydd Gwirioneddol mewn Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod £'000	Nodiadau
Mr G Lang Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth (hyd at 13 Mai 2018)	--	--	--	--	--	--	--	<i>nodyn 2</i>
Mrs S Baxter Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Strategaeth (o 14 Mai 2018 hyd at 18 Tachwedd 2018)	--	--	--	--	--	--	--	<i>nodyn 5</i>
Mr M Wilkinson Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Perfformiad (o 19 Tachwedd 2018)	--	--	55-60	140-145	--	1,101	--	<i>nodyn 6</i>
Mrs Sue Green Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol	--	--	15-20	30-35	--	305	--	<i>nodyn 6</i>

	Cynnydd Gwirioneddol mewn Pensiwn Cronedig (bandiau o £2,500) £'000	Cynnydd Gwirioneddol mewn Lwmp Swm (bandiau o £2,500) £'000	Cyfanswm pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2019 (bandiau o £5,000) £'000	Lwmp swm yn ymwneud â phensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2019 (bandiau o £5,000) £'000	Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31 Mawrth 2018 £'000	Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31 Mawrth 2019 £'000	Cynnydd Gwirioneddol mewn Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod £'000	Nodiadau
Mrs G Lewis-Parry Ysgrifennydd y Bwrdd	(0-2.5)	(0-2.5)	35-40	110-115	779	861	46	

Nodiadau

1. Dewisodd y gweithwyr hyn i beidio cael sicrwydd gan drefniadau pensiwn y GIG yn ystod y flwyddyn adrodd.
2. Dewisodd y gweithwyr hyn i beidio cael sicrwydd gan drefniadau pensiwn y GIG yn y flwyddyn flaenorol, yn ogystal â'r flwyddyn adrodd gyfredol.
3. Ms D Carter oedd y Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Nyrsio a Bydwreigiaeth ar gyfer y cyfnod 18 Mawrth 2018 hyd at 31 Mawrth 2018. Y tu allan i'r cyfnod hwn, roedd Ms Carter yn gyflogedig gan y Bwrdd Iechyd yn ei swydd wreiddiol ac nid yw wedi bod yn bosibl i gyfrifo elfen o fuddion pensiwn sy'n ymwneud â'i rôl fel Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Nyrsio a Bydwreigiaeth yn unig.
4. Gadawodd Mrs M Olsen y Bwrdd Iechyd yn ystod 2018/19 ac mae'n cael ei ariannu gan ei phensiwn.
5. Ms S Baxter oedd y Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Strategaeth ar gyfer y cyfnod 14 Mai 2018 hyd at 18 Tachwedd 2018. Y tu allan i'r cyfnod hwn, roedd Ms Baxter yn gyflogedig gan y Bwrdd Iechyd yn ei swydd wreiddiol ac nid yw wedi bod yn bosibl i gyfrifo elfen o fuddion pensiwn sy'n ymwneud â'i rôl fel Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Strategaeth yn unig.
6. Dechreuodd y gweithwyr hyn gyflogaeth gyda'r Bwrdd Iechyd yn ystod 2018/19 ac felly nid yw ffigyrau'r flwyddyn flaenorol ar gael i alluogi cyfrifo budd pensiwn y flwyddyn.

Adroddiad Staff

Adroddir ar nifer cyfartalog y staff cyfwerth â llawn amser (FTE) a gyflogir gan y Bwrdd Iechyd yn ystod 2018/19 isod.

Grŵp Proffesiynol	FTE Cyfartalog 2018/19
Proffesiynol, Gwyddonol a Thechnegol	438
Gwasanaethau Clinigol Ychwanegol	3,312
Gweinyddol a Chlercyddol	2,918
Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd	880
Ystadau ac Ategol	1,240
Gwyddonwyr Gofal Iechyd	274
Meddygol a Deintyddol	1,437
Nyrsys a Bydwagedd Cofrestredig	4,967
Myfyrwyr	15
Cyfanswm	15,481

Y gwir nifer o staff mewn swydd yn ystod 2018/19 oedd 18,064 a darperir y cyfansoddiad rhyw ar y tabl isod.

Cyfansoddiad Staff	Merched	Dynion	Cyfanswm
Cyfarwyddwr	5	8	13
Rheolwyr (Band 8c ac uwch)	123	67	190
Staff	14,458	3,403	17,861
Cyfanswm	14,586	3,478	18,064

*Er pwrpas yr adroddiad hwn, diffinnir rheolwr fel aelod o staff ar Fand 8c neu uwch (neu lefel cywerth ar gyfer staff anfeddygol), wedi'i leoli mewn gweithrediad corfforedig neu uwch adran weithredol gyda chyfrifoldebau rheolaethol a gwneud penderfyniadau arwyddocaol, sy'n effeithio ar y sefydliad cyfan. Nid yw rheolwyr yn cynnwys y swyddi Nyrs Ymgynghorol, Bydwraig Ymgynghorol, a Gwyddonydd Clinigol Ymgynghorol

Nodir data absenoldebau salwch ar gyfer 2018/19 isod:

	2017-18	2018-19
Dyddiau a gollwyd (tymor hir)* ¹	189,779	198,399
Dyddiau a gollwyd (tymor byr)* ¹	83,051	81,511
Cyfanswm y dyddiau a gollwyd	272,830	279,911
Cyfartaledd dyddiau gwaith a gollwyd	11	11
Cyfanswm staff a gyflogir yn y cyfnod (cyfrif pennau)* ²	17,987	17,880
Cyfanswm staff a gyflogir mewn cyfnod heb unrhyw absenoldeb (cyfrif pennau)* ²	6,653	5,642
Canran y staff heb absenoldeb salwch	37.35%	34.29%

*1 - Cyfrifir y ffigyrau hyn ar sail Cyfateb i Lawn Amser. Mesurir absenoldeb staff gan ddefnyddio dyddiau calendar ar y system Cofnod Staff Electronig, sy'n cynnwys yr holl ddyddiau o ddechrau i ddiwedd cyfnod absenoldeb, gan gynnwys penwythnosau neu ddyddiau lle na fyddai aelod staff fel arfer wedi'i amserlennu i weithio. Felly mae'r niferoedd cyfanredol o ddyddiau gwaith a gollwyd yn is.

*2- Cyfartaledd dros 12 mis

Canran cyflawn absenoldeb salwch 2017/18 oedd 4.99% (2016/17, 4.92%).

Cydraddoldeb a hawliau dynol

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb cyfleoedd a diogelu hawliau pob unigolyn a'u hyrwyddo i gyflawni gwell canlyniadau i bawb, gan ystyried nodweddion gwarchoddedig unigolyn. Rydym yn deall y gall ystyried y 'gwahaniaethau' neu'r nodweddion gwarchoddedig sydd ymhlith pawb ohonom, gael effaith ddwys ar ganlyniadau iechyd a lles i'r bobl rydym yn eu gwasanaethu.

Er mwyn bodloni gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) Rheoliadau 2011, a'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus, mae'r Bwrdd Iechyd yn ceisio sicrhau bod cydraddoldeb yn cael ei ystyried yn iawn o fewn y sefydliad, ac yn dylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel.

Rydym yn cydweithio'n agos â staff, cleifion a phartneriaid i ymgorffori egwyddorion cydraddoldeb a hawliau dynol i'n ffyrdd o weithio ac rydym yn parhau i ymgysylltu ag ystod o randdeiliaid ac arbenigwyr pwnc i helpu i sicrhau ein cyfeiriad strategol. Rydym yn falch o weld ymrwymiad cadarn i hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol o fewn ein strategaeth tymor hir ar gyfer iechyd, Byw'n Iach Aros yn Iach (LHSW). Mae'r ymrwymiad hwn yn cael ei drosi yn gamau gweithredu yn ein cynllun 3 blynedd drwy ddatblygu cynlluniau sy'n tanategu darpariaeth Gwelliannau Iechyd Anghydraddoldebau Iechyd, Gofal yn agosach at y Cartref a Gofal Ysbyty Rhagorol.

Cefnogir blaenoriaethau strategol y Bwrdd Iechyd gan ein Strategaeth Gweithlu sy'n dynodi sut mae angen i'r gweithlu edrych a themlo a sut mae angen iddo weithio wrth i ni ymdrechu i fod yn gyflogwr teg a chynhwysol, ac wedi ymrwymo i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb. Mae nifer o fentrau wedi cael eu mabwysiadu eleni i gynyddu cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer unigolion o grwpiau nodweddion gwarchoddedig, ac i'w cefnogi yn well yn ystod eu cyflogaeth.

Mae'r rhaglen Camu i Waith yn un o'r dulliau, ac yn darparu rhaglen systematig o gefnogaeth gyrrfa, yn gweithio ar gynyddu lleoliadau prentis a lleoliadau gwaith gwirfoddol. Mae Camu i Waith yn cefnogi ystod o unigolion, er enghraifft, myfyrwyr, a'r rhai sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad waith. Eleni, mae'r Bwrdd Iechyd wedi dod y cyflogwr iechyd gorau yn ôl Stonewall, sef yr elusen gydraddoldeb lesbiad, hoyw, deurywiol a thraws yn ei rhestr o'r 100 Cyflogwyr Gorau ar gyfer 2019, gan godi i safle 37. Rydym wedi ymrwymo ein cefnogaeth i Ymgyrch Gweithio Ymlaen y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, ac rydym yn bwrw ymlaen ag ystod o fentrau sydd â'r bwriad o wneud y gweithle y gorau y gall fod ar gyfer merched beichiog a rhieni newydd. Rydym wedi cyhoeddi ein Hadroddiad Bwlch Cyflog y Ddau Ryw, ac wedi datblygu cynllun ar gyfer gwella, ac wedi cynnal ein statws Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd, cynllun wedi'i ddylunio i helpu recriwtio a chadw pobl anabl, a phobl sydd â chyflyrau iechyd ar sail eu sgiliau a'u talent.

Mae ein cydymffuriad â'n hyfforddiant Cydraddoldeb a Hawliau Dynol gorfodol wedi cynyddu i 85%, ac mae ein rheolwyr hefyd yn cael eu hyfforddi a'u cefnogi i weithredu polisi Rheoli Presenoldeb yn y Gwaith Cymru Gyfan sy'n amlinellu'r pwysigrwydd o hyrwyddo iechyd a lles ein staff, a darparu mecanweithiau cefnogi megis gwneud addasiadau rhesymol neu wedi'u teilwra.

Byddwn yn parhau i lywio'r agenda cydraddoldeb yn gyflym, ac rydym wedi dechrau yr adolygiad pob pedair blynedd o'n Hamcanion Strategol Cydraddoldeb yn unol â'n Dyletswydd Statudol. Cyhoeddir mwy o wybodaeth, a gellir cael mynediad ati ar y tudalennau gwe cydraddoldeb ar <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/tudalen/47422>.

Ymgysylltiadau ac ymgynghoriaethau heb fod ar y gyflogres

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd ddatgelu gwariant heb fod ar y Gyflogres ac Ymgynghoriaethau. Mae'r tablau isod yn amlinellu manylion y rhwymedigaethau Heb fod ar y Gyflogres sydd yn eu lle yn y Bwrdd Iechyd. Dylid nodi bod Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC) wedi cyflwyno rheolau newydd o ran cydymffurfio â rheoliadau trethi a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2017. Mae'r newidiadau hyn wedi ehangu cyfrifoldebau'r Bwrdd Iechyd o ran rheoli ei rwymedigaethau heb fod ar y Gyflogres. Oherwydd hyn, bydd y wybodaeth Heb fod ar y Gyflogres a gyflwynir yn newid yn arwyddocaol wrth symud ymlaen, oherwydd bydd y rhan fwyaf o rwymedigaethau'n destun i drethu ac Yswiriant Gwladol o'r ffynhonnell.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymgymryd ag asesiadau IR35 ar gyfer yr holl rwymedigaethau heb fod ar y gyflogres.

Nifer yr ymgysylltiadau presennol, am fwy na £245 y diwrnod ac am gyfnodau o dros chwe mis, fel ar 31 Mawrth 2019	154
<i>O'r rhain...</i>	
Y nifer sydd wedi bodoli am lai na blwyddyn ar amser adrodd	48
Y nifer sydd wedi bodoli am rhwng blwyddyn a dwy flynedd ar amser adrodd	106
Y nifer sydd wedi bodoli am rhwng dwy a thair blynedd ar amser adrodd	0
Y nifer sydd wedi bodoli am rhwng tair a phedair blynedd ar amser adrodd	0
Nifer sydd wedi bodoli am rhwng pedair blynedd a mwy ar adeg adrodd	0

Nifer y rhwymedigaethau newydd heb fod ar y gyflogres am fwy na £245 y dydd a fydd yn para am fwy na chwe mis, neu sydd wedi cyrraedd chwe mis o hyd rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019.	48
<i>O'r rhain...</i>	
Nifer a aseswyd a gynhwysir dan IR35	48
Nifer a aseswyd na gynhwysir dan IR35	0
Nifer sy'n uniongyrchol rwymedig (drwy PSC dan gytundeb i'r adran) ac ar gyflogres yr adran	0
Nifer y rhwymedigaethau a ailaseswyd ar gyfer pwrpasau cysondeb/sicrwydd yn ystod y flwyddyn	0
Nifer y rhwymedigaethau a welwyd newid yn y statws IR 35 yn dilyn yr adolygiad cysondeb	0

Nifer y rhwymedigaethau heb fod ar y gyflogres o Aelodau Bwrdd a/neu Uwch Swyddogion gyda chyfrifoldeb ariannol arwyddocaol rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019.	0
<i>O'r rhain...</i>	
(Nifer yr unigolion a ystyrir yn "aelodau bwrdd a/neu'n uwch swyddogion gyda chyfrifoldeb ariannol arwyddocaol", yn ystod y flwyddyn ariannol, gan gynnwys rhwymedigaethau heb fod ar y gyflogres ac ar y gyflogres)	32*

*Yr Aelodau Bwrdd ac Uwch Swyddogion a ystyrir i fod yn Uwch Reolwyr yw'r unigolyn lle mae manylion eu cyflogau yn cael eu datgelu ar dudalennau 66 i 74 yr adroddiad hwn.

Yn ystod 2018/19, mae 32 unigolyn sydd wedi'u cynnwys gyda datganiadau yr Uwch Reolwyr.

Yn ystod y flwyddyn, gwariodd y Bwrdd Iechyd £2.367m ar wasanaethau ymgynghorol allanol.

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd greu a chyhoeddi Adroddiad Atebolrwydd, a rhagnodir ei gynnwys gan Lywodraeth Cymru.

Cysondeb gwariant

Mae Trysorlys EM yn diffinio cysondeb fel gofyniad ar gyfer pob eitem o wariant i'w thrin yn unol â deddfwriaeth sy'n eu hawdurdodi, unrhyw awdurdodau priodol a ddirprwywyd a rheolau Cyfrifo'r Llywodraeth.

Grymusir y Bwrdd Iechyd i achosi gwariant gan Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 ac mae'n derbyn dyraniad ffynhonnell refeniw a chyfalaf gan Lywodraeth Cymru.

Mae proses gosod cyllideb y Bwrdd Iechyd yn anelu at sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu ar draws y sefydliad ar gyfer pwrpasau cyfreithlon. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi dirprwyo trefniadau gyda deilwyr cyllideb y mae'n rhaid iddynt weithredu yn unol â'u Trefniadau Atebolrwydd a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog (SFI) y Bwrdd Iechyd.

Mae trefniadau yn eu lle i fonitro cydymffurfiaid â'r SFI ac adroddir y rhain i bob Pwyllgor Archwilio drwy'r Adroddiad Cydymffurfio. Yn ogystal â rhaglen Archwilio Fewnol gynhwysfawr, mae gan y Bwrdd Iechyd Dîm Gwrth Dwyll Lleol.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio â safonau adrodd cydnabyddedig i'r graddau eu bod yn berthnasol i'r Sector Cyhoeddus a chynhyrchir y cyfrifon yn unol â'r llawlyfr ar gyfer cyfrifon a gynhyrchir gan Lywodraeth Cymru. Cyflwynir ffurflenni monitro ariannol misol i Lywodraeth Cymru gydag esboniadau am yr amrywiaethau.

Mae gan y Bwrdd Iechyd ddiffyg o £41.3m yn erbyn ei Gyfyngiad Adnoddau Refeniw am y flwyddyn. Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi bodloni targed statudol i gyflawni sefyllfa o adennill costau dros y cyfnod o dair blynedd, 1 Ebrill 2016 - 31 Mawrth 2019 ac mae wedi cofnodi diffyg cronus o £109.9m.

Ni chodwyd unrhyw broblemau pellach yn ystod 2018/19 i effeithio ar gysondeb gwariant

Ffioedd a chostau

Ni chodir ffioedd a chostau fel mater o drefn ar gleifion y GIG, oni bai y caniateir i'r Bwrdd Iechyd i godi tâl dan y ddeddfwriaeth. Mae esiamplau'n cynnwys gwaith deintyddol a mynediad at gofnodion meddygol. Cadarnheir hyd y gwyddom, bod y Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio â chyfarwyddbau Llywodraeth Cymru o ran cyfraddau taliadau.

Rhwymedigaethau mân gynlluniau wrth gefn

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd roi cyfrif am bob mân gynlluniau wrth gefn, yn unol â Safonau Cyfrifo Rhyngwladol 37 (IAS37). Mae'r rhain wedi'u datgelu'n llawn yn Nodyn 21 y Datganiad Cyfrifon.

Byddai mân gynlluniau wrth gefn eraill na gyfrifir o fewn IAS37 yn cynnwys llythyrau cysuro a gwarantau trydydd parti a roddir gan reolwyr. Hyd y gwyddom, nid oes gan y Bwrdd Iechyd rwymedigaethau fel hyn sydd angen eu datgelu.

Tystysgrif yr Archwilydd Cyffredinol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Adroddiad ar archwiliad y datganiadau ariannol

Barn

Rwy'n ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 dan Adran 61 Deddf Archwiliad Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r rhain yn cynnwys Datganiad am Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad o Sefyllfa Ariannol, Datganiad Llif Arian a Datganiad Newidiadau mewn Ecwiti Talwyr Trethi a nodiadau cysylltiol, gan gynnwys crynodeb o bolisiâu cyfrifo arwyddocaol. Mae'r fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd i'w paratoi yn gyfreithiol gymwys a Llawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EM, yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi barn wir a theg o sefyllfa Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 31 Mawrth 2019 a'i gostau gweithredu net am y flwyddyn a ddaeth i ben; ac
- maen nhw wedi cael eu paratoi'n gywir yn unol â Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a'r cyfarwyddiadau a wnaed dan hyn gan Weinidogion Cymru.

Sail i'r farn

Ymgymerais â fy archwiliad yn unol â chyfraith berthnasol a Safonau Rhyngwladol yn ymwneud ag Archwilio yn y DU (ISA (DU)). Disgrifir fy nghyfrifoldebau dan y safonau hyn ymhellach yng nghyfrifoldebau'r archwilwyr ar gyfer archwilio adran datganiadau ariannol fy adroddiad. Rwy'n annibynnol i Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr, yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i fy archwiliad o'r datganiadau ariannol yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safonau Moesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Rwy'n credu bod y dystiolaeth archwilio rwyf wedi'i sicrhau yn ddigonol a phriodol i ddarparu sail i fy marn.

Casgliadau yn ymwneud â busnes hyfyw

Nid oes gen i ddim i'w adrodd o ran y materion canlynol o ran bod yr ISA (DU) yn gofyn i mi adrodd i chi pe byddai:

- sail busnes hyfyw o gyfrifo wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn amhriodol; neu
- Nid yw'r Prif Weithredwr wedi datgelu unrhyw ansicrwydd materol y nodwyd yn y datganiadau ariannol a all greu ansicrwydd arwyddocaol ynghylch gallu Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr i barhau i fabwysiadu'r sail busnes hyfyw o gyfrifo am gyfnod o leiaf 12 mis o'r dyddiad pan mae'r datganiadau ariannol yn cael eu hawdurdodi i'w cyflwyno.

Gwybodaeth arall

Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad a chyfrifon blynyddol. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol heblaw am y datganiadau ariannol a fy adroddiad archwilydd am hynny. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cynnwys yr wybodaeth arall, a, heblaw hyd y nodir yn amlwg yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw ffurf o sicrwydd i'r casgliad am hynny.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall mewn perthynas â fy archwiliad o'r datganiadau ariannol, i nodi anghysondebau materol gyda'r datganiadau ariannol a archwiliwyd ac i nodi unrhyw wybodaeth mae'n debyg sy'n faterol anghywir, yn seiliedig, neu'n anghyson yn faterol gyda'r wybodaeth a gasglwyd gen i wrth ymgymryd â'r archwiliad. Os byddaf yn dod yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau materol tebygol neu anghysondebau, byddaf yn eu hystyried yn fy adroddiad.

Sail ar gyfer Barn Gymwys am Gysondeb

Mae Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi torri ei derfyn adnoddau drwy wario £109.901 miliwn dros y £4,322 miliwn a awdurdodwyd iddo wario dros gyfnod o dair blynedd 2016-17 hyd 2018-19. Mae'r gwariant hwn yn cynnwys gwariant afreolaidd. Gellir gweld manylion pellach yn fy adroddiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar dudalen 87.

Barn Gymwys am Gysondeb

Yn fy marn i, heblaw am y gwariant afreolaidd o £109.901 miliwn a esboniwyd yn y paragraff uchod, ym mhob agwedd faterol, mae'r gwariant a'r incwm wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer y pwrpas a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Adroddiad ar ofynion eraill

Barn am faterion eraill

Yn fy marn i, mae rhan taliadau'r adroddiad i'w archwilio wedi cael eu paratoi'n gywir yn unol â Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a'r cyfarwyddiadau a wnaed dan hyn gan Weinidogion Cymru.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a ymgwymerwyd wrth wneud fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol yn cael paratoi yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Datganiad Llywodraethu wedi'i baratoi yn unol â chanllaw'r Gweinidogion Cymreig.
- mae'r holl wybodaeth yn y Rhagair a'r Adroddiad Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol, y mae datganiadau ariannol yn cael eu paratoi yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Rhagair a'r Adroddiad Atebolrwydd wedi'u paratoi yn unol â chanllawiau'r Gweinidogion Cymreig.

Materion rwy'n eu hadrodd yn ôl eithriad

Yn sgil y wybodaeth a dealltwriaeth am y bwrdd iechyd a'i amgylchedd a sicrhawyd wrth ymgymryd â'r archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau materol yn y Rhagair a'r Adroddiad Atebolrwydd na'r Datganiad Llywodraethu.

Nid oes gen i ddim i'w adrodd o ran y materion canlynol, ond byddwn yn adrodd i chi, os, yn fy marn i:

- nid yw'r cofnodion cyfrifo wedi cael eu cadw'n gywir;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r cofnodion cyfrifo a'r dychweliadau;
- ni ddatgelwyd gwybodaeth a nodwyd gan Drysorlys EM neu Weinidogion Cymru ynghylch tâl neu drafodion eraill; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Cyfrifoldebau

Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr am y datganiadau ariannol

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn Natganiadau Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr, mae'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi barn wir a theg ac am reolaeth fewnol y mae'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr yn ei benderfynu sy'n angenrheidiol i alluogi paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiadau materol, boed oherwydd twyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Cyfarwyddwr a'r Prif weithredwr yn gyfrifol am asesu gallu'r bwrdd i barhau fel busnes hyfyw, gan ddatgelu fel sy'n briodol, materion sy'n ymwneud â busnes hyfyw, a defnyddio sail busnes hyfyw cyfrifo oni bai y penderfynir yn amhriodol.

Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw derbyn sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol ar y cyfryw yn rhydd o gamddatganiadau materol, boed oherwydd twyll neu gamgymeriad, ac i gyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn i. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant bod archwiliad a ymgwymerwyd yn unol â ISA (DU) bob amser yn darganfod camddatganiadau materol, os ydynt yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu gamgymeriad, ac fe'u hystyriar yn faterol, os ydynt, yn unigol neu ar y cyd, gallent ddisgwyl dylanwadu'n rhesymol ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr, yn sgil y datganiadau ariannol hyn.

Gellir gweld disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn ffurfio rhan o fy adroddiad archwilydd.

Cyfrifoldebau dros gysondeb

Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am sicrhau cysondeb trafodion ariannol.

Mae'n rhaid i mi dderbyn digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi'i ddefnyddio i'r pwrpas a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
11 Mehefin 2019

24 Cathedral Road
Caerdydd
CF11 9LJ

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Cyflwyniad

Mae'n ofynnol i Fyrddau Iechyd Lleol (BILI) fodloni dwy ddyletswydd ariannol statudol - gelwir y rhain yn ddyletswyddau ariannol cyntaf ac ail.

Methodd Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr i fodloni'r ddyletswydd ariannol gyntaf a'r ail ar gyfer 2017-18, felly rwyf wedi penderfynu cyflwyno adroddiad naratif i esbonio'r sefyllfa.

Methiant y ddyletswydd ariannol gyntaf

Mae'r **ddyletswydd ariannol gyntaf** yn rhoi hyblygrwydd ychwanegol i'r Byrddau Iechyd Lleol drwy eu galluogi i fantoli eu hincwm gyda'u gwariant dros gyfnod treigl o dair blynedd. Yr ail gyfnod tair blynedd dan y ddyletswydd hon yw 2016-17 hyd 2018-19, felly fe'i mesurwyd eleni am y trydydd tro.

Fel y dangosir yn Nodyn 2.1 i'r Datganiadau Ariannol, ni wnaeth y BILI reoli ei wariant refeniw o fewn ei ddyranniad adnodd dros y cyfnod tair blynedd hwn, gan fynd dros ei gyfyngiad adnoddau refeniw cronus o £4,322 miliwn o £109.9 miliwn. Felly, ni wnaeth y BILI fodloni ei ddyletswydd ariannol gyntaf.

Os nad yw BILI yn mantoli ei lyfrau dros gyfnod treigl o dair blynedd, mae unrhyw wariant dros y dyraniad adnodd (h.y. cyfyngiad gwariant) am y tair blynedd dros awdurdod y BILI i wario, felly mae'n 'afreolaidd'. Dan amgylchiadau fel hyn, mae'n rhaid i mi ymgymhwyso fy 'marn cysondeb' waeth beth fo gwerth y tros-wariant.

Methiant yr ail ddyletswydd ariannol

Mae'r **ail ddyletswydd ariannol** yn gofyn i Fyrddau Iechyd Lleol baratoi cynllun tymor canolig integredig tair blynedd dreigl a gymeradwyir gan Weinidogion Cymru. Mae'r ddyletswydd hon yn sail hanfodol i ddarparu gwasanaethau iechyd cynaladwy o ansawdd. Ystyrir bod BILI wedi bodloni'r ddyletswydd hon ar gyfer 2018-19 os yw wedi cyflwyno cynllun 2018-19 i 2020-21 a gymeradwywyd gan ei Fwrdd i Weinidogion Cymru a wnaeth ei gymeradwyo erbyn 30 Mehefin 2018.

Fel y dangosir yn Nodyn 2.3 i'r Datganiadau Ariannol, ni wnaeth y BILI fodloni'r ail ddyletswydd ariannol i fod â chynllun tair blynedd cyfnod canolig integredig yn ei le am y cyfnod 2018-19 hyd 2020-21.

Yn dilyn gosod y BILI dan Fesurau arbennig ym mis Hydref 2015, nid oedd y BILI mewn sefyllfa i gyflwyno cynllun tair blynedd cyfnod canolig integredig ar gyfer 2018-21. Yn lle hyn, mae'r BILI wedi gweithredu, mewn cytundeb â Llywodraeth Cymru, dan drefniadau cynllunio blynyddol. Cymeradwywyd Cynllun Gweithredu Blynyddol y BILI, a nodwyd diffyg blynyddol a gynlluniwyd o £35 miliwn, gan ei Fwrdd ym mis Gorffennaf 2018. Fodd bynnag, roedd diffyg y BILI ar gyfer 2018-19 yn y pen draw yn £41.3 miliwn.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
11 Mehefin 2019

Gadawyd y dudalen hon yn wag yn fwriadol

Rhagair

Mae'r cyfrifon hyn wedi cael eu paratoi gan y Bwrdd Iechyd Lleol dan atodlen 9 adran 178 Para 3(1) o. Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (c.42) ar y ffurf y mae Gweinidogion Cymru wedi gofyn amdano, gyda chymeradwyaeth Trysorlys ei Mawrhydi.

Cefndir statudol

Sefydlwyd Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 1 Hydref 2009 yn dilyn gweithredu Rhaglen Genedlaethol Diwygio Cymru'n Un ar gyfer y GIG yng Nghymru.

Rheoli Perfformiad a Chanlyniadau Ariannol

Mae'n rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol yng Nghymru gydymffurfio'n llawn â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Trysorlys i'r graddau sy'n berthnasol iddynt. O ganlyniad, y Prif Ddatganiad o incwm a gwariant o fewn y flwyddyn yw'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, sy'n dangos y gost gweithredu net a achoswyd gan y Bwrdd Iechyd Lleol sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cyllid yn cael ei ddyrannu wrth ei dderbyn yn uniongyrchol i'r Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad yn y Datganiad Safle Ariannol.

Dan Ddeddf Cyllid Gwasanaethau Iechyd Gwladol (Cymru) 2014 mae'r gofynion i gyflawni'r balans yn erbyn Cyfyngiadau Adnoddau wedi cael ei amnewid gyda dyletswydd i sicrhau, mewn cyfnod treigl 3 blynedd nad yw cyfanswm ei wariant, yn fwy na chyfanswm ei gyfyngiadau cymeradwy.

Daeth y Ddeddf i rym o 1 Ebrill 2014, ac o dan y Ddeddf cynhaliwyd yr asesiad cyntaf o'r ddyletswydd ariannol treigl 3 blynedd ddiwedd 2016-17.

Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2019

	Nodyn	2018-19 £'000	2017-18 £'000
Gwariant ar Wasanaethau Gofal Iechyd Cychwynnol	3.1	309,336	302,415
Gwariant ar ofal iechyd gan ddarparwyr eraill	3.2	361,107	347,633
Gwariant ar Wasanaethau Ysbyty a Gwasanaethau Iechyd Cymuned	3.3	1,004,720	968,811
		1,675,163	1,618,859
Wedi tynnu: Incwm Amrywiol	4	(142,518)	(126,644)
Costau gweithredu BILI cyn llog ac enillion a cholledion eraill		1,532,645	1,492,215
Refeniw Buddsoddi	5	0	0
(Enillion) / Colledion Eraill	6	(158)	26
Costau cyllid	7	44	50
Costau gweithredu net ar gyfer y flwyddyn ariannol		1,532,531	1,492,291

Manylion perfformiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn ei ddyraniadau Refeniw a Chyfalaf dros y tri chyfnod ariannol a ddarperir yn Nodyn 2 ar dudalen 22A.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 7A i 70A yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Gwariant Net Cynhwysfawr Eraill

	2018-19 £'000	2017-18 £'000
(Enillion) / colledion net ar ailbrisiadau, peiriannau ac offer	(1,164)	(74,908)
(Enillion) / colledion net ar ailbrisiadau anghyffwrddadwy	0	0
(Enillion) / colledion net ar ailbrisiadau ariannol ar werth	0	0
(Enillion) / colledion ar gronfeydd eraill wrth gefn	0	0
Gostyngiadau a childroadau	0	8,290
Rhyddhau Cronfeydd wrth Gefn i Ddatganiad Gwariant Net Cynhwysfawr	0	0
Gwariant net cynhwysfawr eraill ar gyfer y flwyddyn	(1,164)	(66,618)
Cyfanswm gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn	1,531,367	1,425,673

Mae'r nodiadau ar dudalennau 7A i 70A yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Datganiad o Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2019

		31 Mawrth 2019 £'000	31 Mawrth 2018 £'000
Asedau anghyfredol			
Adeiladau, peiriannau ac offer	11	626,745	629,584
Asedau anghyffwrddadwy	12	661	758
Masnach ac eitemau derbyniadwy	15	69,363	62,875
Asedau ariannol eraill	16	0	0
Cyfanswm asedau anghyfredol		696,769	693,217
Asedau cyfredol			
Rhestr eiddo	14	16,077	15,190
Masnach ac eitemau derbyniadwy eraill	15	66,403	54,623
Asedau ariannol eraill	16	0	167
Arian parod a symiau sy'n cyfateb i arian parod	17	3,972	2,104
		86,452	72,084
Asedau anghyfredol a ddsberthir fel "Cedwir i'w Werthu"	11	38	667
Cyfanswm asedau cyfredol		86,490	72,751
Cyfanswm asedau		783,259	765,968
Rhwymedigaethau cyfredol			
Masnach a symiau taladwy eraill	18	(141,415)	(142,346)
Rhwymedigaethau ariannol cyfredol	19	0	0
Darpariaethau	20	(39,652)	(33,115)
Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol		(181,067)	(175,461)
Asedau/ (rhwymedigaethau) cyfredol net		(94,577)	(102,710)
Rhwymedigaethau anghyfredol			
Masnach a symiau taladwy eraill	18	(1,013)	(1,067)
Rhwymedigaethau ariannol eraill	19	0	0
Darpariaethau	20	(70,780)	(64,030)
Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol		(71,793)	(65,097)
Cyfanswm asedau a ddefnyddir		530,399	525,410
Ariannwyd gan :			
Ecwiti Trethdalwyr			
Cronfa Gyffredinol		402,323	393,676
Cronfa wrth gefn ailbriso		128,076	131,734
Cyfanswm ecwiti trethdalwyr		530,399	525,410

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol ar dudalennau 2A to 6A gan y Bwrdd ar 31 Mai 2019, ac fe'i arwyddwyd ar ei ran gan:

Ar ran y Prif Weithredwr a'r Swyddog Atebol



Dyddiad: 30 Mai 2019

Mae'r nodiadau ar dudalennau 7A i 70A yn rhan o'r cyfrifon hyn.

**Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti y Trethdalwyr
ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2019**

	Cronfa Gyffredinol £000s	Cronfa wrth gefn Ailbrisió £000s	Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn £000s
Newidiadau yn ecwiti trethdalwyr ar gyfer 2018-19			
Balans ar 31 Mawrth 2018	393,676	131,734	525,410
Addasiad ar gyfer Gweithredu IFRS 9	(1,371)	0	(1,371)
Balans ar 1 Ebrill 2018	392,305	131,734	524,039
Costau gweithredu net ar gyfer y flwyddyn	(1,532,531)		(1,532,531)
Enillion/(colledion) net ar ailbrisió eiddo, peiriannau ac offer	0	1,164	1,164
Enillion/(colledion) net ar ailbrisió asedau anghyffwrddadwy	0	0	0
Enillion/(colledion) net ar ailbrisió asedau ariannol	0	0	0
Enillion/(colledion) net ar ailbrisió asedau a gedwir i'w gwerthu	0	0	0
Gostyngiadau a childroadau	0	0	0
Symudiadau mewn cronfeydd eraill wrth gefn	0	0	0
Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn	4,822	(4,822)	0
Rhyddhau cronfeydd wrth gefn i SoCNE	0	0	0
Trosglwyddiadau i/o (nodwch)	0	0	0
Cyfanswm incwm a chostau cydnabyddedig ar gyfer 2018-19	(1,527,709)	(3,658)	(1,531,367)
Cyllid Net Llywodraeth Cymru	1,537,727		1,537,727
Balans ar 31 Mawrth 2019	402,323	128,076	530,399

Mae'r nodiadau ar dudalennau 7A i 70A yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Mae trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn yn cynrychioli'r balans a gedwir yn y gronfa wrth gefn ailbrisió ar gyfer bob ased anghyffredol y cafwyd gwared arnynt yn ystod 2018-19.

**Datganiad ar gyfer Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr
ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2018**

	Cronfa Gyffredinol £000s	Cronfa wrth gefn Ailbriso £000s	Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn £000s
Newidiadau yn ecwiti trethdalwyr ar gyfer 2017-18			
Balans ar 31 Mawrth 2017	388,140	70,138	458,278
Cost gweithredu net ar gyfer y flwyddyn	(1,492,291)		(1,492,291)
Enillion/(colledion) net wrth ailbriso adeiladau, peiriannau ac offer	0	74,908	74,908
Enillion/(colledion) net wrth ailbriso asedau anghyffwrddadwy	0	0	0
Enillion/(colledion) net wrth ailbriso asedau ariannol	0	0	0
Enillion/(colledion) net wrth ailbriso asedau a gedwir i'w gwerthu	0	0	0
Gostyngiadau a childroadau	0	(8,290)	(8,290)
Symudiadau mewn cronfeydd wrth gefn eraill	0	0	0
Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn	5,022	(5,022)	0
Rhyddhau cronfeydd wrth gefn i SoCNE	0	0	0
Trosglwyddiadau i/o (nodwch)	0	0	0
Cyfanswm incwm a chostau cydnabyddedig ar gyfer 2017-18	(1,487,269)	61,596	(1,425,673)
Cyllid net Llywodraeth Cymru	1,492,805		1,492,805
Balans ar 31 Mawrth 2018	393,676	131,734	525,410

Mae'r nodiadau ar dudalennau 7A i 70A yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Datganiad o Lifau Arian ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2019

	2018-19 £'000	2017-18 £'000
Llifau Arian o weithgareddau gweithredu		
	Nodyn	
Cost gweithredu net ar gyfer y flwyddyn ariannol	(1,532,531)	(1,492,291)
Symudiadau mewn Cyfalaf Gweithio	27 (16,010)	1,053
Addasiadau llif arian eraill	28 94,187	88,792
Darpariaethau a ddefnyddir	20 (26,935)	(18,309)
All-lif arian net o weithgareddau gweithredu	(1,481,289)	(1,420,755)
Llifau Arian o weithgareddau buddsoddi		
Prynu eiddo, peiriannau ac offer	(55,847)	(74,706)
Elw o gael gwared ar eiddo, peiriannau ac offer	532	527
Prynu asedau anghyffwrddadwy	(357)	(19)
Elw o gael gwared ar asedau anghyffwrddadwy	0	0
Taliadau ar gyfer asedau ariannol eraill	0	(167)
Elw o gael gwared ar asedau ariannol eraill	0	0
Taliadau ar gyfer asedau ariannol eraill	0	0
Elw o gael gwared ar asedau eraill	0	0
Mewnlif/(all-lif) arian parod net o weithgareddau buddsoddi	(55,672)	(74,365)
Mewnlif/(all-lif) arian parod net cyn cyllido	(1,536,961)	(1,495,120)
Llifau arian o weithgareddau cyllido		
Cyllid gan Lywodraeth Cymru (yn cynnwys cyfalaf)	1,537,727	1,492,805
Derbynebaw cyfalaf a ildwyd	0	0
Grantiau cyfalaf a dderbyniwyd	1,102	909
Elfen gyfalaf taliadau o ran prydlesau cyllid ac ar -SoFP	0	0
Arian a drosglwyddwyd (i)/ gan gyrff GIG eraill	0	0
Cyllid net	1,538,829	1,493,714
Cynnydd/(gostyngiad) net		
mewn arian parod a symiau sy'n gyfwerth ag arian parod	1,868	(1,406)
Arian parod a symiau sy'n gyfwerth ag arian parod		
(a gorddrafftiau banc) ar 1 Ebrill 2018	2,104	3,510
Arian parod a symiau sy'n gyfwerth ag arian parod		
(a gorddrafftiau banc) ar 31 Mawrth 2019	3,972	2,104

Mae'r nodiadau ar dudalennau 7A i 70A yn rhan o'r cyfrifon hyn.

1. Polisiau cyfrifyddu

1. Polisiau cyfrifyddu

Mae Gweinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi gofyn i'r datganiadau ariannol y Byrddau lechyd Lleol yng Nghymru fodloni gofynion cyfrifyddu'r Llawlyfr Cyfrifon GIG Cymru. O ganlyniad, mae'r datganiadau ariannol canlynol wedi cael eu paratoi yn unol â Llawlyfr Cyfrifon 2018-19. Mae'r polisiau cyfrifyddu yn y llawlyfr hwnnw yn dilyn y fersiwn Undeb Ewropeaidd o'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol i'r graddau eu bod yn ystyrlon ac yn briodol i'r GIG, fel y penderfynir gan Drysorlys ei Mawrhydi, sy'n cael eu cynghori gan y Bwrdd Cynghori Adrodd Ariannol. Ble mae'r Llawlyfr Cyfrifon y BILI yn caniatáu dewis o bolisiau cyfrifyddu, mae'r polisi cyfrifyddu a deimlir i fod fwyaf perthnasol i'r amgylchiadau penodol y BILI at ddiben rhoi safbwynt cywir a theg yn cael ei ddewis. Disgrifir y polisiau penodol a fabwysiadir gan y BILI isod. Mae'r polisiau hyn wedi cael eu defnyddio wrth ddelio ag eitemau a ystyrir yn ddeunyddiau o ran y cyfrifon.

1.1 Confensiwn cyfrifyddu

Mae'r cyfrifon hyn wedi eu paratoi dan gonfensiwn costau hanesyddol wedi'u haddasu i ystyried ailbriso eiddo, peiriannau ac offer, asedau anghyffwrddadwy a rhestrau eiddo.

1.2 Caffaeliadau a gweithrediadau a derfynwyd

Ystyrir bod gweithgareddau yn 'gaffaeledig' dim ond os ydynt yn cael eu cymryd o du allan i'r sector cyhoeddus. Ystyrir bod gweithgareddau 'wedi'u terfynu' os ydynt yn darfod yn llwyr. Nid ydynt yn cael eu hystyried 'wedi'u terfynu' os ydynt yn trosglwyddo o un corff cyhoeddus i un arall.

1.3 Incwm a chyllid

Prif ffynhonnell o arian ar gyfer Byrddau lechyd Lleol (BILI) yw dyraniad gan Lywodraeth Cymru (Cyllid Llywodraeth Cymru) o fewn cyfyngiad arian cymeradwy, sy'n cael ei roi i Gronfa Gyffredinol y Bwrdd lechyd Lleol. Mae cyllid Llywodraeth Cymru yn cael ei gydnabod yn y cyfnod ariannol y mae'r arian yn cael ei dderbyn.

Mae cyllid annewisol y tu allan i'r Terfyn Adnoddau Refeniw yn cael ei ddyrannu i gyd-fynd â gwariant gwirioneddol a achoswyd ar gyfer darpariaeth gwasanaethau fferyllol neu offthalmig penodol a ddynodwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae gwariant annewisol yn cael ei ddatgelu yn y cyfrifon, a'u tynnu o'r costau gweithredu a godir yn erbyn y Terfyn Adnoddau Refeniw.

Mae cyllid ar gyfer caffaeliad asedau sefydlog a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru yn cael ei roi yn y Gronfa Gyffredinol.

Mae incwm amrywiol yn incwm sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau gweithredu'r Bwrdd lechyd Lleol (BILI) ac nid yw'n cael ei gyllido'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys taliadau ar gyfer gwasanaethau a ddarperir yn unigryw gan y BILI ar gyfer Llywodraeth Cymru megis cyllid a ddarperir i asiantaethau a chostau nad ydynt yn weithgareddau a achoswyd gan y BILI yn ei rôl darparwr. Mae incwm a dderbyniwyd gan Fyrddau lechyd Lleol yn trafod â Byrddau lechyd eraill yn cael ei drin bob amser fel incwm amrywiol.

O 2018-19, mae IFRS 15 Refeniw o Gontractau gyda Chwsmeriaid yn cael ei ddefnyddio, fel y dehonglwyd ac addaswyd ar gyfer y sector cyhoeddus, yn y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FREm). Mae'n cymryd lle'r safonau IAS 11 blaenorol Contractau Adeiladu ac IAS 18 Refeniw, a dehongliadau SIC ac IFRIC perthnasol. Wrth drawsnewid, mae'r polisi cyfrifyddu i ailddatgan ôl-weithredol yn unol ag IAS 8 wedi cael ei dynnu'n ôl. Bydd bob endid sy'n defnyddio'r FREm yn cydnabod y gwahaniaeth rhwng swm dwyn ymlaen blaenorol a'r swm dwyn ymlaen ar ddechrau'r cyfnod adrodd blynyddol sy'n cynnwys dyddiad y defnydd cychwynol yn y gronfa gyffredinol o fewn ecwiti'r trethdalwyr.

Cynhaliwyd adolygiad sy'n gyson â'r dull portffolio gan aelodau Grŵp Cyfrifyddu Technegol y GIG, a wnaeth:

- ddynodi mai'r unig incwm perthnasol fyddai o bosibl angen cael ei addasu dan IFRS 15 a oedd y rhai ar gyfer gofal cleifion a ddarperir dan Drefniadau Tymor Hir (LTA) ar gyfer cyfnodau o ofal a oedd wedi dechrau ond heb orffen erbyn diwedd y cyfnod ariannol;
- ddangos bod yr addasiadau posibl i Gyfrifon Bwrdd Iechyd Lleol, Ymddiriedolaeth y GIG, GIG Cymru o ganlyniad i addasu'r IFRS 15 yn sylweddol is na'r lefelau perthnasedd.

Dan y Fframwaith IFRS Cysyniadol mae'n rhaid rhoi ystyriaeth briodol i ddefnyddwyr y cyfrifon, a'r cyfyngiad cost cydymffurfiaeth ac adrodd a chynhyrchu adroddiadau ariannol. O ystyried bod yr incwm ar gyfer gweithgaredd LTA yn cael ei gydnabod yn unol ag Amodau a Thelerau sefydledig y GIG sy'n effeithio ar fwy nag un parti ar draws GIG Cymru, ystyriwyd ei bod yn rhesymol i barhau i gydnabod yn unol â'r telerau sefydledig hynny ar y sail bod hyn yn darparu gwybodaeth sy'n berthnasol i'r defnyddwyr, ac nad yw gwneud hyn yn arwain at gamddatganiad sylweddol o'r ffigurau a adroddwyd arnynt. Dengys mwy o wybodaeth ar y gwaith sydd wedi'i wneud i sefydlu'r casgliad hwn yn Nodyn 34 o'r cyfrifon hyn.

Mae incwm yn cael ei gynnwys drwy ddefnyddio'r confensiwn cronïadau. Mae incwm yn cael ei gydnabod yn ystod y cyfnod y mae'r gwasanaethau'n cael eu darparu. Ble derbyniwyd incwm gan drydydd partiön ar gyfer gweithgaredd penodol i'w ddarparu yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, bydd yr incwm hwnnw yn cael ei ohirio. Dim ond incwm nad yw'n un y GIG y gellir ei ohirio.

1.4 Budd-daliadau gweithwyr

Budd-daliadau gweithwyr tymor byr

Mae cyflogau, tâl a thaliadau sy'n gysylltiedig â gweithwyr yn cael eu cydnabod yn y cyfnod y mae'r gwasanaeth yn cael ei dderbyn gan weithwyr. Nid yw'r BIL yn caniatáu cario gwyliau blynyddol ymlaen o un cyfnod i'r nesaf fel rheol onid yw'r cyfnod gwyliau yn wahanol i'r cyfnod cyfrifyddu. Lle mae gweithwyr yn cael cario gwyliau drosodd i'r cyfnod nesaf, mae'r costau cysylltiedig yn cael eu cydnabod yn llawn yn y datganiadau ariannol.

Costau budd-dal ymdeol

Mae darpariaeth Cynllun Pensiwn y GIG yn cwmpasu gweithwyr presennol a chyn-weithwyr. Mae'r cynllun yn gynllun buddion diffiniedig, heb ei ariannu, sy'n darparu ar gyfer cyflogwyr y GIG, Meddygfeydd Cyffredinol a chyrrff eraill, a ganiateir o dan gyfarwyddyd yr Ysgrifennydd Gwladol, yn Lloegr a Chymru. Nid yw'n fwriad rhedeg y cynllun mewn modd a fyddai'n galluogi cyrrff GIG i ddynodi eu cyfran o asedau a rhwymedigaethau'r cynllun sylfaenol. Felly, cyfrifir y cynllun fel y byddai'n gynllun cyfraniadau diffiniedig: mae cost y cynllun i'r corff GIG sy'n rhan ohono yn gyfartal i'r cyfraniadau sy'n daladwy i'r cynllun am y cyfnod cyfrifo.

Ar gyfer ymdeoliadau cynnar ar wahân i rai salwch, nid yw'r rhwymedigaethau pensiwn ychwanegol yn cael eu hariannu gan y cynllun. Mae cost lawn y rhwymedigaeth ar gyfer y costau ychwanegol yn cael ei chodi ar wariant ar yr adeg mae'r BIL yn ymrwymo ei hun i'r ymdeoliad, waeth beth fo'r dull o dalu.

Lle mae cyflogwr yn aelodau o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, sy'n gynllun pensiwn buddion diffiniedig mae hyn yn cael ei ddatgelu. Gall asedau a rhwymedigaeth y cynllun sydd i'w priodoli i'r gweithwyr hynny gael eu dynodi, ac maent yn cael eu cydnabod yng nghyfrifon y BIL. Mae'r asedau'n cael eu mesur ar werth teg, a'r rhwymedigaethau ar y gwerth presennol o oblygiadau'r dyfodol. Mae'r cynnydd yn yr atebolrwydd o'r gwasanaeth pensiynadwy a enillwyd yn ystod y flwyddyn yn cael ei gydnabod o fewn y treuliau gweithredu. Mae'r cynnydd disgwylid yn ystod y flwyddyn o asedau cynllun yn cael ei gydnabod o fewn incwm cyllid. Mae'r gost llog yn ystod y flwyddyn sy'n codi o ddatod y disgownt yn rhwymedigaethau'r cynllun yn cael ei gydnabod o fewn costau cyllid.

Cynllun Pensiwn NEST

Mae'n rhaid i'r BIL gynnig cynllun pensiwn amgen i weithwyr nad ydynt yn gymwys i ymuno â chynllun Pensiwnau'r GIG. Felly, mae'r cynllun Pensiwn NEST (Ymddiriedolaeth Cenedlaethol Arbedion Cyflogaeth) yn gynllun cyfraniadau diffiniedig ac mae cost y cynllun i'r corff GIG sy'n rhan ohono yn gyfartal i'r cyfraniadau sy'n daladwy i'r cynllun am y cyfnod cyfrifo.

1.5 Costau eraill

Mae costau gweithredu eraill ar gyfer nwyddau neu wasanaethau yn cael eu cydnabod pan maent yn cael eu derbyn, ac i'r graddau y maent wedi cael eu derbyn. Maent yn cael eu mesur ar y gwerth teg o'r ystyriaeth sy'n daladwy.

1.6 Eiddo, peiriannau ac offer

Cydnabyddiaeth

Mae eiddo, peiriannau ac offer yn cael eu cyfalafu os:

- y'u cedwir ar gyfer eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau neu at ddibenion gweinyddol;
- yw'n debygol y bydd buddion economaidd y dyfodol yn llifo i, neu os bydd potensial gwasanaeth yn cael ei gyflenwi i'r BILL;
- disgwylir iddynt gael eu defnyddio ar gyfer mwy nag un flwyddyn ariannol;
- yw cost yr eitem yn gallu cael ei mesur yn ddibynadwy; a
- oes gan yr eitem gost o leiaf £5,000; neu
- ar y cyd, mae gan nifer o eitemau werth o o leiaf £5,000 ac yn unigol maent werth mwy na £250, lle mae'r asedau yn rhyngddibynnol yn ymarferol, lle mae ganddynt ddyddiadau prynu cydamserol yn fras, rhagwelir bod ganddynt yr un dyddiadau gwaredu, ac maent o dan reolaeth unigol; neu
- yw'r eitemau yn rhan o gost sefydlu a chyfarparu cychwynnol adeilad newydd, ward neu uned, waeth beth fo'u cost unigol neu gost ar y cyd.

Lle mae ased mawr, er enghraifft adeilad, yn cynnwys nifer o elfennau sydd ag oes ased gwahanol iawn, mae'r elfennau yn cael eu trin fel asedau ar wahân, ac yn cael eu dibrisio dros eu bywydau economaidd defnyddiol eu hunain.

Prisiad

Mae bob eiddo, peiriant ac offer yn cael eu mesur i ddechrau ar gost, gan gynrychioli'r gost sydd i'w briodoli yn uniongyrchol i gaffael neu adeiladu'r ased, a dod ag o i'r lleoliad ac yn y cyflwr sy'n briodol iddo fod yn gallu gweithredu yn y modd y bwriadir iddo gan reolwyr.

Nodir y tiroedd a'r adeiladau a ddefnyddir ar gyfer y gwasanaethau BILL neu at ddibenion gweinyddol yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol (SoFP) ar eu gwerthoedd a ail-brisiwyd, sef gwerth teg ar ddyddiad yr ailbrisiad, wedi tynnu unrhyw ddibrisiad a cholledion gostyngiadau cronodig olynol. Mae ailbrisiadau yn cael eu perfformio yn ddigon cyson i sicrhau nad yw symiau dwyn ymlaen yn sylweddol wahanol i'r rhai a fyddai'n cael eu pennu ar ddiwedd y cyfnod adrodd. Mae gwerthoedd teg yn cael eu pennu fel a ganlyn:

- Tir ac adeiladau nad ydynt yn arbenigol - gwerth y farchnad ar gyfer defnydd presennol
- Adeiladau arbenigol – cost amnewid wedi'i dibrisio.

Mae Trysorlys ei Mawrhydi wedi mabwysiadu dull safonol at brisiadau cost amnewid wedi'i dibrisio yn seiliedig ar asedau cyfwerth modern, a, lle y byddai'n bodloni'r gofynion lleoliad y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu, gellir prisio safle amgen. Mae cyrff GIG Cymru wedi cymhwysu'r gofynion prisio newydd hyn o 1 Ebrill 2009.

Mae eiddo sy'n cael ei adeiladu at ddibenion gweinyddol neu wasanaeth yn cael eu cynnal ar gost, wedi tynnu unrhyw golledion gostyngiad. Mae costau yn cynnwys ffioedd proffesiynol ond dim costau benthyca, sy'n cael eu cydnabod fel treuliau yn syth, fel y caniateir gan IAS 23 ar gyfer asedau a gedwir ar werth teg. Mae ailbrisiad a dibrisio asedau yn dechrau pan maent yn dechrau cael eu defnyddio.

Yn 2017-18 defnyddiwyd ymarfer ailbrisiad ffurfiol i dir ac eiddo. Bydd gwerth dwyn ymlaen yr asedau presennol ar y dyddiad yn cael ei ddileu dros eu hoes ddefnyddiol sy'n weddill, ac mae darnau gosod ac offer newydd yn cael eu cynnal ar gost hanesyddol wedi'i dibrisio, gan nad yw hwn yn cael ei ystyried i fod yn wahanol o ran deunyddiau o'r gwerth teg.

Mae cynnydd sy'n codi wrth ailbrizio yn mynd i'r gronfa wrth gefn ailbrizio ac eithrio pan mae'n gwrthdroi gostyngiadau ar gyfer yr un ased a gydnabuwyd yn flaenorol yn y gwariant, ac mewn achos felly mae'n cael ei roi i'r graddau'r gostyngiad a godir yn flaenorol. Mae gostyngiad ailbrizio nad yw'n arwain at golled o werth economaidd neu botensial gwasanaeth yn cael ei gydnabod fel gostyngiad a godir i'r gronfa ailbrizio i'r graddau bod balans yn y gronfa wrth gefn ar gyfer yr ased ac, wedyn, i'r gwariant. Dylai colledion gostyngiad sy'n codi o dreuliant clir o fuddion economaidd gael eu cynnwys yn y gwariant.

Mae'r cyfeiriad yn IAS 36 at gydnabod colled gostyngiad o ased wedi'i ailbrizio sy'n cael ei drin fel gostyngiad ailbrizio i'r graddau nad yw'r gostyngiad yn fwy na'r swm yn y warged ailbrizio ar gyfer yr un ased, yn cael eu haddasu fel mai'r colledion gostyngiad nad ydynt yn ganlyniad i dreuliant clir o fuddion economaidd neu ostyngiad mewn potensial gwasanaeth yn unig (yn cynnwys o ganlyniad i golled neu niwed sy'n deillio o weithrediadau busnes arferol) sy'n mynd i'r gronfa wrth gefn ailbrizio. Dylai colledion gostyngiadau sy'n codi o dreuliant clir o fuddion economaidd gael eu cynnwys yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr (SoCNE).

O 2015-16, mae'n rhaid i'r BILI gydymffurfio â Mesur Gwerth Teg IFRS 13 yn llawn. Er hynny, mae IAS 16 ac IAS 38 wedi cael eu haddasu ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus, sy'n cyfyngu ar yr amgylchiadau lle mae prisiant yn cael ei baratoi dan IFRS 13. Dylai asedau a gedwir ar gyfer eu potensial gwasanaeth, ac sy'n cael eu defnyddio gael eu mesur ar eu gwerth cyfredol sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd. Ar gyfer asedau arbenigol, dylai gwerth cyfredol sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd gael ei ddehongli fel gwerth presennol y potensial gwasanaeth sy'n weddill, y gellir ei gymryd ei fod yn gyfartal o leiaf i gost amnewid y potensial gwasanaeth.

Yn unol ag addasiadau IAS 16 yn nhabl 6.2 o'r FReM, ar gyfer asedau nad ydynt yn arbenigol mewn defnydd gweithredol, mae gwerth cyfredol mewn defnydd presennol yn cael ei ddehongli fel gwerth marchnad ar gyfer defnydd presennol sy'n cael ei ddiffinio yn Llyfr Coch RICS fel Gwerth Defnydd Presennol (EUV).

Dylai asedau a gadwyd fwyaf diweddar ar gyfer eu potensial gwasanaeth ond sydd dros ben, gael eu prasio ar werth cyfredol sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd, os oes cyfyngiadau ar yr endid neu'r ased fyddai'n atal mynediad at y farchnad ar y dyddiad adrodd. Os byddai'r BILI yn cael mynediad at y farchnad yna dylid defnyddio'r ased gwarged ar werth teg gan ddefnyddio IFRS 13. Wrth benderfynu a yw ased nad yw'n cael ei ddefnyddio yn warged, dylid gwneud asesiad a oes cynllun clir i ddod â'r ased yn ôl i ddefnydd fel ased gweithredol. Lle mae cynllun clir, nid yw'r ased yn warged, a dylid cynnal y gwerth cyfredol sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd. Fel arall, dylai'r ased gael ei asesu fel bod yn warged a'i brisio dan IFRS13.

Dylai asedau nad ydynt yn cael eu cadw ar gyfer eu potensial gwasanaeth gael eu prasio yn unol ag IFRS 5 neu IAS 40 yn dibynnu ar a yw'r ased yn cael ei gadw'n weithredol i'w werthu. Lle nad yw ased yn cael ei ddefnyddio i ddarparu gwasanaethau ac nid oes cynllun i'w ddefnyddio eto, heb unrhyw gyfyngiadau rhag gwerthu, ac nad yw'n bodloni meini prawf IAS 40 a IFRS 5, mae'r asedau hyn yn warged ac yn cael eu prasio ar werth teg gan ddefnyddio IFRS 13.

Gwariant dilynol

Lle mae gwariant dilynol yn gwella ased y tu hwnt i'w fanyleb wreiddiol, mae'r gost y gellir ei phriodoli'n uniongyrchol yn cael ei chyfalafu. Lle mae gwariant dilynol yn adennill yr ased i'w fanyleb wreiddiol, mae'r gwariant yn cael ei gyfalafu, ac mae unrhyw werth dwyn ymlaen yr eitem sy'n cael ei amnewid yn cael ei gofnodi a'i godi ar y SoCNE. Fel y pwysleisiwyd mewn blynyddoedd blaenorol, nid oes gan y GIG yng Nghymru systemau yn eu lle i sicrhau y gall yr holl eitemau sy'n cael eu "hamnewid" gael eu dynodi, ac felly dyna pam mae'r gost sy'n gysylltiedig yn cael ei feintioli. Felly mae'r GIG yng Nghymru wedi sefydlu protocol cenedlaethol i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r safon cyn belled ag y bo'n gallu, sy'n cael ei amlinellu yn y bennod cyfrifyddu cyfalaf y Llawlyfr ar gyfer Cyfrifon. Mae hyn yn gorchymyn nad yw gwerthoedd dwyn ymlaen ased yn cael eu gorbwysleisio yn sylweddol, mae gofyn i gyrrff GIG gael ailbrizio bob Cynllun Cyfalaf Cymru Gyfan sy'n cael ei gwblhau yn ystod y flwyddyn ariannol yn ystod y flwyddyn honno (cyn iddynt gael eu defnyddio) ac mae angen ailbrisiadau tebyg ar gyfer bob Cynllun Adeiladu Disgresiwn a gwblhawyd sydd â gwariant mwy na £0.5m. Mae'r gostyngiadau a ddynodwyd yng ngwerth yr asedau yna'n cael eu cynnwys yn y costau gweithredu.

1.7 Asedau anghyffwrddadwy

Cydnabyddiaeth

Mae asedau anghyffwrddadwy yn asedau heb fod yn rhai ariannol heb sylwedd corfforol, sy'n gallu cael eu gwerthu ar wahân i weddill busnes y BILI, neu sy'n codi o hawliau cytundebol neu hawliau cyfreithiol eraill. Maent yn cael eu cydnabod yn unig pan mae hi'n debygol y bydd buddion economaidd y dyfodol yn llifo i'r BILI, neu pan fydd potensial gwasanaeth yn cael ei ddarparu i'r BILI; lle gellir mesur cost yr ased yn ddibynadwy, a lle mae'r gost o leiaf £5,000.

Mae asedau anghyffwrddadwy a gafwyd ar wahân yn cael eu cydnabod ar werth teg i ddechrau. Mae meddalwedd sy'n anhepgor i'r ffordd y mae caledwedd yn gweithio, er enghraifft system weithredu, yn cael ei gyfalafu fel rhan o'r eitem berthnasol o eiddo, peiriannau ac offer. Mae meddalwedd nad yw'n anhepgor i'r ffordd y mae caledwedd yn gweithio, er enghraifft meddalwedd cymhwysiad, yn cael ei gyfalafu fel ased anghyffwrddadwy. Nid yw gwariant ar ymchwil yn cael ei gyfalafu: mae'n cael ei gydnabod fel treuliant gweithredu yn y cyfnod a achoswyd. Mae asedau a gynhyrchir yn fewnol yn cael eu cydnabod, a dim ond os yw bob un o'r canlynol yn cael eu harddangos:

- y dichonolrwydd technegol o gwblhau'r ased anghyffwrddadwy fel ei fod ar gael i'w ddefnyddio;
- y bwriad i gwblhau'r ased anghyffwrddadwy a'i ddefnyddio;
- y gallu i ddefnyddio'r ased anghyffwrddadwy;
- sut bydd yr ased anghyffwrddadwy yn cynhyrchu buddion economaidd tebygol y dyfodol;
- argaeledd adnoddau technegol, ariannol ac adnoddau eraill digonol i gwblhau'r ased anghyffwrddadwy a'i ddefnyddio;
- y gallu i fesur yn ddibynadwy'r gwariant i'w briodoli i'r ased anghyffwrddadwy yn ystod ei ddatblygiad.

Mesur

Y swm a gydnabyddir i ddechrau ar gyfer asedau anghyffwrddadwy a gynhyrchir yn fewnol yw'r swm o'r gwariant a achoswyd o'r dyddiad pan mae'r meini prawf uchod wedi eu bodloni i ddechrau. Lle na ellir cydnabod unrhyw asedau anghyffwrddadwy a gynhyrchir yn fewnol, mae'r gwariant yn cael ei gydnabod yn y cyfnod yr achoswyd.

Yn dilyn cydnabyddiaeth gychwynnol, mae asedau anghyffwrddadwy yn cael eu cynnal ar werth teg drwy gyfeirio at farchnad weithredol, neu, lle nad oes marchnad weithredol yn bodoli, ar gost amnewid wedi'i hamorteiddio (sail asedau cyfwerth modern), yn cael eu mynegri o ar gyfer cynnydd mewn pris perthnasol, fel dirprwy ar gyfer gwerth teg. Mae meddalwedd a ddatblygir yn fewnol yn cael ei chadw ar gost hanesyddol i adlewyrchu'r effeithiau gwrthwynebus o gynnydd mewn costau datblygiad a datblygiadau technolegol.

1.8 Dibrisiad, amorteiddiad a gostyngiadau

Nid yw tir rhydd-ddaliadol, asedau wrthi'n cael eu hadeiladu ac asedau a gedwir i'w gwerthu yn cael eu dibrisio.

Fel arall, mae dibrisiad ac amorteiddiad yn cael eu codi i gael gwared ar gostau neu brisiad yr eiddo, peiriannau ac offer ac asedau anghyffwrddadwy anghyfredol, wedi tynnu unrhyw werth dros ben, dros amcangyfrif o'u hoes ddefnyddiol, mewn modd sy'n adlewyrchu'r treuliant o fuddion economaidd neu botensial gwasanaeth yr asedau.

Yr amcangyfrif o oes ddefnyddiol ased yw'r cyfnod y mae'r BILI yn disgwyl cael buddion economaidd neu botensial gwasanaeth gan yr ased. Mae hwn yn benodol i'r BILI, ac efallai y bydd yn llai nag oes gorfforol yr ased ei hun. Mae amcangyfrif o oes ddefnyddiol a gwerth gweddilliol yn cael eu hadolygu ar ddiwedd bob blwyddyn, gydag effaith unrhyw newid yn cael ei gydnabod ar sail arfaethedig. Mae asedau a gedwir dan brydlesau cyllid yn cael eu dibrisio dros gyfnod byrraf y brydles, ac amcangyfrif o oes ddefnyddiol.

Ar ddiwedd bob cyfnod adrodd, bydd y BILI yn gwirio a oes unrhyw arwydd bod unrhyw rai o'i asedau anghyfredol diriaethol neu anghyffwrddadwy wedi dioddef o golled gostyngiad. Os oes awgrym bod colled gostyngiad, mae gwerth adferadwy'r ased yn cael ei amcangyfrif i benderfynu a oes colled wedi bod, ac os oes, ei swm. Mae asedau anghyffwrddadwy nad ydynt ar gael i'w defnyddio eto yn cael eu profi ar gyfer gostyngiadau yn flynyddol.

Mae colledion gostyngiad nad ydynt o ganlyniad i golled o werth economaidd neu botensial gwasanaeth yn cael ei gydnabod fel gostyngiad a godir i'r gronfa wrth gefn ailbriso i'r graddau bod balans ar y gronfa wrth gefn ar gyfer yr ased ac wedyn, i'r SoCNE. Mae colledion gostyngiad sy'n codi o dreuliant clir o fuddion economaidd yn cael eu cynnwys yn y SoCNE. Mae balans unrhyw gronfa ailbriso (hyd at lefel y gostyngiadau) y byddai'r gostyngiadau wedi eu codi arni dan IAS 36 yn cael eu trosglwyddo i'r enillion argadwedig.

1.9 Ymchwil a Datblygiad

Mae gwariant ymchwil a datblygiad yn cael ei godi ar gostau gweithredu yn y flwyddyn yr achoswyd, ar wahân i'r ffaith ei fod yn berthnasol i brosiect a ddiffinnir yn glir, a ellir ei wahanu o weithgaredd gofal cleifion, a gellir yn rhesymol ystyried buddion o hynny ymlaen fel rhai sicr. Mae gwariant gohiriedig yn gyfyngedig i werth buddion y dyfodol disgwylidig, ac mae'n cael ei amorteiddio drwy'r SoCNE ar sail systematig dros y cyfnod a ddisgwyllir i elwa o'r prosiect.

1.10 Asedau anghyfredol a gedwir i'w gwerthu

Mae asedau anghyfredol yn cael eu dosbarthu fel eu bod yn cael eu cadw i'w gwerthu os bydd eu swm dwyn ymlaen yn cael ei adennill drwy werthiant am arian parod yn bennaf yn hytrach na drwy ddefnydd parhaus. Ystyrir bod y cyflwr wedi'i fodloni pan mae'r gwerthiant yn debygol iawn, bod yr ased yn barod i'w werthu yn syth yn ei gyflwr presennol, a bod rheolwyr yn ymroddedig i'r gwerthiant, y disgwyllir iddo gymhwyso ar gyfer cydnabyddiaeth fel gwerthiant gorffenedig o fewn blwyddyn o ddyddiad y dosbarthiad. Mae asedau anghyfredol a gedwir i'w gwerthu yn cael eu mesur ar y lefel isaf o'u swm dwyn ymlaen blaenorol a gwerth teg, wedi tynnu'r costau i werthu. Mae gwerth teg yn werth marchnad agored yn cynnwys dibenion amgen.

Yr enillion neu'r colledion sy'n codi o gael gwared ar ased yw'r gwahaniaeth rhwng yr enillion gwerthu a'r swm dwyn ymlaen, ac mae'n cael ei gydnabod yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Wrth gael gwared arno, mae balans yr ased yn y gronfa ailbriso, yn cael ei drosglwyddo i'r Gronfa Gyffredinol.

Nid yw eiddo, peiriannau ac offer sydd i'w sgrapio neu eu chwalu yn gymwys ar gyfer ei gydnabod fel ei bod yn cael ei gadw i'w werthu. Mae'n cael ei gadw fel ased gweithredol yn hytrach ac mae ei oes economaidd yn cael ei addasu. Rhwir y gorau i gydnabod yr ased pan mae'n cael ei sgrapio neu ei chwalu.

1.11 Prydlesau

Mae prydlesau yn cael eu dosbarthu fel prydlesau cyllid pan mae'r holl risgiau a thaliadau sylweddol o berchnogaeth yn cael eu trosglwyddo i'r deiliaid prydles. Mae'r holl brydlesau eraill yn cael eu dosbarthu fel prydlesau gweithredu.

1.11.1 Y Bwrdd Iechyd Lleol fel deiliaid prydles

Mae eiddo, peiriannau ac offer a gedwir dan brydlesau cyllid yn cael eu cydnabod i ddechrau, ar ddechrau'r brydles, ar eu gwerth teg neu, os yw'n llai, ar y gwerth presennol o leiafswm taliadau prydles, gyda rhwymedigaeth gyfatebol ar gyfer rhwymedigaeth prydles i'r prydleswr. Mae taliadau prydles gweithredu yn cael eu cydnabod fel traul ar sail llinol dros gyfnod y brydles, er mwyn cyflawni cyfradd gyson ar falans y rhwymedigaeth sy'n weddill. Mae ffioedd ariannol yn cael eu codi'n uniongyrchol i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

Mae taliadau prydles gweithredu yn cael eu cydnabod fel traul ar sail llinol dros gyfnod y brydles. Mae mentrau prydles yn cael eu cydnabod i ddechrau fel rhwymedigaeth, ac fel gostyngiad yn rhenti ar sail llinol dros gyfnod y brydles wedyn. Mae rhenti amodol yn cael eu cydnabod fel traul yn y cyfnod y maent wedi eu hachosi.

Lle mae'r brydles ar gyfer tir ac adeiladau, mae'r elfennau tir ac adeiladau yn cael eu gwahanu ac yn cael eu hasesu'n unigol o ran a ydynt yn brydlesau gweithredu neu brydlesau cyllid.

1.11.2 Y Bwrdd Iechyd Lleol fel prydleswr

Mae'r symiau sydd eu hangen gan ddeiliaid prydlesau dan brydlesau cyllid yn cael eu cofnodi fel eitemau derbyniadwy yn nifer buddsoddiad net y BILI yn y prydlesau. Mae incwm prydles cyllid yn cael ei ddsbarthu i gyfnodau cyfrifyddu er mwyn adlewyrchu cyfradd enillion cyfnodol cyson ym muddsoddiad net y BILI sy'n weddill o ran y prydlesau.

Mae incwm rhent o brydlesau gweithredu yn cael ei gydnabod ar sail llinol dros gyfnod y brydles. Mae costau uniongyrchol cychwynnol a achoswyd wrth drafod a threfnu unrhyw brydles gweithredu yn cael eu hychwanegu at y swm dwyn ymlaen o'r ased ar brydles, ac yn cael eu cydnabod ar sail llinol dros gyfnod y brydles.

1.12 Rhestrau Eiddo

Er ei bod hi'n gonfensiwn cyfrifyddu i restrau eiddo gael eu prisio ar y gost isaf, a gwerth gwiredadwy net gan ddefnyddio'r fformiwla'r cost cyfartaledd wedi'u pwysoli neu cost cyntaf i mewn y cyntaf allan, dylid cydnabod bod y GIG yn achos arbennig o ran nad yw rhestrau eiddo yn cael eu cadw yn gyffredinol ar gyfer y bwriad o ailwerthu, ac yn wir nid oes marchnad eisoes ar gael lle gellir gwerthu'r eitemau o'r fath. Mae rhestrau eiddo yn cael eu prisio ar gost, ac mae hyn yn cael ei ystyried i fod yn fras amcan rhesymol i werth teg oherwydd y trosiant uchel o stoc. Mae gwaith ar y gweill yn cynnwys nwyddau mewn cyfnodau canolraddol cynhyrchu. Nid yw contractau sydd wedi'u cwblhau yn rhannol ar gyfer gwasanaethau cleifion yn cael eu hystyried fel gwaith ar y gweill.

1.13 Arian parod a chyfwerth ag arian parod

Mae arian parod yn arian parod mewn llaw ac arian cadw gydag unrhyw sefydliad ariannol sy'n ad-daladwy heb gosb gyda rhybudd o ddim mwy na dau ddeg pedwar awr. Mae cyfwerth ag arian parod yn fuddsoddiadau sy'n aeddfedu mewn tri mis neu lai o ddyddiad y caffael, ac sy'n drosadwy yn rhwydd i nifer sy'n hysbys o arian parod gyda risg ddinod o newid mewn gwerth. Yn y Datganiad o Lifau Arian, dangosir arian parod a chyfwerth ag arian parod heb gynnwys gorddrafft banc sy'n ad-daladwy ar alw, ac sy'n rhan anhepgor o reoli arian parod.

1.14 Darpariaethau

Mae darpariaethau'n cael eu cydnabod pan mae gan y BILI rwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol o ganlyniad i ddiwyddiad o'r gorffennol, mae'n debygol y bydd hi'n ofynnol i BILI i setlo'r rhwymedigaeth, a gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth. Y swm a gydnabyddir fel darpariaeth yw'r amcangyfrif gorau o'r gwariant sy'n ofynnol i setlo'r rhwymedigaeth ar ddiwedd y cyfnod adrodd, gan ystyried y risgiau a'r ansicrwydd. Lle mae darpariaeth yn cael ei mesur gan ddefnyddio'r llifau arian a amcangyfrifir i setlo'r rhwymedigaeth, ei swm dwyn ymlaen yw'r gwerth presennol o'r llifau gwaith hynny gan ddefnyddio'r gyfradd disgownt a ddefnyddir gan Drysorlys ei Mawrhydi.

Lle disgwylir i ychydig neu'r holl fuddion economaidd sy'n ofynnol i setlo darpariaeth gael eu hadennill gan drydydd parti, mae'r eitem dderbyniadwy yn cael ei chydabod fel ased os yw'n bron iawn yn sicr y bydd ad-daliadau yn cael eu derbyn, a gellir mesur swm yr eitemau derbyniadwy yn ddibynadwy.

Mae rhwymedigaethau presennol sy'n codi dan gontractau beichus yn cael eu cydnabod a'u mesur fel darpariaeth. Ystyrir bod contract beichus yn bodoli lle mae gan y BILI gontract lle mae'r costau na ellir eu hosgoi o fodloni'r rhwymedigaethau dan y contract yn fwy na'r buddion economaidd a ddisgwylir i'w derbyn oddi tano.

Mae darpariaeth ailstrwythuro yn cael ei chydabod pan mae'r BILI wedi datblygu cynllun ffurfiol manwl ar gyfer yr ailstrwythuro, ac wedi codi disgwyliad dilys o ran y rhai a effeithir arnynt y bydd yn cynnal yr ailstrwythuro drwy ddechrau gweithredu'r cynllun neu gyhoeddi ei brif nodweddion i'r rhai a effeithir arnynt ganddo. Mae mesur darpariaeth ailstrwythuro yn cynnwys y gwariant uniongyrchol yn unig sy'n codi o'r ailstrwythuro, sef y symiau hynny sydd eu hangen oherwydd ailstrwythuro ac nad ydynt yn gysylltiedig â gweithgareddau parhaus yr endid.

1.14.1 Costau esgeulustod clinigol ac anaf personol

Mae Cronfa Risg Cymru (WRP) yn gweithredu cynllun cronni risg sy'n cael ei ariannu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru gyda'r opsiwn o gael mynediad at gytundeb rhannu risg a ariennir gan gyrff GIG Cymru cyfranogol. Ni wnaeth Llywodraeth Cymru weithredu'r opsiwn rhannu risg yn 2018-19. Mae'r WRP yn cael ei gynnal gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre.

1.15 Offerynnau Ariannol

O 2018-19 mae IFRS 9 Offerynnau Ariannol yn cael eu defnyddio, fel y dehonglwyd ac addaswyd ar gyfer y sector cyhoeddus, yn yr FReM. Y prif effaith mabwysiadu'r IFRS 9 gan gyrff GIG Cymru, fydd newid y sail cyfrifo ar gyfer darpariaethau dyled drwg, gan newid o sail colledion a ysgwyddir, i sail colledion credyd oes gyfan disgwylidig.

Bydd bob endid sy'n defnyddio'r FReM yn cydnabod y gwahaniaeth rhwng y swm dwyn ymlaen blaenorol a'r swm dwyn ymlaen ar ddechrau'r cyfnod adrodd blynyddol sy'n cynnwys dyddiad y defnydd cychwynnol yn y gronfa gyffredinol agoriadol o fewn ecwiti'r Trethdalwyr.

1.16 Asedau ariannol

Cydnabyddir asedau ariannol ar y Datganiad o Sefyllfa Ariannol pan fo'r BILI yn arwyddo contract offeryn ariannol neu, yn achos eitemau masnach sy'n dderbyniadwy, pan fydd y nwyddau neu wasanaethau wedi eu darparu. Rhwir y gorau i gydnabod asedau ariannol pan fydd hawliau'r contract wedi dod i ben neu pan fydd yr asedau wedi eu trosglwyddo.

Mae'r dewis polisi cyfrifyddu a ganiateir dan IFRS 9 ar gyfer eitemau masnach sy'n dderbyniadwy, asedau contract sy'n cynnwys elfen cyllid sylweddol (yn unol ag IFRS 15), ac eitemau prydles sy'n dderbyniadwy, o fewn cwmipas IAS 17 wedi cael eu tynnu'n ôl, a dylai endidau bob amser gydnabod lwfans colled am swm sy'n hafal i Golledion Credyd oes gyfan Disgwylidig. Dylai bob endid sy'n defnyddio'r FReM ddefnyddio'r dull IFRS 9 wedi'i symleiddio at ostyngiadau ar gyfer asedau perthnasol.

Bu i Grŵp Cyfrifyddu Technegol GIG Cymru adolygu'r gofynion IFRS 9, a phenderfynwyd ar ddull diwygiedig ar gyfer cyfrifo'r ddarpariaeth dyled gwael, gan ddefnyddio egwyddorion colled credyd disgwylidig, gan ddefnyddio'r dull ymarferol o fewn IFRS9 i adeiladu matricesau darpariaeth.

1.16.1 Cydnabyddir asedau ariannol ar werth teg i ddechrau

Mae asedau ariannol yn cael eu dosbarthu i'r categorïau canlynol: asedau ariannol 'ar werth teg drwy SoCNE'; 'buddsoddiadau a ddaliwyd hyd aeddfedrwydd'; asedau ariannol 'ar gael i'w gwerthu', a 'benthyciadau ac eitemau derbyniadwy'. Mae'r dosbarthiad yn dibynnu ar natur a phwrpas yr asedau ariannol, gaiff ei benderfynu ar adeg y gydnabyddiaeth gychwynnol.

1.16.2 Asedau ariannol ar werth teg drwy SoCNE

Caiff deilliadau wedi eu sefydlu a chanddynt wahanol risgiau a nodweddion i'w contractau lletyol, a chontractau a chanddynt ddeilliadau wedi eu sefydlu nad oes modd gwybod eu gwerth ar wahân, eu trin fel asedau ariannol ar werth teg drwy SoCNE. Fe'u cedwir ar werth teg, gydag unrhyw enillion neu golledion dilynol yn cael eu cydnabod yn y SoCNE. Mae'r elw neu'r golled net yn cynnwys unrhyw log a enillwyd ar yr ased ariannol.

1.16.3 Buddsoddiadau a ddaliwyd hyd aeddfedrwydd

Mae buddsoddiadau a ddaliwyd hyd aeddfedrwydd yn asedau ariannol anneilliadol gyda thaliadau sefydlog neu fesuradwy ac aeddfedrwydd sefydlog, ac mae yna fwrriad a gallu positif i'w dal hyd aeddfedrwydd. Wedi'r gydnabyddiaeth gychwynnol, cant eu dal ar gost wedi ei hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol, wedi tynnu unrhyw ostyngiadau. Cydnabyddir llog trwy ddefnyddio'r dull llog effeithiol.

1.16.4 Asedau ariannol ar gael i'w gwerthu

Mae asedau ariannol ar gael i'w gwerthu yn asedau ariannol anneiliadol sydd wedi eu dynodi fel rhai sydd ar gael i'w gwerthu neu yn rhai nad ydynt yn perthyn i unrhyw un o'r tri dosbarthiad arall o asedau ariannol. Cânt eu mesur ar werth teg a chymerir newidiadau mewn gwerth i'r gronfa wrth gefn ailbrizio, ac eithrio colledion amhariad. Ailgylchir enillion neu golledion cronedig i'r SoCNE wrth roi'r gorau i gydnabod.

1.16.5 Benthyciadau a symiau derbyniadwy

Mae benthyciadau a symiau derbyniadwy yn asedau ariannol anneiliadol a chanddynt daliadau sefydlog neu fesuradwy nad ydynt yn cael eu dyfynnu mewn marchnad actif. Wedi'r gydnabyddiaeth gychwynnol, cant eu mesur ar gost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol, wedi tynnu unrhyw ostyngiadau. Cydnabyddir llog trwy ddefnyddio'r dull llog effeithiol.

Penderfynir ar werth teg trwy gyfeirio at brisiau'r farchnad a ddyfynnir lle bo'n bosibl, fel arall trwy dechnegau prisio. Y gyfradd llog effeithiol yw'r gyfradd sy'n lleihau'n union amcangyfrif arian parod a dderbynnir yn y dyfodol trwy oes ddisgwyliedig yr ased ariannol, i swm dwyn ymlaen net yr ased ariannol.

Ar ddyddiad y Datganiad Sefyllfa Ariannol, mae'r BILI yn asesu a oes yna unrhyw asedau ariannol, ar wahân i'r rhai hynny wedi eu dal ar 'werth teg drwy elw a cholled' wedi eu gostwng. Mae asedau ariannol wedi eu gostwng a cholledion gostyngiad wedi eu cydnabod os oes tystiolaeth wrthrychol o ostyngiad o ganlyniad i un digwyddiad neu fwy a gafwyd wedi cydnabyddiaeth gychwynnol yr ased ac sy'n effeithio ar lifau arian amcangyfrifedig yr ased yn y dyfodol.

O ran asedau ariannol sy'n cael eu cario ar gost wedi ei hamorteiddio, caiff swm colled y gostyngiad ei fesur fel y gwahaniaeth rhwng swm dwyn ymlaen yr ased a gwerth presennol y llifau arian diwygiedig y dyfodol wedi ei leihau ar gyfradd llog effeithiol wreiddiol yr ased. Cydnabyddir y golled yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr a chaiff swm dwyn ymlaen yr ased ei leihau'n syth, neu drwy ddarparu ar gyfer gostyngiadau mewn symiau derbyniadwy.

Os, mewn cyfnod dilynol, bydd swm colled y gostyngiadau yn gostwng a gellir cysylltu'r gostyngiad yn wrthrychol â digwyddiad sy'n digwydd ar ôl cydnabod y gostyngiad, caiff colled y gostyngiad a gydnabuwyd yn flaenorol ei wrthdroi drwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr i'r graddau bod swm dwyn ymlaen y swm derbyniadwy ar ddyddiad gwrthdroi'r gostyngiad ddim yn fwy na'r hyn y byddai'r gost wedi ei hamorteiddio wedi bod pe na fyddai'r gostyngiad wedi'i gydnabod.

1.17 Rhwymedigaethau ariannol

Cydnabyddir rhwymedigaethau ariannol ar y Datganiad o Sefyllfa Ariannol pan fo'r BILI yn rhan o ddarpariaethau contract yr offeryn ariannol neu, yn achos eitemau masnach sy'n daladwy, pan fo'r nwyddau neu wasanaethau wedi eu derbyn. Rhwir y gorau i gydnabod rhwymedigaethau ariannol pan fo'r rhwymedigaeth drosodd, hynny yw, mae'r rhwymedigaeth wedi ei dalu neu wedi dod i ben.

1.17.1 Cydnabyddir rhwymedigaethau ariannol ar werth teg i ddechrau

Dosberthir rhwymedigaethau ariannol fel un ai rhwymedigaethau ariannol ar werth teg drwy Ddatganiad o Wariant Net Cynhwysfawr neu rwymedigaethau ariannol eraill.

1.17.2 Rhwymedigaethau ar werth teg drwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr

Caiff deilliadau wedi eu sefydlu a chanddynt wahanol risgiau a nodweddion i'w contractau lletyol, a chontractau a chanddynt ddeilliadau wedi eu sefydlu nad oes modd gwybod eu gwerth ar wahân, eu trin fel rhwymedigaethau ariannol ar werth teg drwy elw a cholled. Fe'u cedwir ar werth teg, gydag unrhyw enillion neu golledion dilynol yn cael eu cydnabod yn y SoCNE. Mae'r elw neu'r golled net yn cynnwys unrhyw log a enillwyd ar yr ased ariannol.

1.17.3 Rhwymedigaethau ariannol eraill

Wedi'r gydnabyddiaeth gychwynnol, caiff pob rhwymedigaeth ariannol arall eu mesur ar gost wedi ei hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol. Y gyfradd llog effeithiol yw'r gyfradd sy'n lleihau'n union amcangyfrif arian parod a delir yn y dyfodol trwy oes ddisgwyliedig yr ased ariannol, i swm dwyn ymlaen net y rhwymedigaeth ariannol. Cydnabyddir llog trwy ddefnyddio'r dull llog effeithiol.

1.18 Treth ar Werth

Mae rhan fwyaf o weithgareddau'r BILI y tu allan i gwmpas TAW ac, yn gyffredinol, nid yw treth allosod yn berthnasol ac nid yw treth mewnbwn ar bryniant yn adferadwy. Mae TAW anadferadwy yn cael ei godi i'r categori gwariant perthnasol neu ei gynnwys yn y gost prynu cyfalafu o asedau sefydlog. Lle mae'r dreth allbrint yn cael ei godi neu TAW mewnbwn yn adferadwy, nodir y symiau heb gynnwys TAW.

1.19 Arian tramor

Mae trafodion o werth arian tramor yn cael eu newid i sterling ar y gyfradd gyfnewid mewn grym ar ddyddiadau'r trafodion. Mae enillion a cholledion amnewid dilynol yn cael eu cymryd i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Ar ddyddiad y Datganiad o Sefyllfa Ariannol, mae eitemau ariannol o werth arian tramor yn cael eu hail drosi ar y cyfraddau sydd yn eu lle ar y dyddiad adrodd.

1.20 Asedau trydydd parti

Nid yw asedau sy'n perthyn i drydydd parti (megis arian a gedwir ar ran cleifion) yn cael eu cydnabod yn y cyfrifon gan nad oes gan y BILI unrhyw fuddiant buddiol ynddynt. Mae manylion asedau trydydd parti yn cael eu rhoi yn Nodyn 29 o'r cyfrifon.

1.21 Colledion a Thaliadau Arbennig

Mae colledion a thaliadau arbennig yn eitemau na fyddai Llywodraeth Cymru wedi eu hystyried pan y cytunodd ar arian ar gyfer y gwasanaeth iechyd neu pan basiodd ddeddfwriaeth. Yn ôl eu natur, maent yn eitemau na ddylai godi yn ddelfrydol. Maent felly yn amodol ar weithdrefnau rheoli arbennig o'i gymharu â chyffredinolrwydd taliadau. Maent wedi cael eu rhannu i gategorïau gwahanol, sy'n rheoli'r ffordd y mae bob achos unigol yn cael ei drin.

Mae colledion a thaliadau arbennig yn cael eu codi i'r penawdau swyddogaethol perthnasol yn y SoCNE ar sail cronïadau, yn cynnwys colledion a fyddai wedi cael eu gwneud yn iawn drwy yswiriant pe na bai'r Byrddau Iechyd Lleol wedi bod yn goddef eu risgiau eu hunain (gyda phremiwm yswiriant yna'n cael ei gynnwys fel gwariant refeniw arferol). Er hynny, mae'r nodiadau ar golledion a thaliadau arbennig wedi'u casglu yn uniongyrchol o'r gofrestr colledion sy'n cael ei pharatoi ar sail arian parod.

Mae'r BILI yn rhoi cyfri am yr holl golledion a chyfanswm taliadau arbennig (yn cynnwys cymorth gan y WRP). Mae'r BILI yn cronni neu'n darparu ar gyfer yr amcangyfrif gorau o daliadau'r dyfodol ar gyfer rhwymedigaethau penodol, ac mae'n datgelu bob taliad posibl arall fel rhwymedigaethau amodol, onid yw'r tebygrwydd y rhwymedigaethau yn dod yn daladwy yn annhebygol.

Mae pob hawliad am golledion neu daliadau arbennig yn cael eu darparu ar eu cyfer, lle mae tebygrwydd o setlo hawliad unigol dros 50%. Lle gellir gwneud amcangyfrifon dibynnol, mae digwyddiadau o esgeulustod clinigol yn erbyn lle nad yw hawliad wedi ei dderbyn, hyd yn hyn, yn cael eu darparu yn yr un ffordd. Mae ad-daliadau disgwyliedig gan y WRP yn cael eu cynnwys yn y dyledwyr. Ar gyfer yr hawliadau hynny lle mae'r tebygrwydd setlo yn is na 50%, mae'r rhwymedigaeth yn cael ei datgelu fel rhwymedigaeth amodol.

1.22 Pooled budget

Mae'r BILI wedi arwyddo cyllidebau wedi'u cyfuno gyda'r Awdurdodau Lleol yng Ngogledd Cymru. Dan y trefniadau mae cyllidebau'n cael eu cyfuno yn unol ag adran 33 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006 ar gyfer gweithgareddau penodol a ddiffinnir yn Nodyn 32.

Mae bob cronfa yn cael ei chynnal gan awdurdod lleol gyda chyfraniadau yn cael ei gyfrif fel gwariant amrywiol. Mae'r BILI yn gyfrifol am ei gyfran o o'r asedau, rhwymedigaethau, incwm a gwariant o weithgareddau'r cyllidebau wedi'u cyfuno, yn unol â'r trefniadau cyllidebau wedi'u cyfuno.

1.23 Dyfarniadau Cyfrifyddu Allweddol a phrif ffynonellau o ansicrwydd amcangyfrif

Wrth ddefnyddio polisïau cyfrifyddu'r BILI, mae gofyn i reolwyr wneud dyfarniadau, amcangyfrifon a thybiaethau ynglŷn â symiau dwyn ymlaen o asedau a rhwymedigaethau nad ydynt yn amlwg yn hawdd o ffynonellau eraill.

Mae'r amcangyfrifon a'r thybiaethau cysylltiedig yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill a ystyrir eu bod yn berthnasol. Gall canlyniadau gwirioneddol fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hynny. Mae'r amcangyfrifon a'r thybiaethau sylfaenol yn cael eu hadolygu'n barhaus. Mae diwygiadau i amcangyfrifon cyfrifyddu'n cael eu cydnabod yn y cyfnod y mae'r amcangyfrif yn cael ei ddiwygio os yw'r diwygiadau yn effeithio ar y cyfnod hwnnw yn unig, neu gyfnod y diwygiad a chyfnodau'r dyfodol os yw'r diwygiad yn effeithio ar gyfnodau presennol a'r dyfodol.

1.24 Prif ffynonellau o ansicrwydd amcangyfrif

Y prif dybiaethau sy'n ymwneud â'r dyfodol yw'r canlynol, a ffynonellau allweddol eraill o ansicrwydd amcangyfrif ar ddyddiad y Datganiad o Sefyllfa Ariannol, sydd â risg sylweddol o achosi addasu deunydd i'r gwerth dwyn ymlaen os yw'r asedau a'r rhwymedigaethau o fewn y flwyddyn ariannol nesaf.

Hawliadau Esgeulustod Clinigol ac Anaf Personol (Nodiadau 20 a 21) - gwerth a amcangyfrifir £218,411,000

Mae hawliadau a wneir yn erbyn y Bwrdd Iechyd yn cael eu rheoli'n broffesiynol gan Wasanaethau Cyfreithiol a Risg (L&RS). Mae pob hawliad yn cael ei asesu gan L&RS i benderfynu ar debygolrwydd rhwymedigaethau a chostau cysylltiedig a'u hystyried yn unol ag IAS37. Mae'r tebygolrwydd a'r costau yn amcangyfrifon yn seiliedig ar yr holl ffeithiau hysbys ar ddyddiad y fantolen, gan ddefnyddio'r wybodaeth broffesiynol a phrofiad cyfreithwyr a gyflogir gan L&RS. Er hynny, efallai y bydd yr amcangyfrifon hyn yn newid yn sylweddol yn ystod cyfnod hawliad wrth i wybodaeth newydd ddod i law.

Darpariaeth Gofal Iechyd Parhaus (Nodiadau 20 a 21) - gwerth a amcangyfrifir £7,359,000

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau posibl sy'n codi o hawliadau hanesyddol am gostau gofal iechyd parhaus. Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys yr holl hawliadau hysbys ar ddyddiad y fantolen gydag amcangyfrif o'r gwerth setliad tebygol yn seiliedig ar brofiad hanesyddol. Efallai y bydd yr amcangyfrifon hyn yn newid mewn cyfnodau yn y dyfodol, fel y mae hawliadau pellach yn cael eu setlo, a gwybodaeth newydd yn dod ar gael.

Offer a Chyffuriau a Ragnodir (Nodyn 18) - gwerth a amcangyfrifir £16,123,000

Mae data Rhagnodi Gofal Cychwynnol, yn cynnwys rhagnodi Meddygon Teulu a dosbarthu gan Feddygon Teulu yn cael ei ddarparu i'r Bwrdd Iechyd dau fis ar ôl y gweithgaredd gwirioneddol. Mae'r rhan fwyaf o'r data hwn yn cael ei ddarparu ar sail genedlaethol gan y Tîm Rheoli Rhagnodi, Uned Gwasanaethau Gofal Cychwynnol, ac yn cael ei anfon i'r Bwrdd Iechyd gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.

Yn yr un modd â chyfnodau cyfrifyddu blaenorol, mae'r Gyfarwyddiaeth Fferylliaeth a Rheoli Meddyginiaeth wedi amcangyfrifo gwariant ar gyfer mis Chwefror a mis Mawrth 2019 gan ddefnyddio model rhagweld cyfartaledd sy'n ystyried lefelau cost a gweithgaredd. Bydd taliadau sy'n gysylltiedig â'r amcangyfrifon hyn yn cael eu gwneud yn ystod 2019-20, ac efallai y bydd hyn yn arwain at gostau gwariant ychwanegol fel y mae data rhagnodi gwirioneddol yn dod ar gael.

Darpariaethau

Mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu ar gyfer rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol ar gyfer esgeulustod clinigol, anaf personol a chostau amddiffyniad y mae eu hamseru neu swm yn ansicr ar ddyddiad y fantolen ar sail amcangyfrif gorau o'r gwariant sy'n ofynnol ar gyfer setlo'r rhwymedigaeth.

Mae hawliadau yn cael eu hariannu drwy Wasanaethau Cronfa Risg Cymru (WRPS) sy'n derbyn dyraniad blynyddol gan Lywodraeth Cymru i dalu cost ceisiadau ad-daliad a gyflwynir i'r Pwyllgor WRPS bob yn ail fis. Ar ôl i'r Bwrdd Iechyd neu'r Ymddiriedolaeth setlo ar gyfer hawlwr unigol, mae'r gost lawn yn cael ei chydabod o fewn y flwyddyn, ac yn cyd-fynd ag incwm (wedi tynnu trosariant o £25,000) drwy ddyledwr WRPS, nes i ad-daliad gael ei dderbyn gan y Pwyllgor WRPS.

Achosion Pendant a Thebygol– Triniaeth Gyfrifo

Mae darpariaeth ar gyfer yr achosion hyn yn cael ei chyfrifo yn unol ag IAS 37. Mae achosion yn cael eu hasesu a'u rhannu yn bedwar categori yn unol â'u tebygolrwydd o setlo;

Gwan	Tebygolrwydd Setlo Triniaeth Gyfrifo	0 - 5% Rhwymedigaeth wrth gefn.
Posibl	Tebygolrwydd Setlo Triniaeth Gyfrifo	6% - 49% Ffi'r Amddiffynnydd - Darpariaeth Rhwymedigaeth wrth Gefn ar gyfer bob gwariant arall a amcangyfrifir.
Tebygol	Tebygolrwydd Setlo Triniaeth Gyfrifo	50% - 94% Darpariaeth lawn
Pendant	Tebygolrwydd Setlo Triniaeth Gyfrifo	95% - 100% Darpariaeth lawn

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer achosion tebygol a phendant yn seiliedig ar amcangyfrifon achos o hawliadau unigol a adroddir arnynt gan Wasanaethau Cyfreithiol a Risg o fewn Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.

Bydd y cyfreithiwr yn amcangyfrifo gwerth yr achos yn cynnwys ffioedd amddiffyniad, gan ddefnyddio barn broffesiynol a drwy ofyn am gyngor y cwnsler. Mae elfennau colled y dyfodol yn cael eu tynnu o'r prisiad gan ddefnyddio disgwyliaid oes unigol a thablau'r actiwari (tablau Ogden) a chyfradd Disgownt Anaf Personol o -0.75%.

Mae rhwymedigaethau'r dyfodol ar gyfer achosion pendant a thebygol gyda thebygolrwydd o 95%-100% a 50-94% yn y drefn honno yn cael eu cadw fel darpariaeth ar y fantolen. Mae achosion fel arfer yn cymryd nifer o flynyddoedd i'w setlo, yn enwedig ar gyfer achosion gwerth uchel, ble mae cyfnod o ddatblygiad yn angenrheidiol i sefydlu hyd a lled yr anaf a achoswyd.

1.25 Trafodion Menter Cyllid Preifat (PFI)

Mae Trysorlys ei Mawrhydi wedi penderfynu y dylai cyrff llywodraeth gymryd cyfrifoldeb dros gynlluniau PFI isadeiledd, pan fo'r cyrff llywodraeth yn rheoli defnydd o'r isadeiledd a'r diddordeb gweddillol yn yr isadeiledd ar ddiwedd y trefniant fel trefniadau consesiwn gwasanaeth, gan ddilyn egwyddorion gofynion IFRIC 12. Mae'r BILI felly yn cydnabod yr ased PFI fel eitem o eiddo, peiriannau ac offer ynghyd â rhwymedigaeth i dalu amdanynt. Mae'r gwasanaethau a dderbynnir gan y contract yn cael eu cofnodi fel costau gweithredu.

Mae'r taliad unedol blynyddol yn cael ei rannu i'r cydrannau canlynol, gan ddefnyddio'r technegau amcangyfrif priodol lle bo'n briodol:

- Taliad ar gyfer gwerth teg o wasanaethau a dderbyniwyd;
- Taliad ar gyfer yr ased PFI, yn cynnwys costau ariannol; a
- Taliad ar gyfer amnewid elfennau o'r ased yn ystod 'amnewid cylch oes' y contract.

Gwasanaethau a dderbyniwyd

Mae gwerth teg y gwasanaethau a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn yn cael ei gofnodi dan y penawdau gwariant perthnasol o fewn 'costau gweithredu'.

Ased PFI

Mae'r asedau PFI yn cael eu cydnabod fel eiddo, peiriannau ac offer, pan maent yn cael eu defnyddio. Mae'r asedau yn cael eu mesur i ddechrau ar werth teg yn unol ag egwyddorion IAS 17. Ar ôl hynny, mae'r asedau yn cael eu mesur ar werth teg, sy'n cael eu cadw'n gyfredol yn unol â dull y BILI ar gyfer bob dosbarth perthnasol o ased yn unol ag egwyddorion IAS 16.

Rhwymedigaeth PFI

Mae rhwymedigaeth PFI yn cael ei gydnabod ar yr un pryd ag y mae'r asedau PFI yn cael eu cydnabod. Mae'n cael ei fesur i ddechrau ar yr un swm â gwerth teg yr asedau PFI, ac mae'n cael ei fesur ar ôl hynny fel rhwymedigaeth prydles cyllid yn unol ag IAS 17.

Mae cost ariannol flynyddol yn cael ei gyfrifo drwy gymhwyso'r gyfradd llog ymhlyg yn y brydles i'r rhwymedigaeth prydles agoriadol ar gyfer y cyfnod, ac yn cael ei dalu drwy'r 'Costau Ariannol' o fewn y SoCNE.

Mae'r elfen o'r taliad unedol blynyddol sy'n cael ei ddyrannu fel rhent prydles ariannol yn cael ei gymhwyso i fodloni'r gost ariannol flynyddol ac i ad-dalu'r rhwymedigaeth prydles dros gyfnod y contract.

Mae elfen o gynnydd taliad unedol blynyddol oherwydd mynegeio cronnos yn cael ei ddyrannu i'r brydles ariannol. Yn unol ag IAS 17, nid yw'r swm hwn yn cael ei gynnwys yn y lleiafswm taliad prydles, ond mae'n cael ei drin fel rhent amodol yn hytrach ac mae'n cael ei gostio fel swm a achoswyd. Yn ei hanfod, mae'r swm hwn yn gost ariannol o ran y rhwymedigaeth, ac mae'r gost yn cael ei chyflwyno fel cost ariannol amodol yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

Amnewid Cylch Oes

Mae elfennau o'r ased a amnewidir gan y gweinyddwr yn ystod y contract ('amnewid cylch oes') yn cael eu cyfalafu lle maent yn bodloni meini prawf y BILI ar gyfer gwariant cyfalaf. Maent yn cael eu cyfalafu pan maent yn cael eu darparu gan y gweinyddwr, ac maent yn cael eu mesur i ddechrau ar werth teg.

Mae elfen o'r taliad undebol blynyddol a ddyrannir i'r amnewid cylch oes yn cael ei bennu ymlaen llaw ar gyfer bob blwyddyn o'r contract o raglen gynlluniedig amnewid cylch oes y gweinyddwr. Pan fo'r elfen cylch oes yn cael ei darparu yn gynt neu'n hwyrach na'r disgwyl, mae rhwymedigaeth prydles ariannol neu ragdaliadau tymor byr yn cael eu cydnabod yn y drefn honno.

Pan fo gwerth teg cydran cylch bywyd yn llai na'r swm a benderfynwyd yn y contract, cydnabyddir y gwahaniaeth fel cost pan ddarperir amnewidiad. Os yw'r gwerth teg yn fwy na'r swm a benderfynwyd yn y contract, bydd y gwahaniaeth yn cael ei drin fel ased 'rhydd' a chydabyddir gweddill incwm gohiriedig. Caiff yr incwm gohiriedig ei ryddhau i'r incwm gweithredol dros gyfnod byrrach yr hyn sy'n weddill o gyfnod y contract neu ddeunydd economaidd defnyddiol y cydran sy'n amnewidiol.

Asedau a gyfranwyd gan y BILI i'r gweithredwr i'w defnyddio yn y cynllun

Bydd asedau a gyfranwyd i'w defnyddio yn y cynllun yn parhau i gael eu cydnabod fel eitemau o eiddo, offer neu gyfarpar yn Natganiad Sefyllfa Ariannol y BILI.

Asedau eraill a gyfranwyd gan y BILI i'r gweithredwr

Cydnabyddir asedau a gyfranwyd (e.e. taliadau arian parod, eiddo dros ben) gan y BILI cyn bod yr ased yn cael ei ddefnyddio, a fwriedir i dalu costau cyfalaf y gweithredwr, i ddechrau fel rhagdaliadau yn ystod cyfnod adeiladu'r contract. Ar ôl hyn, pan fydd yr ased ar gael i'r BILI, bydd y rhagdaliad yn cael ei drin fel taliad dechreuol tuag at rhwymedigaeth les cyllid ac fe'i gosodir yn erbyn gwerth cario'r rhwymedigaeth.

Mae rhwymedigaeth PFI yn cael ei gydnabod ar yr un pryd ag y mae'r asedau PFI yn cael eu cydnabod. Fe'i mesurir ar werth presennol yr isafswm taliadau lês, gyda disgownt wrth ddefnyddio'r gyfradd llog ymhlyg. O ganlyniad, fe'i fesurir fel rhwymedigaeth lês cyllid yn unol ag IAS 17.

Wrth gydnabod yr ased i ddechrau, cydnabyddir y gwahaniaeth rhwng gwerth teg yr ased a'r rhwymedigaeth dechreuol fel incwm gohiriedig, sy'n cynrychioli'r gwasanaeth potensial i'r dyfodol i'w dderbyn gan y BILI, drwy'r asedau i fod ar gael i ddefnyddwyr trydydd parti.

1.26 Amodol

Mae rhwymedigaeth amodol yn ymrwymiad posibl sy'n codi o ddigwyddiadau'r gorffennol, a dim ond drwy ddigwyddiad neu anddigwyddiad un neu fwy o ddigwyddiadau ansicr y dyfodol, nid yn hollol dan reolaeth y BILI bydd eu presenoldeb yn cael eu cadarnhau, neu ymrwymiad presennol na gydnabyddir, oherwydd nad yw'n debygol bydd angen taliad i setlo'r ymrwymiad neu nid oes modd mesur swm yr ymrwymiad yn ddigon dibynadwy. Datgelir rhwymedigaeth amodol oni bai bod posibilrwydd o daliad yn brin.

Mae ased amodol yn ased posibl sy'n codi o ddigwyddiadau'r gorffennol a chadarnheir ei fodolaeth drwy ddigwyddiad neu anddigwyddiad un neu fwy o ddigwyddiadau ansicr i'r dyfodol, nid yn hollol o fewn rheolaeth y BILI. Datgelir ased amodol lle mae mewnlif o fuddion economaidd yn debygol.

Lle mae gwerth amser arian yn faterol, datgelir amodau ar eu gwerth presennol.

Mae rhwymedigaethau amodol prin yn rhai a ddatgelir dan ofynion adrodd Seneddol ac nid dan IAS 37, ac os yn ymarferol, bydd gofyn am amcangyfrif o'u heffaith ariannol.

1.27 Cynllun Ymroddiad Lleihau Carbon

Mae lwfansau'r Cynllun Ymroddiad Lleihau Carbon yn cael eu cyfrif fel asedau annirweddol a ariannir gan grant, os na wireddir o fewn deuddeg mis ac fel arall fel asedau cyfredol. Dylid mesur yr asedau i ddechrau ar gost. Bydd asedau'r cynllun, o ran lwfansau'n cael eu prasio ar werth teg, lle mae tystiolaeth o farchnad weithredol.

1.28 Cyfrifio amsugol

Cyfrifir trosglwyddiadau gweithrediadau fel un ai cydsoddiad neu drwy gyfrifo amsugol, yn ddibynnol ar y driniaeth a ragnodwyd yn FReM. Ar gyfer cyfrifo amsugol, mae angen cyfrif endidau ar gyfer eu trafodion dros y cyfnod y digwyddodd heb fod angen ailgyfriflen o berfformiad.

Pan fydd gweithrediadau yn trosglwyddo rhwng BILlau, bydd yr elw neu golled a ddaw yn sgil yr asedau a'r rhwymedigaeth yn trosglwyddo yn cael ei gydnabod yn y SoCNE ac fe'i datgelir ar wahân i'r costau gweithredu.

1.29 Safonau cyfrifo sydd wedi'u cyflwyno ond heb eu mabwysiadau hyd yn hyn

Mae'r safonau cyfrifo canlynol wedi'u cyflwyno neu eu diwygio gan yr IASB ac IFRIC ond hyd yma heb gael eu mabwysiadu, oherwydd nid yw FReM yn nodi bod rhaid eu mabwysiadu:

- IFRS14 Cyfrifon Gohiriedig Rheoliadol (Awgrymodd y Grŵp Cyngori Adrodd Ariannol Ewropeaidd ym mis Hydref 2015 na ddylai'r Safon gael ei gadarnhau gan ei fod yn annhebygol y bydd yn cael ei fabwysiadu gan nifer o wledydd yr EW).
- IFRS 16 Lesau, mae HMT wedi cadarnhau y bydd IFRS16 Lesau, fel y dehonglir a'u haddasu gan yr FReM yn weithredol o 1 Ebrill 2020.
- IFRS 17 Cytundebau Yswiriant,
- IFRIC 23 Ansicrwydd dros Driniaeth Treth Incwm.

1.30 Safonau cyfrifo a gyflwynwyd a fabwysiadwyd yn gynnar

Yn ystod 2017-18, ni fabwysiadwyd unrhyw safonau cyfrifo yn gynnar. Arweinir pob mabwysiad cynnar safonau cyfrifon gan Drysorlys EM.

1.31 Elusennau

Yn dilyn cytundeb y Trysorlys i weithredu IAS 27 i Elusennau'r GIG o 1 Ebrill 2013, mae'r BILI wedi sefydlu fel ymddiriedolwr corfforaethol yr Elusen GIG cysylltiedig "Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac elusennau cysylltiol eraill", fe'i ystyrir ar gyfer cydymffurfiaid â safonau cyfrifo i fod â rheolaeth o'r Elusen fel rhywbeth atodol. Felly, mae'n rhaid cydgrynhoi canlyniadau'r elusen o fewn cyfrifon statudol y BILI.

Mae'r penderfyniad rheoli yn brawf safonau cyfrifo o reoli ac ni fu newid i weithrediad yr Elusen na'i annibyniaeth o ran rheoli'r cyllidebau elusennol.

Mae'r BILI, fodd bynnag, gyda chytundeb Llywodraeth Cymru, wedi mabwysiadu eithriad IAS 27 (10) i gydgrynhoi. Bydd Llywodraeth Cymru fel rhiant eithaf y Byrddau Iechyd Lleol yn cydgrynhoi a datgelu Cyfrifon Elusennol y Byrddau Iechyd Lleol yng Nghyfrifon cyfunol Llywodraeth Cymru. Ceir manylion y trafodion gyda'r elusen yn Nodyn 31 o Nodiadau Perthnasol y Partion.

2. Perfformiad Dyletswyddau Ariannol

Daeth Deddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014 i rym ar 1 Ebrill 2014. Roedd y Ddeddf yn diwygio dyletswyddau ariannol y Byrddau Iechyd Lleol dan adran 175 Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. O 1 Ebrill 2014, mae adran 175 Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) yn gosod dwy ddyletswydd ar Fyrdau Iechyd Lleol:

Mrs L J Reid	Aelod Annibynnol	A	Anakrisis Ltd (Management Consultancy) - yn cynnig ymgynghori a hyfforddiant i sefydliadau'r GIG yn Lloegr
		C	Cadeirydd Tribiwyls Gwasanaeth Tribiwyls Ymarferwyr Meddygol y Cyngor Meddygol Cyffredinol
		C	Ynad Meinciau Teuluol a Throseddol Gogledd Cymru - Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwlysoedd Ei Mawrhydi
		C	Ymgynghorydd arbenigol i'r Comisiwn Ansawdd Gofal
		G	Priod yn feddyg teulu lleol yn ymarfer yn Sir Ddinbych
Associate Board Members			
Mr Ff Williams	Aelod Cyswllt y Bwrdd - Cadeirydd, Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid	A	Prif Weithredwr Cartrefi Cymunedol Gwynedd, sef cymdeithas dai sy'n gweithredu'n bennaf yn ardal Gwynedd. Yn y rôl hon, mae'r rôl hon yn gweithio'n agos gyda Chyfarwyddwyr Ardal Bwrdd Iechyd
		G	Mae ei wraig yn gweithio i'r Bwrdd Iechyd
		G	Mae ei Chwaer a'i Frawd-yng-Nghyfraith yn gweithio Gwasanaethau Iechyd Meddwl ym Mangor (Gwasanaethau Plant)

34. Gwybodaeth arall (parhad)

Nodyn Memorandwm - Nodyn 32 - Cyllidebau Cyfun

Cyfrifon Memorandwm Gwasanaeth Offer Cymunedol Gogledd-ddwyrain Cymru 2018-19

Caiff Cronfa Gogledd-ddwyrain Cymru ei chynnal gan Gyngor Sir y Fflint a dechreuodd y bartneriaeth ffurfiol ar 8 Gorffennaf 2009. Mae memorandwm cyfrif wedi'i lunio gan Gyngor Sir y Fflint, fel y'i dangosir isod:

	2018-19	2017-18
	£ 000	£ 000
Cyfraniadau Cyllideb Gyfun		
Cyngor Sir y Fflint	(295)	(291)
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	(281)	(277)
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr	(411)	(401)
Arall	(181)	(159)
Cyfanswm cyfraniadau cyllideb gyfun ar gyfer y flwyddyn	(1,168)	(1,128)
Gwariant		
Prynu Offer	468	411
Gwariant Gweithredu	608	585
Gwariant nad yw'n ymwneud â Gweithredu	0	0
Cyfanswm Gwariant ar gyfer y flwyddyn	1,076	996
(Gweddill)/Diffyg Net ar y Gyllideb Gyfun ar gyfer y Flwyddyn	(92)	(132)

Cyfrifon Memorandwm Gwasanaethau Offer Cymunedol Sir Ddinbych 2018-19

Caiff Cronfa Sir Ddinbych ei chynnal gan Gyngor Sir Ddinbych. Dechreuodd y cytundeb partneriaeth cychwynnol o dair blynedd ar 1 Ebrill 2009 a daeth i ben ar 31 Mawrth 2012. Dechreuodd yr ail gytundeb partneriaeth ar 1 Ebrill 2012 ac roedd yn weithredol tan 31 Mawrth 2015. O 2015-16 ymlaen, penderfynwyd dychwelyd at gytundebau blwyddyn. Mae memorandwm cyfrif wedi'i lunio gan Gyngor Sir Ddinbych ac fe'i dangosir isod:

	2018-19	2017-18
	£ 000	£ 000
Cyfraniadau cyllideb gyfun		
Cyngor Sir Ddinbych	(220)	(219)
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr (Craidd)	(138)	(138)
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr (Gwasanaethau Gwely)	(51)	(38)
Arall - HEC / CHC / Gofal Canolraddol	(139)	(138)
Cyfanswm cyfraniadau'r Gyllideb Gyfun ar gyfer y flwyddyn	(548)	(533)
Gwariant		
Prynu offer (Craidd a CHC)	120	129
Gwariant gweithredu	415	393
Newid system gyfrifiadurol o DICES i ELMS	0	29
Cyfanswm Gwariant ar gyfer y flwyddyn	535	551
(Gweddill)/Diffyg Net ar y Gyllideb Gyfun ar gyfer y Flwyddyn	(13)	18
(Gweddill)/Diffyg Cronnus net ar y Gyllideb Gyfun	(33)	(20)

Mae ailddatgan cyllideb gyfunol yn ymwneud â lleihau £5,000 mewn gwariant ar gyfer 2017-18 a chynnydd o ganlyniad yn y gwarged a gafodd eu dwyn ymlaen ar 31 Mawrth 2018. Gwnaeth Cyngor Sir Ddinbych roi cyfrif memorandwm wedi'i ddiweddarau ar gyfer blwyddyn ariannol 2017-18 ym mis Ebrill 2019.

34. Gwybodaeth arall (parhad)

Nodyn Memorandwm - Nodyn 32 - Cyllidebau Cyfun

Gwasanaeth Gweithwyr Cefnogi Iechyd a Gofal Cymdeithasol – Cyfrifon Memorandwm 2018-19
Caiff Cronfa Gwasanaeth Gweithwyr Cefnogi Iechyd a Gofal Cymdeithasol Sir Ddinbych ei chynnal gan Gyngor Sir Ddinbych sydd wedi llunio cyfrif memorandwm ar gyfer blwyddyn ariannol 2018-19 fel y dangosir isod:

	2018-19	2017-18
	£ 000	£ 000
Cyfraniadau Cyllidebau Cyfunol		
Cyngor Sir Ddinbych	(50)	(50)
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr	(50)	(50)
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr - 3 x swydd Gofal Cychwynnol 30 awr	(29)	(60)
Dyraniad Grant ICF	(52)	(51)
Dyraniad Grant ICF - o lithriant	(24)	0
Cyfanswm cyfraniadau'r Gyllideb Gyfun ar gyfer y flwyddyn	(205)	(211)
Gwariant		
Treuliau Gweithwyr	187	189
Gwariant Gweithredu Arall	18	22
Cyfanswm Gwariant ar gyfer y flwyddyn	205	211
(Gweddill) /Diffyg Net ar y Gyllideb Gyfun ar gyfer y Flwyddyn	0	0
(Gweddill)/Diffyg net cronus ar y Gyllideb Gyfun	(47)	(47)

Ymadawiad Brexit y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd

Ar 29 Mawrth 2017, gwnaeth Llywodraeth y DU gyflwyno ei hysbysiad i adael yr Undeb Ewropeaidd (UE) yn unol ag Erthygl 50. Gwnaeth rhoi Erthygl 50 ar waith ddechrau proses drafod o ddwy flynedd rhwng y DU a'r UE. Ar 11 Ebrill 2019, gwnaeth y llywodraeth gadarnhau cytundeb gyda'r UE ar estyniad tan 31 Hydref 2019 fan bellaf, gyda'r opsiwn o adael yn gynt cyn gynted ag y bydd dêl wedi'i chadarnhau.

Yn 2018-19, mae Ystad y GIG wedi'i brisio gan ddefnyddio indecsau a roddir gan y Prisiwr Ardal ac maent wedi'u datgelu yn y Llawlyfr Cyfrifon.

CYFARWYDDYD CYFRIFON Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL YNG NGHYMURU A RODDWDYD GAN WEINIDOGION CYMRU YN UNOL AG ATODLEN 9 ADRAN 178 PARAGRAFF 3(1) DEDDF Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL 2006 (P.42) AC Â CHYMERADWYAETH Y TRYSDORDY

BYRDDAU IECHYD LLEOL

1. Mae Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo y caiff cyfrif ei baratoi ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011 a blynyddoedd ariannol dilynol mewn perthynas â'r Byrddau Iechyd Lleol (BILI)¹, ar y ffurf a nodir ym mharagraffau [2] i [7] isod.

SAIL PARATOI

2. Bydd cyfrif y BILI yn cydymffurfio â'r canlynol:

(a) arweiniad cyfrifyddu Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM), sydd mewn grym ar gyfer y flwyddyn ariannol y caiff y cyfrifon eu paratoi ar ei chyfer, ac wedi'i gymhwyso gan Lywodraeth Cymru a manylir arno yn Llawlyfr Cyfrifon BILI GIG Cymru;

(b) unrhyw arweiniad penodol arall neu ddatgeliadau sydd eu hangen gan Lywodraeth Cymru.

FFURF A CHYNNWYS

3. Bydd cyfrif y BILI ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2011 a blynyddoedd dilynol yn cynnwys datganiad o wariant net cynhwysfawr, datganiad o sefyllfa ariannol, datganiad o lifoedd arian a datganiad o newidiadau mewn ecwiti trethdalwyr cyn belled ag y bo angen y datganiadau hyn gan FReM a'u cymhwyso gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys nodiadau sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau dealltwriaeth briodol am y cyfrifon.

4. Ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2011 a blynyddoedd dilynol, bydd cyfrif BILI yn rhoi trosolwg gwir a theg o'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ariannol a chostau gweithredu, newidiadau i ecwiti trethdalwyr a llifoedd arian yn ystod y flwyddyn.

5. Caiff y cyfrif ei lofnodi a'i ddyddio gan Brif Weithredwr y BILI.

AMRYWIOL

6. Caiff y cyfarwyddyd ei atgynhyrchu fel atodiad i'r cyfrifon cyhoeddedig.

7. Bydd y nodiadau i'r cyfrifon yn cynnwys, ymysg pethau eraill, fanylion am y polisiâu cyfrifyddu a fabwysiadwyd.

Llofnodwyd ag awdurdod Gweinidogion Cymru

Llofnodwyd: Chris Hurst

Dyddiedig :

1. Gweler rheoliad 3 2009 Rhif 1559 (C.154); GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU; Gorchymyn y Byrddau Iechyd Lleol (Trosglwyddo Staff, Eiddo, Hawliau ac Atebolrwydd) (Cymru) 2009

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn yn cwmpasu cyfnod o her sylweddol i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ('y Bwrdd Iechyd'). Mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod dan fesurau arbennig ers mis Mehefin 2015. Nid yw ei statws uwch gyfeirio wedi newid, er y bu gwelliannau nodedig megis tynnu gwasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau o fesurau arbennig. Mae materion cyllid, perfformiad a chynllunio yn parhau i fod mewn sefyllfa ddifrifol iawn ac mae'r rhain, ynghyd â phob thema mesurau arbennig, yn destun goruchwyliaeth, craffu a chefnogi cadarn gan Lywodraeth Cymru.
- 1.2 Erbyn diwedd cyfnod adrodd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn ar gyfer 2018/19, roedd y Bwrdd Iechyd wedi symud ymlaen i drydydd cyfnod adrodd ar gyfer y fframwaith mesurau arbennig a gyhoeddwyd ym mis Mai 2018. Roedd y fframwaith yn cynnwys pedair thema:
- Arweinyddiaeth a Llywodraethu;
 - Cynllunio Strategol a Chynllunio Gwasanaethau;
 - Iechyd Meddwl;
 - Gofal Cychwynol gan gynnwys Gwasanaethau y Tu Allan i Oriau.

Ceir rhagor o fanylion am y gwelliannau a waned, y heriau parhaus a'r adroddiadau a gyflwynwyd yn adran 4 y datganiad hwn.

- 1.3 Yn ystod y cyfnod adrodd, bu peth newid i aelodaeth y Bwrdd a chafodd penodiadau allweddol eu gwneud, yn enwedig penodi Cadeirydd newydd a ddechreuodd ym mis Medi 2018. Mae manylion pellach ar gael yn Atodiad 1.
- 1.4 Ym mis Mawrth 2019, galwyd ar y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr, ynghyd ag uwch gydweithwyr eraill, i roi [tystiolaeth](#)¹ i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (PAC) am faterion cyllid a pherfformiad, cynnydd yn erbyn argymhellion PAC blaenorol, gwasanaethau iechyd meddwl, mesurau arbennig a rheoli pryderon. Ym mis Chwefror 2019, darparodd Cyngor Iechyd Cymuned (CIC) Gogledd Cymru dystiolaeth gerbron y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus hefyd, ac er eu bod wedi nodi'r heriau a wynebwr gan y Bwrdd Iechyd, cydnabuwyd cynnydd o dan y mesurau arbennig yn ymwneud ag ymgysylltu â'r cyhoedd, yn ogystal â newid gweledigaeth a diwylliant systemig.
- 1.5 Yn 2018/19, methodd y Bwrdd Iechyd yn eu dyletswydd statudol i gynhyrchu Cynllun Integredig Tymor Canolig. Mae'r Bwrdd wedi bod yn gweithio o fewn Cynllun Ariannol Interim oedd yn cynhyrchu diffyg, ac wedi methu yn ei ddyletswydd statudol i sicrhau cydbwysedd ariannol.

¹ http://www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s85083/PAC5-06-19%20P1%20-%20BCUHB%20paper_W.pdf

- 1.6 Yn ystod 2018/19 parhaodd y gwaith o fynd i'r afael â chyfrifoldebau corfforaethol a chydgyfrifoldebau'r Bwrdd Iechyd o dan *Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* a *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*. Mae cylch gorchwyl ar gyfer Pwyllgorau'r Bwrdd yn cynnwys geiriad safonol sy'n ymwneud â chyfrifoldebau o dan y *Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol*, ac felly'n cefnogi'r bwriad o wreiddio gofynion y *ddeddfwriaeth* ym musnes beunyddiol y sefydliad. Mae'r Asesiad Poblogaeth Ranbarthol a'r Cynllun Ardal a ddatblygwyd o dan *Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol* ac asesiadau llesiant a chynlluniau lles y pedwar Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (sy'n ofynnol o dan y *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant*) wedi bwydo i mewn i strategaeth gorfforaethol y Bwrdd Iechyd, *Byw'n Iach, Aros yn Iach* a'r Cynllun Gweithredu Blyneddol.
- 1.7 Yn ogystal â'r gwaith ar strategaethau, mae'r Bwrdd wedi bod yn gweithio gyda Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru er mwyn creu prototeip dull labordy byw, sy'n ceisio herio a chefnogi timau i gymhwyso'r pum dull o weithio o fewn ardaloedd gwaith diffiniedig. Darperir rhagor o wybodaeth yn adran 25 y datganiad hwn.
- 1.8 Yn ystod 2018/19, cyhoeddwyd *Cymru Iachach*, y cynllun hirdymor ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gan ymateb i ganfyddiadau'r Adolygiad Seneddol. Mae *Cymru Iachach* yn nodi uchelgais Llywodraeth Cymru i gyfuno iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, a hynny ar sail cynllunio o amgylch anghenion a dewisiadau unigolion. Ceir llawer mwy o bwyslais ar gadw pobl yn iach ac yn dda. Mae'r cynllun yn disgrifio pwysigrwydd y pedwar nod wrth helpu i gyflawni'r weledigaeth hon.
- 1.9 *Mae Cymru Iachach yn disgrifio pwysigrwydd cynyddol rôl y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yng Nghymru wrth ddatblygu modelau iechyd a gofal cymdeithasol lleol, gan gynnwys gofal cychwynnol ac eilaidd. Mewn ymateb i hyn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ei aelodaeth ac ymgysylltiad â'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ac mae'n datblygu dulliau cyffredin o drawsnewid gwasanaethau yn unol â'r egwyddorion cynllunio a geir o fewn y cynllun hirdymor. Hyd yma, mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn rhan o 3 chais llwyddiannus i Gronfa Trawsnewid Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â chydweithwyr ar y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol o'r awdurdodau lleol.*

2. Ystod y Cyfrifoldebau

- 2.1 Mae'r Bwrdd yn atebol, trwy'r Cadeirydd, i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, dros sicrhau strwythurau llywodraethu, rheoli risg a dulliau rheoleiddio mewnol. Fel Swyddog Atebol a Phrif Weithredwr y Bwrdd, rwy'n gyfrifol am gynnal strwythurau a gweithdrefnau llywodraethu priodol yn ogystal â system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawni polisiau, nodau ac amcanion y sefydliad, gan ddiogelu'r arian cyhoeddus ac asedau'r sefydliad yr wyf yn bersonol gyfrifol amdanynt. Cynhelir y camau hyn yn unol â'r cyfrifoldebau a bennwyd gan Swyddog Atebol GIG Cymru. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gadarnhad o'm statws fel Swyddog Atebol ym mis Mawrth 2016.
- 2.2 Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb hwn, rwyf i, ynghyd â'r Bwrdd, yn gyfrifol am roi trefniadau mewn lle ar gyfer llywodraethu effeithiol o fewn y Bwrdd Iechyd, gan hwyluso a sicrhau fod swyddogaethau'r Bwrdd a rheoli risg yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

3. Gwybodaeth gefndir

- 3.1 Roedd gan y Bwrdd Iechyd dyraniad adnodd o £1.49bn ar gyfer 2018/19 a gweithlu o tua 18,064 (cyfwerth ag 15,486 amser llawn). Darperir manylion pellach yn yr Adroddiad Cydnabyddiaethau.

- 3.2 Mae'r Bwrdd Iechyd yn gyfrifol am wella iechyd a lles poblogaeth Gogledd Cymru. Mae hyn yn cynnwys atal salwch yn ogystal â thrin salwch a darparu gwasanaethau gofal iechyd rhagorol.
- 3.3 Mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu gwasanaethau iechyd cychwynnol, cymunedol ac iechyd meddwl yn ogystal â gwasanaethau ysbyty llym ar gyfer poblogaeth o tua 678,000 ar draws chwe sir Gogledd Cymru (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam).
- 3.4 Mae gan y Bwrdd Iechyd dri phrif ysbyty (Ysbyty Gwynedd ym Mangor, Ysbyty Glan Clwyd ym Modelwyddan ac Ysbyty Maelor Wrecsam) ynghyd â rhwydwaith o ysbytai cymunedol, canolfannau iechyd, clinigau, unedau iechyd meddwl a chanolfannau timau cymunedol.
- 3.5 Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn cydlynu gwaith 105 o feddygfeydd Meddygon Teulu a gwasanaethau'r GIG a ddarperir gan ddeintyddion, optegwyr a fferyllwyr yng Ngogledd Cymru.
- 3.6 Mae rheolaeth gwasanaethau clinigol dan ofal tri Thîm Ardal, Uwch Adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu, ac un Uwch Adran Gofal Eilaidd sy'n cynnwys tri thîm safle ysbyty, gyda phob un yn cael eu cefnogi gan yr adrannau corfforaethol.

4. Mesurau Arbennig

- 4.1 Oherwydd pryderon cynyddol am drefniadau llywodraethu'r sefydliad, a hefyd gwasanaethau mamolaeth a gwasanaethau iechyd meddwl, cafodd y Bwrdd Iechyd ei roi o dan fesurau arbennig ym mis Mehefin 2015. Ers hynny sefydlwyd rhaglen waith barhaus ar draws y sefydliad i gryfhau trefniadau llywodraethu. Drwy gydol 2018/19, parhaodd Llywodraeth Cymru i gynnal cyfarfodydd a thrafodaethau rheolaidd gyda'r Bwrdd Iechyd am y mesurau arbennig, ac i graffu a herio er mwyn ysgogi gwelliannau mewn perfformiad a darpariaeth.
- 4.2 Mae'r Bwrdd wedi sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen mewn perthynas â'r Fframwaith Gwella Mesurau Arbennig. Mae'n gyfrifol am gynghori a chynnig sicrwydd i'r Bwrdd fod trefniadau effeithiol yn eu lle i ymateb i ddisgwyliadau'r Fframwaith Gwella. Mae aelodau'r grŵp yn cynnwys cyfarwyddwyr allweddol, aelodau annibynnol ac ymgynghorydd annibynnol. Bellach, mae'r grŵp yn goruchwyllo cynnydd, ac yn parhau i adrodd i'r Bwrdd ar ôl pob un o'i gyfarfodydd, dan gadeiryddiaeth Cadeirydd newydd y Bwrdd Iechyd.
- 4.3 Er gwaethaf gwelliannau mewn rhai meysydd pwysig drwy gydol y broses mesurau arbennig, mae heriau sylweddol wedi parhau, yn enwedig o ran cyllid a pherfformiad. O'r herwydd cyhoeddwyd cyfres o gamau ymyrryd a chymorth ychwanegol (yn cynnwys mewnbwn gan Mr David Jenkins, Cynghorydd Annibynnol a benodwyd gan Lywodraeth Cymru) gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd, gyda meini prawf gwella i'w datblygu erbyn mis Ebrill 2018. Cyhoeddodd y Bwrdd [adroddiad](#)² ar y camau hyn ym mis Mehefin 2018.

² <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/861/Agenda%20bundle%20Health%20Board%207.6.18%20Public%20V1.0.pdf>

- 4.4 Cyhoeddwyd [Fframwaith](#)³ Gwella pellach ar gyfer y Mesurau Arbennig am y cyfnod o fis Mai 2018 i Fedi 2019 gan Lywodraeth Cymru ym mis Mai 2018. Roedd yn cynnwys y pedair thema: arweinyddiaeth a llywodraethu, cynllunio strategol a chynllunio gwasanaethau, iechyd meddwl a gofal cychwynol gan gynnwys gwasanaethau y tu allan i oriau arferol, gydag amcanion wedi'u rhannu dros dri chyfnod amser. Eglurwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet y byddai angen i asesiadau cynnydd yn y dyfodol ddangos fod datrysiadau cynaliadwy mewn lle i gynnal gwelliannau.
- 4.5 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru [ddiweddariad](#)⁴ ar y Gweithdrefnau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd ar draws Cymru ym mis Gorffennaf 2018. Ym mis Gorffennaf 2018 derbyniodd y Bwrdd Iechyd [adroddiad](#)⁵ hefyd ar yr 'Adolygiad o'r trefniadau llywodraethu sy'n ymwneud â gofal cleifion ar ward Tawel Fan cyn iddi gau ar 20 Rhagfyr 2013 a threfniadau llywodraethu ym maes iechyd meddwl pobl hŷn yn BIPBC o fis Rhagfyr 2013 hyd at nawr' a baratowyd gan Donna Ockenden. Mewn ymateb, cytunodd y Bwrdd ar [drefniadau](#)⁶ llywodraethu a goruchwylio ar gyfer gweithredu'r argymhellion oedd yn deillio o adolygiad Ockenden. Cytunwyd hefyd ar drefniadau tebyg ar gyfer yr argymhellion a wnaed o ganlyniad i ymchwiliad annibynnol HASCAS, a gomisiynwyd ym mis Awst 2015, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2018.
- 4.6 Pan ddechreuodd y Cadeirydd newydd Mr Mark Polin ar ei swydd ym mis Medi 2018, cymerodd gyfrifoldeb yn syth dros gadeirio'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Fframwaith Gwella'r Mesurau Arbennig a'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad. Sefydlwyd disgwyliadau newydd ar gyfer llywodraethu a chraffu ac ail-drefnwyd cyfarfodydd y Bwrdd fel eu bod yn cwrdd yn ddeufisol, a thrwy hynny alluogi craffu ar bynciau allweddol yn fanylach yn ystod gweithdai ar wahân rhwng cyfarfodydd y Bwrdd. Nodwyd effaith hyn gan Swyddfa Archwilio Cymru yn eu [hasesiad strwythuredig](#)⁷ diweddaraf a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2018:
- “Edrychom ar sut mae'r Bwrdd yn trefnu ei hun er mwyn cefnogi cynnal y busnes yn effeithiol. Gwelsom fod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau da i gefnogi effeithiolrwydd byrddau a phwyllgorau, mae arwyddion diweddar o graffu cryfach, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu ffocws cryf ar lai o flaenoriaethau ond fod y rheini yn rai allweddol.”*
- 4.7 Ym mis Tachwedd 2018, cymeradwyodd y Bwrdd [adroddiad](#)⁸ i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn nodi'r cynnydd yn erbyn y mesurau arbennig ar gyfer Mai - Medi 2018. Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at gynnydd yn ymwneud â gallu a sefydlogrwydd y Bwrdd, datblygu ymateb cynhwysfawr i argymhellion HASCAS ac Ockenden, ymgysylltu â staff, camau yn ymwneud gyda materion clinigol ar gyfer cynigion newid gwasanaeth a sefydlu diwylliant o beidio â lleoli cleifion iechyd meddwl y tu allan i'r ardal.
- 4.8 Ym mis Tachwedd 2018, [ystyriodd](#)⁹ y Bwrdd Iechyd y buddsoddiad ychwanegol y cytunwyd arno gan Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2018 mewn manylder, sef cyfanswm o £6.8m, i gefnogi gwaith mesurau arbennig ar draws 2018/19 a 2019/20.

3 <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-04/bwrdd-iechyd-prifysgol-betsi-cadwaladr-fframwaith-gwella-mesurau-arbennig.pdf>

4 <https://gweddill.gov.wales/docs/dhss/publications/joint-escalation-and-intervention-arrangements-july18.pdf>

5 <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/861/Cy%20Tawelfan%20-%20Executive%20Summary%20-%20Welsh.pdf>

6 http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/861/Agenda%20bundle%20Health%20Board%2012.7.18%20Public_English.pdf

7 <https://www.audit.wales/cy/cyhoeddi/bwrdd-iechyd-prifysgol-betsi-cadwaladr-asesiad-strwythuredig-2018>

8 <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/861/Agenda%20bundle%20-%20201.11.18%20public%20Board%20meeting%20v2.0.pdf>

9 <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/861/Agenda%20bundle%20-%20201.11.18%20public%20Board%20meeting%20v2.0.pdf>

- 4.9 Mewn [datganiad](#)¹⁰ llafar ym mis Tachwedd 2018, ar ôl cyhoeddi'r pedwerydd adroddiad cynnydd, cafwyd diweddariad gan yr Ysgrifennydd Cabinet dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd ynghylch cynnydd y Bwrdd lechyd ers mis Mai 2018. Nododd fod ffocws cryf wedi bod ar allu'r Bwrdd, gan gynnwys y ffaith fod yr holl swyddi gwag ar lefel bwrdd wedi cael eu llenwi. Nododd hefyd fod systemau gwerthuso a darparu sicrwydd mwy cadarn wedi eu cyflwyno, a bod ymrwymiad cynyddol i weithio mewn partneriaeth i gefnogi ' *Cymru Iachach* ', y cynlluniau cynhwysfawr a roddwyd ar waith i fynd i'r afael ag argymhellion Ockenden a HASCAS (gweler adran 5), datblygiadau mewn gwasanaethau iechyd meddwl, gwell ymgysylltiad gyda staff, cynnydd yn erbyn rhai strategaethau gwasanaethau arbenigol a gwelliant parhaus yn y gwasanaethau y tu allan i oriau gan feddygon teulu.
- 4.10 Law yn llaw â'r gwelliannau hyn, roedd Ysgrifennydd y Cabinet yn cydnabod fod gan y Bwrdd lechyd sefyllfa ariannol heriol, a bod angen gwneud cynnydd cynt ym meysydd cynllunio strategol a chynllunio gwasanaethau, mewn adrannau penodol fel orthopaedeg. Cyfeiriodd hefyd at yr angen i ystyried y sefyllfa o safbwynt system gyfan yn well wrth ddisgrifio cynlluniau ar gyfer trawsnewid gwasanaethau. Pwysleisiodd Ysgrifennydd y Cabinet yr angen i'r Bwrdd lechyd dreulio'r 6 mis nesaf yn canolbwyntio ar gyllid, cynllunio strategol a chynllunio gwasanaethau - yn enwedig gofal heb ei drefnu a Thargedau Cyfeirio at Driniaeth (RTT) - ac ar gyflawni argymhellion Ockenden a HASCAS.
- 4.11 Yn dilyn cyfarfod oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal lechyd Cymru ym mis Ionawr 2019, cyhoeddodd y Gweinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol [ddatganiad](#)¹¹ ysgrifenedig ym mis Chwefror 2019 yn ymdrin â'r trefniadau ar gyfer uwchgyfeirio ac ymyrraeth ar y cyd ar draws GIG Cymru. Nododd y Gweinidog fod cynnydd wedi'i weld mewn sawl maes ar draws y Bwrdd lechyd, yn fwyaf nodedig yn y maes gwasanaethau y tu allan i oriau meddygon teulu, a oedd wedi gwella i lefel debyg i sefydliadau eraill ac felly'n cael ei dynnu oddi ar y rhestr o bryderon o fewn y mesurau arbennig. Nodwyd gwelliannau pellach hefyd mewn iechyd meddwl, ansawdd llywodraethu mewn perthynas â materion diogelwch ac effeithiolrwydd y Bwrdd o dan y Cadeirydd newydd. Tynnwyd sylw hefyd at y ffordd yr oedd y sefydliad wedi ymateb i argymhellion Ockenden a HASCAS.
- 4.12 Wrth nodi'r camau cadarnhaol ymlaen, nododd y Gweinidog fod y Bwrdd lechyd yn dal i wynebu agenda wella heriol wrth weithio i wella perfformiad a llywodraethu o fewn cyd-destun cynllun 3 blynedd gynaliadwy. Penderfynwyd felly y byddai'r Bwrdd lechyd yn parhau dan y statws uwchgyfeirio presennol o fesurau arbennig. [Ysgrifennodd](#)¹² Cyfarwyddwr Cyffredinol GIG Cymru i'r Bwrdd lechyd ar 22.2.19 yn cadarnhau canlyniad y cyfarfod rhwng y tri chorff hyn gan nodi'r pryderon a oedd yn parhau o amgylch diffyg cyflymder angenrheidiol yn y broses newid, yn enwedig mewn perthynas â chyllid, cynllunio a pherfformiad.
- 4.13 Mae'r Bwrdd lechyd yn parhau i yrru gwelliannau fel y'u mesurir gan y Fframwaith Gwella Mesurau Arbennig. Roedd yr adroddiad diweddar ffurfiol diweddaraf a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru yn ymwneud â chyfnod Hydref 2018-Mawrth 2019 y Fframwaith.

10 <http://record.assembly.wales/Plenary/5361#A46441>

11 https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-trefniadau-uwchgyfeirio-ac-ymyrryd?_ga=2.220168145.953834630.1561713542-41529327.1550578086

12 <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/861/Agenda%20bundle%20Health%20Board%2028.3.19%20%20V2.0%20updated%2022.3.19-min.pdf>

5. Tawel Fan

- 5.1 Ym mis Mai 2018, cyhoeddodd y Gwasanaeth Cyngori Iechyd a Gofal Cymdeithasol Annibynnol (HASCAS) ei adroddiad thematig ar y gofal a ddarparwyd i gleifion ar ward Tawel Fan yn Uned Ablett, Ysbyty Glan Clwyd cyn cau'r lleoliad ym mis Rhagfyr 2013.
- 5.2 Bu'r broses ymchwilio yn un gymhleth iawn a chymerodd fwy o amser nag a ragwelwyd yn wreiddiol. Roedd hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau gwaith trylwyr fel y gallai'r rhai yr effeithiwyd arnynt gael eu bodloni fod y canfyddiadau'n gadarn, ac er mwyn gallu llywio'r sefydliad drwy'r gwersi a ddysgwyd a'r dyheadau yn arwain o hynny.
- 5.3 Mae adroddiad HASCAS yn cynnig barn gyflawn yn seiliedig ar dystiolaeth, ac yn dilyn proses ymchwilio gynhwysfawr a oedd yn cynnwys dros 100 o gyfweiliadau gyda theuluoedd a staff a thros hanner miliwn o dudalennau o dystiolaeth, yn cynnwys trawsgrifiadau heddlu, cofnodion meddygol, cofnodion staff a chofnodion corfforaethol.
- 5.4 Canfu'r ymchwiliad fod safon gyffredinol y gofal ar ward Tawel Fan yn dda ar y cyfan ac ni welwyd unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r farn fod cleifion yn dioddef o gam-drin bwriadol nac esgeulustod bwriadol. Fodd bynnag, canfu'r adroddiad nad oedd rhai cleifion yn derbyn y safon gofal y byddem yn ei ddisgwyl ar draws ein gwasanaethau. Roedd yr adroddiad hefyd yn amlygu gwendidau sefydliadol systemig a oedd yn bresennol ar y pryd, a gyfrannodd at ofal gwael.
- 5.5 Derbyniodd y Bwrdd Iechyd ganfyddiadau'r adroddiad a sefydlwyd tasglu dan arweiniad y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth, i atgyfnerthu rhaglenni gwaith presennol ac i fwrw ymlaen â'r argymhellion penodol ar fyrder, ar y cyd gyda'n partneriaid.
- 5.6 Law yn llaw gydag ymchwiliad HASCAS, comisiynodd y Bwrdd Iechyd adolygiad llywodraethu gan Donna Ockenden. Canolbwyntiodd yr adolygiad hwn ar y trefniadau llywodraethu oedd yn ymwneud â gofalu am gleifion ar ward Tawel Fan cyn cau'r lleoliad, a hefyd adolygodd y trefniadau llywodraethu presennol yng ngwasanaethau iechyd meddwl pobl hŷn y Bwrdd Iechyd. Derbyniwyd canfyddiadau Adolygiad Llywodraethu Ockenden yng nghyfarfod cyhoeddus y Bwrdd Iechyd a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2018.
- 5.7 Cymeradwyodd y Bwrdd Iechyd bapur yn nodi ymateb cychwynnol y Bwrdd Iechyd i adroddiad HASCAS ym mis Gorffennaf hefyd a chymeradwywyd y trefniadau llywodraethu ac adrodd ar gyfer goruchwyllo gweithredu'r argymhellion yn deillio o adroddiad HASCAS ac adolygiad llywodraethu Ockenden. Cymeradwyodd y Bwrdd Iechyd sefydlu a chylch gorchwyl Grŵp Gwella i ymateb i'r holl argymhellion yn ogystal â Grŵp Rhanddeiliaid i atgyfnerthu ac arwain gwaith y Grŵp Gwella. Mae'r grwpiau hyn yn adrodd yn uniongyrchol i'r Bwrdd Iechyd.
- 5.8 Cynhaliwyd sawl cyfarfod o'r Grŵp Gwella a'r Grŵp Rhanddeiliaid ac mae'r holl argymhellion wedi'u mapio gyda'i gilydd i sicrhau fod y camau angenrheidiol a nodwyd yn cael eu gwreiddio yn y sefydliad ac nad ydynt yn cael eu hystyried fel materion ar eu pennau eu hunain. Mae'r enghraifft [yma](#)¹³ yn dangos ehangder y gwersi a'r deilliannau. Mae gweithrediadau fel apwyntio mwy o staff mewn unedau gwasanaethau meddwl wedi arwain at welliannau gwasanaeth yn cael eu hadnabyddu yn annibynol gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru mewn adroddiadau diweddar [yma](#)¹⁴. Mae cynnydd yn cael ei fonitro'n rheolaidd an yn fanwl trwy'r strwythur Pwyllgor a'r Bwrdd. Mae'r Grŵp Gwella yn cyflwyno adroddiadau i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau ac mae'r adroddiadau wedyn yn cael eu gyflwyno i'r Bwrdd.

13

<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/861/Agenda%20bundle%20Health%20Board%2024.1.19%20%20Public%20V1.0%20with%20Ablett%20Appendices%20removed%20for%20web.pdf>

14 https://ajic.org.uk/service-index?field_service_type%5B18%5D=18&field_service_type%5B17%5D=17

6. Sefyllfa Ariannol

- 6.1 Ni lwyddodd y Bwrdd Iechyd i gyfyngu'r diffyg ariannol i ddim mwy na £35m, yn bennaf oherwydd bod £6.7m yn llai o arbedion na'r targed o £45m, a osodwyd fel rhan o Gynllun Ariannol 2018/2019. Roedd gorwariant sylweddol hefyd mewn meysydd gwariant penodol, yn enwedig mewn Gofal Eilaidd, tra bo tanwariant o fewn Gofal Cychwynol a Chontractau.
- 6.2 Yn ystod 2018/19 penododd y Bwrdd Gyfarwyddwr Trawsnewid a thrwy drafod â Llywodraeth Cymru llwyddwyd i sicrhau adnoddau ychwanegol a fydd yn cael eu defnyddio i ddatblygu cymwysterau a gallu i gynllunio a chyflawni'r arbedion cylchol sylweddol sydd eu hangen yn y dyfodol. Bydd y capasiti ychwanegol hwn yn gwella Swyddfa Rheoli Rhaglenni ganolog y Bwrdd, yn cynyddu capasiti rheoli rhaglenni ar gyfer rhaglenni newid ac yn datblygu sgiliau a gwella gwasanaethau ymhellach i gefnogi timau clinigol wrth iddynt gyflawni newidiadau.
- 6.3 Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl Rhaglen Arbedion, sydd yn adrodd i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad er mwyn darparu elfen o graffu ychwanegol a manwl ar raglen arbedion y Bwrdd Iechyd 2019/20, a thrwy hynny wella llywodraethu a goruchwyliaeth.
- 6.4 Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi comisiynu adolygiad ariannol allanol fel rhan o ymdrechion penodol i wella'r sefyllfa ariannol. Gyda chymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru, mae Price Waterhouse Coopers wedi cael eu cyflogi i weithio gyda'r Bwrdd Iechyd i adolygu a gwella'r dulliau o gyflawni gwelliant a newid cynaliadwy, tra ar yr un pryd yn arbed arian. Disgwylir i'r adolygiad yma gael ei gyflwyno i'r Bwrdd Iechyd ym mis Mehefin 2019.

7. Cynllun Integredig Tymor Canolig - Cynllun Gweithredol Tair Blynedd

- 7.1 Nid oes gan y Bwrdd Iechyd Gynllun Tymor Canolig sydd wedi ei gymeradwyo hyd yma, felly nid yw'r Bwrdd yn cyflawni ei ddyletswydd statudol yn hyn o beth. Mae er hynny wedi datblygu Rhagolwg Tair Blynedd a Chynllun Blyneddol 2019/20 a nodwyd fel cynllun dros dro gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2019, tra bod gwaith ychwanegol i ddatblygu cynllun blyneddol 2019/20 ddiwygiedig yn cael ei cwblhau erbyn Gorffennaf 2019. Bydd hyn yn cynnwys canlyniadau arolwg cyllid a hallbynnau'r tasglu atgyfeiriad am driniaeth (RTT) gofal dewisol.
- 7.2 Ym mis Gorffennaf 2018, cysidwyd y Bwrdd Cynllun Gweithredol Blyneddol drafft, yn nodi blaenoriaethau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer gweithredu i gyflawni gwelliant ar draws ystod o weithgareddau a gwasanaethau. Roedd y dull hwn yn sicrhau cydbwysedd rhwng yr uchelgais i wella'r gwasanaethau a ddarperir ar fyrder yn ogystal â pharhau i wneud dewisiadau anodd ynghylch dyrannu adnoddau gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, penderfynnodd y Bwrdd bod angen mwy o waith ar y cynllun. Ym mis Rhagfyr 2018, cytunodd y Bwrdd Iechyd ar set graidd o flaenoriaethau ar gyfer y chwarter sy'n weddill.

- 7.3 Mewn perthynas ag asesiad cyffredinol o gynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredu Blynyddol, cydnabyddir fod eleni wedi bod yn flwyddyn heriol iawn o ran cyflwyno'r cynllun a bod methiannau mewn rhai meysydd. Fodd bynnag, cafwyd sawl llwyddiant ar draws ystod o wasanaethau yn ystod y flwyddyn. Fel rhan o raglen *Gwella Iechyd a Lleihau Anghydraddoldebau Iechyd*, cyflwynodd y Bwrdd Iechyd y gwaith a wnaethpwyd ar y cyd gyda phartneriaid - *'Beth am Symud - Gogledd Cymru'*, gweithredu trydedd haen y gwasanaeth rheoli pwysau, dechrau ar y gwasanaeth rhoi'r gorau i ysmegu o fewn ysbytai a sefydlu fframwaith trwyddedu alcohol. Mae enghreifftiau allweddol o lwyddiannau o fewn 'Gofal yn Agosach at y Cartref' yn cynnwys datblygu ac agor canolfan gofal iechyd newydd yn y Fflint, ailddatblygu Canolfan Iechyd Corwen a chynyddu niferoedd y nyrsys, ffisiotherapi, awdiolog a fferylliaeth uwch mewn lleoliadau gofal cychwynol. O fewn Gofal Ysbyty Ardderchog, agorwyd y Ganolfan Isranbarthol Gofal Dwys i'r Newydd-anedig (SuRNICC) yn Ysbyty Glan Clwyd a chwblhawyd y gwaith adnewyddu mawr ar gyfer Ysbyty Glan Clwyd, gan ddod â gwelliannau mawr yn yr amgylchedd i gleifion a staff.
- 7.4 *Byw'n Iach, Aros yn Iach* yw strategaeth hirdymor y Bwrdd sy'n disgrifio sut y gallai iechyd, lles a gofal iechyd yng Ngogledd Cymru edrych ymhenn deng mlynedd a sut mae'r Bwrdd yn gweithio tuag at hyn nawr. Cymeradwyodd y Bwrdd Iechyd y strategaeth ym mis Mawrth 2018. Bydd y Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda rhanddeiliaid i adolygu ac adnewyddu'r strategaeth erbyn Mawrth 2020 i gyd-fynd â'r Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 20/21 a thu hwnt. Yn ogystal â hyn, trwy ddatblygu strategaeth gwasanaeth fanylach yn 2019/20 gyda chefnogaeth dadansoddiad ariannol, gweithlu ac ystadau, bydd y datganiadau 'lefel uchel' a nodir yn y Cynllun Integredig Tymor Canolig yn cael eu datblygu'n gamau mwy penodol, er mwyn gallu gwella canlyniadau a defnyddio adnoddau'n fwy effeithiol.

8. Parodrwydd am Argyfwng

- 8.1 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi'i gategoreiddio fel ymatebydd Categori 1 o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl (2004) ac o ganlyniad mae'n ofynnol cael trefniadau penodol mewn lle. Mae gan y Bwrdd Iechyd y trefniadau canlynol:
- Cynllun Argyfwng Mawr a chynlluniau sy'n sail i argyfyngau safleoedd neu ddigwyddiadau penodol ac sy'n disgrifio ymateb y sefydliad i argyfwng a ddiffinnir fel digwyddiad mawr;
 - Strwythur llywodraethu sy'n darparu trosolwg a strwythur ar gyfer cydgordio trefniadau er mwyn gallu bod yn barod am argyfwng. Mae'r strwythur hwn yn gysylltiedig â Fforwm Gwydnwch Gogledd Cymru, sy'n darparu'r gwaith cynllunio cydlynol a sicrhau parodrwydd ar draws yr holl asiantaethau sy'n ymwneud â gweithgareddau amddiffyn sifil;
 - Rhaglen o ymarferion a hyfforddiant i gefnogi ein staff a chanddynt rolau penodol yn ein trefniadau brys mawr, gan gyflwyno cymwyseddau gorchymyn a rheoli yn unol â'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, a hyfforddiant pwrpasol yn ymwneud ag ymateb meddygol cyn-ysbyty, ymwybyddiaeth o ddadheintio mewn ysbytai a pharodrwydd am argyfwng;
 - Bu Polisi Parhad Busnes a rhaglen waith sylweddol yn canolbwyntio ar ddatblygu System Rheoli Parhad Busnes ar gyfer gwasanaethau hanfodol, er mwyn galluogi a sicrhau adferiad i wasanaethau o fewn amserlenni derbyniol pe byddai busnes arferol yn cael ei darfu oherwydd argyfwng;

- Y Grŵp Argyfyngau Sifil Posibl yw fforwm mewnol y Bwrdd sy'n darparu arweinyddiaeth i sicrhau parodrydd mewn argyfwng iechyd. Mae cylch gorchwyl wedi cael ei ddatblygu, sy'n egluro sut y mae'r Grŵp Argyfyngau Sifil yn darparu sicrwydd a threfn lywodraethu mewn perthynas â pharodrydd o safbwynt iechyd, yn ogystal â chydlynu materion yn ymwneud yn benodol â gwytnwch o fewn yr economi iechyd;
- Mae proses sicrwydd sy'n cynnwys archwiliad mewnol a chynhelir archwiliadau blynyddol o'r system rheoli parhad busnes a threfniadau Argyfyngau Sifil yn unol â'r Canllawiau a'r Fframwaith Paratoi at Argyfwng, Gwydnwch ac Ymateb;
- Cofrestr Risg Argyfyngau Sifil ynghyd â chofrestrau risg is-adrannol unigol, sy'n darparu dull ar gyfer adrodd a chodi statws difrifoldeb risgiau;
- Rhaglen waith yn ymwneud â gwydnwch sy'n manylu ar y trefniadau gwydnwch sefydliadol sefydledig ac yn sicrhau fod y dyletswyddau'r Bwrdd lechyd yn cael eu cyflawni drwy Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl (2004) a'r canllawiau an-ddeddfwriaethol cysylltiedig. Penodwyd Pennaeth Parodrydd Argyfwng a Gwydnwch newydd ar ddiwedd cyfnod adrodd 2018/19.

9. Gweithio mewn Partneriaeth

- 9.1 Yn ystod y flwyddyn mae'r Bwrdd lechyd wedi sicrhau ei fod yn gweithio'n agos gyda sefydliadau partneriaethol fel awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol, i drafod a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, hyrwyddo ymgysylltiad cymunedol a manteisio ar gyfleoedd i weithio ar y cyd. Mae'r sefydliadau partneriaethol yn cynnwys:
- Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru;
 - Iechyd Cyhoeddus Cymru;
 - Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru;
 - Awdurdodau Lleol (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam);
 - Cyrff GIG cyfagos yng Nghymru a Lloegr;
 - Y Cyngorau Gwirfoddol Cymunedol;
 - Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus / Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol;
 - Grŵp Cydweithredol Gofal Iechyd Canolbarth Cymru.
- 9.2 Sefydlwyd trefn o weithio mewn partneriaeth yng Ngogledd Cymru ers amser bellach, ac mae hyn wedi ei atgyfnerthu eleni trwy'r gwaith cynyddol gyda'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, y soniwyd amdano yn gynharach yn y datganiad hwn.
- 9.3 Yn ogystal, mae gan y Bwrdd lechyd berthynas waith allweddol gyda Charchar y Berwyn fel y darparwr gwasanaethau gofal iechyd yn y carchar. Mae gan y Bwrdd lechyd gyfrifoldeb dros ddiwallu anghenion iechyd a lles y carcharorion yng Ngharchar y Berwyn. Mae'r cysyniad o allu rhoi darpariaeth gynhwysfawr ac integredig sydd ar gael i bawb, a mynediad at wasanaethau'n seiliedig ar angen clinigol, wedi'i ymgorffori yn y paramedrau cynllunio gwasanaethau a'r gweithdrefnau gweithredol. Mae'r gwasanaethau o fewn Carchar y Berwyn wedi'u creu i gefnogi asesiad a diagnosis cynnar, a lleihau'r cyfraddau aildroseddu trwy wella iechyd a lles y carcharorion. Mae'r mynediad at wasanaethau a safon y gofal yn adlewyrchu'r gwasanaethau a ddarperir yn y gymuned.

10. Rôl y Bwrdd

10.1 Rôl y Bwrdd yw:

- Lluoio strategaeth ar gyfer y sefydliad o fewn polisïau a blaenoriaethau cyffredinol Llywodraeth Cymru, gan ymateb i anghenion iechyd y boblogaeth leol;
- Sicrhau atebolrwydd drwy ddal y sefydliad yn gyfrifol am gyflawni'r strategaeth a thrwy geisio sicrwydd fod y systemau rheoli yn gadarn ac yn ddibynadwy;
- Llywio diwylliant cadarnhaol o fewn y Bwrdd a'r sefydliad;
- Cynnal safonau llywodraethu corfforaethol uchel;
- Sicrhau stiwardiaeth ariannol effeithiol.

10.2 Mae'r Bwrdd yn gweithredu fel corff sy'n gwneud penderfyniadau corfforaethol. Mae Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Aelodau Annibynnol yn aelodau llawn a chyfartal sy'n rhannu cyfrifoldeb corfforaethol am holl benderfyniadau'r Bwrdd. Cefnogir y Bwrdd gan Ysgrifennydd y Bwrdd sy'n gweithredu fel prif gynghorydd ar bob agwedd yn ymwneud â llywodraethu o fewn y Bwrdd Iechyd.

10.3 Nodir diben, gweledigaeth, nodau strategol, amcanion lles a gwerthoedd y Bwrdd Iechyd isod. Adlewyrchir y rhain yn y fframwaith cynllunio ac mae gwaith yn mynd rhagddo i'w hymgorffori ar draws y sefydliad ar bob lefel:

Ein Pwrpas

- Gwella iechyd a darparu gofal rhagorol.

Ein Gweledigaeth

- Byddwn yn gwella iechyd y boblogaeth, gan ganolbwyntio'n benodol ar y bobl fwyaf bregus yn ein cymdeithas.
- Byddwn yn gwneud hyn trwy ddatblygu gwasanaeth iechyd integredig, sy'n darparu gofal rhagorol mewn partneriaeth â'r cyhoedd a sefydliadau statudol a thrydydd sector eraill.
- Byddwn yn datblygu ein gweithlu fel bod ganddynt y sgiliau cywir a'u bod yn gallu gweithredu mewn diwylliant o ddysgu sy'n llawn cyfleoedd i wneud ymchwil.

Ein Hamcanion Llesiant

- Gwella iechyd a lles corfforol, emosiynol a meddyliol pawb;
- Targedu ein hadnoddau er budd y rhai mwyaf anghenus a lleihau anghydraddoldebau;
- Cefnogi plant i gael y dechrau gorau mewn bywyd;
- Gweithio mewn partneriaeth i gefnogi pobl - unigolion, teuluoedd, gofalwyr, cymunedau - i ofalu am eu llesiant eu hunain;
- Gwella diogelwch ac ansawdd yr holl wasanaethau;
- Parchu pobl a'u hurddas;
- Gwrando ar bobl a dysgu o'u profiadau.

10.4 Mae ein pwrpas, ein gweledigaeth a'n amcanion lles yn datgan nodau tymor hir y Bwrdd. Mae gennym waith pellach i'w wneud i drosi'r rhain i fod yn amcanion penodol ar gyfer gwella iechyd y boblogaeth a gwasanaethau iechyd y byddwn yn eu cynnwys yn ein cynlluniau yn y dyfodol.

Ein Gwerthoedd

- Rhoi dinasyddion yn gyntaf;
- Cydweithio;
- Gwerthfawrogi a pharchu ein gilydd;
- Dysgu ac arloesi;
- Cyfathrebu'n agored ac yn onest.

10.5 Mae ein gwerthoedd yn llywio'r ffordd y mae'r Bwrdd yn gweithio a'r ffordd y mae ein staff yn ymgysylltu â'r rhai sy'n defnyddio ein gwasanaethau a gyda'i gilydd er mwyn cyflawni ein nodau strategol.

11. Cyfansoddiad y Bwrdd

11.1 Sefydlwyd y Bwrdd i gydymffurfio â Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009, a adlewyrchir yn y Rheolau Sefydlog.

11.2 Mae'r Bwrdd yn cyfarfod bob deufis ac mae'n cynnwys y Cadeirydd, deg Aelod Annibynnol, pedwar Aelod Cyswllt (daeth y Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu yn Aelod Cyswllt ym mis Mehefin 2016), y Prif Weithredwr ac wyth Cyfarwyddwr Gweithredol. Mae Ysgrifennydd y Bwrdd yn bresennol ond nid yw'n aelod llawn o'r Bwrdd.

11.3 Yn ystod cyfnod adrodd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn, mae'r Bwrdd wedi gweld nifer o benodiadau yn cynnwys, Cadeirydd newydd a gafodd ei benodi ym mis Medi 2018 fel y nodwyd yn gynharach. Penodwyd yr Is-gadeirydd yn derfynol ym mis Awst 2018. Yn dilyn ailstrwythuro yn ystod y flwyddyn ac ymadawiad y Prif Swyddog Gweithredu ym mis Mehefin 2018 pan ddiddymwyd y swydd honno, gwnaed penodiadau pellach. Y rhain oedd Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Cychwynnol a Chymunedol a Chyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad. Roedd penodiadau eraill i'r Bwrdd yn cynnwys Cyfarwyddwr Gweithredol newydd ar gyfer y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol. Yn ogystal, ymunodd nifer o Aelodau Annibynnol newydd â'r Bwrdd. Mae aelodaeth y Bwrdd i'w weld yn Atodiad 1 ynghyd â rolau Aelodau'r Bwrdd fel Hyrwyddwyr. Cafodd y Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol swydd mewn sefydliad arall ar ddiwedd mis Ebrill 2019 ac mae disgwyl i newidiadau pellach gymryd lle pan fydd y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol yn gadael ym mis Gorffennaf 2019. Mae gwaith recriwtio ar gyfer y ddwy swydd yma bellach ar y gweill.

11.4 Ar hyn o bryd mae gan y Bwrdd gefnogaeth Ymgynghorydd Ariannol Annibynnol hefyd, yn absenoldeb penodi Aelod Annibynnol â chefnidir ariannol. Yn dilyn ymddiswyddiad Aelod Annibynnol ym mis Chwefror 2019 mae gwaith recriwtio yn yr arfaeth i sicrhau fod gan y sawl a benodir yr arbenigedd ariannol angenrheidiol.

12. Effeithiolrwydd a Safonau'r Bwrdd

12.1 Er mwyn gwella effeithiolrwydd a bodloni'r dyhead i fod yn agored ac atebol, mae'r Bwrdd yn ceisio bod yn dryloyw am y penderfyniadau a wneir a'r dull o weithredu. Cynhelir y mwyafrif o gyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau yn gyhoeddus yn rheolaidd.

12.2 Mae gan holl Aelodau'r Bwrdd gyfrifoldeb i gadw at egwyddorion Nolan ar gyfer unigolion sy'n dal swyddi yn llygad y cyhoedd ac mae'n rhaid i Gyfarwyddwyr Gweithredol gadw at God Ymddygiad y GIG (Rheolau Disgyblu a Safonau Ymddygiad). Mae system electronig gadarn yn ei lle ar gyfer datgan buddiannau, rhoddion a lletygarwch.

- 12.3 Mae'n ofynnol i Aelodau'r Bwrdd ddatgan unrhyw fuddiannau ar ddechrau cyfarfodydd y Bwrdd a llenwi ffurflen yn flynyddol. Mae'n rhaid i Aelodau'r Bwrdd hefyd ddatgan rhoddion a lletygarwch a dderbyniwyd neu a gynigir iddynt, yn unol â'r canllawiau. Cofnodir datganiadau ar y gofrestr gorfforaethol, sydd ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd trwy Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd. Ym mis Tachwedd 2016, cyflwynwyd Polisi Safonau Ymddygiad Busnes newydd a system ddatgan electronig. Mae hyn yn parhau i ddatblygu.
- 12.4 Er budd llywodraethu, craffu a herio da, mae pob Pwyllgor Bwrdd lechyd yn cael ei gadeirio gan Aelod Annibynnol.
- 12.5 Caiff cylch busnes blynyddol / cynllun gwaith y Bwrdd ei adolygu a'i ddiweddarau'n rheolaidd, yn fwyaf diweddar ym mis Mawrth 2019.
- 12.6 Er bod y Bwrdd lechyd yn parhau i fod dan fesurau arbennig, fel y nodir yn Adran 33 y Datganiad hwn, casgliad cyffredinol Asesiad Strwythuredig 2018 Swyddfa Archwilio Cymru oedd bod y Bwrdd lechyd wedi cryfhau'r trefniadau llywodraethu a bod y trefniadau ar gyfer cynllunio strategol yn datblygu. Fodd bynnag, mae Swyddfa Archwilio Cymru o'r farn fod angen i'r Bwrdd lechyd ganolbwyntio ar nodau strategol allweddol i oresgyn yr heriau sylweddol a wynebir.

13. Datblygiad y Bwrdd

- 13.1 Mae'r Bwrdd lechyd wedi clustnodi o leiaf un diwrnod y mis yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i Ddatblygu'r Bwrdd. Roedd hyn yn adeiladu ar y gwaith a wnaed y llynedd i gryfhau arweinyddiaeth a llywodraethu fel rhan o themâu'r mesurau arbennig. Yn ogystal, neilltuwyd hanner diwrnod pob deufis ar gyfer sesiynau briffio'r Bwrdd er mwyn diweddarau'r aelodau ar faterion strategol allweddol yn ymwneud â gwasanaethau a hyfforddiant gorfodol.
- 13.2 Ym mis Ebrill 2019 gwahoddwyd tendrau a phenodwyd darparwr hyfforddi profiadol i gyflwyno rhaglen ddatblygu bwrpasol i'r Bwrdd (y Bwrdd cyfan, Aelodau Gweithredol ac Annibynnol). Bydd hyn yn atgyfnerthu'r gwaith a wnaed eisoes ond cydnabyddir fod trosiant ar lefel y Bwrdd yn effeithio ar effeithiolrwydd datblygiad y Bwrdd. Bydd y rhaglen yn cynnwys cyfres o weithgareddau datblygu, i gefnogi Aelodau'r Bwrdd yn unigol yn ogystal â'r Bwrdd ar y cyd, er mwyn gallu cyflawni swyddogaethau craidd a gwneud penderfyniadau effeithiol yn unol ag egwyddorion llywodraethu da. Bydd hyn yn cynorthwyo Aelodau'r Bwrdd i wneud cyfraniadau personol gwell ac i sicrhau effeithiolrwydd y Bwrdd.

14. Trefniadau Bwrdd a Phwyllgorau

- 14.1 Mae gan y Bwrdd lechyd Grŵp Rheoli Busnes Pwyllgorau sefydledig i sicrhau cyfathrebu effeithiol rhwng aelodau. Mae hyn yn osgoi dyblygu ac yn sicrhau fod busnes yn cael ei reoli'n effeithiol ac yn effeithlon drwy'r fframwaith llywodraethu, yn bodloni gofynion statudol ac yn ystyried yr arferion gorau newydd. Ym mis Ebrill 2018 rhoddodd y Grŵp ystyriaeth i gynigion yn ymwneud â threfn ddiwygiedig ar gyfer cyfarfodydd. Cytunwyd ar nifer o gamau gweithredu a roddwyd ar waith, yn fras, o fis Mai 2018 ymlaen:
- Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad Integredig i'w gyflwyno i'r Bwrdd bob deufis ond gyda'r Adroddiad Cyllid yn parhau i gael ei gyflwyno i bob cyfarfod Bwrdd;
 - Diddymwyd y Grŵp Adfer Ariannol o ddiwedd Ebrill 2018;

- Adroddiadau am faterion Gwybodaeth Llywodraethu i barhau i gael eu cyfeirio drwy'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad;
- Grŵp Gorchwyl a Gorffen Fframwaith Gwella'r Mesurau Arbennig - adolygwyd trefniadau diwygiedig llywodraethu ac adrodd y grŵp hwn i adlewyrchu'r trefniadau newydd sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas â gwyrddio a gwreiddio mesurau arbennig o fewn busnes craidd y Bwrdd a'i bwyllgorau;
- Mabwysiedir dull gweithdy ar gyfer sesiynau briffio'r Bwrdd yn y dyfodol.

- 14.2 Yn dilyn ymlaen o'r newidiadau hyn, ac wrth ystyried adnewyddu aelodaeth y Bwrdd, adolygwyd trefniadau'r Bwrdd a'r pwyllgorau ymhellach, gan ystyried barn a fynegwyd yn adroddiad Deloitte ar Adolygiad Llywodraethu Ariannol y Bwrdd lechyd. Roedd hyn yn canolbwyntio'n bennaf ar gylch gwaith y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad (C & P), ond hefyd yr Adroddiad Asesiad Strwythuredig 2017 (a gyflwynwyd i'r Bwrdd ym mis Mawrth 2018) a oedd yn tynnu sylw at y gofynion sylweddol ar Aelodau Annibynnol o ganlyniad i amllder cyfarfodydd Bwrdd a chyfarfodydd Pwyllgor, datblygiad Bwrdd ffurfiol a sesiynau pwyllgor mewnol, a grwpiau eraill yr oedd yr Aelodau'n ymwneud â hwy. O'r herwydd ystyriodd y Bwrdd farn Ymgynghorydd Arbenigol y Bwrdd lechyd, am y manteision sylweddol a fyddai'n deillio o symleiddio trefniadau'r Bwrdd a'i bwyllgorau, a thrwy hynny gefnogi aelodau annibynnol trwy gael goruchwyliaeth fwy effeithiol. Byddai hyn yn cefnogi eu gallu i ddarparu mwy o her mewn meysydd allweddol, tra'n caniatáu ffocws gweithredol cynyddol ar wyrddio a chynhyrchiant gweithredol.
- 14.3 Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i'r strwythurau llywodraethu ac adrodd mewn perthynas â datrys problemau a thrawsnewid. Mewn perthynas â materion gwyrddio, cytunodd y Bwrdd y byddai'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad yn cadw trosolwg ar ran y Bwrdd ac y byddai'r Cadeirydd yn bersonol yn cadeirio'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad. Ystyriodd y Bwrdd gynigion ar gyfer trefniadau trawsnewid llywodraethu diwygiedig yng ngoleuni ' *Cymru Iachach - Cynllun Lechyd a Gofal Cymdeithasol* Llywodraeth Cymru a oedd yn nodi disgwyliadau parthed y Cynllun Ardal a gynhyrchwyd gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, a Chynlluniau Integredig Tymor Canolig y Bwrdd lechyd (neu gynllun tair blynedd yn achos BIPBC). Mae'r rhain yn annatod yn gysylltiedig gyda'i gilydd ac angen bod yn gyson â chynllunio'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'r Bwrdd lechyd wedi atgyfnerthu a gwella'r trefniadau partneriaeth presennol, ac roedd trawsnewid yn elfen greiddiol o gyfrifoldebau cynllunio strategol y Bwrdd a ddatblygwyd drwy'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad a'r Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac lechyd Poblogaeth. Bu ffocws y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad ar "y flwyddyn hon" trwy gyflawni'r holl gynlluniau a chyllidebau y cytunwyd arnynt, tra bod y Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac lechyd Poblogaeth wedi canolbwyntio ar 'y dyfodol' trwy oruchwyllo datblygiad strategaeth, cynlluniau arfaethedig a gweithio mewn partneriaeth.
- 14.4 Cytunodd y Bwrdd y dylid sefydlu Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth a Gwybodeg, dan gadeiryddiaeth Aelod Annibynnol y Bwrdd sydd yn meddu ar wybodaeth arbenigol am Dechnoleg Gwybodaeth, i gyfarfod bob chwarter er mwyn galluogi'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad i ganolbwyntio'n gliriach ar y materion cyllid a pherfformiad allweddol ac, ar yr un pryd, ddarparu gwell Goruchwyliaeth ac ymgysylltiad rhwng y Bwrdd â'r agenda Technoleg Gwybodaeth. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth a Gwybodeg yn cysylltu â'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad (trwy'r Grŵp Rheoli Busnes Pwyllgorau) ar faterion sy'n ymwneud â pherfformiad yn ystod y flwyddyn a gyda'r Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac lechyd Poblogaeth ar gynlluniau yn y dyfodol, ond mae hefyd yn adrodd yn uniongyrchol i'r Bwrdd drwy Adroddiadau Sicrwydd y Cadeirydd a'i Adroddiad Blynyddol fel pwyllgorau eraill y Bwrdd.

Wrth ail-ffocysu gwaith y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad yn y modd hwn, rhoddwyd ystyriaeth hefyd i'r modd o ymdrin â gwybodaeth am y gweithlu. Bydd y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad yn cadw golwg ar weithgarwch a pherfformiad y gweithlu a bydd y Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd Poblogaeth yn goruchwyllo cynllunio gweithlu a lles staff ar lefel sefydliadol. Mae swyddogaethau eraill wedi cael eu symud o'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad yn ymwneud â 'Cynnal Safonau Proffesiynol' (a symudwyd i'r Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth) ac ymgysylltiad staff gan gynnwys monitro canlyniadau a chymau gweithredu yr Arolwg Staff (a symudwyd i'r Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd Poblogaeth). Cryfhawyd aelodaeth y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad hefyd gyda phresenoldeb y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol, i sicrhau goruchwyliaeth glinigol fel rhan o'r broses asesu effaith ansawdd. Manteisiodd y Bwrdd ar y cyfle i adolygu ei amserlen cyfarfodydd, gan symud i gyfarfodydd Bwrdd bob deufis.

14.5 Roedd strwythur pwyllgorau'r Bwrdd o fis Medi 2018 yn cynnwys wyth pwyllgor a dau is-bwyllgor, sef:

- Pwyllgor Archwilio;
- Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth;
- Pwyllgor y Ddeddf Iechyd Meddwl gyda'i Is-bwyllgor Pwerau Rhyddhau Deddf Iechyd Meddwl;
- Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad;
- Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth a Gwybodeg;
- Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad;
- Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth;
- Pwyllgor Cronfeydd Elusennol, gyda'i Is-bwyllgor Grŵp Cyngori ar Gronfeydd Elusennol.


14.6 Roedd y pwyllgorau a'r is-bwyllgorau hyn yn ychwanegol at dri Grŵp Cyngori'r Bwrdd Iechyd a thri Phwyllgor ar y Cyd, fel y dangosir yn y diagram strwythur yn Ffigur 1 isod. Sefydlwyd Grŵp Rhaglen Cynilo, yn adrodd i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad, i monitro, rheoli ac adrodd ar ddatblygiad a chyflawniad rhaglen cynilo'r Bwrdd Iechyd: cynhaliwyd y cyfarfod cuntaf ym mis Ebrill 2019.

14.7 Mae'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch Strategol yn adrodd yn ffurfiol i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad. Nid yw'r pwyllgor wedi cyfarfod yn ystod 2018/19 ers cynnal eu cyfarfod diwethaf ym mis Hydref 2017. Yn ystod 2017/18, roedd y trefniadau oedd mewn lle gan y Bwrdd Iechyd yn destun adolygiad gan yr Archwilwyr Mewnol. Cafodd yr adroddiad, sef *Adolygiad o Gydydffurfiad Deddfwriaethol Corfforaethol: Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974* ei gwblhau ym mis Mawrth 2018 a'i ystyried gan y Pwyllgor Archwilio ym mis Mai 2018. Roedd yr adolygiad, a gafodd ei seilio ar waith maes a wnaed rhwng mis Gorffennaf a mis Rhagfyr 2017, o'r farn fod sicrwydd cyfyngedig cyffredinol. Ers mis Hydref 2018, mae'r cyfrifoldeb dros Iechyd a Diogelwch yn eistedd gyda Chyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol (ar ôl cyfnod dros dro yng ngofal y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth rhwng Ebrill a Hydref 2018 yn dilyn diddymu rôl y Prif Swyddog Gweithredu). Paratôdd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol adroddiad manwl ar gyfer Bwrdd Tachwedd 2018 yn nodi cyfres o gynigion er mwyn mynd i'r afael â'r diffygion yn dilyn adolygiad cychwynnol o'r strwythurau sydd ar waith ac argaeledd / amlygrwydd gwybodaeth hanfodol. Cytunwyd ar strwythurau arweinyddiaeth newydd gyda phenodiad Cyfarwyddwr Cyswllt Iechyd, Diogelwch a Chydraddoldeb, dau Bennaeth Iechyd a Diogelwch, Rheolwr Trais ac Ymddygiad Ymosodol (cyfwerth â 0.8 amser llawn) a thri Ymgynghorydd Diogelwch. Mae gwaith bellach yn mynd rhagddo i:

- Adolygu ac argymell strwythur llywodraethu a rheoli perfformiad effeithiol i gyd-fynd ag atebolrwydd cyffredinol a strwythur sicrwydd y Bwrdd Iechyd;
- Datblygu cynllun gwella 3 blynedd gydag amcanion clir wedi eu cyplysu ag amserlen ar gyfer cyflawni o fewn 2018/19 a phob blwyddyn ganlynol, a gaiff ei ystyried gan y Bwrdd erbyn mis Mawrth 2019 fan bellaf;
- Parhau i adeiladu ar y gwaith a wnaed gan y Cyfarwyddwr Nyrsio Gweithredol a'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol Sicrhau Ansawdd i ddatblygu perthynas fwy effeithiol gyda'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i sicrhau ymddiriedaeth a hyder yn y Bwrdd Iechyd.

Cymeradwyodd y Bwrdd y cynigion ac, ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, disgwylir i'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch ddechrau cyfarfod eto ym mis Mai 2019 ac yna'n fisol am gyfnod cychwynnol o 9 mis, gan ddychwelyd i gyfarfodydd bob deufis wedi hynny.

- 14.8 Mae gan y Bwrdd Iechyd dri Grŵp Cynghori i'w gynorthwyo i allu cyflawni ei ddyletswydd statudol i ystyried sylwadau gan y gymuned y mae'n ei gwasanaethu a rhanddeiliaid allweddol eraill. Y tri grŵp yw: y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid (SRG), Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd (HPF) a'r Fforwm Partneriaeth Lleol (LPF). Mae dau o Gadeiryddion y Grwpiau Ymgynghorol yn cael gwahoddiad i mynychu fel a ganlyn:
- Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad - Cadeirydd HPF;
 - Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd Poblogaeth - Cadeirydd SRG.
- 14.9 Dangosir strwythur Pwyllgor a Grŵp Cynghori'r Bwrdd Iechyd isod yn Ffigur 1.
- 14.10 Comm Ceir manylion Aelodaeth Pwyllgorau / Is-bwyllgorau yn Atodiad 1. Ceir manylion presenoldeb aelodau'r Bwrdd Iechyd yng nghyfarfodydd y Bwrdd yn Atodiad 2. Ceir manylion cyfarfodydd Bwrdd a Phwyllgorau a gynhaliwyd drwy gydol y flwyddyn yn Atodiad 3.
- 14.11 Mae pob pwyllgor o'r Bwrdd yn cynhyrchu adroddiad blynyddol. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn derbyn holl adroddiadau blynyddol y pwyllgorau hyn ymlaen llaw (cyfarfod mis Mai) ac yna'n cyflwyno adroddiad sicrwydd cyffredinol i'r Bwrdd. Ystyriwyd adroddiadau blynyddol 2018/19 yn fanwl gan weithdy o Aelodau'r Pwyllgor Archwilio ym mis Mai 2018 cyn cael eu derbyn yn ffurfiol gan y Pwyllgor Archwilio yn y cyfarfod a gynhaliwyd yn ddiweddarach y mis hwnnw. Roeddent yn manylu ar y busnes, y gweithgareddau a'r prif faterion a'r risgiau yr ymdriniwyd â hwy gan y Pwyllgorau neu a gawsant eu cyfeirio at y Bwrdd yn ystod y flwyddyn flaenorol.
- 14.12 Mae Cadeiryddion Pwyllgorau yn darparu adroddiadau sicrwydd ysgrifenedig i'r Bwrdd ar ôl pob cyfarfod pwyllgor, gan dynnu sylw at faterion o bwys ac unrhyw risgiau allweddol. Cyhoeddir adroddiadau'r Cadeiryddion hyn gyda phapurau'r Bwrdd Iechyd.
- 14.13 Nodir y materion arwyddocaol a ystyriwyd gan y pwyllgorau, ac enghreifftiau o gamau gweithredu a gymerwyd yn ystod 2018/19 o adran 14.14 ymlaen. Mae'r materion allweddol hyn yn ymddangos fel uchafbwyntiau yn Adroddiadau Sicrwydd Cadeiryddion y Pwyllgorau.



Figur 1. Strwythur Pwyllgorau a Grwpiau Cyngorir Bwrdd Iechyd

14.14 Y Pwyllgor Archwilio

Rôl a phwrpas y Pwyllgor yw cynghori a chynnig sicrwydd i'r Bwrdd a'r Swyddog Atebol fod trefniadau effeithiol mewn lle - trwy ddylunio a gweithredu system sicrwydd y Bwrdd Iechyd Lleol - i'w gefnogi wrth iddo wneud penderfyniadau ac wrth gyflawni ei atebolrwydd i sicrhau cyflawni amcanion y Bwrdd Iechyd Lleol, yn unol â'r safonau llywodraethu da a bennwyd ar gyfer y GIG yng Nghymru. Lle bo'n briodol, bydd y Pwyllgor yn cynghori'r Bwrdd a'r Swyddog Atebol ynghylch ble, a sut, y gellir cryfhau a datblygu ei fframwaith sicrwydd ymhellach.

14.15 Mae enghreifftiau o rai o'r materion allweddol sydd wedi codi yn ystod y flwyddyn ac y mae'r Pwyllgor wedi ymdrin â hwy wedi'u nodi isod:

- Cydnabu'r Pwyllgor fod angen adnoddau ychwanegol i allu cynnal archwiliadau'r Safonau Glanhau Cenedlaethol mor aml â'r gofyn, ac y byddai hyn yn cael ei ystyried fel rhan o broses gosod cyllideb 2019/20.
- Fel y crybwyllwyd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol diwethaf, mae'r Pwyllgor wedi treialu cronfa ddata ganolog Tîm Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP) ar gyfer olrhain argymhellion archwilio, mae wedi gweithio gyda'r Tîm Archwilio Mewnol ac mae Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd bellach yn defnyddio'r system hon i fewnbynnu a monitro'r holl argymhellion a geir mewn Archwiliadau Allanol. Mae'r Pwyllgor yn parhau i ddal Swyddogion Gweithredol yn gyfrifol trwy fynnu eu bod yn mynychu cyfarfodydd i gyflwyno tystiolaeth o gynnydd ar faterion allweddol, at ddibenion sicrwydd.
- Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad Cau Rhaglen Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dilyn Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar y trefniadau cydweithredol ar gyfer rheoli adnoddau Iechyd Cyhoeddus. Roedd gan y Pwyllgor beth pryder am yr adolygiad o'r cyllid a ddyrennir ar draws Cymru a fyddai'n cael effaith andwyol o £400,000 ar boblogaeth Gogledd Cymru. Dywedodd Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus y Bwrdd Iechyd wrth yr aelodau fod ymgais i newid y penderfyniad hwn wedi bod yn aflwyddiannus er gwaethaf trafodaethau ar lefel Prif Weithredwr.
- Rheoli Ôl-groniad Cleifion Allanol - Adroddiad Archwilio Mewnol Sicrwydd Cyfyngedig - Mynegodd yr aelodau bryderon difrifol yn deillio o'r galw, y capasiti a'r methiant i reoli'r risgiau clinigol yn effeithiol, a'r diffyg tystiolaeth a chynnydd tuag at ddatrys unrhyw un o'r materion a nodwyd yn yr adroddiad, er i'r mater hwn ddod i sylw'r Bwrdd eisoes o'r blaen. Teimlai'r aelodau fod angen cynllun trawsnewidiol, trosfwaol. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad fod y mater yn gofyn am ymateb dwysach gan y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn ogystal â'r Bwrdd er mwyn sicrhau goruchwyliaeth a chynnydd digonol wrth ystyried ystod fawr y materion dan sylw, a'r angen i ddatblygu cynllun strategol a gweithredol.
- Archwiliad Clinigol - Mynegodd yr Aelodau bryderon nad oedd y camau gweithredu a nodwyd fel rhan o Asesiadau Strwythuredig blaenorol mewn perthynas ag Archwilio Clinigol wedi derbyn sylw a bod angen cynllun eglur i nodi sut y byddai Archwilio Clinigol yn mynd i'r afael ag amcanion strategol y sefydliad a mabwysiadu dull yn seiliedig ar risg i gefnogi gwella ansawdd yn y dyfodol.

Mae cofnodion a phapurau o gyfarfod y Pwyllgor ar gael [yma](#)¹⁵.

¹⁵ <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/page/51690>

14.16 Pwyllgor Cronfeydd Elusennol

Diben Pwyllgor Cronfeydd Elusennol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yw gwneud a monitro trefniadau ar gyfer arolygu a rheoli Cronfeydd Elusennol y Bwrdd Iechyd. Awyr Las yw'r elusen ymbarél ar gyfer dros 350 o gronfeydd elusennol sydd, gyda'i gilydd, yn cefnogi pob ward, uned, adran, arbenigedd a phrosiect cymunedol ar draws ardal Gogledd Cymru sy'n cael ei gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae Awyr Las, yn darparu gwasanaethau ychwanegol i'r hyn y mae'r GIG yn ei ariannu. Mae rhoddion gan y cyhoedd yn gwneud gwahaniaeth enfawr i'r gofal a'r driniaeth y gall ein staff GIG ymroddedig eu darparu.

14.17 Mae enghreifftiau o rai o'r materion allweddol sydd wedi codi yn ystod y flwyddyn y mae'r Pwyllgor wedi ymdrin â hwy wedi'u nodi isod:

- Croesawodd y Pwyllgor y gwaith sy'n cael ei wneud i roi risgiau'r elusen o fewn system Datix y Bwrdd Iechyd, a fydd yn sicrhau eu bod yn cael eu hadrodd a'u sgorio mewn ffordd gyson ac yn unol â'r Gofrestr Risg Gorfforaethol.
- Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad diweddar ar y strategaeth ymgysylltu â staff. Roedd hyn yn cynnwys y materion allweddol sydd angen eu cyflawni ar gyfer pob prosiect yn y strategaeth a manylion am sut y caiff y manteision eu mesur, gan gynnwys metrigau allweddol. Mae cwmpas rhai elfennau o'r prosiectau unigol wedi eu diwygio yn unol ag amcanion y Gweithlu sydd wedi'u diweddar, a chyfanswm y gost a ragamcanwyd wedi gostwng i £0.25m. Gofynnodd y Pwyllgor am ddiweddariadau ar gynnydd pob chwarter.
- Gwrthododd y pwyllgor gynnig i wario £100,000 o'r tanwariant o fewn y Gronfa Ymgysylltu â Staff ddyranedig ar ffurf Grant Datblygu Staff. Pwysleisiodd y pwyllgor hefyd yr angen i wella'r prosesau gwerthuso a monitro presennol ac ymchwilio i ffyrdd o fesur effaith y cyllid yn well.
- Nodwyd fod Awyr Las wedi derbyn £2.5m yn ystod 2017/18 gyda chyfanswm y rhoddion a'r incwm codi arian a dderbyniwyd yn cyrraedd cyfanswm o £1,573,000. Derbyniwyd 5,193 o roddion a rhoddwyd grantiau gwerth £2.7m ar gyfer ymchwil, hyfforddiant, offer a gwella amgylcheddau ysbyty.
- Diolchodd y Pwyllgor am y cyfraniad o £500,000 gan Ymddiriedolaeth Livsey tuag at offer yn y Theatr Hybrid newydd yn Ysbyty Glan Clwyd.
- Cymeradwywyd y Polisi Cronfeydd Wrth Gefn diwygiedig ar gyfer yr elusen gan y Pwyllgor lle gosodwyd lefel targed o £3,060,000 ar gyfer y cronfeydd wrth gefn.

Mae cofnodion a phapurau o gyfarfod y Pwyllgor ar gael [yma](#)¹⁶.

14.18 Pwyllgor Deddf Iechyd Meddwl

Diben Pwyllgor Deddf Iechyd Meddwl Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yw sicrhau fod holl ofynion Deddf Iechyd Meddwl 1983 (fel y'i diwygiwyd) yn cael eu bodloni gan y Bwrdd Iechyd.

Mae enghreifftiau o rai o'r materion allweddol sydd wedi codi yn ystod y flwyddyn ac y mae'r Pwyllgor wedi ymdrin â hwy wedi'u nodi isod:

- Mynegwyd pryderon am y pwysau a roddir ar ymarferwyr ar draws yr holl safleoedd yn ymwneud â'r nifer cynyddol o geisiadau am asesiadau Amddifadu Rhyddid, er y cydnabuwyd fod cynlluniau mewn lle i gynyddu nifer yr Aseswyr Pennaf Les sydd wedi cael eu recriwtio ers hynny eleni.

¹⁶ <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/page/44875>

- Nid yw Swyddogion Meddygol Heddlu Gogledd Cymru ar gael mwyach, sy'n rhoi pwysau sylweddol ar feddygon ymgynghorol oherwydd nifer y ceisiadau am asesiadau addasrwydd i bledio. Mae trafodaethau'n parhau gyda Heddlu Gogledd Cymru a'r Uwch Adran Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu.
- Mynegwyd pryderon ynghylch a yw staff yn cael yr hyfforddiant priodol ar gyfer delio â materion Adran 136 ar gyfer pobl ifanc dan 18 oed. Cydnabu'r Aelodau y gwaith sy'n cael ei wneud o ran rheoli capasiti a galw, oherwydd problemau cadw staff. Nododd yr Aelodau fod Uned Gyflawni Llywodraeth Cymru yn disgwyl cwblhau eu gwaith Galw a Gallu yn gynnar yn 2019 a fydd, gobeithio, yn helpu i fynd i'r afael â heriau sy'n ei gwneud yn anodd cyflawni'r Mesur Iechyd Meddwl o fewn Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS). Mae'r rhesymau dros fetu'r targedau yn deillio o'r galw cynyddol am atgyfeiriadau CAMHS a lleihad mewn capasiti oherwydd salwch, absenoldeb mamolaeth a swyddi gwag sydd wedi effeithio ar y capasiti i gyflawni targedau mewn ffordd gynaliadwy ac wedi golygu gostyngiad mewn lefelau perfformiad. Er bod adborth ar ei ffordd am ymweliad deuddydd gan Lywodraeth Cymru i ystyried Gyda'n Gilydd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc, roedd pryder am gyfathrebu mewnol ac allanol. Roedd y llwybr argyfwng ar gyfer pobl ifanc mewn trafferthion a mynediad y Tu Allan i Oriau i welyau brys yn broblem barhaus. Mae'r Uwch Adran Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu a Gwasanaethau Plant yn delio â'r materion hyn.

Mae cofnodion a phapurau o gyfarfod y Pwyllgor ar gael [yma](#)¹⁷.

14.19 Y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad

Diben y Pwyllgor yw cynghori a chynnig sicrwydd i'r Bwrdd wrth gyflawni cyfrifoldebau mewn perthynas â'r sefyllfa ariannol bresennol a chyflawni gwasanaethau a pherfformiad. Mae hyn yn cynnwys Rhaglenni Cyfalaf, Gwybodeg, Llywodraethu Gwybodaeth, Cyfathrebu a Thechnoleg y Bwrdd, a materion Gweithlu.

Mae enghreifftiau o rai o'r materion allweddol sydd wedi codi yn ystod y flwyddyn y mae'r Pwyllgor wedi ymdrin â hwy wedi'u nodi isod:

- Trafododd y Pwyllgor bryderon ynghylch y sefyllfa ariannol, yn cynnwys pwysau sylweddol mewn nifer o feysydd gan gynnwys Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu, Gofal Eilaidd, Gofal Heb ei Drefnu, Gofal wedi'i Gynllunio, Costau Asiantaeth, Amseroedd Rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth, Lleoliadau Tu Allan i'r-Ardal a Phecynnau Gofal. Datblygodd y Bwrdd Iechyd systemau monitro mwy manwl ond bu'n rhaid diwygio'r diffyg ariannol a ragwelwyd i £41m.
- TheTrafododd y Pwyllgor raglen waith y Bwrdd Iechyd yn fisol. Yn dilyn pryderon am y cynnydd a wnaed, penodwyd strwythur ategol y Swyddfa Rheoli Rhaglenni i wella capasiti. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi sefydlu Is-grŵp Arbedion i fonitro gweithgaredd.
- Mewn ymateb i'r pryderon a godwyd uchod, mae'r Cadeirydd wedi comisiynu adolygiad sicrwydd o weithgaredd cyfredol yn y meysydd gwyrdd a rheolaeth ariannol i'w gwblhau a'i adrodd erbyn mis Mehefin 2019.
- Ar ôl ymuno â'r Bwrdd Iechyd ym mis Medi 2018, penderfynodd y Cadeirydd newydd gadeirio'r Pwyllgor yn bersonol ac mae hyn wedi cyflwyno trylwyredd ychwanegol i graffu ar fusnes Cyllid a Pherfformiad. Mae hyn wedi cynnwys ffocws mwy cadarn ar berfformiad megis datblygu fformat newydd ar gyfer yr Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad Integredig a gwneud cynnydd gyda'r cynllun gofal heb ei drefnu 90 diwrnod a'r amser rhwng atgyfeirio a thriniaeth yn eitemau sefydlog ar yr agenda.

Mae cofnodion a phapurau o gyfarfod y Pwyllgor ar gael [yma](#)¹⁸.

¹⁷ <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/page/48736>

¹⁸ <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/page/85397>

14.20 Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad

Diben y Pwyllgor yw rhoi cyngor a sicrwydd i'r Bwrdd wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau a chyflawni ei gyfrifoldebau o ran ansawdd, diogelwch, cleifion a phrofiad cleifion a defnyddwyr gwasanaethau o'r gwasanaethau iechyd.

Mae enghreifftiau o rai o'r materion allweddol sydd wedi codi yn ystod y flwyddyn y mae'r Pwyllgor wedi ymdrin â hwy wedi'u nodi isod:

- Roedd y Pwyllgor wedi nodi pryder parhaus am nifer y briwiau pwysedd yr adroddwyd arnynt. Gwnaeth y Pwyllgor hi'n ofynnol i nifer o reolaethau a chymau gweithredu gael eu rhoi mewn lle yn ystod y flwyddyn gan gynnwys darparu mwy o hyfforddiant ac ymwybyddiaeth i staff er mwyn sicrhau prosesau adrodd cywir; cyswllt agos ar lefel uwch gyda'r Ymddiriedolaeth Ambiwlans i leihau'r risg o friwiau gwasgu o ganlyniad i arosiadau hir mewn ambiwlansys; datblygu dangosfwrdd niwed a sefydlu rhaglen wella gydweithredol.
- O ran lefelau staffio wardiau, sefydlodd y Pwyllgor reidrwydd ar y Cyfarwyddwr Cyswllt Sicrwydd Ansawdd i ystyried trefn adrodd well i'r Pwyllgor. Ystyriwyd mater yn ymwneud â swydd gradd pediatriig canolradd dros dro yn y Gorllewin hefyd yn y Pwyllgor, ac roedd yn ofynnol i'r Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol sicrhau'r Pwyllgor ynghylch y camau lliniaru sy'n cael eu cymryd. Gofynnwyd i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal Cychwynol a Gwasanaethau Cymunedol ddatblygu papur ehangach ar y prosesau llywodraethu a dwysáu difrifoldeb achosion ar gyfer y gwasanaeth hwn hefyd.
- Derbyniodd y Pwyllgor eitemau rheolaidd ar Ddiogelu ac adroddodd y Pwyllgor yn ôl i'r Cyfarwyddwr Cyswllt Diogelu ar eu gofynion o ran derbyn adroddiadau yn y dyfodol, er mwyn i'r papurau allu nodi unrhyw fylchau mewn sicrwydd yn glir. Cyfrannodd y Pwyllgor hefyd at yr adolygiad o risg corfforaethol CRR16. Yn nhermau Trefniadau Amddifadu Rhyddid, cefnogodd y Pwyllgor adolygiad o'r tîm corfforaethol hefyd er mwyn sicrhau y gellid ateb y galw a'r heriau.
- Yn ystod 2018-19, diwygiwyd cylch gwaith y Pwyllgor i adlewyrchu'r ffaith y byddai lechyd a Diogelwch yn eitem sefydlog. Gwnaeth y Pwyllgor hi'n ofynnol fod newidiadau'n cael eu gwneud i'r Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Bwrdd Iechyd llawn.
- Gwnaeth y Pwyllgor hi'n ofynnol i sefydlu grŵp gorchwyl i ddatblygu fformat a chynnwys adroddiadau Gwrando a Dysgu o Brofiad, a arweiniodd at gyflwyno adroddiad diwygiedig ym mis Mawrth 2019. Roedd yr aelodau'n croesawu'r fformat diwygiedig ac awgrymwyd gwelliannau pellach er mwyn gallu cyflwyno'r wybodaeth mewn dull cadarnhaol.

Mae cofnodion a phapurau o gyfarfod y Pwyllgor ar gael [yma](#)¹⁹.

14.21 Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth

Diben y Pwyllgor yw rhoi cyngor a sicrwydd i'r Bwrdd am ddatblygu strategaethau a chynlluniau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer darparu gwasanaethau diogel o ansawdd uchel, sy'n gyson â chyfeiriad strategol cyffredinol y Bwrdd ac unrhyw ofynion a safonau a bennwyd ar eu cyfer a chyrrff eraill y GIG yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor yn gwneud hyn drwy sicrhau fod cydweithredu strategol a threfniadau partneriaethol effeithiol mewn lle i wella iechyd y boblogaeth a lleihau anghydraddoldebau iechyd.

¹⁹ <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/page/85396>

Mae enghreifftiau o rai o'r materion allweddol sydd wedi codi yn ystod y flwyddyn ac y mae'r Pwyllgor wedi ymdrin â hwy wedi'u nodi isod.

- Nodwyd fod capasiti y sefydliad i gwblhau cynllun 3 blynedd y Bwrdd yn destun pryder a cheisiwyd sicrwydd ynglŷn â chyflwyno hyn o fewn yr amserlenni a bennwyd gan y Bwrdd.
- Nodwyd pryderon am gadernid y drefn o adrodd ar y Cynllun Gweithredol Blyneddol ac o ganlyniad addaswyd y fframwaith adrodd.
- Er y nodwyd cynnydd ar y cynlluniau gwella adrannol drafft yn deillio o faterion a amlygwyd yn Arolwg Staff 2018, rhoddwyd sicrwydd y byddai gwelededd y Pwyllgor Gwaith yn derbyn sylw priodol.
- Er bod gwaith sylweddol wedi'i nodi yn y Strategaethau Ystadau a Gweithlu drafft fel rhan o'r Cynllun Tair Blynedd, rhoddwyd cyfle i'r Pwyllgor gyflwyno sylwadau ychwanegol a gofynnwyd am sicrwydd y byddai Cynllun Cyfathrebu yn ei le, gan bwysleisio pwysigrwydd negeseuon clir.

Mae cofnodion a phapurau o gyfarfod y Pwyllgor ar gael [yma](#)²⁰.

14.22 Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Thelerau Gwasanaeth

Pwrpas y Pwyllgor yw darparu:

- Cyngor i'r Bwrdd ar dâl a thelerau gwasanaeth ar gyfer y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Gweithredol ac uwch staff eraill o fewn y fframwaith a osodwyd gan Lywodraeth Cymru;
- Sicrwydd i'r Bwrdd mewn perthynas â threfniadau'r Bwrdd lechyd ar gyfer tâl a thelerau gwasanaeth, gan gynnwys trefniadau cytundebol, ar gyfer yr holl staff, yn unol â'r gofynion a'r safonau a bennwyd ar gyfer y GIG yng Nghymru; a
- Cyflawni rhai swyddogaethau penodol fel y'u dirprwywyd gan y Bwrdd ac a restrir o fewn y cylch gorchwyl.

Mae enghreifftiau o rai o'r materion allweddol sydd wedi codi yn ystod y flwyddyn y mae'r Pwyllgor wedi ymdrin â hwy wedi'u nodi isod:

- Gofynnwyd am ddiweddariadau pellach ynghylch cyfnodau lle bu nifer uchel o gyfeiriadau data gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth o fis Ebrill i fis Mehefin 2016.
- Risgiau sy'n gysylltiedig ag ail-alinio portffolios Cyfarwyddwyr Gweithredol a'r llwybrau adrodd cysylltiedig islaw lefel gweithredol.
- Materion cydymffurfio'n ymwneud â gweithredu'r Polisi Di-Fwg.
- Risgiau sy'n gysylltiedig â methu sefydlu trefniadau tâl priodol ar gyfer uwch reolwyr.

Mae cofnodion a phapurau cyfarfodydd y Pwyllgor ar gael [yma](#)²¹.

14.23 Y Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth a Gwybodeg

Diben y Pwyllgor yw cynghori a sicrhau'r Bwrdd wrth gyflawni cyfrifoldebau o ran ansawdd ac uniondeb; diogelwch a mynediad a gwybodaeth briodol i gefnogi gwella iechyd a darparu gofal iechyd o ansawdd uchel. Cynhaliwyd y cyfarfod chwarterol cyntaf ym mis Tachwedd 2018.

²⁰ <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/page/85403>

²¹ <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/page/77170>

Mae enghreifftiau o rai o'r materion allweddol sydd wedi codi yn ystod y flwyddyn y mae'r Pwyllgor wedi ymdrin â hwy wedi'u nodi isod:

- Mewn perthynas â risg, camau gweithredu posibl a'r costau lliniaru a amlinellwyd wrth gefnogi system Telepath; roedd gan y Pwyllgor bryderon ynglŷn â dwysáu achosion, ac eglurodd Ysgrifennydd y Bwrdd y system lywodraethu sy'n bodoli.
- Trafodwyd safbwynt y Bwrdd lechyd tuag at y Cofnod Electronig Cleifion a mynegwyd pryder ynghylch y cynnydd a wnaed gan gwestiynu a oedd risgiau'n cael eu monitro'n ddigonol neu beidio.
- Amlygwyd pryder ynghylch perfformiad systemau cenedlaethol o fewn Adroddiad Gwybodeg Swyddfa Archwilio Cymru ac yn adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

Mae cofnodion a phapurau cyfarfodydd y Pwyllgor ar gael [yma](#)²².

14.24 Grwpiau Cynghori

14.24.1 Mae eitemau busnes a ystyriwyd gan Grwpiau Ymgynghorol y Bwrdd i'w gweld isod. Mae Cadeirydd pob Grŵp yn darparu Adroddiad Sicrwydd i'r Bwrdd ar ôl pob cyfarfod i dynnu sylw at faterion neu gyngor arwyddocaol.

14.24.2 Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid

Rôl y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid yw darparu:

- Ymgysylltiad a chyfranogiad parhaus wrth benderfynu ar gyfeiriad strategol cyffredinol y Bwrdd lechyd;
- Darparu cyngor ar gynigion ar gyfer gwasanaethau penodol cyn ymgynghoriad ffurfiol; yn ogystal â
- Rhoi adborth ar effaith gweithrediadau'r Bwrdd lechyd ar y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu.

Yn ystod y flwyddyn bu'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid yn trafod y materion allweddol canlynol:

- Gwasanaethau Anabledd Dysgu - Strategaeth ar y Cyd;
- Adolygiad o Wasanaethau Strôc a'r newidiadau arfaethedig i'w hystyried gan y Bwrdd lechyd;
- Cyfeiriad Strategol GIG Cymru - "*Cynllun Cymru Iachach: Ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol*"
- Adolygiad o Ofal Heb ei Drefnu (gan gynnwys y Gwasanaethau y Tu Allan i Oriau);
- Cynlluniau Datblygu Clystyrau - Gofal Cychwynnol;
- Datblygu Strategaeth y Trydydd Sector;
- Datblygiad Wylfa.

Mae manylion am y materion a ystyriwyd ac a drafodwyd gan y Grŵp wedi'u cofnodi yn y cofnodion sydd ar gael [yma](#)²³.

²² <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/page/97583>

²³ <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/page/51648>

14.24.3 Fforwm Partneriaeth Lleol

Pwrpas Fforwm Partneriaeth Lleol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yw:

- Ystyried datblygiadau cenedlaethol i strategaeth gweithlu a threfniadaeth GIG Cymru a'u goblygiadau i waith y Bwrdd;
- Trafod materion sydd angen eu penderfynu'n lleol;
- Sicrhau bod y cytundeb amser i ffwrdd ac adnoddau i gynrychiolwyr staff y sefydliad yn caniatáu amser rhesymol i ffwrdd gyda thâl i ymgymryd â'u dyletswyddau, a bod cyfleusterau priodol ar gael iddynt gan ddefnyddio cytundeb cyfleusterau A4C fel safon cychwynnol;
- Sicrhau deialog reolaidd a ffurfiol rhwng aelodau gweithredol y Bwrdd a'r undebau llafur ar faterion gweithlu a gwasanaeth;
- Yn ogystal, gall y Fforwm Partneriaeth Lleol sefydlu is-grwpiau Fforwm Partneriaeth Lleol er mwyn sefydlu deialog, cyfathrebu ac ymgynghori'n gyson ar faterion rheoli gwasanaeth a materion gweithredol. Pan ddatblygir yr is-grwpiau hyn rhaid iddynt adrodd i'r Fforwm Partneriaeth Lleol yn unol â'r cylch y busnes.

Yn ystod y flwyddyn mae'r Fforwm Partneriaeth Lleol wedi bod yn delio gyda'r materion allweddol canlynol:

- Diweddariadau rheolaidd ar sefyllfa ariannol BIPBC, dan Fesurau Arbennig.
- Gweithredu fel y pwynt cyswllt gyda'r Undebau Llafur yn BIPBC gan weithio mewn partneriaeth â BIPBC a'r Prif Weithredwr.
- Ffocws rheolaidd ar atal salwch, yr angen am ymyrraeth gynnar a chryfhau gwasanaethau cychwynnol a chymunedol yn rheolaidd.
- Oherwydd y cynnydd mewn salwch staff tymor byr a thymor canolig, gwella ymgysylltiad gyda staff o fewn BIPBC. Lleisio'r angen am fwy o raglenni a chyfleoedd datblygu staff, gwell iechyd, lles a chefnogaeth i staff a chyflwyno'r negeseuon y mae angen i reolwyr ac undebau llafur eu cyfleu ar draws y sefydliad.
- Y camau angenrheidiol i symleiddio'r prosesau sy'n ymwneud â phenodi ymgeiswyr llwyddiannus am swyddi i'w swyddi newydd.

Mae manylion y materion a ystyriwyd ac a drafodwyd gan y Fforwm wedi'u cofnodi yn y cofnodion sydd ar gael [yma](#)²⁴.

14.24.4 Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd

Diben Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yw hwyluso ymgysylltiad a thrafodaeth am yr ystod eang o fuddiannau clinigol y mae'r Bwrdd Iechyd yn delio gyda hwy, gyda'r nod o allu cytuno a chyflwyno persbectif proffesiynol cydlynol a chytbwys wrth i'r Bwrdd Iechyd wneud penderfyniadau.

²⁴ <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/page/52988>

Yn ystod y flwyddyn bu'r Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd yn delio â'r materion allweddol canlynol:

- Blaenoriaethau'r gweithlu a strategaeth gweithlu 3 blynedd ddrafft ynghyd â chynrychiolaeth y Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd ar y Grŵp Trawsnewid Gweithlu sydd newydd gael ei sefydlu;
- Y Gwasanaethau Strôc a'r ailgynllunio gwasanaeth cynhwysfawr sy'n mynd rhagddo;
- "Gweithio 7 diwrnod" er mwyn ceisio gallu rhyddhau cleifion cynlluniedig ar benwythnosau;
- Strategaeth ar gyfer Datblygu Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol yng Ngogledd Cymru ar gyfer y cyfnod 2017 i 2022;
- 'Gofalu Gyda'n Gilydd / Together We Care': crynodeb o Strategaeth Gweithlu Meddygol Cymru Gyfan;
- Cynllun drafft 3 blynedd y Bwrdd Iechyd;
- Darpariaeth gwasanaethau Optometreg a Lensys Cyswllt;
- Gwaith datblygu Fframwaith Therapi Cymru Gyfan yn parhau;
- Deintyddol: Deintyddiaeth Plant Ymgynghorol - ynghylch dichonoldeb penodi Ymgynghorydd i gael ei rannu gyda'r adran Ddeintyddiaeth Plant.

Mae manylion am y pynciau a ystyriwyd ac a drafodwyd gan y Fforwm wedi'u cofnodi yn y cofnodion sydd ar gael [yma](#)²⁵.

14.24.5 Cyd-bwyllgorau

14.21.1 Mae'r Bwrdd hefyd yn derbyn ac yn ystyried crynodebau rheolaidd, a chopïau o gofnodion neu adroddiadau gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys a Phwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP). Gellir gweld y rhain o fewn papurau'r Bwrdd Iechyd [yma](#)²⁶.

15. **Pwrpas y System Rheolaeth Fewnol**

15.1 Mae'r system rheolaeth fewnol wedi'i chynllunio i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg yn llwyr; felly dim ond sicrwydd effeithiolrwydd rhesymol ac nid absoliwt y gall ei ddarparu.

15.2 Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus sydd wedi'i chynllunio i nodi a blaenoriaethu'r risgiau o fethu cyflawni nodau strategol ac amcanion corfforaethol y Bwrdd Iechyd. Mae hyn yn cynnwys gwerthuso'r tebygolrwydd y caiff y risgiau hynny eu gwireddu a'r effaith pe baent yn cael eu gwireddu, a'r trefniadau sydd mewn lle i'w rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Mae'r system reolaeth fewnol wedi ei sefydlu ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon.

²⁵ <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/page/51649>

²⁶ <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/page/94107>

16. Y gallu i ymdrin â risg

- 16.1 Mae proffil risg y Bwrdd Iechyd yn heriol oherwydd amrywiaeth y gwasanaethau a ddarperir, ac yn amrywio o wasanaethau cychwynnol a chymunedol i ysbytai llym, gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau iechyd carchardai. Yn ogystal, mae'r Bwrdd Iechyd yn delio gydag ardal ddaearyddol eang, amrywiaeth ddiwylliannol a darpariaeth sylweddol o wasanaethau o Loegr. Mae'n rhaid hefyd gallu delio gyda chyfnodau prysur oherwydd bod llawer yn dod i Ogledd Cymru ar eu gwyliau.
- 16.2 Lead Ysgrifennydd y Bwrdd sy'n bennaf gyfrifol am risg a sicrwydd ac sydd hefyd yn gweithredu fel Uwch Berchennog Gwybodaeth Risg i'r Bwrdd.
- 16.3 Mae gan y Bwrdd Iechyd strwythur i nodi, asesu a rheoli ei risgiau. Yn ystod 2018, roedd gan dîm rheoli risg corfforaethol y Bwrdd Iechyd adnoddau llawn i allu darparu cymorth rheoli risg i bob gwasanaeth ar draws Gogledd Cymru. Prif nod y tîm yw parhau i ddarparu gwasanaeth cyngor a chymorth cymwys i'r Bwrdd Iechyd ar gyfer datblygu systemau a threfniadau effeithiol ac i helpu i ymgorffori dull y Bwrdd o reoli risg ar bob lefel.
- 16.4 Mae'r Strategaeth Rheoli Risg yn parhau i fod yn ddogfen weithredol ac yn dilyn y newidiadau a wnaed i bortffolios gweithredol yn ystod 2018 a Gweithdy'r Bwrdd ym mis Rhagfyr 2018, mae'r Bwrdd Iechyd wedi ystyried eu dulliau o reoli risg ym mhellach. Trafodwyd yr archwaeth risg yn fanwl, gan bennu amcanion yng nghyd-destun y cynllun 3 blynedd, graddnodi risgiau a darparu cyfleoedd i wella mecanweithiau ar gyfer adrodd. Mae fersiwn ddiwygiedig o'r Strategaeth Rheoli Risg yn cael ei datblygu felly a fydd yn cynnwys gwahanu'r Datganiad Archwaeth Risg er mwyn ei amlygu, i wella perchnogaeth ac i brofi'r materion hyn yn erbyn yr amcanion corfforaethol sy'n datblygu.
- 16.5 Ym mis Ionawr 2019 sefydlodd y Bwrdd Iechyd Grŵp Rheoli Risg newydd sy'n cael ei gadeirio gan y Prif Weithredwr. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ym mis Ebrill 2019. Sefydlwyd y Grŵp i oruchwylio gweithdrefnau ar gyfer gweithredu'r Strategaeth Rheoli Risg, er mwyn sicrhau cysondeb a chydlynu'r gwelliannau i arferion rheoli risg, yn ogystal â cheisio cael sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd systemau a phrosesau rheoli risg. Bydd y Grŵp hefyd yn ceisio sicrwydd gan y Grŵp Iechyd a Diogelwch a'r Grŵp Ansawdd a Diogelwch er mwyn sicrhau fod tystiolaeth o ddysgu gwersi gan brofiadau cleifion a staff.
- 16.6 Mae gweithdrefnau, canllawiau a chynllun hyfforddi Rheoli Risg yn parhau i gael eu sefydlu ar draws y Bwrdd Iechyd er mwyn sicrhau fod rheoli risg yn cael ei ymgorffori'n llawn, a bod pob ardal adrannol hefyd yn mabwysiadu'r broses rheoli risg safonol a'r cynllun uwchgyfeirio. Cefnogwyd hyn gan hwyluswyr arbenigol annibynnol i sicrhau bod yr arferion gorau yn cael eu hymgorffori. Ar lefel Bwrdd rhoddwyd rhaglen waith wedi'i chynllunio ar waith ar gyfer 2019.
- 16.7 Ym mis Rhagfyr 2018 cafwyd adroddiad Archwilio Mewnol ar sut yr oedd y strategaeth rheoli risg yn cael ei hymgorffori ar draws y Bwrdd Iechyd. Roedd yr adroddiad yn rhoi datganiad sicrwydd 'rhesymol'. Er bod tystiolaeth o Weithdrefnau Rheoli Risg Is-adrannol, a hyfforddiant ar reoli risg wedi'i wreiddio yn y strwythurau llywodraethu lleol, nodwyd gwendidau mewn rhai prosesau cymeradwyo rhanbarthol ac adrannol mewn perthynas â'u trefniadau rheoli risg. Paratowyd a gweithredwyd ymateb rheolaethol manwl er mwyn mynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed.
- 16.8 Adolygir y Strategaeth Rheoli Risg eto yn 2019 er mwyn ystyried yr adborth a gafwyd gan Weithdy Rheoli Risg y Bwrdd ym mis Rhagfyr 2018, ac i gyd-fynd gydag ail-lansio Datganiad Archwaeth Risg y Bwrdd Iechyd.

- 16.9 Yn dilyn y prosiect cychwynnol i ganoli system gofrestru a rheoli'r Fframwaith Sicrwydd Deddfwriaethol o fewn y Bwrdd Iechyd, bu gwaith pellach er mwyn asesu lefel y cydymffurfiant, ynghyd â thebygolrwydd ac effaith diffyg cydymffurfio, gan adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio. Cefnogodd yr aelodau y datblygiad hwn a'r cynnydd sy'n cael ei wneud.
- 16.10 Rhannwyd manylion am y gwaith hwn hefyd gyda chyfarfod Ysgrifenyddion Bwrdd Cymru Gyfan ym mis Hydref 2018. Yn dilyn Argymhellion Comisiwn y Gyfraith (Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Berthnasol yng Nghymru), roedd Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddilyn rhaglen o gyd-grynhoi (electronig) a chodeiddio deddfwriaeth ddatganoledig. Darparodd BIPBC y rhestr o ddeddfwriaethau a gasglwyd i Lywodraeth Cymru.

17. Fframwaith Risg a Sicrwydd Corfforaethol

- 17.1 Mae'r Bwrdd wedi parhau gyda'r un drefn o reoli risg ac wedi mabwysiadu'r fframwaith 5 haen. Ceir manylion y rhain o fewn y Strategaeth Rheoli Risg. Adolygwyd canllawiau a gweithdrefnau drwy gydol y flwyddyn. Fel y crybwyllwyd yn gynharach yn y ddogfen, mae Aelodaeth y Bwrdd wedi cael ei diweddarau'n sylweddol, a chynhaliwyd Gweithdy yn canolbwyntio ar Reoli Risg ym mis Rhagfyr 2018. Mae gwaith pellach yn yr arfaeth a bwriedir cyflwyno hwn ar gyfer cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Archwilio ym mis Mai 2019.
- 17.2 Mae'n ofynnol i bob Cyfarwyddwr Gweithredol sicrhau bod risg yn cael ei reoli o fewn eu maes cyfrifoldeb penodol ac mae hyn wedi ei nodi'n eglur o fewn y Strategaeth Rheoli Risg. Mae pob aelod o staff yn cael eu hannog a'u grymuso i ddefnyddio prosesau rheoli risg fel mecanwaith i amlygu'r meysydd y credent fod angen eu gwella hefyd. Os bydd staff yn teimlo y byddai lleisio pryderon yn eu rhoi mewn sefyllfa anodd neu efallai na fyddent yn cael sylw digonol, fe'u hanogir i ddilyn canllawiau ar chwythu'r chwiban a lleisio pryderon.
- 17.3 Mae'r Bwrdd wedi parhau i ddefnyddio dull Fframwaith Risg a Sicrwydd Corfforaethol integredig sy'n cyfuno dogfen Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risg Corfforaethol.
- 17.4 Yn ystod 2018 parhaodd y Bwrdd i adolygu'r Fframwaith Risg a Sicrwydd Corfforaethol yn y fformat hwn. Mae pob risg ar y fframwaith bellach wedi'i mireinio ymhellach ac fe'i cyflwynir i'r Bwrdd fel tudalen risg. Mae hyn yn cynnwys cyflwyniad gweledol sy'n dangos sut y mae'r risg wedi symud dros gyfnod penodol, yn ogystal â dangos trefniadau adrodd sicrwydd a chysylltiadau â'r Fframwaith Mesurau Arbennig.
- 17.5 Drwy gydol y cyfnod hwn gwnaed llawer o waith i ddatblygu a mireinio'r Fframwaith ymhellach ac i gynhyrchu map sicrwydd yn seiliedig ar ymagwedd Cymru Gyfan.
- 17.6 Roedd y dull hwn yn cydnabod pwysigrwydd sefydlu system effeithiol i adnabod a rheoli risg fel rhan annatod o waith arferol y Bwrdd er mwyn bodloni'r Pwyllgor Archwilio fod risgiau'n cael eu rheoli'n dda. Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi cytuno y dylid cael tri chynnyrch gwahanol (gan gydnabod y byddai amrywiadau'n lleol), sef:
- Dogfen naratif Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd;
 - Map y Fframwaith Sicrwydd;
 - Y Gofrestr Risg Gorfforaethol (gan ddefnyddio'r risg gyfredol ar dempled tudalen).

- 17.7 Cwblhawyd map y Fframwaith Sicrwydd a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Medi 2018. Roedd y Map a gyflwynwyd yn ffrwyth cyfres o gyfarfodydd gydag Arweinwyr. Roedd y prif bethau y gellid eu cyflawni wedi eu halinio â'r amcanion a ddeilliodd o gynllun tair blynedd y Bwrdd lechyd. Mae gwaith pellach yn cael ei wneud yn awr i adnewyddu'r map sicrwydd yn seiliedig ar yr amcanion newydd a gymeradwywyd gan y Bwrdd yng nghyfarfod mis Mawrth 2019.
- 17.8 Bydd dogfen naratif Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd hefyd yn cael ei hadnewyddu a'i chyflwyno ynghyd â'r Strategaeth Rheoli Risg i'w cymeradwyo ym mis Mai 2019.
- 17.9 Mae datganiad archwaeth risg cyfredol y Bwrdd lechyd a welir isod yn disgrifio'r risgiau y mae'n barod i'w derbyn neu eu goddef wrth gyflawni ei nodau strategol.

“Mae'r Bwrdd lechyd yn cydnabod fod cynaliadwyedd hirdymor y sefydliad yn dibynnu ar gyflawni ei nodau strategol, y berthynas â'i chleifion, y cyhoedd a phartneriaid strategol. Ni fydd y Bwrdd lechyd yn derbyn risgiau sy'n effeithio'n sylweddol ar ansawdd a diogelwch neu gydymffurfiaeth rheoleiddiol. Mae'r Bwrdd lechyd yn cymryd safbwynt gofalus ynghylch y risgiau y mae'n barod i'w cymryd o ran rheolaeth ariannol, gan ffafrio 'opsiynau cyflenwi diogel' gyda lefel isel o risg cynhenid.

“Fodd bynnag, mae gan y Bwrdd lechyd fwy o archwaeth i arloesi. Mae'r Bwrdd lechyd yn barod i herio arferion gwaith cyfredol i gymryd cyfleoedd lle gellir rhagweld buddion cadarnhaol, o fewn cyfyngiadau'r amgylchedd rheoleiddio.”

- 17.10 Wrth ddiffinio'r archwaeth risg bresennol, mabwysiadodd y Bwrdd fatrics aeddfedrwydd ar gyfer sgorio risg sy'n cynnwys elfennau yn ymwneud ag ansawdd a diogelwch, cydymffurfiaeth reoleiddiol, cyllid ac arloesedd. Mae'r Bwrdd yn cydnabod nad yw hwn yn gysyniad sefydlog, cafodd ei ddiweddarau yn y datganiad archwaeth risg yn ystod gweithdy'r Bwrdd ym mis Rhagfyr 2018 a bydd yn cael ei ail-lansio yn 2019.
- 17.11 Mae'r Bwrdd lechyd yn ymgysylltu gyda rhanddeiliaid cyhoeddus wrth reoli risgiau sy'n effeithio arnynt. Mae ymgysylltiad cyhoeddus yn parhau i fod yn rhan annatod o'r strategaeth *Byw'n lach, Aros yn lach*. Mae swyddogaethau'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol hefyd yn ddwy elfen bwysig o'r strwythur llywodraethu sy'n helpu i gefnogi trefniadau ar gyfer rheoli risgiau a wynebwr gan y sefydliad (au) trwy ddeialog ar y cyd.

18. Prif Risgiau

- 18.1 Mae'r Bwrdd lechyd wedi pennu naw prif risg i allu cyflawni ei nodau strategol:

- 1: Methiant i gynnal ansawdd gwasanaethau cleifion.
- 2: Methiant i gynnal cynaliadwyedd ariannol.
- 3: Methu â rheoli perfformiad gweithredol.
- 4: Methiant i gynnal gweithlu ymgysylltiedig ac effeithiol.
- 5: Methiant i ddatblygu cynlluniau strategol cydlynol.
- 6: Methiant i gyflawni manteision partneriaethau strategol.
- 7: Methiant i ymgysylltu â chleifion ac ailgysylltu â'r cyhoedd yn ehangach.
- 8: Methiant i leihau anghydraddoldebau lechyd.
- 9: Methu â gwreiddio trefniadau arweinyddiaeth a llywodraethu effeithiol.

19. Risgiau Allweddol

- 19.1 Adolygwyd y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn rheolaidd ac ystyrir y meysydd o dan fesurau arbennig fel y nodir isod. Fel rhan o'r Strategaeth Rheoli Risg mae gofyn sicrhau fod camau lliniaru a rheolaethol yn eu lle i alluogi'r Bwrdd Iechyd i reoli pob risg. Mae pob Risg Gorfforaethol a nodwyd a'u rheolaethau cysylltiedig â chamau lliniaru yn cael eu harchwilio ar sail gylchol fel rhan o gylchoedd busnes Pwyllgorau'r Bwrdd. Yn unol â Strategaeth Rheoli Risg y Bwrdd Iechyd yn ystod y flwyddyn, nododd y Bwrdd Iechyd fod dau gofnod risg yn cyfyngu ar allu'r Bwrdd i ganolbwyntio ar y materion allweddol a mynd i'r afael â hwy. Cytunodd y Bwrdd i wahanu Mynediad a Chyflenwi CRR11 yn ddwy elfen allweddol: CRR11(a) Gofal Cynllunedig a CRR11(b) Gofal Heb ei Drefnu; a hefyd CRR10 - Gwybodeg yn ddwy elfen allweddol: CRR10(a) Seilwaith Gwybodeg a Chofnodion Iechyd yn CRR10(b).
- 19.2 Ym mis Ionawr 2019, cymeradwyodd y Bwrdd Iechyd gynyddu risg newydd CRR18 - risg sy'n gysylltiedig â Threfniadau Trosglwyddo Gadael yr UE- a'r effaith y gallai'r ymadawiad ei gael ar allu'r Bwrdd Iechyd i gynnal gwasanaethau gofal iechyd diogel ac effeithiol. Caiff y risg hon ei monitro yn ystod 2019 gan y Pwyllgor Strategaeth, Partneriaeth ac Iechyd Poblogaeth ar ran y Bwrdd. Hefyd, sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen i gwmpasu'r holl risgiau a materion pellach sy'n ymwneud â Gadael yr UE yn ogystal ag ymwneud ac ymgysylltu ar lefel ranbarthol a chenedlaethol.
- 19.3 Cytunodd y Bwrdd Iechyd hefyd i israddio dwy risg yn ymwneud â rheoli ar Lefel Cyfarwyddiaeth Haen 2. Roedd hyn yn dilyn cyflwyno tystiolaeth, gwelliannau a sicrwydd sylweddol. Y rhain oedd CRR04 Gwasanaethau Mamolaeth a dynnwyd allan o Fesurau Arbennig ym mis Chwefror 2018 a Datblygu Strategaeth CRR08, gan nodi nad oedd y Strategaeth Byw'n Iach, Aros yn Iach bellach yn ei chyfnod datblygu am ei bod wedi symud ymlaen i'r cyfnod gweithredu.
- 19.4 Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi ymgorffori rheoli risg o fewn prosesau cynllunio'r dyfodol trwy alinio'r Proffil Risg Corfforaethol â'r Rhagolwg Tair Blynedd newydd a Chynllun Blyneddol 2019/20.
- 19.5 Mae risgiau clinigol wedi'u cynnwys yn y systemau a'r prosesau rheoli risg cyffredinol sy'n cynnwys uwchraddio ac israddio mewn cyfundrefn adrodd gyson a safonol gyda Datix. Mae hyn yn unol â'r Strategaeth Rheoli Risg a'r gweithdrefnau ategol. Mae enghreifftiau o risgiau clinigol yn cynnwys CRR02 - Atal Heintiau, CRR13 - Iechyd Meddwl a CRR04 - Gwasanaethau Mamolaeth. Yn fwy diweddar, arweiniodd penderfyniad Ysbyty Countess of Chester i beidio derbyn cleifion dewisol o Gymru at greu risgiau clinigol a diogelwch cleifion posibl. Bu adolygiad o reolaeth y rhestr aros o Gleifion Allanol fel yr adroddwyd yng nghyfarfod diweddar y Pwyllgor Archwilio (gweler adran 24.3) hefyd yn destun pryder oherwydd y risgiau posibl. Mae rhagor o fanylion am faterion risg ar gael [yma](#)²⁷.

20. Y Fframwaith Rheoli

- 20.1 Fel y Swyddog Atebol, mae gennyf gyfrifoldeb personol dros drefnu, rheoli a staffio cyffredinol y Bwrdd Iechyd. Mae'n ofynnol i mi sicrhau fy hun, a'r Bwrdd, fod trefniadau Gweithredol a Rheolaeth Glinigol y Bwrdd Iechyd a'r fframwaith rheoli trosfwaol yn addas at y diben.

²⁷ <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/861/19.21%20CRAF%20January%202019.pdf>

- 20.2 Mae'r fframwaith rheoli wedi'i chynllunio i reoli risg ar lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg o fethu â chyflawni ein nodau strategol a'n hamcanion corfforaethol (gweler hefyd adran 14). Mae llywodraethu a rheolaeth fewnol y sefydliad yn broses barhaus a gynlluniwyd i
- Nodi a blaenoriaethu risgiau law yn llaw gyda chyflawni ein pwrpas, gweledigaeth, nodau a gwerthoedd strategol;
 - Gwerthuso'r tebygolrwydd y caiff y risgiau hyn eu gwireddu a'r effaith, pe baent yn cael eu gwireddu;
 - Rheoli'r risgiau hyn yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus.
- 20.3 Mae'r Bwrdd wedi cytuno ar y datganiad archwaeth risg y cyfeiriwyd ato'n gynharach yn y datganiad hwn yn adran 17.

21. Rheolau Sefydlog

- 21.1 Mae'r Bwrdd lechyd wedi mabwysiadu Rheolau Sefydlog ar gyfer rheoleiddio ei drafodion a busnes. Gellir gweld y Rheolau Sefydlog [yma](#)²⁸.
- 21.2 Mae'r Rheolau Sefydlog wedi'u cynllunio i drosi'r gofynion statudol a nodir yn Rheoliadau Byrddau lechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009 yn arferion gweithredol o ddydd i ddydd. Ynghyd â mabwysiadu materion sydd angen cymeradwyaeth y Bwrdd, mae cynllun dirprwyo i swyddogion ac eraill, a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, sy'n darparu'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer gweithgaredd dydd i ddydd y Bwrdd lechyd yn ogystal â diffinio dulliau gweithio. Mae'r dogfennau hyn, ynghyd â'r Fframwaith Risg a Sicrwydd Corfforaethol (sy'n ymgorffori'r gofrestr risg gorfforaethol) ac ystod o bolisiâu a safonau busnes y cytunwyd arnynt gan y Bwrdd, yn ffurfio'r fframwaith rheoli y mae'r Bwrdd yn gweithredu oddi mewn iddo.
- 21.3 Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cynnal adolygiad blynyddol o'r Rheolau Sefydlog. Mae'r Pwyllgor yn cymeradwyo gwelliannau sydd wedi cael eu hargymell ac yna'r Bwrdd lechyd yn eu cadarnhau. Ac eithrio'r Cynllun Cadw a Dirprwyo Pwerau (a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2019), mae'r adolygiad blynyddol eleni wedi'i alinio â'r adolygiad cenedlaethol o'r Model Rheolau Sefydlog sy'n cael ei gynnal gan Lywodraeth Cymru, a disgwylir iddynt gael eu cyflwyno'n ffurfiol i'r Pwyllgor Archwilio a'r Bwrdd ddiwedd Gwanwyn 2019.
- 21.4 Darperir Adroddiad Cydymffurfio ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at gydymffurfiaeth â'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog mewn perthynas â:
- Gweithdrefnau Caffael (Adrodd am hepgor tendrau ac achosion o dorri gofynion caffael);
 - Gweithdrefnau Cyflogres (Rhoi gwybod am ordaliadau cyflogau a chyflogau);
 - Gweithdrefnau Derbyniadwy a Thaladwy (Adrodd ar falansau hanesyddol dros £10,000 a thros 6 mis oed);
 - Gofynion Colledion a Thaliadau Arbennig (Adrodd am golledion, taliadau arbennig, a dileu balansau sy'n ddyledus i'r Bwrdd lechyd).

²⁸ <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/page/87709>

- 21.5 Yn ystod 2018/19 roedd y materion allweddol a nodwyd yn yr adroddiad cydymffurfio yn cynnwys amlygu pryderon ynghylch y nifer fawr o anfonebau a dderbyniwyd gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP) heb Orchymyn Prynu dilys. Ers cyflwyno Polisi Cymru Gyfan 'Dim Rhif Archeb, Dim Tâl', cyflwynwyd 'cod tal anfoneb wedi ei oedi' newydd ym mis Gorffennaf 2018, fel y gellir dadansoddi'r data hwn a chymryd camau wedi'u targedu i fynd i'r afael â'r mater.
- 21.6 Roedd yr adroddiad hefyd yn tynnu sylw at y ffaith fod nifer y tendrau sengl a gafodd eu hepgor wedi cynyddu yn nhrydydd chwarter 2018/19, o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Cymerwyd camau i wella ymwybyddiaeth o'r rheoliadau caffael a chafodd gwaith wedi'i dargedu ei gynnal i fynd i'r afael â meysydd gwariant lle na chymerwyd unrhyw gamau tendro. Adolygwyd trefniadau a nodwyd meysydd i'w gwella er mwyn sicrhau gwell cydymffurfiaeth â rheoliadau'r UE.
- 21.7 Mae gwerth a maint y gordaliadau cyflog yn cael eu monitro'n fisol er mwyn gallu nodi cyfleoedd i leihau'r risg o ordaliadau y gellir eu hosgoi.
- 21.8 Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i weithio i sicrhau fod taliadau'n cael eu gwneud o fewn y cyfnod targed o 30 diwrnod ac roedd cyfanswm yr anfonebau (heb fod yn rhai'r GIG) a dalwyd o fewn y targed ar gyfer y cyfnod hyd at Ragfyr 2018 yn 95.1%. Pan nad yw hyn yn bosibl, cymerir camau i uwchraddio anfonebau sydd heb eu datrys. Nodwyd gwelliant yn nifer a gwerth y dyledion dros 90 diwrnod oed.

22. Archwiliad Allanol

- 22.1 Cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru'r adroddiadau a'r dogfennau canlynol yn ymwneud â'r Bwrdd Iechyd yn ystod 2018/19. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymateb yn ffurfiol i bob un o'r rhain ac mae camau gweithredu sy'n deillio o argymhellion yn cael eu holrhain gan ddefnyddio cynlluniau gweithredu. Hefyd defnyddir cronfa ddata i olrhain materion archwilio ac mae'r Bwrdd Iechyd yn treialu system o'r enw Team Central, gan sicrhau fod y cynnydd yn cael ei fonitro'n ffurfiol gan y Pwyllgor Archwilio. Yn ogystal, mae'r Pwyllgor Archwilio yn monitro'r argymhellion hynny sy'n berthnasol i'r Bwrdd Iechyd ond a allai fod wedi codi o adolygiadau Cymru Gyfan.
- 22.2 Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r adroddiadau a roddwyd i'r Bwrdd Iechyd yn 2018/19.

Adroddiadau	Dyddiad
Adroddiadau Archwilio Ariannol	
Archwiliad Adroddiadau Datganiadau Ariannol	Mai 2018
Barn am y Datganiadau Ariannol	Mehefin 2018
Archwiliad Adroddiad Datganiadau Ariannol Elusennol	Rhagfyr 2018
Barn am y Datganiadau Ariannol Elusennol	Ionawr 2019
Adroddiadau Archwiliadau Perfformiad	
Asesiad Strwythuredig 2018	Rhagfyr 2018
Gofal Cychwynnol	Tachwedd 2018
Adroddiadau eraill	
Cynllun Archwilio 2018	Ebrill 2018

Mae'r cyhoeddiadau hyn ar gael [yma](#)²⁹.

²⁹ <https://www.audit.wales/cy/adroddiadau-a-chyhoeddiadau>

23. Cod Llywodraethu Corfforaethol

- 23.1 Diffinnir llywodraethu ar gyfer y GIG yng Nghymru, fel “system o atebolrwydd i ddinasyddion, defnyddwyr gwasanaeth, rhanddeiliaid a'r gymuned ehangach, lle mae sefydliadau gofal iechyd yn gweithio, yn gwneud penderfyniadau ac yn arwain eu pobl i gyflawni eu hamcanion.” Yn syml, mae hyn yn golygu'r dulliau y mae cyrff y GIG yn eu defnyddio i sicrhau eu bod yn gwneud y pethau iawn, yn y ffordd iawn, ar gyfer y bobl iawn, mewn modd sy'n driv i'r gwerthoedd a bennwyd ar gyfer y sector gyhoeddus yng Nghymru.
- 23.2 Mae'r Bwrdd Iechyd yn dilyn ac yn cydymffurfio â'r egwyddorion a'r agweddau perthnasol fel y'u disgrifir yn '*Cod Ymarfer Da 2011: Llywodraethu Corfforaethol mewn Adrannau Llywodraeth Ganolog*' sy'n gyson â'r '*Canllaw Llywodraethu Da*' ar gyfer Byrddau'r GIG yng Nghymru (ail argraffiad) a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2017. Yn benodol, mae'r Bwrdd yn cydymffurfio gyda'r egwyddorion a nodir ar gyfer rolau Byrddau, cyfansoddiad y Bwrdd, effeithiolrwydd y Bwrdd a rheoli risg. Gellir gweld y Cod Ymarfer Da [yma](#)³⁰.

24. Trefniadau Ansawdd a Llywodraethu

- 24.1 Ym mis Gorffennaf 2018, cyhoeddodd y Bwrdd Iechyd ei Ddatganiad Ansawdd Blynyddol 2017/18 a oedd yn crynhoi sut roedd y sefydliad wedi bod yn gweithio dros y flwyddyn ddiwethaf er mwyn gwella ansawdd yr holl wasanaethau y mae'n eu cynllunio a'u darparu. Mae'r adroddiad i'w weld [yma](#)³¹.
- 24.2 Y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth yw'r Arweinydd Gweithredol Ansawdd a Diogelwch o fewn y sefydliad, gan ategu rôl y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol a'r Cyfarwyddwr Therapiau a Gwyddor Iechyd Gweithredol.
- 24.3 Mae'r Grŵp Ansawdd a Diogelwch yn goruchwyllo cyflwyno'r Strategaeth Gwella Ansawdd a'r cynlluniau cyflawni cysylltiedig. Mae'n dylanwadu'n gadarnhaol ar lywodraethu a rheolaethau cyffredinol drwy fonitro risg glinigol yn rheolaidd, uwchraddio ac israddio yn ôl yr angen. Mae'r grŵp yn ceisio sicrwydd gan ei is-grwpiau sefydledig, gan ofalu fod y sicrwydd a'r dystiolaeth o ddysgu o brofiad cleifion yn cael eu triogli. Mae pob adran glinigol yn darparu adroddiad sicrwydd misol i'r grŵp i'w ystyried a'i nodi, a chan ddelio gyda themâu a thueddiadau ar draws y Bwrdd Iechyd, yn ogystal â rhoi sicrwydd ynghylch y risgiau sy'n cael eu rheoli yn y gwahanol wasanaethau. Defnyddir archwiliadau allanol hefyd i adnabod risgiau a materion sy'n effeithio ar ansawdd. Er enghraifft, fel y nodwyd yn adran 14.15 o'r Datganiad hwn, cyflwynwyd canfyddiadau'r adolygiad o'r Rhestr Aros Cleifion Allanol, a chafodd nifer o faterion yn ymwneud ag ansawdd data, integreiddio systemau'n effeithiol a rheoli risgiau clinigol eu trafod yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio ym mis Mawrth 2019. Cafodd y mater hwn ei gyfeirio at y Bwrdd i'w ddatrys maes o law.
- 24.4 Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol diweddaraf ar Gweithio i Wella i'r Bwrdd ym mis Gorffennaf 2018 a gellir ei weld o dan eitem agenda 18/171 [yma](#)³².

30

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/220645/corporate_governance_good_practice_july2011.pdf

31 <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/861/A18.3a%20Annual%20Quality%20Statement%202017-2018%20v1.0%20Fersiwn%20Cymraeg.pdf>

32 http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/861/Agenda%20bundle%20Health%20Board%202012.7.18%20Public_English.pdf

- 24.5 Mae'r swyddogaeth Pryderon yn rhan o bortffolio'r Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth ac mae'r Cyfarwyddwr Cyswllt Sicrhau Ansawdd yn gyfrifol am arwain y rheoliadau Gweithio i Wella. Ffocws allweddol y swyddogaeth yw cefnogi a chryfhau'r triongli themâu a gallu'r Bwrdd lechyd i ddysgu o bryderon, cwynion a digwyddiadau er mwyn lleihau ailadrodd a niwed. Gostyngodd cyfanswm y cwynion agored tua 50% yn ystod y chwe mis o gyfnod adrodd y Datganiad hwn. Fodd bynnag, nid yw'r amser a gymerir i ymateb i gwynion ynghylch cydymffurfiaeth adrannau gweithredol â gofynion statudol bob amser yn amserol, ac mae felly angen gwaith pellach ar yr agwedd hon.
- 24.6 Mae'r Bwrdd yn derbyn adroddiadau diweddarau rheolaidd ar *Gweithio i Wella* trwy'r Adroddiad Integredig Ansawdd a Pherfformiad, sy'n adlewyrchu perfformiad y Bwrdd lechyd yn erbyn targedau allweddol Llywodraeth Cymru a thargedau yn lleol. Darperir sicrwydd ychwanegol gan adroddiadau i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad ar faterion yn cynnwys cydymffurfio â pholisi Gweithio i Wella, tueddiadau a themâu sy'n dod i'r amlwg a gwersi i'w dysgu.
- 24.7 Mae'r egwyddorion ar gyfer gwella wedi'u cynnwys yn y datgeliadau Gweithio i Wella a wneir yn y Datganiad Ansawdd Blynyddol, sydd ar gael [yma](#)³³.
- 24.8 Mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo i wella arweinyddiaeth glinigol a pherchnogaeth y broses Gweithio i Wella. Mae'r Gwasanaeth Eiriolaeth a Chymorth Cleifion sefydledig yn Ysbyty Glan Clwyd wedi llywio camau er mwyn datblygu'r gwasanaeth yn rhanbarthau'r Dwyrain a'r Gorllewin yn ystod 2019/20. B ydd y gwasanaeth hefyd yn cael ei ail-frandio bryd hynny gan newid yn Wasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion (PALS).
- 24.9 Fel y crybwyllir yn adrannau 16 i 19 y Datganiad hwn, mae systemau rheoli risg y Bwrdd lechyd wedi'u datblygu i ystyried pob risg, yn cynnwys risgiau clinigol sy'n cael eu nodi a'u hasesu gan ddefnyddio methodoleg generig o nodi beth yw'r risg, beth allai ddigwydd i wireddu'r risg a beth neu bwy fyddai'n cael eu heffeithio. Yna, caiff y risgiau hyn eu cofnodi yn y System Rheoli Risg Integredig (Datix) a defnyddir y wybodaeth i adolygu, rheoli ac uwchraddio o fewn y sefydliad fel y bo'n briodol. Arweinir y broses rheoli risg glinigol ar y cyd gan y Cyfarwyddwr Meddygol a'r Cyfarwyddwr Nyrsio a Bydwreigiaeth Gweithredol. Yn ystod 2019/20 bydd y system rheoli risg yn cael ei chryfhau ymhellach er mwyn sicrhau fod hyn yn cyd-fynd â modelau gwasanaeth a chynllunio eraill o fewn y sefydliad.

25. Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

- 25.1 Fel rhan o ofynion y mesurau arbennig, mae disgwyl i'r Bwrdd lechyd barhau i ganolbwyntio ar ymgysylltu er mwyn adeiladu ar, a gwella'r berthynas â'r cyhoedd yn ogystal â gweithio'n agosach gyda'r Cyngor lechyd Cymuned. Mae effaith gweithgareddau ymgysylltu yn cael ei fesur drwy nifer o fecanweithiau, yn cynnwys adborth gan arolygon cyhoeddus a rhanddeiliaid.
- 25.2 Er mwyn monitro cynnydd yn erbyn y gofyniad hwn, cynhaliwyd dau arolwg canfyddiadau cyhoeddus - y cyntaf ym mis Tachwedd 2017 a'r ail ym mis Tachwedd 2018. Pwrpas yr arolygon yw:
- helpu i ddarparu gwybodaeth waelodlin am lefelau ymddiriedaeth a hyder yn y Bwrdd lechyd;
 - nodi a monitro unrhyw newidiadau mewn agweddau tuag at y Bwrdd lechyd;

³³ <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/page/40903>

- darparu offeryn mesur i sefydlu a yw'r camau ymgysylltu parhaus dynodedig yn effeithio ar sut mae'r cyhoedd yn gyffredinol yn gweld y Bwrdd Iechyd, fel y gellir nodi gwendidau a gweithredu ar adborth er mwyn newid ein dull gweithredu yn ôl yr angen.

- 25.3 Yn arolwg Tachwedd 2018, derbyniwyd cyfanswm o 1,161 o ymatebion i'r arolwg erbyn diwedd y flwyddyn. Ar y cyfan, nid oedd unrhyw wahaniaethau sylweddol wrth gymharu canfyddiadau arolygon 2017 a 2018. Roedd yr arolwg diweddaraf yn awgrymu fod y lefelau ymgysylltu presennol gyda gwasanaethau yn parhau i fod yn uchel, gyda mwyafrif yr ymatebwyr yn ymwybodol o'r ystod eang o wasanaethau a gynigir - dywedodd dros 70% o'r ymatebwyr eu bod yn ymwybodol o'r holl wasanaethau.
- 25.4 Roedd yr ymatebion yn dangos dealltwriaeth dda o rôl y Bwrdd Iechyd yn y broses o ddarparu gwasanaethau iechyd lleol (77%). Fodd bynnag, mae rhai yn dal i gredu nad ydynt yn gallu dylanwadu ar y blaenoriaethau iechyd a'r penderfyniadau a gymerir na dweud eu dweud (35%). (Er gwaethaf hyn, mae ymatebwyr yn gwerthfawrogi'r gwasanaethau a ddarperir, gyda llawer yn amlygu gofal rhagorol gan staff y Bwrdd Iechyd). Mae canlyniadau'r arolwg yn dangos fod blaenoriaethau ymatebwyr ar gyfer gwella yn ymwneud yn bennaf â'r:
- Angen i ymgynghori a chynnwys y cyhoedd yn llawn mewn penderfyniadau;
 - Yr angen i wrando: dangos yn glir fod eu barn yn cyfrif ac yn cael eu hystyried;
 - Awydd i gymryd rhan, ond diffyg dealltwriaeth am sut i gyfrannu (ynghyd â chred nad ydyn nhw'n gallu gwneud gwahaniaeth.
- 25.5 Bydd mynd i'r afael â'r pryderon hyn ymhlith y cyhoedd yn gofyn inni wrando'n barhaus ar ein cymunedau a'n rhanddeiliaid. Bydd angen datblygu a gwella dulliau'r Bwrdd Iechyd o ymgysylltu i adlewyrchu disgwyliadau'r cymunedau a wasanaethir.
- 25.6 Yn ystod 2018/19, parhawyd i gynnal amrywiaeth o weithgareddau er mwyn ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid ar draws Gogledd Cymru. Mae ffocws cytbwys wedi bod ar y gymuned yn gyffredinol yn ogystal â grwpiau nas clywir ganddynt yn aml. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys:
- Ymgysylltu â gweithwyr amaethyddol - ym mis Tachwedd 2018, ymwelodd y tîm ymgysylltu, (gyda chefnogaeth tîm sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru a thîm Cleifion Allanol Dolgellau), gyda Chanolfan Arwerthiant Bryncir i siarad â ffermwyr am eu blaenoriaethau iechyd a materion fel sgrinio'r coluddyn a phwysedd gwaed;
 - Lab Byw - mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn gweithio gyda Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Iechyd Cyhoeddus Cymru i dreialu'r dull newydd hwn o wella gwasanaethau, gan ganolbwyntio ar ordewdra ymhlith plant a ffyrdd iach o fyw;
 - Gwelededd uchel ac ailgysylltu gyda'r cyhoedd - un o flaenoriaethau allweddol y Bwrdd Iechyd yw bod yn fwy gweladwy o fewn cymunedau ac adeiladu enw da. Gyda'u partneriaid allweddol, mae cynrychiolwyr y Bwrdd Iechyd wedi parhau i fynychu ystod eang o ddiwyddiadau poblogaidd megis sioeau Dinbych a Fflint, Meirionnydd ac Ynys Môn, Gwyliau Bwyd yr Wyddgrug a Llangollen a Diwrnod Cenedlaethol y Lluoedd Arfog a gynhaliwyd yn Llandudno. Y gwasanaethau a sefydliadau partner oedd: Llinell gymorth CALL, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Mi Fedraf - Iechyd Meddwl, recriwtio, fferylliaeth, y Celfyddydau mewn Iechyd, gofal cychwynnol, Grŵp Canser Coluddion Gogledd Cymru, Ymchwil Canser Cymru a Doeth am Iechyd Cymru;

- Fforymau Ymarferwyr Ymgysylltu - mae tri fforwm wedi eu sefydlu ar draws Gogledd Cymru, sy'n cynnwys gweithwyr ymgysylltu proffesiynol o'r sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol sydd yn rhannu arferion da ac adnoddau.
- Cleifion Allanol - yn ystod hydref 2018, cynhaliwyd rhaglen ymgysylltu i ddeall yn well y rhesymau pam fod cleifion yn methu apwyntiadau fel cleifion allanol. Mae'r adborth bellach yn cael ei ddefnyddio i helpu i lywio'r rhaglen wella ar gyfer y gwasanaeth;

25.7 Mae cynnydd gyda gweithredu targedau'r Strategaeth Ymgysylltu â Staff yn cael ei fonitro drwy'r Gweithgor Ymgysylltu â Staff, corff tair ochrog ac arno Aelodau'r Bwrdd, cynrychiolwyr Undebau Llafur ac uwch reolwyr. Cyflwynir adroddiadau diweddarau ar gynnydd i'r Bwrdd bob chwe mis. Mae canlyniadau Arolwg Staff GIG Cymru 2018 wedi'u gwau mewn i'r rhaglen waith ar gyfer ymgysylltu â staff. Y tri maes mwyaf ar gyfer gwella ar lefel y sefydliad a amlygwyd gan yr arolwg oedd straen yn gysylltiedig â'r gwaith, aflonyddu/bwlio/camdrin a Gwelededd/Ymgysylltiad o ran y Tîm Gweithredol.

25.8 Yn ei [ddatganiad](#)³⁴ llafar ym mis Tachwedd 2018, tynnodd Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sylw at y gwelliannau i ganlyniadau Arolwg Staff 2018 y GIG o gymharu gyda chanlyniadau 2016. Roedd hyn yn cynnwys ymgysylltu â staff.

25.9 Yn yr un mis, derbyniodd y Bwrdd adroddiad yn nodi'r cynnydd a wnaed gyda'r camau o fewn y Strategaeth Ymgysylltu â Staff, ynghyd â chanfyddiadau Arolwg Staff Cenedlaethol 2018. Nodwyd fod gwelliannau ar draws ystod o fesurau a chymeradwywyd y bwriad i ddatblygu cynllun gwella cyffredinol ynghyd â chynlluniau gwella Adrannol. Cefnogir y dull hwn yn llawn gan Staffside.

26. Safonau Iechyd a Gofal i Gymru: Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd

26.1 Cafodd y Safonau Iechyd a Gofal eu lansio ym mis Ebrill 2015. Nodir ynddynt fod llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd effeithiol yn hanfodol ar gyfer darparu gofal diogel, effeithiol a chynaliadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Roedd hyn yn rhan annatod o'r holl Safonau Iechyd a Gofal.

26.2 Gan fod y Bwrdd Iechyd o dan Fesurau Arbennig ers mis Mehefin 2015, nid yw tystiolaeth o gynnydd yn erbyn y safon yma wedi bod yn destun hunanasesiad. Yn hytrach, mae Arolygaeth Gofal Iechyd Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a Llywodraeth Cymru wedi monitro'r agwedd hon fel rhan gynhenid o'r Fframwaith Mesurau Gwella Arbennig.

26.3 Cynhaliwyd Adolygiad ar y Cyd gan Arolygaeth Gofal Iechyd Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru sef "*Trosolwg o Drefniadau Llywodraethu BIPBC - Crynodeb o Gynnydd*" a chyhoeddwyd yr adroddiad yma ym Mehefin 2017. Yn ogystal â hyn, comisiynodd Llywodraeth Cymru Deloitte i gynnal Adolygiad Llywodraethu Ariannol, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2018 a oedd yn cynnwys ystyriaeth o drefniadau arweinyddiaeth, llywodraethu ac atebolrwydd ar draws y sefydliad.

26.4 Yn unol â'r Rheolau Sefydlog, mae holl Bwyllgorau'r Bwrdd wedi cynnal hunanasesiad ac mae eu canlyniadau wedi'u hymgorffori yn eu Hadroddiadau Blynyddol a gaiff eu hadolygu gan aelodau'r Pwyllgor Archwilio a'u hystyried fel rhan o drefniadau Adrodd Blynyddol y Pwyllgor Archwilio, sydd yn eu tro yn cael eu cynnwys o fewn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

³⁴ <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/page/87723>

26.5 Mae'r Gweinidog wedi cyhoeddi cyfres o ddatganiadau fel rhan o'r trefniadau yn ymwneud â'r mesurau arbennig ac wedi nodi cynnydd, fel y soniwyd eisoes o fewn yr Adroddiad hwn.

27. Y Safonau Iechyd a Gofal: Fframwaith Diwygiedig

27.1 Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i wreiddio'r safonau Iechyd a Gofal oddi mewn i'r gwaith parhaus ar ansawdd, er mwyn cefnogi adrodd a monitro dydd i ddydd. Disodlwyd yr adroddiadau ward misol i'r Bwrdd gan archwiliadau misol diwygiedig (a gawsant eu lansio yn Ebrill 2019). Mae'r archwiliad diwygiedig wedi'i ddatblygu ar ffurf electronig er mwyn ategu a chefnogi'r rhaglen Achredu Wardiau a gafodd ei sefydlu'n ddiweddar. Mae'r cwestiynau archwilio wedi'u mapio yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal yn ogystal â'r themâu o fewn y fframwaith Achredu Wardiau.

27.2 Mae'r Dangosfwrdd 'HARMS' yn parhau i esblygu ac wedi cael ei ddatblygu yn sylweddol ers ei lansio ym mis Hydref 2017. Bu newid penodol yn ymwneud â'r data am Wardiau yn dilyn uwchraddio i'r system warws data. Mae'r Dangosfwrdd yn cefnogi'r gwaith ar y Strategaeth Gwella Ansawdd ac mae'n elfen ryngweithiol o'r rhaglen Achredu Wardiau. Mae cael y dangosfwrdd yn ogystal â'r rhaglen Achredu Wardiau yn annog gwaith tuag at sefydlu safonau, a chreu diwylliant o welliant parhaus, gyda'r nod o allu lleihau amrywiaethau a niwed. Mae dangosfwrdd 'HARMS' hefyd yn alluogwr allweddol sydd yn cefnogi gwaith y Bwrdd Iechyd gyda'r:

- Rhaglen Gofal Diogel Glân (i leihau cyfraddau heintiau);
- Gwaith Cydweithredol ar Friwiau Gwasgu o fewn Ysbytai (HAPU);
- Gwaith Cydweithredol ar Godymau Cleifion Mewnol;
- Gwaith Cydweithredol ar reoli Meddyginiaethau.

27.3 Caiff yr argymhellion a wneir gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn dilyn arolygiadau eu mapio yn erbyn y Safonau Gofal Iechyd ac adroddir ar y canlyniadau yn chwarterol i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad, ac i'r Grŵp Ansawdd a Diogelwch yn fisol. Cyflwynir crynodeb o'r camau gweithredu ar gyfer y Bwrdd Iechyd sy'n arwain o'r arolygiadau neu adroddiadau. Mae'r crynodeb yn rhoi barn lefel uchel ar gyfer y gweithredoedd hynny yr ystyrir eu bod yn dal angen eu gwneud, hynny yw y rhai sydd wedi mynd y tu hwnt i'r dyddiad cwblhau y penderfynwyd arno gan y Bwrdd Iechyd. Mae gwaith gyda'r Cyngor Iechyd Cymuned yn parhau, i fapio a chynnwys cwestiynau'r CIC a ofynnwyd yn ystod eu harolygiadau dirybudd o fewn y Safonau Gofal Iechyd.

28. Strategaeth Gwella Ansawdd

28.1 Mae Strategaeth Gwella Ansawdd BIPBC (2017 i 2020) yn canolbwyntio ar bum nod:

1. Dim marwolaethau y gellir eu hosgoi;
2. Diogel: canfod a lleihau niwed i gleifion yn barhaus;
3. Effeithiol: Cynnig y lefel uchaf o ddibynadwyedd ar gyfer gofal clinigol;
4. Gofal: Cyflawni'r hyn sydd bwysicaf: Gweithio mewn partneriaeth â chleifion, gofalwyr a theuluoedd i ddiwallu eu holl anghenion a gwella eu hiechyd yn ymarferol;
5. Darparu gofal arloesol ac integredig yn agos i adref, ac sy'n cefnogi ac yn gwella iechyd, lles a byw'n annibynnol.

28.2 Mae'r Datganiad Ansawdd Blynyddol yn adrodd ar y cynnydd yn erbyn y Strategaeth Gwella Ansawdd pob blwyddyn.

- 28.3 Cafodd arweinyddiaeth y Tîm Profiad Corfforaethol y Defnyddiwr Gwasanaeth ei ddiwygio i ddarparu un person arweiniol ar gyfer y Bwrdd Iechyd ac atgyfnerthu timau daearyddol lleol.
- 28.4 Bydd y Gwasanaeth Cyngor a Chymorth i Gleifion a sefydlwyd yn Ysbyty Glan Clwyd yn cael ei ledanu i ardaloedd eraill o'r Bwrdd Iechyd yn ystod 2019/2 hefyd. Bwriad y gwasanaeth hwn yw darparu gwasanaeth hygyrch ac amlwg i gleifion, eu gofalwyr, eu teuluoedd a'u ffrindiau trwy ddarparu cymorth yn y fan a'r lle ar gyfer ymholiadau neu bryderon. Mae gan y tîm y pŵer i drafod materion ar unwaith a datrys problemau'n gyflym. Bydd hyn yn gwella profiad y defnyddiwr gwasanaeth ac yn lleihau nifer y cwynion ffurfiol.
- 28.5 Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi caffael system Adborth Amser Real ac mae hyn wedi bod yn "weithredol" yn y tri ysbyty cyffredinol yng Ngogledd Cymru ers mis Medi 2017. Ar hyn o bryd mae'n cael ei gyflwyno i ysbytai cymunedol yn y tri rhanbarth. Mae'r tîm Profiad Defnyddwyr Gwasanaeth wedi datblygu rhaglen hyfforddi Gofal Cwsmer mewn ymateb i'r themâu a'r tueddiadau a nodwyd yn adborth y cleifion, a chynhelir yr hyfforddiant yn fisol ar gyfer holl staff y Bwrdd Iechyd.
- 28.6 Bu gwaith sylweddol yn ystod 2018/19 er mwyn datblygu systemau i allu triongli gwybodaeth a gasglodd rhaglen ddiwygiedig 2018 o deithiau cerdded o amgylch gan arweinwyr a nifer o wahanol ffynonellau eraill. Mae'r wybodaeth a gasglwyd o'r holl ffynonellau hyn yn cynnig cyfleon i ddangos tystiolaeth ein bod yn cydymffurfio â safonau iechyd a gofal a'r prif flaenoriaethau er mwyn cefnogi'r triongli hwn.
- 28.7 Mae gwaith pellach yn mynd rhagddo ar draws y Bwrdd Iechyd a threfniadau llywodraethu'r sefydliad i ddangos tystiolaeth o driongli lleol a gweithredu gwelliannau sy'n dangos y gwersi a ddysgwyd.

29. Elfennau Fframwaith Rheoli Eraill

29.1 Amrywiaeth, Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Mae mesurau rheoli yn eu lle i sicrhau fod y sefydliad yn cydymffurfio â dyletswyddau'r sefydliad o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol.

Mae fframwaith polisi mewn lle ynghyd â rhaglen hyfforddi er mwyn codi ymwybyddiaeth a meithrin y gallu i weithredu dyletswyddau cyffredinol a phenodol y sefydliad i gefnogi staff i'w galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau. Adolygwyd strwythur y pwyllgorau ac atgyfnerthwyd atebolrwydd a chyfathrebu. Mae mesurau eraill yn cynnwys:

- Strategaeth Byw'n Iach – Aros yn Iach (LHSW) sy'n nodi'r ymrwymiad i hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol ym mhob un o swyddogaethau'r bwrdd Iechyd;
- Mae'r cynllun 3 blynedd yn dangos yn glir sut mae'r Bwrdd Iechyd yn bodloni eu dyletswyddau yn ymwneud â chydaddoldeb a hawliau dynol, a'r trefniadau ar gyfer asesu'r effaith ar gydraddoldeb;
- Mae'r cynllun 3 blynedd yn nodi sut mae asesu'r effaith ar gydraddoldeb yn rhan annatod o gynlluniau newid gwasanaethau ac yn seiliedig ar ganfyddiadau ymgysylltu ac ymgynghori yn ogystal â thystiolaeth arall;
- Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau i sicrhau fod ystyriaethau cydraddoldeb yn cael eu cynnwys wrth gomisiynu a chontractio gwasanaethau;

- Mae Strategaeth y Gweithlu a datblygiad polisi yn cael eu llywio gan wybodaeth am gydraddoldeb y gweithlu ac Asesiad Effaith Cydraddoldeb;
- Mae Hyfforddiant Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn orfodol i'r holl staff;
- Hwylusir rhaglen o hyfforddiant Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ochr yn ochr â chymorth a chyfarwyddyd hyfforddi;
- Mae'r Fforwm Strategol Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn monitro cydymffurfiaeth â'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol;
- Cyflwynir adroddiad ar y cynnydd i'r Grŵp Cydraddoldeb Rhanddeiliaid allanol hefyd. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys cynrychiolaeth o blith aelodau o'r cyhoedd sydd yn ymddiddori gyda materion cydraddoldeb ac yn cynnwys y Cyngor Iechyd Cymuned;
- Cyflwynir Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i'r Bwrdd;
- Mae'r Bwrdd yn derbyn Sesiwn Datblygu Cydraddoldeb blynyddol;
- Cyhoeddir yr Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac mae ar gael i'r cyhoedd;
- Yn unol â'n dyletswyddau dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae gwaith i ddatblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol diwygiedig ar gyfer 2020-2024 wedi dechrau. Bydd y gwaith yn cynnwys casglu tystiolaeth helaeth ac ymgysylltu â'r cyhoedd mewn cydweithrediad â phartneriaid yn y sector cyhoeddus ar draws Gogledd Cymru.

29.2 Cynllun Pensiwn

29.2.1 Fel cyflogwr staff â chanddynt hawl i fod yn aelod o Gynllun Pensiwn y GIG, mae mesurau rheoli yn eu lle i sicrhau fod yr awdurdod yn cydymffurfio gyda'r holl rwymedigaethau cyflogwyr sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun a'r rheoliadau. Mae hyn yn cynnwys sicrhau fod yr arian a dynnir o gyflog, cyfraniadau cyflogwr a thaliadau i mewn i'r Cynllun yn unol â rheolau'r Cynllun, a bod cofnodion aelodau'r Cynllun Pensiwn yn cael eu diweddar'u'n gywir yn unol â'r amserlenni y manylir arnynt yn y Rheoliadau.

29.3 Gwirio Ar Ôl Gwneud Taliadau

29.3.1 Nod y broses Gwirio Ar Ôl Gwneud Taliadau (Post Payment Verification - PPV) yw sicrhau priodoldeb taliadau arian cyhoeddus gan y Bwrdd Iechyd; mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r tîm Gwirio Taliadau edrych ar gywirdeb taliadau yn barhaus. Hyn sy'n rhoi'r sicrwydd angenrheidiol i'r Bwrdd Iechyd fod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n briodol a hefyd yn rhoi sicrwydd i gontractwyr ynglŷn â'u trefniadau.

29.3.2 Cytunwyd ar raglen dreigl addasedig tair blynedd o ymweliadau Gwirio Taliadau ar gyfer Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, Gwasanaethau Fferyllol Cyffredinol a Gwasanaethau Optegol Cyffredinol, yn unol â phrotocolau y cytunwyd arnynt gan GIG Cymru.

29.3.3 Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn defnyddio technegau dadansoddi risg ac yn cysylltu gyda chydweithwyr perthnasol yn y Bwrdd Iechyd. Yn dibynnu ar cyfraddau gwallau a ganfuwyd, trefnir ail-ymweliadau neu gamau priodol eraill gyda'r Bwrdd Iechyd.

29.3.4 Mae'r Pwyllgor Archwilio yn derbyn diweddariadau rheolaidd am y cynllun gwaith y cytunwyd arno a pharatoir Adroddiad Blynyddol yn manylu ar y dadansoddiad o adenillion fesul Contractwr, yn ddiennw.

29.4 Cynlluniau Lleihau Carbon

29.4.1 Mae'r sefydliad wedi cynnal asesiadau risg ac mae Cynlluniau Lleihau Carbon yn eu lle yn unol â gofynion parodrwydd am argyfwng a'r gofynion trefniadau sifil wrth gefn yn seiliedig ar ragolygon tywydd UKCIP 2009, i sicrhau fod y sefydliad yn cydymffurfio gyda'r cyfrifoldebau o dan y Ddeddf Newid Hinsawdd a'r gofynion Adrodd ar Addasiadau. Fel rhan o ddatblygiad parhaus Strategaeth Lleihau Carbon y Bwrdd Iechyd mae trefniadau partneriaethol a rhannu gwybodaeth gyda chyrff cyhoeddus eraill hefyd yn cael eu datblygu.

29.4.2 System Reoli Amgylcheddol ISO14001 BIPBC

Mae gan y Bwrdd Iechyd nifer o faterion amgylcheddol a chanddynt effeithiau ariannol ac amgylcheddol sylweddol posibl pe na fyddent yn cael eu hystyried a'u rheoli'n ofalus. Fel rhan o'r ymrwymiad corfforaethol i leihau'r effeithiau hyn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithredu a chynnal System Reoli Amgylcheddol ffurfiol, sydd wedi'i gynllunio i gyflawni'r egwyddorion allweddol canlynol:

- Datblygiadau Cynaliadwy;
- Amddiffyn yr Amgylchedd;
- Cyflawni Gofynion Cydymffurfio;
- Atal Llygredd;
- Gwella'r System Reoli Amgylcheddol yn barhaus er mwyn gwella perfformiad amgylcheddol.

29.4.3 Mae rheoli amgylcheddol effeithiol yn digwydd trwy weithredu'r prosesau canlynol:

- Hyrwyddo'r polisi amgylcheddol ymhlith yr holl randdeiliad a sefydliadau perthnasol;
- Adnabod pob agwedd amgylcheddol arwyddocaol a'r gofynion cydymffurfio yn eu sgil, yn cynnwys y rhai sy'n deillio o newidiadau deddfwriaethol;
- Sefydlu gweithdrefnau rheoli addas a digonol, sy'n cwmpasu amodau gweithredu arferol, tu allan i'r norm ac mewn argyfwng;
- Sefydlu a monitro amcanion a thargedau corfforaethol allweddol, gyda'r nod o leihau effeithiau amgylcheddol ac ariannol, yn unol â'r gofynion a bennwyd gan Lywodraeth Cymru;
- Darparu hyfforddiant priodol i'r holl staff perthnasol;
- Archwiliadau mewnol cynlluniedig rheolaidd;
- Adolygiad rheolaidd o effeithiolrwydd y System Reoli Amgylcheddol gan y Grŵp Llywio Amgylcheddol, dan gadeiryddiaeth aelod o'r Bwrdd.

29.4.4 Mae safon ISO 14001: 2015 bellach wedi cael ei sefydlu a'i wreiddio ledled BIPBC a chafwyd achrediad swyddogol ym mis Ebrill 2018. Mae'r EMS ISO14001 wedi gwneud BIPBC yn fwy ymwybodol o'i gyfrifoldebau amgylcheddol sy'n cael effaith sylweddol ar yr amgylchedd, ac yn cynnwys atebolrwydd cyfreithiol a rheoleiddiol, ac yn galluogi rheoli'r risgiau cysylltiedig yn fwy effeithlon. Mae'r Swyddogion Amgylcheddol wedi cwblhau hyfforddiant pontio Archwilwyr Arweiniol yn llwyddiannus, ac maent bellach wedi'u hardystio gan IEMA / IRCA a CQI.

29.4.5 Mae aelodau'r Grŵp Llywio Rheolaeth Amgylcheddol wedi bod yn gweithredu fersiwn 2015 o'r safon trwy dynnu sylw at:

- Y newidiadau allweddol, a'r newidiadau y mae angen i ddarparwyr gwasanaethau eu gwneud;
- Ymrwymiad a chyfranogiad i'r System Reoli Amgylcheddol ar bob lefel;
- Cydymffurfio â'r Polisi Amgylcheddol;
- Anghenion a Disgwyliadau partïon perthnasol;
- Materion allanol a mewnol, gofynion cydymffurfio ac agweddau arwyddocaol;
- Beth mae pob adran o'r safon yn ei olygu i'r gwasanaethau / adrannau;
- Perfformiad, gwerthuso a monitor.

29.4.6 Mae ISO14001: 2015 yn darparu fframwaith i ddiogelu'r amgylchedd ac ymateb i amodau amgylcheddol newidiol, gan gadw cydbwysedd ag anghenion economaidd-gymdeithasol. Mae ISO14001: 2015 yn helpu i gyflawni canlyniadau arfaethedig ei System Reoli Amgylcheddol, sy'n rhoi gwerth i'r amgylchedd, BIPBC a phartïon perthnasol. Y mae canlyniadau arfaethedig y System Reoli Amgylcheddol yn gyson â Pholisi Amgylcheddol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, yn cynnwys:

- Gwella perfformiad amgylcheddol;
- Cyflawni gofynion cydymffurfio;
- Cyflawni amcanion amgylcheddol.

Roedd yr asesiad yn dangos fod conglfeini'r system yn eu lle, hy agweddau ac effeithiau, amcanion a thargedau corfforaethol a safleoedd penodol, ynghyd â rhaglenni amgylcheddol yn eu lle ar draws y safleoedd. Mae'r Rhaglen Archwilio Mewnol ar darged ac archwiliadau mewnol yn cael eu cynnal yn effeithiol.

29.4.7 Rheoli Gwastraff

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i weithio mewn partneriaeth gyda Seven Ways Environmental Services, eu contractwr gwastraff ailgylchadwy / domestig (bag clir) i wella rheoli gwastraff yn y Bwrdd Iechyd a lleihau effaith ar yr amgylchedd, trwy ddargyfeirio cymaint o wastraff â phosibl o safleoedd tirlenwi. Y gyfradd ailgylchu ar gyfer y Bwrdd Iechyd yw tua 97%, a rhagwelir y bydd ailgylchu yn parhau i gynyddu yn dilyn mesurau a roddwyd yn eu lle i wella gwahanu gwastraff. Mewn cydweithrediad â'r ymgyrch Gofal Glân Diogel i wella diogelwch cleifion a gostwng achosion o heintiau yn barhaus, cynhaliwyd digwyddiadau Glanhau'r Gwanwyn a Glanhau'r Hydref yn Ebrill 2018 a Hydref 2018, pryd y casglwyd dodrefn, gwastraff trydanol a metel o 45 safle ar draws y Bwrdd Iechyd.

29.4.8 Sefydlwyd Contract Gwastraff Clinigol Cymru Gyfan ar gyfer casglu, cludo a gwaredu gwastraff clinigol ar 1^{af} Ebrill 2017. Mae'r Bwrdd Iechyd yn elwa gan fod Stericycle wedi datblygu defnydd masnachol hyfyw ar gyfer cynnyrch gwastraff clinigol bagiau oren (flock) a gaiff bellach ei ddefnyddio fel ffynonellau tanwydd a'u cludo i Norwy / Sweden i'w defnyddio fel ychwanegyn i asio sment. Erbyn hyn mae 100% o wastraff clinigol y Bwrdd a gafodd ei drin mewn ffordd amgen â gwres yn cael ei ailgylchu. Mae 100% o wastraff clinigol a gaiff ei losgi bellach hefyd yn cael ei ailgylchu ar ffurf ynni adnewyddol. Bydd y mesurau hyn yn arwain at welliannau pellach i'n ffigurau aildefnyddio/ailgylchu gwastraff.

29.4.9 Mae strategaeth weithredu ar gyfer rheoli'r Ymrwymiad Lleihau Carbon wedi'i datblygu a'i gweithredu ac yn y broses o gael ei adolygu trwy archwiliad mewnol er mwyn profi cadernid y gyfundrefn a chasglu data ar gyfer y cyfnod 2018 - 2019. Hon yw blwyddyn olaf adrodd ar Ymrwymiad Lleihau Carbon wrth i'r elfen hon ddiplannu'n raddol. Y flwyddyn nesaf caiff yr Ymrwymiad Lleihau Carbon ei ddisodli gan gynnydd yn yr Ardoll Newid Hinsawdd.

29.4.10 Mae Cynllun Gweithredu Carbon Corfforaethol wedi'i ddatblygu ar ffurf safonol Llywodraeth Cymru. Bydd y gwaith yn cael ei fonitro a'i adrodd yn flynyddol. Mae'r rhan fwyaf o eitemau ar y cynllun yn dibynnu ar ddyraniad ariannol gan adnoddau o ddatblygiadau cyfalaf mawr a dyraniadau cyfalaf dewisol blynyddol, a fydd yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Bydd gwelliannau yn y cynllun gweithredu felly yn dibynnu ar yr adnoddau corfforaethol sydd ar gael.

29.5 Gwasanaeth Atal Twyll Lleol

29.5.1 Mae'r Pwyllgor Archwilio yn derbyn adroddiadau rheolaidd am y cynnydd a wnaed yn lleol i Atal Twyll. Ceir adroddiadau chwarterol ac Adroddiad Blynyddol am weithgaredd y flwyddyn ariannol. Mae'r adroddiadau hyn yn cronicleo gwaith y Tîm Gwasanaethau Atal Twyll Lleol, yn gan fanylu ar y prif ganlyniadau yn ystod y flwyddyn, yn cynnwys nifer y sancsiynau Troseddol a Disgyblu, â'r adenillion ariannol y llwyddwyd i'w cael.

29.5.2 Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn cynnal cyfarfodydd preifat bob chwarter gyda Phennaeth y Gwasanaethau Atal Twyll Lleol, i sicrhau fod ymwybyddiaeth glir o'r materion a risgiau cyfredol, yn unol â'r hyn a argymhellir yn Llawlyfr Pwyllgor Archwilio GIG Cymru. Argymhellwyd cwrdd bob chwarter yn hytrach nag unwaith y flwyddyn gan y Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol. Mae hyn yn cynnig gwell sicrwydd i'r Bwrdd Iechyd gan arwain at berfformiad mwy effeithlon gan y Pwyllgor Archwilio wrth ymdrin â materion Atal Twyll.

29.5.3 Yn ystod 2018/19, mae'r tîm Atal Twyll Lleol wedi ymgymryd ag ystod o weithgareddau, gan arwain at y canlyniadau a'r buddion a restrir isod:

- Rhoddir cyflwyniadau ar Ymwybyddiaeth Twyll yn rheolaidd i Staff y Bwrdd Iechyd mewn sesiynau hyfforddiant anwytho staff ac yng nghyrsiau hyfforddi'r Rhaglen Camau at Reoli, yn ogystal ag i grwpiau ad-hoc yn ôl yr angen. Mae'r cyflwyniadau Ymwybyddiaeth Twyll yn cynnwys gwybodaeth ar sut i adrodd am Dwyll, Llwgwrwbrwyo a Llygredd.
- Mae gan y Bwrdd Iechyd Bolisi Atal Twyll, Llwgwrwbrwyo a Llygredd sydd wedi'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio ac a gyhoeddir yn y cylchlythyr staff electronig sydd ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd.
- Gall y rhai sy'n dymuno rhoi gwybod am dwyll wneud hynny'n ddiennw drwy ffonio Llinell Adrodd am Dwyll a Llygredd y GIG.
- Mae negeseuon Atal Twyll Lleol wedi'u cynnwys yn slipiau cyflog staff.
- Mae gweithgareddau Atal Twyll yn cynnwys cyhoeddi adroddiadau yn y cyfryngau am achosion llwyddiannus yn ymwneud ag atal twyll yng nghylchlythyr staff electronig y Bwrdd Iechyd. Hefyd adroddir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraeth Cymru ar y datblygiadau hyn.
- Mae Gweithgareddau Atal Twyll, yn cynnwys cymryd camau i newid gweithdrefnau y barnwyd eu bod yn agored i ddiodef twyll, a chamau i weithredu Proses Ataliol strwythuredig. Adroddir arnynt yn rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraeth Cymru.

- Adroddodd y tîm Atal Twyll Lleol i'r Pwyllgor Archwilio am gamau a gymerwyd a arweiniodd at arbed £705,569 o arian cyhoeddus. Roedd hyn yn ymwneud â chais twyllodrus am iawndal oherwydd Esgeulustod Clinigol – achos a gafodd ei setlo y tu allan i'r Llys gan dîm Cyfreithiol a Risg Adran Cydwasanaethau GIG Cymru.

29.6 Cylchlythyrau Iechyd Cymru a Chyfarwyddiadau Gweinidogol

- 29.6.1 Cyhoeddwyd amryw o Gylchlythyrau Iechyd Cymru gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2018-19 ac fe'u cofnodir yn ganolog o fewn y Bwrdd Iechyd gyda Chyfarwyddwr Gweithredol arweiniol wedi ei neilltuo i oruchwylio a gweithredu ar unrhyw gamau gofynnol ee *WHC(2018)015 Ordering Ajuvanted Flu Vaccine for the 2018-19 Season* – a gafodd ei rannu â thimau atal heintiau, timau rheoli meddyginiaethau a thimau iechyd galwedigaethol. Yn dilyn hyn cadarnhaodd y Cydlynnydd Nyrsys Imiwneiddio fod y wybodaeth wedi'i rannu gyda meddygon teulu a fferyllfeydd cymunedol, gan atgoffa meddygon teulu o'r dyddiad cau i archebu brechlynnau. Cafwyd gwybod gan y cwmni brechlyn fod cynnydd wedi bod mewn archebion ledled Gogledd Cymru, ac roedd tîm fferylliaeth BIPBC ei hun wedi archebu ar gyfer y meddygfeydd a reolir gan y sefydliad. Mae pob Aelod Annibynnol yn cael copi o'r cylchlythyrau ar ôl inni eu derbyn ac mae copi yn cael ei storio ar y system feddalwedd ddi-bapur. Mae hyn yn caniatáu i'r aelodau annibynnol sy'n Gadeiryddion Pwyllgorau sicrhau fod y Bwrdd neu Bwyllgorau hefyd yn gweld y cynnwys fel y bo'n briodol. Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r cylchlythyrau ar eu gwefan [yma](#)³⁵.
- 29.6.2 Hefyd, mae unrhyw ohebiaeth Weinidogol yn parhau i gael ei dderbyn a'i weithredu gan y Bwrdd Iechyd ac mae system gofnodi ac olrhain yn ei lle.

30 Data

30.1 Diogelwch Data

- 30.1.1 Ysgrifennydd y Bwrdd sy'n bennaf gyfrifol am lywodraethu gwybodaeth yn y Bwrdd Iechyd ac mae'n gweithredu fel yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO). Y Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Gwybodaeth a Sicrwydd sy'n ymgymryd â rôl ddynodedig Swyddog Diogelu Data'r Bwrdd Iechyd yn unol â'r ddeddfwriaeth diogelu data mwyaf diweddar a ddaeth i rym ym mis Mai 2018. Disodlwyd y Dirprwy Gyfarwyddwr Meddygol yn dilyn ei ymddeoliad ym mis Ionawr 2019 gan yr Uwch Gyfarwyddwr Meddygol Cyswllt, sydd bellach yn gweithredu fel y Gwarcheidwad Caldicott penodedig.
- 30.1.2 Adolygir statws llywodraethu gwybodaeth a seiber-ddiogelwch y Bwrdd Iechyd yn rheolaidd gan y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad ac yn fwyaf diweddar drwy ailgyflwyno'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth a Gwybodeg ym mis Tachwedd 2018.
- 30.1.3 Yn dilyn cyflwyno'r Rhaglen Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) yn llwyddiannus ym mis Mai 2018, mae adroddiadau sicrwydd wedi eu paratoi i'r Pwyllgor sydd yn cynnwys cyfeiriad penodol at gydymffurfiaeth ac ymarferion diogelu data (yn cynnwys hyfforddiant gorfodol) a chydymffurfiaeth gyda'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

³⁵ <https://gweddiill.gov.wales/topics/health/nhswales/circulars/?lang=cy>

30.1.4 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal hunanasesiad blynyddol gyda chymorth yr offeryn C-PiP Caldicott. Cafodd y Bwrdd Iechyd sicrwydd Gradd 4 Seren, a bu chynnydd mewn cydymffurfiaid i 90% drwy ddefnyddio'r dull hwn. Roedd y cynnydd yma'n deillio o'r gallu i asesu anghenion hyfforddi ar gyfer yr holl grwpiau staff a chyflwyno gwahanol lefelau o hyfforddiant i grwpiau staff penodol a oedd angen hyfforddiant mwy datblygedig neu arbenigol.

30.1.5 Yn ystod y flwyddyn parhaodd y Bwrdd Iechyd i gymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu Pecyn Cymorth Cenedlaethol - Llywodraethu Gwybodaeth a fydd yn cryfhau'r trefniadau sicrwydd ac adrodd ledled Cymru. Caiff y Pecyn Cymorth newydd ei dreialu yn ystod 2019 gyda'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu ei gyflwyno am y tro cyntaf yn 2020.

30.1.6 Gwahoddodd y Bwrdd Iechyd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) i gynnal archwiliad cydymffurfio â gofynion diogelu data ym mis Mehefin 2018. Roedd yr archwiliad yn canolbwyntio ar dri phrif faes:

- 1) Llywodraethu ac Atebolrwydd
- 2) Rheoli Cofnodion a
- 3) Ceisiadau am Wybodaeth Bersonol.

Yn gyffredinol, derbyniodd y Bwrdd Iechyd lefel rhesymol o sicrwydd gan archwiliad yr ICO, a derbyniwyd canmoliaeth am y modd y datblygwyd porth gwybodeg eithriadol ar gyfer y Gofrestr Asedau. Lle nodwyd gwendidau, cyflwynodd yr ICO argymhellion, yn bennaf ynghylch gwella'r prosesau presennol. Cyflwynwyd cynlluniau i fynd i'r afael â'r meysydd diffygiol ac fe'u hymgorfforwyd yn y Rhaglen Waith Llywodraethu Gwybodaeth fel y gellir ei monitro yn y dyfodol. Mae copi o Grynodedb Gweithredol yr adroddiad ar gael [yma](#)³⁶.

30.1.7 Hunan-adroddodd y Bwrdd Iechyd am 8 achos o fethiannau yn ymwneud â diogelu data, a sbardunodd gyfeirio'r achosion ar sylw'r Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth a Llywodraeth Cymru. Y rhain oedd:

- Un mewn perthynas â chanlyniadau profion coll;
- Un mewn perthynas â lladrad;
- Un mewn perthynas â chabinet ffeilio a brynwyd;
- Dau mewn perthynas â cholli cofnodion;
- Un o ran cael gwared â gwybodaeth o gofnod Iechyd;
- Un mewn perthynas â gwybodaeth a anfonwyd i gyfeiriad anghywir;
- Un mewn perthynas â mynediad amhriodol i system.

30.1.8 Caewyd chwech o'r achosion heb unrhyw gamau pellach gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth oherwydd y camau gweithredu a'r gwelliannau uniongyrchol a wnaed gan y Bwrdd Iechyd. Cafodd y digwyddiad yn ymwneud â'r cabinet ffeilio a brynwyd ei gyfeirio at gyfrifoldeb yr awdurdod lleol fel y rheolwr data. Nid yw Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn mynd ar drywydd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r digwyddiad yn ymwneud â chael gwared ar wybodaeth, ond mae angen diweddariad ynghylch ymchwiliad yr heddlu, a disgwylir y canlyniad o hyd o ran colli'r wybodaeth yn yr achos hwn. Ni chafodd y Bwrdd unrhyw gosbau ariannol yn ystod y flwyddyn.

³⁶ <https://ico.org.uk/media/action-weve-taken/audits-and-advisory-visits/2259551/betsi-cadwaladr-university-health-board-executive-summary-v-01.pdf>

- 30.1.9 Fel rhan o'r broses o sicrhau fod gwersi'n cael eu dysgu yn dilyn ymchwiliadau i ddigwyddiadau, mae'r Tîm Llywodraethu Gwybodaeth wedi cymryd nifer o gamau, yn cynnwys:
- Hysbysu'r unigolion yr effeithir arnynt gan y digwyddiad;
 - Diweddariadau i ddulliau cludo a'r defnydd o bostio wedi'i recordio i bwrpas olrhain a sicrhau fod prosesau mwy cadarn yn eu lle;
 - Cwblhau asesiadau risg ar gyfer gweithio gartref;
 - Mae bwletinâu chwarterol llywodraethu gwybodaeth yn cael eu dosbarthu ar draws y sefydliad ac ar gael ar safle mewnwyd y staff;
 - Rhoddwyd rhybuddion i'r holl staff yn eu hatgoffa o'u cyfrifoldebau o dan y ddeddfwriaeth diogelu data, ac yn benodol o ran sicrhau fod gwybodaeth ddemograffig gyfredol am gleifion yn cael ei gofnodi o fewn systemau; y dylid storio a chludo gwybodaeth bersonol yn ddiogel; diogelwch gwybodaeth a thechnoleg gwybodaeth; dulliau gwaredu gwastraff cyfrinachol a dulliau argraffu diogel;
 - Mwy o ymwybyddiaeth o ofynion llywodraethu gwybodaeth a chydymffurfio â hyfforddiant gorfodol.

30.2 Ansawdd Data

- 30.2.1 Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud pob ymdrech i sicrhau ansawdd a chadernid eu data, ac mae'n cynnal gwiriadau rheolaidd i sicrhau cywirdeb y wybodaeth y dibynnir arno. Fodd bynnag, mae sawl dull gwahanol o fewnbynnu a systemau data gwahanol ar draws y sefydliad yn golygu fod wastad botensial ar gyfer amrywiadau mewn ansawdd, ac mae lle i wella bob amser, fel y gwelir yn adran 24.3 o'r Datganiad hwn.
- 30.2.2 Yn ystod 2018/19, gweithredodd y Bwrdd Iechyd System Gweinyddu Cleifion Cymru (WPAS) yn Ysbyty Maelor Wrecsam, gan ddysgu gwersi o'r hyn a wnaed yn Ysbyty Glan Clwyd. Roedd hwn yn llwyddiannus iawn, a derbyniwyd cefnogaeth y Tîm Rheoli Ysbytai lleol yn hyn o beth.
- 30.2.3 Wrth i'r Bwrdd Iechyd ddechrau safoni mewn un System Gweinyddu Cleifion, gyda'r potensial i allu mabwysiadu un dull o weithio, mae dangosfyrddau ansawdd data amser real yn cael eu cyflwyno i gefnogi staff gweithredol allu cymryd perchnogaeth dros gamgymeriadau. Bydd hyn yn cefnogi'r agenda safoni. I gefnogi hyn, rydym yn gobeithio sefydlu Fforwm Ansawdd Data'r System Gweinyddu Cleifion er mwyn canolbwyntio ar amseroldeb a chywirdeb data, gyda ffocws gweithredol ar y gwaith hwn. Yn ystod y flwyddyn, nodwyd ansawdd data mewn perthynas â mudo data ar gyfer Data System Gweinyddu Cleifion Cymru (WPAS) yn y Rhanbarth Canolog a'r Dwyrain.
- 30.2.4 Yn ystod y 12 mis diwethaf parhawyd i ffocysu ar daclo ôl-groniad sylweddol yn y gwaith o godio achosion clinigol yn erbyn y targedau diwygiedig. Ar yr un pryd, llwyddwyd i wneud gwelliant o 5.45% yn ansawdd y data wedi'i godio.

- 30.2.5 Mae'r Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad Integredig misol a gyflwynwyd i'r Bwrdd (Ebrill - Hydref 2018) yn cynnwys data ar berfformiad yn erbyn y dangosyddion fframwaith cyflawni cenedlaethol ar gyfer y flwyddyn, yn ogystal â dangos y perfformiad ar gyfer y cyfnod presennol a'r cyfnod blaenorol. Mae'r wybodaeth am y cyfnod presennol yn cael ei gyflwyno a'i gymharu â pherfformiad arfaethedig y sefydliad ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae hyn yn cynorthwyo'r Bwrdd i graffu ar feysydd lle mae amrywiadau mwy na'r disgwyl, ac mae hefyd yn galluogi cyfranwyr yr adroddiad i amlygu unrhyw faterion ansawdd data yn eu hadroddiadau eithrio. Yn ystod y flwyddyn, tynnwyd sylw at faterion ansawdd data o ran adrodd ar y Mesur Iechyd Meddwl.
- 30.2.6 Yn dilyn gweithdy datblygu Bwrdd ym mis Medi 2018, mae'r Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad Integredig a gyflwynwyd i'r Bwrdd wedi'i ddiwygio i ganolbwyntio ar y meysydd blaenoriaeth corfforaethol craidd (Tachwedd 2018 - Mawrth 2019). Mae pwyllgorau'r Bwrdd yn craffu ar ddangosyddion sydd wedi'u cynnwys yn y Fframwaith Cyflawni Blynyddol sy'n cyd-fynd â chylch gorchwyl Pwyllgorau'r Bwrdd, a gellir uwchraddio unrhyw bryderon i'r Bwrdd drwy Adroddiad Sicrwydd y Cadeirydd. O fis Ebrill 2019 mae'r adroddiadau hyn wedi'u mireinio ymhellach er mwyn alinio adroddiadau gyda'r camau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yn rhaglen waith y Cynllun Blynyddol ar gyfer 2019-20. Cafodd hyn ei gymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2019. Yn ystod y flwyddyn mae mwy o ddefnydd o ddata tueddiadau o fewn adroddiadau, gyda symudiad tuag at gynnwys siartiau ystadegol ar gyfer rheoli prosesau.
- 30.2.7 Ar y cyfan, mae'r Bwrdd yn fodlon fod ansawdd y data'n ddigon cywir i allu nodi patrymau neu dueddiadau mewn perfformiad. Mae ansawdd y data'n dal i wella ac yn broses barhaus. Mae'r adran wybodaeth wedi sefydlu tîm ansawdd data o fewn eu swyddogaeth. Mae'r sefydliad CHKS yn darparu adroddiadau ansawdd data i'r Bwrdd lechyd. Mewn achosion lle gwyddom fod trafferthion gydag ansawdd data, caiff y rhain eu cynnwys yn yr adroddiadau ar gyfer yr is-bwyllgorau a chaiff ansawdd y data ei gynnwys yng nghofrestr risg perfformiad y gyfarwyddiaeth.

31. Adolygu Effeithiolrwydd

- 31.1 Fel Swyddog Atebol, rwy'n gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system reolaeth fewnol. Mae fy adolygiad o'r system reolaeth fewnol yn cael ei llywio gan waith yr Archwilwyr Mewnol a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol o fewn y sefydliad sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith reolaeth fewnol, yn ogystal â sylwadau gan archwilwyr allanol yn eu llythyr archwilio ac adroddiadau eraill.
- 31.2 Mae fy adolygiad hefyd wedi ei seilio ar gynnwys:
- Adborth gan Lywodraeth Cymru a'r datganiadau penodol a gyhoeddwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet;
 - Arolygiadau allanol gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru;
 - Cynlluniau archwilio ac adroddiadau a gyflwynwyd gan archwilwyr allanol a mewnol;
 - Adborth gan y Cyngor Iechyd Cymuned;
 - Adborth gan Gomisiynwyr Statudol;
 - Adborth gan staff, cleifion, defnyddwyr gwasanaeth ac aelodau o'r cyhoedd;
 - Asesiad Strwythuredig Swyddfa Archwilio Cymru;
 - Argymhellion HASCAS ac Ockenden yn dilyn ymchwiliad Tawel Fan.

31.3 Mae fy adolygiad o effeithiolrwydd y system reolaeth fewnol wedi cael ei arwain gan drefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd. Rydym yn gweithio i wella effeithiolrwydd systemau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd yn barhaus mewn nifer o ffyrdd, er enghraifft:

- Adolygu strwythur llywodraethu'r Bwrdd a'r Swyddogion Gweithredol;
- Rhaglen Datblygu'r Bwrdd, wedi'i hwyluso a'i strwythuro ac yn cyd-fynd ag anghenion aelodaeth newydd y Bwrdd;
- Gweithredu argymhellion Adolygiad Llywodraethu Ariannol Deloitte;
- Yn ystod 2017/18 cyflwynodd y Bwrdd Iechyd raglen drawsnewid ar gyfer y Rhaglen Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a chyflwynwyd cynllun gweithredu yn seiliedig ar ganllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Mae gwaith wedi parhau drwy gydol 2018/19 i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion newydd y rheolau GDPR a'r Ddeddf Diogelu Data, ac mae cynnydd yn parhau i gael ei fonitro drwy'r Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth Weithredol. Caiff materion arwyddocaol eu hadrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth a Gwybodeg sydd newydd gael ei sefydlu;
- Adolygu polisiâu sy'n ymwneud â BIPBC yn ei gyfanrwydd a'r trefniadau mewnwydd a rhyngwydd newydd a lansio "ap" ar gyfer staff symudol;
- Craffu a monitro argymhellion HASCAS ac Ockenden trwy Grwpiau Gweithredu a Rhanddeiliaid HASCAS ac Ockenden;
- Cryfhau'r system Asesu Effeithiau Ansawdd (Quality Impact Assessment – QIA) mewn perthynas â chynlluniau arbedion, gan fesur y cynnydd a wnaed o samplau o asesiadau gorffenedig a'r cofnod o ganlyniadau fel rhan o'r Rhaglen Archwilio Fewnol yn Chwarter 1 a 2 o 2019/20;
- Fframwaith Adrodd Perfformiad Integredig a fframwaith atebolrwydd diwygiedig - cytunwyd ar drefniadau diwygiedig ac maent yn cael eu profi am chwe mis (o fis Ionawr 2019) i sicrhau eu bod yn darparu mecanwaith atebolrwydd mwy cadarn ac effeithiol. Mae rhaglen o adolygiadau economi iechyd wedi eu sefydlu a derbyniwyd canlyniadau'r haen gyntaf ym mis Mawrth 2019, gan gynnal sesiwn adborth ar gyfer dysgu o'r broses ddiwedd mis Mawrth 2019;
- Ymdrechion parhaus i fodloni disgwyliadau'r Fframwaith Gwella Mesurau Arbennig ar draws y pedair thema, sef arweinyddiaeth a llywodraethu; cynllunio strategol a gwasanaeth; iechyd meddwl; a gofal cychwynnol;
- Mynd i'r afael ag argymhellion yr Archwiliad Mewnol Iechyd a Diogelwch;
- Gwaith parhaus i wella sut y caiff pryderon a hawliadau eu rheoli;
- Mynd i'r afael â phryderon a godwyd gan adroddiadau Asesiad Strwythuredig blaenorol Swyddfa Archwilio Cymru er mwyn gallu alinio Cynllun Archwilio Clinigol y sefydliad â'r blaenoriaethau strategol, gan sicrhau eu bod yn gyson â risgiau allweddol y Bwrdd Iechyd.


32. Archwilio Mewnol

32.1 Rhoddodd yr Archwiliad Mewnol sicrwydd i mi fel Swyddog Atebol, ac i'r Bwrdd drwy'r Pwyllgor Archwilio, am y system reolaeth fewnol. Comisiynwyd a chyflawnwyd rhaglen o waith archwilio yn unol â safonau archwilio mewnol y sector cyhoeddus gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Cytunir ar gwmpas y gwaith hwn gyda'r Pwyllgor Archwilio ac mae'n canolbwyntio ar feysydd risg sylweddol a blaenoriaethau gwella lleol.

32.2 Un o swyddogaethau'r rhaglen archwilio hon sy'n seiliedig ar risg yw ffurfio barn gyffredinol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth. Mae'n cyfrannu at y darlun a sicrwydd sydd ei angen ar y Bwrdd wrth adolygu effeithiolrwydd a chefnogi ein hymdrech i wella'n barhaus.

32.3 Gwelir casgliad y Pennaeth Archwilio Mewnol isod:

“Mae cwmpas fy marn yn gyfyngedig i'r meysydd hynny a archwiliwyd yn y cynllun archwilio ar sail risg y cytunwyd arno gyda'r uwch reolwyr a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio. Dylid dehongli asesiad y Pennaeth Archwilio Mewnol yn y cyd-destun hwn wrth adolygu effeithiolrwydd y system reolaeth fewnol a dylid ei ystyried fel gyrrwr mewnol ar gyfer gwelliant parhaus. Nodir barn y Pennaeth Archwilio Mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y sefydliad isod.”

	<p>Rhoddir sicrwydd cyfyngedig y gall y Bwrdd deimlo fod trefniadau i sicrhau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol, o fewn y meysydd hynny sy'n cael eu hadolygu, wedi'u creu a'u cymhwyso'n effeithiol. Mae angen i'r rheolwyr roi mwy o sylw i faterion mwy arwyddocaol, gydag effaith cymedrol all arwain at risg gweddilliol nes y cânt eu datrys.</p>
---	--

Dylid rhoi sylw arbennig i'r ymatebion y cytunwyd arnynt i unrhyw adroddiadau gyda sicrwydd *cyfyngedig* neu *dim sicrwydd* a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn ac ystyried arwyddocâd yr argymhellion a wnaed.

32.4 Y Sail ar gyfer Ffurio'r Farn

Seiliodd y Pennaeth Archwilio Mewnol ei ganfyddiadau ar ddau beth - ei farn broffesiynol a hefyd cynnwys canllaw Archwilio a Sicrwydd "*Canllaw Cefnogi ar gyfer barn gyffredinol*" a gynhyrwyd gan y Cyfarwyddwr Archwilio a Sicrwydd sydd wedi ei rannu gyda rhanddeiliaid allweddol.

Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi dod i'r casgliad y gellir rhoi *sicrwydd rhesymol* ar gyfer Rheolaeth a Rheolaeth Ariannol, Llywodraethu Gwybodaeth a Diogelwch, a materion Rheoli Cyfalaf a Stadau; ond dim ond *sicrwydd cyfyngedig* y gellir ei roi ar gyfer Llywodraethu Corfforaethol, Rheoli Risg a Chydymffurfiad Rheoleiddiol, Ansawdd a Diogelwch, Cynllunio Strategol, Rheoli Perfformiad ac Adrodd Arno, Gwasanaethau Gweithredol a Rheolaeth Swyddogaethol a materion Rheoli'r Gweithlu.

Mae'r dystiolaeth y ffurfiwyd y farn gyffredinol arni'n seiliedig ar y materion canlynol:

- Aseiad o'r ystod o farnau unigol sy'n deillio o aseiniadau archwilio risg a gynhwysir yn y cynllun Archwilio Mewnol ac sydd wedi cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio trwy gydol y flwyddyn. Mae'r aseiad hwn wedi ystyried perthnasedd cymharol y meysydd hyn a chanlyniadau unrhyw archwiliadau dilynol wrth ddatblygu gwelliannau rheoli;
- Canlyniadau unrhyw waith archwilio sy'n gysylltiedig â'r Safonau Iechyd a Gofal gan gynnwys, os yw'n briodol, y dystiolaeth sydd ar gael er mwyn i'r Bwrdd wneud eu datganiad hunanasesiad ar gyfer y modiwl Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd; ac

- Adolygiadau sicrwydd eraill sy'n effeithio ar farn y Pennaeth Archwilio Mewnol, gan gynnwys gwaith archwilio a gyflawnir mewn sefydliadau eraill (gweler Adran 3 - Gwaith Arall am fanylion).

Fel y nodwyd uchod, mae'r canlyniadau manwl hyn wedi'u cydgrynhoi i greu darlun o sicrwydd ar draws yr wyth maes sicrwydd allweddol y mae'r cynllun Archwilio Mewnol ar sail risg wedi'i fframio o'u cwmpas. Lle nad oes digon o dystiolaeth i ddod i gasgliad cadarn, ni chaiff y maes sicrwydd ei sgorio.

Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol hefyd wedi ystyried pa mor agored ydym i risgiau gweddilliol ar draws yr aseiniadau hynny lle rhoddwyd sicrwydd cyfyngedig neu ddim sicrwydd iddynt. Ymhellach, ni arweiniodd nifer o aseiniadau archwilio a gynlluniwyd eleni at archwiliadau llawn yn dilyn gwaith cynllunio rhagarweiniol, ac roedd y rhain naill ai: wedi'u tynnu o'r cynllun; cawsant eu dileu o'r cynllun a'u disodli gan archwiliadau eraill; neu cawsant eu gohirio tan flwyddyn archwilio yn y dyfodol. Os gwnaed newidiadau i'r cynllun archwilio, yna cyflwynwyd y rhesymau i'r Pwyllgor Archwilio i'w hystyried a'u cymeradwyo. Er i'r farn gael ei chyfyngu i'r meysydd hynny a oedd yn destun adolygiad archwilio, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi ystyried effaith y newidiadau a wnaed i'r cynllun wrth ffurfio'r farn gyffredinol.

Mae crynodeb o'r canfyddiadau ym mhob un o'r meysydd wedi'u nodi isod. Mae pob pennawd maes wedi'i godio â lliw i ddangos y sicrwydd cyffredinol ar gyfer y parth hwnnw.

Llywodraethu Corfforaethol, Rheoli Risg a Chydymffurfiad Rheoleiddiol (Ambr)

- Rhoddwyd sicrwydd rhesymol ar gyfer safon rheoli hawliadau Cronfa Risg Cymru a'r Strategaeth Rheoli Risg. Yr oedd yn ymddangos fod trefniadau mewnol yn gweithredu yn ôl y disgwyl. Gwnaethpwyd un argymhelliad yn ymwneud â chraffu ar gydymffurfiaeth weithredol yn erbyn y strategaeth a nodwyd fod Grŵp Rheoli Risg wedi ei sefydlu dan gadeiryddiaeth y Prif Weithredwr a fydd yn cyflawni'r swyddogaeth hon.
- Roedd cydymffurfiaeth weithredol â'r Safonau Ymddygiad Busnes yn foddhaol er bod angen gwella datganiadau buddiannau ar draws rhai adrannau gweithredol. Mae Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd bellach yn craffu ar, ac yn cadw at, ofynion y Safonau ar gyfer pob rhodd a rhoddion lletygarwch a gofnodir, sy'n sicrhau annibyniaeth yn y broses - sicrwydd rhesymol.
- Cydymffurfiad Deddfwriaethol Corfforaethol: Deddf Lefelau Staffio Nyrsio (Cymru) 2016 - nodwyd materion yn ymwneud â lefel cydymffurfio wardiau â'r Ddeddf; nid oedd nifer o'r wardiau yn defnyddio'r lefelau staffio nyrsys a gymeradwywyd gan y Bwrdd na'r amseroedd shift a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r lefelau staffio nyrsys angenrheidiol; roedd y wybodaeth a fewnbynwyd yn anghyson ac, mewn rhai achosion, yn anghyflawn ar y system Safecare; nid yw adroddiadau perfformiad misol sy'n nodi'r niferoedd ar gyfer staffio diogel yn benodol i wardiau unigol ac mae hyn yn groes i ofyniad yn y Cynllun Gweithredu - sicrwydd cyfyngedig.
- Nododd yr adolygiad o drefniadau llywodraethu yn yr adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu broblemau cydymffurfio gyda'r cylch gorchwyl sefydledig; tystiolaeth gyfyngedig a gafwyd fod yr agenda drawsnewid yn destun craffu; a chaiff yr agenda ansawdd a diogelwch ei hadolygu fel nad yw'r cyfarfod ansawdd a diogelwch adrannol yn cael ei orlethu gyda manylder a disgwyliadau wrth geisio 'dal i fyny' gyda'r materion yn ymwneud gydag ansawdd a diogelwch yn yr adran - sicrwydd cyfyngedig.

- Nodwyd diffyg cydymffurfio sylweddol gyda'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog yn ogystal â gweithdrefnau gweithredol mewnol yn yr adolygiad i faterion tendro am nwyddau a gwasanaethau yn yr Adran Ystadau. Mae'r rheolwyr wedi bod yn gweithio i fynd i'r afael â'r materion hyn a nodwyd i sicrhau fod y trefniadau mewnol presennol yn cael eu gwella ac i leihau'r risg o achosion tebyg yn y dyfodol - dim sicrwydd.
- Cafodd argymhellion archwilio mewnol ac allanol eu tracio'n egniol drwy gydol y flwyddyn gan y Bwrdd Iechyd gan fod angen i'r cyfarwyddwr gweithredol perthnasol arwyddo eu bod wedi eu cyflawni. Mae adolygiadau dilynol o gamau gweithredu y cytunwyd arnynt wedi arwain at gau argymhellion lle gwelwyd tystiolaeth fod y camau angenrheidiol wedi'u cwblhau, a rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor Archwilio amdanynt yn ystod y flwyddyn.

Cynllunio Strategol, Rheoli Perfformiad ac Adrodd (Ambr)

- Mae'r sicrwydd cyffredinol yn gadarnhaol yn yr adolygiad o'r Adroddiad Blynyddol - cytunodd y rheolwyr ar gynnwys y cynllun gweithredu a ddatblygwyd ar ôl dilysu mân faterion am beth o'r data yr adroddwyd arno.
- Cofnodwyd sicrwydd cyfyngedig ar gyfer Trefniadau Parhad Busnes; er bod yr Adran Parhad Busnes yn cefnogi'r cynllun cyflwyno / datblygu gwaith yn ymarferol, ni fydd sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd y Cynlluniau Parhad Busnes datblygedig yn bosibl nes iddynt gael eu profi, a dywedodd arweinwyr parhad busnes nad oeddent wedi gwneud hyn eto. Gwnaed cynnydd ers yr adolygiad diwethaf ac mae'r adran gorfforaethol yn weithgar yn darparu hyfforddiant, ond erys bwlch am na sefydlwyd cyfarfodydd arweiniol rheolaidd fesul Polisi eto - sicrwydd cyfyngedig.
- Cafwyd adolygiad o Achosion Busnes Refeniw, yn erbyn sampl a oedd i'w datblygu yn y cynllun gweithredol blynyddol. Canfuwyd nad oedd y canllawiau yn cael eu dilyn yn llawn ac nad oedd y log cofnodi derbyniion a chraffu achosion busnes yn gyflawn - sicrwydd cyfyngedig.

Rheolaeth a Rheolaeth Ariannol (Melyn)

- Cofnodwyd sicrwydd rhesymol i'r adolygiadau sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth â methodoleg gosod cyllideb ardal y Gorllewin; Trefniadau caffael: Cyllid y Gronfa Gofal Integredig, Cyllid Clwstwr a Gofal Cychwynnol yn ogystal â'r drefn adrodd ar gyflawni cynlluniau arbedion.
- Fodd bynnag, nodwyd cyfleoedd i reolwyr wella trefniadau mewnol a rhoddwyd y rheini o fewn y canfyddiadau a'r cynlluniau gweithredu a gytunwyd.

Ansawdd a Diogelwch (Ambr)

- Rhoddwyd sicrwydd rhesymol yn dilyn adolygiadau o'r Datganiad Ansawdd Blynyddol ac Atal a Rheoli Heintiau - Gofal Glân Diogel. Fodd bynnag, cafodd tri adolygiad yn y maes hwn sicrwydd cyfyngedig, fel y'i nodir isod.
- Nododd yr adolygiad o reoli'r ôl-groniad cleifion allanol nifer o faterion yn ymwneud ag ansawdd data ac integreiddio systemau'n effeithiol er mwyn gallu sicrhau fod y cleifion cywir ar y rhestr o gleifion allanol i'w dilyn, a bod y rhai sy'n cael eu rhyddhau'n ffurfiol yn cael eu dileu oddi ar y rhestr. Fodd bynnag, uwchraddiwyd manylion cleifion a oedd mewn perygl ac y dylid bod wedi mynd ar eu holau i reolwyr - sicrwydd cyfyngedig.

- Nododd yr adolygiad o *Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion a Gwneud lawn) (Cymru) 2011 - Rhan 6: Gwneud lawn* fod y Tîm Pryderon Corfforaethol (a'r prosesau cysylltiedig hyd at gwblhau'r dogfennau gwneud iawn) yn cydymffurfio'n llawn â'r rheolaethau disgwylidig. Er hynny, nid oedd y drefn o fewn adrannau gweithredol ar gyfer ymateb i hawlwy'r yn cael ei dilyn bob amser yn groes i amserlenni statudol - sicrwydd cyfyngedig.
- Nodwyd fod y Polisi Cwmpiaidau yn cael ei weithredi ar draws yr holl ardaloedd yr ymwelwyd â hwy; nodwyd diffygion cydymffurfio gydag amseroedd ar gyfer cwblhau dogfennau ar draws y meysydd a adolygwyd.

Llywodraethu Gwybodaeth a Diogelwch (Melyn)

- Roedd y graddfeydd sicrwydd a roddwyd ar gyfer y tri adolygiad yn y maes hwn yn amrywio.
- Nid oedd rhoi sicrwydd yn berthnasol ar gyfer rheoli digwyddiadau diogelwch cleifion yn ymwneud â phrosesau gwybodeg a Chodio Clinigol (mewn partneriaeth â Gwybodeg).
Cynhaliwyd arolwg seiliedig ar holiaduron i gasglu barn wrth adolygu digwyddiadau yn ymwneud â diogelwch cleifion; dilynwyd argymhellion a wnaed gan NWIS ynghylch eu hadolygiad archwilio clinigol diweddaraf yn y Bwrdd Iechyd.
- Er y nodwyd fod gan y Bwrdd Iechyd Gynllun Cyhoeddiadau, nododd yr adolygiad Deddf Rhyddid Gwybodaeth nad yw'r tudalennau rhyngwyd a'r wybodaeth gysylltiedig wedi'u diweddarau [gan gydnabod ei bod yn debygol y byddai'r wybodaeth ar gael drwy chwiliadau eraill neu drwy geisiadau ffurfiol i'r Bwrdd Iechyd]; nid yw'r wefan yr hawsaf i'w ddefnyddio a gall canfod gwybodaeth fod yn heriol - sicrwydd rhesymol.

Gwasanaeth Gweithredol a Rheolaeth Swyddogaethol (Ambr)

- Nododd adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru '*Adolygiad Dilydol Arlwygo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai: A yw'r camau y cytunwyd arnynt wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol*' fod llawer iawn o waith yn cael ei wneud yn weithredol drwy'r Grŵp INCHS, ond nad oes adroddiadau ffurfiol wedi eu paratoi ac na fu craffu drwy strwythur Pwyllgorau'r Bwrdd Iechyd. Roedd sgoriau hunanasesu gwael ac nid oedd tystiolaeth o sut y rhoddwyd y dasg o wella perfformiad i'r wardiau - sicrwydd cyfyngedig.
- Nododd yr adolygiad o Arian Cleifion sawl mater yn ymwneud â chydymffurfio â Pholisi, gan gynnwys peidio â dangos hysbysiadau ymwadiad; nid oedd y dogfennau gofynnol yn cael eu cwblhau'n unol â'r rheolau disgwylidig - sicrwydd cyfyngedig.
- Nododd yr adolygiad Safonau Cenedlaethol ar gyfer Meddygon Teulu y Tu Allan i Oriau nad oedd sicrwydd yn berthnasol gan fod yr adolygiad ymgynghorol a gafodd ei argymhell gan y rheolwyr yn dangos rhai gwahaniaethau rhwng yr hunanasesiad a'r dystiolaeth a oedd ar gael i gefnogi'r asesiad.

Rheoli Gweithlu (Ambr)

- Yn achos yr Adolygiad o staff sy'n ennill mwy na £200,000 a'r broses rheoli achosion a disgyblu cafwyd sicrwydd cyfyngedig.
Nododd yr adolygiad o staff sy'n ennill dros £200,000 leihad cadarnhaol mewn taliadau locwm / asiantaeth a thaliadau cymell gostyngiad mewn rhestrau aros, ond ni ellid cadarnhau cywirdeb un taliad gyda thafleuni amser / rhestr o'r gwaith a wnaed ac nid oedd yn ymddangos fod proses yn cael ei dilyn ar gyfer taliadau ad-hoc o'r fath.
Nododd yr adolygiad yn ymwneud â rheoli achosion a prosesau disgyblu faterion yn ymwneud â phrydlondeb cwblhau ymchwiliadau a sut y cânt eu monitro.

- Cafodd yr adolygiad o'r Gorchymyn Ymrwymiad Lleihau Carbon sicrwydd sylweddol a nodwyd cydymffurfriad llawn â'r rheolaethau disgwylidig.
- Nododd yr adolygiad cynaliadwyedd amgylcheddol fod tueddiadau perfformiad yn gofyn am naratif ychwanegol i ategu'r data a adroddwyd - sicrwydd rhesymol.
- Nododd adolygiad y Ganolfan Gofal Dwys Newydd-anedig Isranbarthol (SuRNICC) faterion ar draws y meysydd a adolygwyd yn cynnwys adrodd ar fuddion a wireddwyd yn unol â'r strategaeth - sicrwydd rhesymol.
- Nododd yr adolygiad systemau cyfalaf sicrwydd cadarnhaol ynghylch monitro ac adrodd; y broses cymeradwyo cyfalaf a'r fframwaith gweithdrefnol. Fodd bynnag, nodwyd fod llai o sicrwydd yn y broses bidio ddewisol a blaenoriaethu'r bidiau a gyflwynwyd - sicrwydd rhesymol.
- Prydlesi Meddygon Teulu Gofal Cychwynnol: Nododd adolygiad o'r drefn ar gyfer aseinio prydlesi i'r Bwrdd Iechyd nad oes gweithdrefn drosfwaol lle gall y Bwrdd Iechyd strwythuro penderfyniadau a nodi'r holl gostau cyn cymryd perchnogaeth o brydlesi. Nodwyd fod un brydles nad oedd wedi'i chymeradwyo'n ffurfiol gan y Bwrdd Iechyd ar adeg yr adolygiad hwn ond a gafodd ei hystyried gan y Bwrdd ers hynny - sicrwydd cyfyngedig.

33. Arolwg allanol

- 33.1 Cynhaliodd staff Swyddfa Archwilio Cymru Aseiad Strwythuredig ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, fel y cyfeiriwyd ato'n gynharach yn y Datganiad hwn.

Ystyriodd y Bwrdd yr Aseiad Strwythuredig ac ymateb y rheolwyr cysylltiedig yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Ionawr 2019. Yn y cyfarfod hwnnw, roedd aelodau wedi nodi fod yr adroddiad yn cynnwys un argymhelliad i'r Bwrdd gwblhau argymhellion blaenorol a wnaed eisoes gan Swyddfa Archwilio Cymru yn 2016/2017. Roedd rhai o argymhellion blaenorol Swyddfa Archwilio Cymru wedi'u cau at ddibenion yr offeryn olrhain archwilio, gan eu bod bellach yn cael eu mesur a'u monitro fel rhan o brosesau busnes safonol. Cafwyd trafodaeth ynghylch iechyd meddwl, rheoli pryderon, ystadau, yr angen i sefydlu seilwaith priodol ar gyfer y daith drawsnewidiol a phwysigrwydd sicrhau fod llywodraethu priodol i sicrhau fod newidiadau'n cael eu gwneud mewn ymateb i argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru. Penderfynodd y Bwrdd dderbyn yr adroddiad, derbyn yr argymhellion yn yr Aseiad Strwythuredig, a hefyd derbyn a chymeradwyo ymateb y rheolwyr i'r Aseiad Strwythuredig - gan nodi y byddai'r camau a gofnodwyd fel rhai caeedig, lle bo hynny'n briodol, yn cael eu cynnwys yn y cynlluniau perthnasol megis y Cynllun Tair Blynedd, y Cynllun Gweithredol Blyneddol, a strategaethau a chynlluniau gweithlu neu ansawdd.

- 33.2 Ystyriwyd fersiwn wedi'i diweddaru o'r ymateb rheoli gan y Pwyllgor Archwilio yn y cyfarfod ym mis Mawrth 2019 a oedd yn rhoi diweddariad am y sefyllfa ynghylch trefniadau monitro yn y dyfodol. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn ceisio cael sicrwydd fod hyn wedi digwydd ac yn adolygu cynnydd yn erbyn yr argymhellion sy'n weddill ym mis Ebrill 2019.
- 33.3 Mae casgliadau cryno Archwilydd Cyffredinol Cymru fel y'u nodir yn yr Adroddiad Archwilio Blyneddol i'w gweld isod (gellir gweld manylion yr adroddiad llawn ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru):

“Archwilio cyfrifon

- *Rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar gywirdeb datganiadau ariannol 2017-18 y Bwrdd Iechyd a gafodd eu paratoi'n briodol, er fy mod, wrth wneud hynny, wedi dod â rhai materion i sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio*
- *Rwyf wedi cyhoeddi barn archwilio amodol ar reoleidd-dra'r trafodion ariannol o fewn datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ac wedi rhoi adroddiad cynhwysfawr gyda'r farn hon er mwyn amlygu'r methiant i allu cyflawni dyletswyddau ariannol statudol*

Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd ac economi yn y defnyddio adnoddau

- *Er bod y Bwrdd Iechyd yn cryfhau eu trefniadau llywodraethu a rheoli, mae'n parhau i'w chael hi'n anodd datblygu cynlluniau tymor canolig sy'n gynaliadwy'n ariannol a gwella meysydd blaenoriaeth o ran perfformiad*
- *Er bod trefniadau cynllunio strategol yn datblygu, nid yw'r rhain wedi arwain at gynllun tymor canolig integredig y mae modd ei gymeradwyo ac ni fu ymagwedd y Bwrdd Iechyd tuag at fonitro'r broses o gyflawni cynlluniau presennol ganddynt yn ddigon cryf*
- *Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i wynebu heriau sylweddol wrth reoli'r gweithlu, cyllid ac asedau ffisegol, ac mae angen datblygu dull mwy trawsnewidiol er mwyn gwella perfformiad ac effeithlonrwydd gwasanaethau.*
- *Mae fy rhaglen waith ehangach yn nodi fod y Bwrdd Iechyd yn ymateb i risgiau a chyfleoedd, ond mae'n parhau i wynebu sawl her.*
- *Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud defnydd effeithiol o'r Fenter Twyll Cenedlaethol i ganfod twyll a gordaliadau. ”*

34. Casgliad

- 34.1 Fel Swyddog Atebol, ac ar sail y broses adolygu a amlinellir uchod, rwyf wedi adolygu'r dystiolaeth a'r sicrwydd perthnasol mewn perthynas â rheolaeth fewnol. Gan gymryd i ystyriaeth y dystiolaeth y manylir arno yn y Datganiad hwn, ynghyd ag adborth gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys y Mesurau Arbennig, gan Swyddfa Archwilio Cymru drwy eu Hasesiad Strwythuredig ac o asesiad a sicrwydd yr Archwilio Mewnol, ynghyd â chanfyddiadau ymchwiliad HASCAS, rwyf wedi dod i'r casgliad fod rhai materion mewnol / materion llywodraethu sylweddol wedi'u hadnabod. Adroddwyd ar y materion hyn yn y naratif blaenorol sy'n nodi'r materion sydd angen sylw a'r camau sy'n cael eu cymryd.
- 34.2 Mae'r deuddeg mis diwethaf wedi bod yn anodd ac yn heriol i'r sefydliad. Er bod dystiolaeth o gynnydd yn cael ei wneud mewn rhai meysydd, mae sawl maes allweddol sydd yn dal angen datrysiad ar eu cyfer ac sy'n cyfrannu at y ffaith fod y Bwrdd Iechyd yn parhau i fod dan fesurau arbennig.

- 34.3 Yn ogystal â datblygu'r gwaith a restrir yn adran 31.3, a mynd i'r afael â'r risgiau a nodir yn adran 19 o'r Datganiad hwn, y meysydd blaenoriaeth allweddol i'r Bwrdd Iechyd ar gyfer gwella a chanolbwyntio arnynt yn y flwyddyn i ddod fydd:
- Ymdrechion parhaus wedi'u hanelu at sicrhau fod y mesurau arbennig yn dirwyn i ben;
 - Gwell perfformiad mewn gofal heb ei drefnu ac ar Amseroedd aros Rhwng Cyfeirio a Thriniaeth;
 - Sefyllfa ariannol well – gwneud cynnydd o wyrddroi i drawsnewid;
 - Mwy o gapasiti a gallu cynllunio strategol a chynllunio gwasanaethau;
 - Sicrhau parhad busnes a sefydlogrwydd yn ystod trosiant aelodau allweddol o'r Bwrdd, a darparu cyfnod anwytho cynhwysfawr i Aelodau newydd y Bwrdd;
 - Parhau i weithredu argymhellion Adolygiad HASCAS ac Ockenden;
 - Parhau i gydweithio â phartneriaid strategol allweddol, yn enwedig drwy Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol;
 - Parhau i sicrhau fod y Bwrdd yn cymhwyso egwyddorion yr arferion gorau mewn llywodraethu yn y sector cyhoeddus.
- 34.4 Fel Swyddog Atebol, rwyf yn bendant yn glŷn â'r gwelliannau y mae angen eu gwneud yn gyflym, a'r gwaith pellach sydd ei angen i fynd i'r afael â'r ystod o heriau sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd. Rwy'n hyderus fod holl staff y sefydliad yn barod ac ymroddedig i ymdrechu i oresgyn yr heriau niferus sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd, er mwyn sicrhau llywyddiant. Bydd hyn yn ei dro'n sicrhau perfformiad a chanlyniadau gwell i gleifion.
- 34.6 Datblygwyd y Datganiad Llywodraethu Blyneddol hwn yn unol â threfniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd ac fe'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 30.5.19. Fel y Swyddog Atebol, rwy'n derbyn sicrwydd ynghylch cywirdeb y Datganiad Llywodraethu Blyneddol o'r trefniadau a sefydlwyd gan y Bwrdd Iechyd.

Llofnodwyd:



Gary Doherty
Prif Weithredwr a Swyddog Atebol

Dyddiad: 30 May 2019

Atodiad 1 - Aelodaeth y Bwrdd a'r Pwyllgorau 2018/19

Bu nifer o newidiadau i aelodaeth y Bwrdd, gan gynnwys trefniadau a gweithredoedd dros dro, yn ystod 2018/19 ac maent wedi'u hadlewyrchu yn y tabl isod.

Enw	Swyddogaeth	Maes arbenigedd / rôl gynrychiolaeth	Aelodaeth Pwyllgorau Bwrdd	Rolau pencampwr
Dr Peter Higson	Cadeirydd <i>tan 31.8.18</i>		<ul style="list-style-type: none"> • Cadeirydd y Bwrdd • Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Thelerau Gwasanaeth • Cadeirydd Dros Dro Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad <i>Mehefin 2018 yn unig</i> 	<ul style="list-style-type: none"> • Cyn-filwyr <i>tan 31.8.18</i>
Mr Mark Polin	Cadeirydd <i>yn weithredol o 1.9.18</i>		<ul style="list-style-type: none"> • Cadeirydd y Bwrdd • Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Thelerau Gwasanaeth <i>yn weithredol o 6.9.18</i> • Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad <i>yn weithredol o 6.9.18</i> 	
Mrs Margaret Hanson	Is-Gadeirydd <i>tan 31.5.18</i>	Gofal Cychwynnol ac Iechyd Meddwl	<ul style="list-style-type: none"> • Is-gadeirydd y Bwrdd • Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd Meddwl • Aelod o'r Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau a Iechyd y Boblogaeth • Is-gadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Thelerau • Cadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad 	<ul style="list-style-type: none"> • Glanhau, Hylendid a Rheoli Heintiau • Pobl Hŷn • Diogelu <p><i>Pob un tan 31.5.18</i></p>
Mrs Marian Wyn Jones	Aelod Annibynnol Is-gadeirydd; <i>yn gweithredu o 1.6.18, penodi Awst 2018</i>	Cymuned Gofal Cychwynnol ac Iechyd Meddwl <i>yn weithredol o 1.6.18</i>	<ul style="list-style-type: none"> • Aelod o'r Bwrdd • Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad <i>tan 31.8.18</i> • Cadeirydd y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol <i>tan 5.9.18</i> • Cadeirydd y Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau a Iechyd y Boblogaeth <i>yn weithredol o 6.9.18</i> • Cadeirydd y Pwyllgor Deddf Iechyd Meddwl <i>yn weithredol o 6.9.18</i> • Aelod o'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Thelerau Gwasanaeth <i>yn weithredol o 6.9.18</i> 	<ul style="list-style-type: none"> • Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd • Pobl Hŷn <i>yn weithredol o 1.6.18</i> • Diogelu <i>yn weithredol o 1.6.18</i>

Enw	Swyddogaeth	Maes arbenigedd / rôl gynrychiolaeth	Aelodaeth Pwyllgorau Bwrdd	Rolau pencampwr
Mrs Cheryl Carlisle	Aelod Annibynnol	Cymuned	<ul style="list-style-type: none"> • Aelod o'r Bwrdd • Aelod o'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol <i>tan 5.9.18</i> • Aelod o'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad <i>tan 5.9.18</i> • Aelod o'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad • Aelod o'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth a Gwybodeg <i>yn weithredol o 6.9.18</i> 	<ul style="list-style-type: none"> • Gofalwyr • Plant a Phobl Ifanc
Mr John Cunliffe	Aelod Annibynnol	Cymuned	<ul style="list-style-type: none"> • Aelod o'r Bwrdd • Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth a Gwybodeg • Is-gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad • Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio 	
Mrs Jackie Hughes	Aelod Annibynnol (Undeb Lafur) <i>yn weithredol o 1.6.18</i>	Undeb Llafur	<ul style="list-style-type: none"> • Aelod o'r Bwrdd • Aelod o'r Pwyllgor Archwilio <i>yn weithredol o 6.9.18</i> • Aelod o'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Thelerau Gwasanaeth • Aelod o'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad • Aelod o'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol <i>yn weithredol o 6.9.18</i> 	<ul style="list-style-type: none"> • Trais ac Ymddygiad Ymosodol • Cydraddoldeb
Y Cyng. Medwyn Hughes	Aelod Annibynnol	Awdurdod Lleol	<ul style="list-style-type: none"> • Aelod o'r Bwrdd • Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio <i>yn weithredol o 6.9.18</i> • Is-gadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Thelerau Gwasanaeth <i>yn weithredol o 6.9.18</i> • Aelod o'r Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau a Iechyd y Boblogaeth • Aelod o'r Pwyllgor Deddf Iechyd Meddwl <i>tan 5.9.18</i> 	<ul style="list-style-type: none"> • Yr Iaith Gymraeg <i>yn weithredol o fis Mawrth 2019</i>

Enw	Swyddogaeth	Maes arbenigedd / rôl gynrychiolaeth	Aelodaeth Pwyllgorau Bwrdd	Rolau pencampwr
Mrs Lyn Meadows	Aelod Annibynnol	Cymuned	<ul style="list-style-type: none"> • Aelod o'r Bwrdd • Aelod o'r Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau a Iechyd y Boblogaeth <i>tan fis Mehefin 2018</i> • Cadeirydd y Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth <i>Gorffennaf - Awst 2018</i> • Aelod o'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad <i>yn gweithredu o 6.9.18</i> • Aelod o'r Pwyllgor Deddf Iechyd Meddwl <i>yn gweithredu o 6.9.18</i> • Aelod o'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Thelerau Gwasanaeth <i>yn gweithredu o fis Mehefin 2018</i> • Aelod o'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad <i>gan gynnwys ei Gadeirio (Gorffennaf-Medi 2018)</i> • Yn mynychu'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid <i>o fis Gorffennaf - Awst 2018</i> 	<ul style="list-style-type: none"> • Maeth • Pryderon <i>tan 5.9.18</i> • Glanhau, Hyllendid a Rheoli Heintiau <i>yn gweithredu o 1.6.18</i>
Ms Lucy Reid	Aelod Annibynnol <i>yn gweithredu o 1.9.18</i>	Cymuned	<ul style="list-style-type: none"> • Aelod o'r Bwrdd • Aelod o'r Pwyllgor Archwilio • Cadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad • Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth a Gwybodeg Aelodau • Aelod o'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol <i>tan 1.11.18</i> 	<ul style="list-style-type: none"> • Pryderon <i>yn gweithredu o 6.9.18</i>
Mrs Bethan Russell-Williams	Aelod Annibynnol <i>tan 3.3.19</i>	Trydydd Sector	<ul style="list-style-type: none"> • Aelod o'r Bwrdd <i>tan 3.3.19</i> • Is-gadeirydd y Pwyllgor Deddf Iechyd Meddwl <i>tan 3.3.19</i> • Is-gadeirydd y Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau a Iechyd y Boblogaeth <i>tan 3.3.19</i> • Aelod o'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad <i>tan 5.9.18</i> • Cadeirydd y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol <i>6.9.18 i 3.3.19</i> 	<ul style="list-style-type: none"> • Yr iaith Gymraeg <i>tan 3.3.19</i>

Enw	Swyddogaeth	Maes arbenigedd / rôl gynrychiolaeth	Aelodaeth Pwyllgorau Bwrdd	Rolau pencampwr
Yr Athro Jo Rycroft - Malone	Aelod Annibynnol	Prifysgol	<ul style="list-style-type: none"> • Aelod o'r Bwrdd • Is-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth a Gwybyddiaeth <i>yn gweithredu o 6.9.18</i> • Aelod o'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol <i>yn gweithredu o 6.9.18</i> 	
Mr Ceri Stradling	Aelod Annibynnol <i>tan 31.8.18</i>	Cymuned	<ul style="list-style-type: none"> • Aelod o'r Bwrdd • Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio • Aelod o'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Thelerau Gwasanaeth • Is-gadeirydd y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol 	
Ms Helen Wilkinson	Aelod Annibynnol <i>yn gweithredu o 1.9.18</i>	Trydydd Sector	<ul style="list-style-type: none"> • Aelod o'r Bwrdd • Aelod o'r Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau a Iechyd y Boblogaeth <i>(Is-gadeirydd ym mis Mawrth 2019)</i> • Aelod o'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad 	• Cyn-filwyr
Mrs Morwena Edwards	Aelod Cyswllt (Gwasanaethau Cymdeithasol) <i>yn gweithredu o 26.6.18</i>	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwynedd	<ul style="list-style-type: none"> • Aelod Cysylltiol o'r Bwrdd 	
Mr Gary Doherty	Prif Weithredwr		<ul style="list-style-type: none"> • Aelod o'r Bwrdd • Yn mynychu'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Thelerau Gwasanaeth • Yn mynychu'r Pwyllgor Archwilio (o leiaf unwaith y flwyddyn) • Cyd-Gadeirydd / Aelod, Fforwm Partneriaeth Lleol 	
Mr Russ Favager	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid		<ul style="list-style-type: none"> • Aelod o'r Bwrdd • Yn mynychu'r Pwyllgor Archwilio • Cyfarwyddwr Arweiniol / Aelod, Pwyllgor Cronfeydd Elusennol • Cyfarwyddwr Arweiniol / Pwyllgor Presenoldeb, Cyllid a Pherfformiad • Fforwm Partneriaeth Lleol Aelodau 	

Enw	Swyddogaeth	Maes arbenigedd / rôl gynrychiolaeth	Aelodaeth Pwyllgorau Bwrdd	Rolau pencampwr
Miss Teresa Owen	Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus		<ul style="list-style-type: none"> • Aelod o'r Bwrdd • Yn mynychu'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad • Yn mynychu'r Pwyllgor Presenoldeb Strategaeth, Partneriaethau a Iechyd y Boblogaeth 	
Mrs Sue Green	Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol		<ul style="list-style-type: none"> • Aelod o'r Bwrdd • Cyfarwyddwr Arweiniol / Yn mynychu'r Pwyllgor Presenoldeb, Cydnabyddiaeth a Thelerau Gwasanaeth • Yn mynychu'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad • Yn mynychu'r Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau a Iechyd y Boblogaeth • Cyfarwyddwr / Aelod Arweiniol, Fforwm Partneriaeth Lleol • Yn mynychu'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad <i>yn gweithredu o fis Tachwedd 2018</i> 	
Mr Geoff Lang	Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth <i>tan fis Mai 2018</i>		<ul style="list-style-type: none"> • Aelod o'r Bwrdd • Cyfarwyddwr Arweiniol / Yn mynychu'r Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau a Iechyd y Boblogaeth • Aelod o'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol • Yn mynychu'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad • Cyfarwyddwr Arweiniol / Yn mynychu'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid 	
Mrs Sally Baxter	Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth Dros Dro <i>mis Mehefin 2018 tan 21.11.18</i>		<ul style="list-style-type: none"> • Aelod o'r Bwrdd • Cyfarwyddwr Arweiniol / Yn mynychu'r Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau a Iechyd y Boblogaeth • Aelod o'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol • Yn mynychu'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad • Cyfarwyddwr Arweiniol / Yn mynychu'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid 	

Enw	Swyddogaeth	Maes arbenigedd / rôl gynrychiolaeth	Aelodaeth Pwyllgorau Bwrdd	Rolau pencampwr
Mr Mark Wilkinson	Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad <i>yn gweithredu o 22.11.18</i>		<ul style="list-style-type: none"> • Aelod o'r Bwrdd • Cyfarwyddwr Arweiniol / Yn mynychu Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth • Aelod o'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol • Yn mynychu'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad • Cyfarwyddwr Arweiniol / Yn mynychu'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid 	
Dr Evan Moore	Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol / (Dirprwy Brif Weithredwr <i>tan fis Rhagfyr 2018</i>)		<ul style="list-style-type: none"> • Aelod o'r Bwrdd • Yn mynychu'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad • Cyfarwyddwr Arweiniol / Yn mynychu'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth a Gwybodeg <i>yn gweithredu o mis Hydref 2018</i> • Yn mynychu'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad <i>yn gweithredu o 6.9.18</i> 	
Ms Morag Olsen	Prif Swyddog Gweithredu <i>tan fis Gorffennaf 2018</i>		<ul style="list-style-type: none"> • Aelod o'r Bwrdd • Yn mynychu'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad • Yn mynychu'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad • Aelod o'r Fforwm Partneriaeth Lleol 	
Dr Chris Stockport	Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Cychwynnol a Chymunedol <i>yn gweithredu o mis Hydref 2018</i>		<ul style="list-style-type: none"> • Aelod o'r Bwrdd • Yn mynychu'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad • Yn mynychu'r Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth 	

Enw	Swyddogaeth	Maes arbenigedd / rôl gynrychiolaeth	Aelodaeth Pwyllgorau Bwrdd	Rolau pencampwr
Mrs Gill Harris	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrso a Bydwreigiaeth		<ul style="list-style-type: none"> • Aelod o'r Bwrdd • Cyfarwyddwr Arweiniol / Yn mynychu'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad • Aelod o'r Fforwm Partneriaeth Lleol • Yn mynychu Pwyllgor y Ddeddf Iechyd Meddwl • Pwyllgor Cronfeydd Elusennol Aelodau • Yn mynychu'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad <i>yn gweithredu o 6.9.18</i> 	
Mrs Deborah Carter	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrso a Bydwreigiaeth Dros Dro <i>yn gweithredu o fis Mawrth 2019</i>		<ul style="list-style-type: none"> • Aelod o'r Bwrdd • Cyfarwyddwr Arweiniol / Yn mynychu'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad • Aelod o'r Fforwm Partneriaeth Lleol • Yn mynychu'r Pwyllgor Deddf Iechyd Meddwl • Aelod o'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol • Yn mynychu'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad 	
Mr Adrian Thomas	Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddorau Iechyd		<ul style="list-style-type: none"> • Aelod o'r Bwrdd • Cyfarwyddwr Arweiniol / Yn mynychu'r Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd • Yn mynychu'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad 	
Mr Andy Roach	Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddorau Iechyd		<ul style="list-style-type: none"> • Yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd • Cyfarwyddwr Arweiniol / Yn mynychu'r Pwyllgor Deddf Iechyd Meddwl • Aelod o'r Fforwm Partneriaeth Lleol 	
Mrs Grace Lewis-Parry	Ysgrifennydd y Bwrdd		<ul style="list-style-type: none"> • Yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd • Cyfarwyddwr Arweiniol / Yn mynychu'r Pwyllgor Archwilio • Yn mynychu'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth a Gwybodeg <i>yn gweithredu o fis Hydref 2018</i> 	

Enw	Swyddogaeth	Maes arbenigedd / rôl gynrychiolaeth	Aelodaeth Pwyllgorau Bwrdd	Rolau pencampwr
Aelodau Cyswllt y Grŵp Cyngori				
Mr Ffrancon Williams	Aelod Cyswllt	Cadeirydd y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid	<ul style="list-style-type: none"> • Aelod Cysylltiol o'r Bwrdd 	
Yr Athro Michael Rees	Aelod Cyswllt	Cadeirydd y Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd <i>tan 28.2.19</i>	<ul style="list-style-type: none"> • Aelod Cysylltiol o'r Bwrdd • Yn mynychu'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad 	

Atodiad 2 - Presenoldeb aelodau Bwrdd Iechyd BIPBC mewn Cyfarfodydd Bwrdd a gynhaliwyd yn gyhoeddus 2018/19

Y = Presennol A = Ymddiheuriadau P = Presenoldeb rhannol

		5.4.18	2.5.18	7.6.18	12.7.18 a Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol	2.8.18	6.9.18	1.11.18	24.1.19	28.3.19
Dr Peter Higson Cadeirydd	Aelod	Y	Y	Y	Y	Y				
Mr Mark Polin Cadeirydd	Aelod						Y	Y	Y	Y
Mrs Margaret Hanson Is-gadeirydd	Aelod	A	Y							
Mrs Marian W Jones Aelod Annibynnol / Is-gadeirydd	Aelod	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y
Cyng Cheryl Carlisle Aelod Annibynnol	Aelod	Y	A	Y	Y	Y	P	Y	Y	Y
Mr John Cunliffe Aelod Annibynnol	Aelod	Y	Y	Y	Y	Y	A	Y	A	Y
Mrs Jackie Hughes Aelod Annibynnol	Aelod			Y	Y	A	A	P	Y	Y
Cllr Medwyn Hughes Aelod Annibynnol	Aelod	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y
Mrs Lyn Meadows Aelod Annibynnol	Aelod	Y	Y	A	Y	Y	Y	Y	Y	Y
Ms Lucy Reid Aelod Annibynnol	Aelod						A	A	Y	Y
Mrs Bethan Russell-Williams Aelod Annibynnol <i>tan 3.3.19</i>	Aelod	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	
Yr Athro Jo Rycroft-Malone Aelod Annibynnol	Aelod	Y	A	P	Y	Y	A	Y	A	A
Mr Ceri Stradling Aelod Annibynnol	Aelod	Y	A	Y	Y	A				
Ms Helen Wilkinson Aelod Annibynnol	Aelod						Y	Y	Y	Y
Mr G Doherty Prif Weithredwr	Aelod	Y	Y	Y	Y	A	Y	Y	Y	Y
Dr Evan Moore Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol / (Dirprwy Brif Weithredwr <i>tan fis Rhagfyr 2018</i>)	Aelod	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y
Mr Russell Favager Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid	Aelod	Y	Y	Y	Y	Y	A	Y	Y	Y
Miss Teresa Owen Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus	Aelod	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y

		5.4.18	2.5.18	7.6.18	12.7.18 a Cyfarfod Cyfredinol Blynyddol	2.8.18	6.9.18	1.11.18	24.1.19	28.3.19
Mrs Gill Harris Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth	Aelod	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	P	A
Mrs Deborah Carter Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth Dros Dro <i>yn gweithredu o fis Mawrth 2019</i>	Aelod									Y
Mr Adrian Thomas Cyfarwyddwr Gweithredol Therapiau a Gwyddorau Iechyd	Aelod	Y	Y	Y	Y	Y	Y	A	P	Y
Mrs Sue Green Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol	Aelod	Y	Y	Y	A	Y	Y	Y	Y	Y
Ms Morag Olsen Prif Swyddog Gweithredu	Aelod	A	Y	A						
Dr Chris Stockport Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Cychwynnol a Chymunedol <i>yn gweithredu o mis Hydref 2018</i>	Aelod							Y	Y	Y
Mr Geoff Lang Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth <i>tan fis Mai 2018</i>	Aelod	Y	Y							
Mrs Sally Baxter Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth Dros Dro <i>mis Mehefin 2018 tan 21.11.18</i>	Aelod			Y	Y	Y	Y	Y		
Mr Mark Wilkinson Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad <i>yn gweithredu o 22.11.18</i>	Aelod								Y	Y
Mr Andy Roach Cyfarwyddwr Gweithredol Therapiau a Gwyddorau Iechyd	Yn bresennol	A	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y
Mrs Grace Lewis-Parry Ysgrifennydd y Bwrdd	Yn bresennol	A	Y	Y	Y	Y	P	A	Y	Y
Mrs Morwena Edwards Yn cynrychioli Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol <i>yn gweithredu o mis Mehefin 2019</i>	Aelod Cyswllt			Y	A	Y	Y	A	A	Y
Mr Ffrancon Williams Cadeirydd y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid	Aelod Cyswllt	Y	Y	Y	Y	A	Y	A	Y	A
Prof Michael Rees Cadeirydd y Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd <i>tan 28.2.19</i>	Aelod Cyswllt	Y	A	Y	P	Y	Y	Y	Y	
Mr Gareth Evans Cadeirydd y Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd dynodedig <i>yn gweithredu o mis Mawrth 2019</i>	Aelod Cyswllt									Y

Atodiad 3 - Cyfarfodydd y Bwrdd Iechyd a'r Pwyllgorau a gynhaliwyd yn gyhoeddus 2018/19:

Cyfarfod											
Bwrdd Iechyd	5.4.18	2.5.18	7.6.18	12.7.18 a CCB	2.8.18	6.9.18	1.11.18	24.1.19	28.3.19		
Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad (QSE)	24.4.18	22.5.18	26.6.18	25.9.18	6.11.18 Ar y cyd â'r Pwyllgor Archwilio	29.11.18	22.1.19	28.2.19 Eithriadol	19.3.19		
Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad	26.4.18	24.5.18	28.6.18	26.7.18	23.8.18	25.9.18	25.10.18	22.11.18	17.1.19	26.2.19	26.3.19
Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth (SPPH)	12.4.18	10.5.18	5.7.18	9.8.18	9.10.18	4.12.18	5.2.19				
Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Thelerau Gwasanaeth	30.4.18	11.6.18 Eithriadol	30.7.18	26.11.18	14.1.19						
Pwyllgor y Ddeddf Iechyd Meddwl	11.5.18	21.9.18	3.1.19	29.3.19							
Pwyllgor Cronfeydd Elusennol	11.6.18	17.9.18	13.12.18	7.3.19							
Pwyllgor Archwilio	31.5.18	11.9.18	11.12.18	14.3.19	6.11.18 Ar y cyd â'r Pwyllgor QSE						